Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

2023-24








**llyw.cymru**

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron y Senedd yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50291, ISBN digidol 978-1-83715-011-3

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Trosolwg yr Ysgrifennydd Parhaol



**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy nhrydedd set o gyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru.

Bu'r flwyddyn hon, unwaith eto, yn un anodd i'r sefydliad – wrth inni barhau i ymateb i ddigwyddiadau byd-eang, parhau i roi cymorth i'r ymchwiliad i COVID-19 ac ymdrin â sefyllfa ariannol heriol tu hwnt. Mae chwyddiant wedi cael effaith wirioneddol iawn ar ein costau a'n cyllidebau. Mae hyn, yn anochel, wedi effeithio ar  yr hyn y gallwn ei gyflawni, ac rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi ein helpu i baratoi ar gyfer y realiti ariannol newydd hon.

Ers lansio rhaglen LlC2025 bron ddwy flynedd yn ôl, mae ein ffocws wedi bod ar sicrhau gwelliannau diriaethol a pharhau i ymateb i amgylchedd sy'n newid. Fodd bynnag, yn sgil gostyngiadau i sawl rhaglen bolisi ac i gostau rhedeg craidd y sefydliad ei hun, rydym wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn a gwneud rhai arbedion cost sylweddol er mwyn gweithredu o fewn cyllideb sylweddol is.

Er mwyn ein helpu i ymdopi yn awr, a pharatoi ar gyfer heriau ehangach yn y dyfodol, rydym wedi rhoi ffocws newydd i LlC2025 drwy ei rhannu'n dair ffrwd waith ar wahân. Y nod o fewn y rhain oedd llunio a gweithredu newidiadau i'n helpu i barhau i gyflawni dros bobl yng Nghymru. Gallwch ddarllen llawer mwy am y gwaith hwn yn yr adran ar raglen LlC2025. Mae cryn dipyn wedi cael ei wneud i geisio lliniaru effeithiau'r gostyngiad mewn adnoddau, ac mae swmp ac ansawdd y gwaith a wnaed wedi bod yn eithriadol. Mae'n ein hatgoffa unwaith eto sut y gallwn, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol, ateb yr her, cefnogi ein gilydd, a chyflawni pethau.

Gan edrych yn fwy cyffredinol, rydym wedi rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad i COVID-19 sy'n archwilio parodrwydd y DU ar gyfer y pandemig a'i phenderfyniadau. Mae hon yn rhan bwysig o'n rôl fel Llywodraeth Cymru, ac i mi mae'n hanfodol ein bod yn dysgu o brofiadau unigryw'r blynyddoedd diwethaf ac yn casglu gwybodaeth yn eu cylch. Hoffwn ddiolch yn bersonol i bawb sydd wedi cynorthwyo'r ymchwiliad, yn enwedig y rhai sydd wedi rhoi cymaint o amser ac ymdrech i gasglu a chyflwyno data a thystiolaeth werthfawr.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i baratoi ar gyfer Prif Weinidog a Chabinet newydd ym mis Mawrth 2024. Buom yn ffodus i gael ychydig o amser i baratoi a sicrhau bod y sefydliad yn barod i ymateb i gyfeiriad newydd. Rydym wedi adolygu ein strwythur Grwpiau i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agos ag Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydlynu polisi a gweithredu, a sicrhau cyfrifoldebau clir i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol.

Ar yr adeg ansicr hon o newid a phwysau ariannol, mae bob amser yn werth cofio bod rhai datblygiadau gwirioneddol gadarnhaol i'r sefydliad hefyd. Er gwaethaf yr holl heriau a wynebwn, rydym yn dal i fod yn gadarn ac yn cyd-dynnu pan fo hynny o bwys. Rwyf mor falch bod canlyniadau ein Harolwg Pobl ar gyfer y flwyddyn wedi bod mor gadarnhaol. Roedd hyn yn galonogol iawn ar adeg mor gymhleth a llawn straen. Yr hyn a fu'n drawiadol i mi oedd y canlyniadau ar gyfer meysydd lle rydym wedi gweithredu – ar ôl lansio ein Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, roeddwn yn falch dros ben o weld y canlyniadau cadarnhaol a gafwyd o ran cefnogi iechyd, llesiant, a gwydnwch cyflogeion, a oedd yn sgorio ryw 12 pwynt canrannol yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil.

Hoffwn orffen drwy grybwyll Gwobrau Llywodraeth Cymru. Maent yn un o uchafbwyntiau gwirioneddol y flwyddyn i mi'n bersonol, ac yn gyfle gwych i gydnabod a dathlu rhagoriaeth drwy'r sefydliad cyfan. Gallwch weld rhai enghreifftiau gwych fel astudiaethau achos yng nghyfrifon y flwyddyn hon. Maent yn wir yn tynnu sylw at yr amrywiaeth eang iawn o brosiectau a rhaglenni rydym yn parhau i'w cyflwyno ar ran cymunedau ledled Cymru. Ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC Llywodraeth Cymru) drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF. Rôl cynghori yn unig sydd gan y pwyllgor ac nid oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol.

Drwy gydol y flwyddyn, cyfarfu ARAC Llywodraeth Cymru ar bum achlysur a pharhaodd i ystyried a chytuno ar ei flaenraglen waith bob chwarter. Hefyd, cefais drafodaethau rheolaidd â'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, uwch-swyddogion a chadeiryddion annibynnol y pwyllgorau archwilio a sicrwydd risg Grŵp ar nifer o faterion gyda'r nod o lywio rhaglen waith ac agenda'r pwyllgor.

Ym mhob cyfarfod, roedd yr eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys:

- Diweddariad a throsolwg gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu.
- Materion llywodraethu a risg, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol ac adroddiadau chwarterol gan y pwyllgorau archwilio a sicrwydd Grŵp.
- Gwaith dilynol ar argymhellion gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.
- Diweddariad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Yn ogystal â'r eitemau sefydlog ar yr agenda, cynhaliodd y pwyllgor archwiliadau dwfn mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y rhwydwaith ffyrdd, colledion a thaliadau arbennig, chwythu'r chwiban, rhaglen newid LIC2025 a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn y sefydliad. Rhoddwyd amser hefyd i uwchgyfeirio a thrafod unrhyw faterion penodol a oedd yn achos pryder a godwyd gan gadeiryddion annibynnol y pwyllgorau archwilio a sicrwydd risg Grŵp.

Yn bresennol fel mater o drefn ym mhob un o gyfarfodydd ARAC Llywodraeth Cymru roedd yr Ysgrifennydd Parhaol, y Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwyr Cyffredinol, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Sicrwydd ac Atal Twyll, Pennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol a chynrychiolwyr Archwilio Cymru. Hefyd, roedd swyddogion eraill yn cael eu gwahodd, lle y bo'n briodol, i gyflwyno a thrafod papurau penodol y gofynnodd y pwyllgor amdanynt.

Rwyf yn falch iawn o nodi bod presenoldeb drwy gydol y flwyddyn yn ardderchog ac mae lefel y drafodaeth wedi bod yn agored, yn dryloyw ac yn adeiladol. Mae'n bleser gennyf hefyd nodi bod ARAC Llywodraeth Cymru a'r rhai Grŵp wedi parhau i gael cymorth effeithiol ac ymatebol gan yr ysgrifenyddiaeth a swyddogion.

O ystyried bod ein system o lywodraeth ddatganoledig a chanolog yn dilyn cylch pum mlynedd, mae'n naturiol bod gwaith asesu risg a sicrwydd yn canolbwyntio ar y Rhaglen Lywodraethu a chyflawni swyddogaethau rheoliadol yn weithredol. Er bod rheoli risg y gweithgareddau hollbwysig hyn yn hanfodol, nid dyna'r stori gyfan o bell ffordd o ran asesu risg a'i heffaith. Mae ymwybyddiaeth gynyddol mewn cymdeithas bod ein cylchoedd pum mlynedd o ethol Llywodraethau'r DU a'r Llywodraethau datganoledig yn rhoi ffocws cul a byrdymor ar yr heriau a wyneba'r wlad. Yn wir, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos yn eithaf clir mai'r digwyddiadau ehangach ac annisgwyl sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau dinasyddion. Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi rhai gwersi hynod o lym, gan gynnwys digonolrwydd asesu risgiau strategol, y mae'n rhaid inni fyfyrio

a gweithredu arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn fwy parod i ymateb i unrhyw argyfwng iechyd byd-eang yn y dyfodol. Maes o law, bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn llawn i ganfyddiadau Ymchwiliad y DU i COVID-19.

Mae'r argyfwng sy'n datblygu yn y dwyrain canol ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin, sydd wedi esgor ar ryfel ar gyfandir Ewrop, wedi dangos unwaith eto natur fregus ein diogeledd ynni a bwyd a'r effaith y gall hyn ei chael ar sefydlogrwydd ariannol a llesiant ein gwlad. Dylai hyn ein gorfodi i ystyried ar lefel llywodraeth ddatganoledig a chanolog sut i fynd ati'n rhagweithiol i liniaru risgiau o'r fath yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru drwy rywfaint o'i gwaith deddfwriaethol wedi nodi'n glir rai amcanion allweddol yn y tymor hwy. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a rhoi llesiant dinasyddion wrth wraidd y gwaith o ddatblygu polisïau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn i'r amcanion hyn gael eu cyflawni, bydd yn hanfodol deall, asesu a lliniaru'r risgiau strategol ehangach sy'n effeithio ar yr amcanion hyn am fod y risgiau hyn yn mynd y tu hwnt i gylchoedd pum mlynedd arferol llywodraethau etholedig.

Yn benodol, bydd yr her bresennol sy'n gysylltiedig â thuedd ddemograffig sy'n gwaethygu yn effeithio ar gymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel. Hefyd, bydd deallusrwydd artiffisial, sy'n datblygu ac yn cael ei gyflwyno'n gyflym, yn codi materion moesegol ac ymarferol sy'n debygol o arwain at oblygiadau sy'n anrhagweladwy hyd yma, a all fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Er hynny, mae'n amlwg bod ffactorau yn dod i'r amlwg ar hyn o bryd sy'n achosi risgiau strategol diriaethol i amcanion hirdymor Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a llesiant dinasyddion y dyfodol.

Yr her adeiladol wirioneddol iawn a wyneba Llywodraeth Cymru yw helpu'r Prif Weinidog a'r Cabinet i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, cyflawni rhwymedigaethau statudol a sicrhau y gellir rhoi digon o ffocws ar asesu, deall a lliniaru'r risgiau strategol hyn sy'n dod i'r amlwg.

Gan fod fy nghyfnod yn y swydd wedi dod i ben, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i'r Ysgrifennydd Parhaol, fy nghyd-Gyfarwyddwyr Anweithredol, holl swyddogion Llywodraeth Cymru, yr archwilwyr a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth gyda gwaith ARAC Llywodraeth Cymru a'r rhai Grŵp.

Penodwyd fy olynydd ar ddiwedd 2023 ac yn ystod chwarter cyntaf 2024 cyfarfuom sawl gwaith i hwyluso proses o bontio a throsglwyddo didrafferth er mwyn sicrhau parhad gwaith y pwyllgor sy'n mynd rhagddo ac ystyriaethau tymor hwy. Dymunaf yn dda iddo ef a'r pwyllgor a phob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

**Gareth Lynn FCCA**
**Cyfarwyddwr Anweithredol**
**Bwrdd Llywodraeth Cymru a**
**Chadeirydd Pwyllgor Archwilio**
**a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru**
**hyd at 31 Mawrth 2024.**

Ar 1 Ebrill 2024, ymgymerais â swydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru fel olynydd i Gareth Lynn. Gwnaethom weithio'n agos gyda'n gilydd drwy gydol gwanwyn 2024 er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth, ac rwy'n hynod ddiolchgar i Gareth am ei gymorth a'i gefnogaeth. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y pwyllgor wedi parhau i gyflawni ei holl swyddogaethau'n effeithiol ers diwedd y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**Mike Usher CPFA**
**Cyfarwyddwr Anweithredol**
**Bwrdd Llywodraeth Cymru a**
**Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a**
**Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru o**
**1 Ebrill 2024.**

# Cynnwys


Yr hyn sydd yn yr Adroddiad a’r Cyfrifon: Cipolwg 9

Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru 11

## Adroddiad Perfformiad

### Pwy ydym ni

Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru 13

Y Cabinet 14

Y Gwasanaeth Sifil 16

### Yr hyn a wnawn

Y Rhaglen Lywodraethu 18

Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 19

Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol 21

Gweinyddu Cyllid Grant 24

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 27

Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig 31

Grŵp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad 35

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 39

Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Gymraeg 43

Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu 47

### Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario’r cyllid

Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru 50

Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol 50

Benthyciadau Gweinidogion Cymru 51

Blwyddyn o her ariannol 51

Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru 52

Datganiad Llywodraeth Cymru o’r Sefyllfa Ariannol 54

Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru 55

Y berthynas rhwng Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus ehangach 59

### Sut rydym yn perfformio

Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru 60

Deall y Staff 69

### Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni

Llywodraeth Cymru 2025 73

Newid Hinsawdd – adroddiadau Llywodraeth Cymru ar yr ystad a chynaliadwyedd 75

Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant 77

Gweithio’n ddwyieithog 86

Gohebiaeth a chwynion 88

## Adroddiad Atebolrwydd

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 90
Datganiad Llywodraethiant 92
Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion 127
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2023-24 128
Crynodeb o'r Alldro Adnoddau 151
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 161

## Y Datganiadau Ariannol

Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr 167
Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol 168
Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod 170
Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 172
Nodiadau i'r Cyfrifon 174
Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu 216

# Yr hyn sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Cipolwg

Dyma Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae'n nodi'n fanwl sut rydym wedi rheoli ein cyllid ac wedi cyflawni ein rhwymedigaethau statudol. Mae hefyd yn taflu goleuni ar Lywodraeth Cymru fel sefydliad drwy gydol y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[1] yw'r ffordd rydym yn cyflwyno adroddiad ar y Rhaglen Lywodraethu sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon dair adran wahanol.

## Adroddiad Perfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ymdrin â Llywodraeth Cymru fel sefydliad. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn canolbwyntio ar weithgarwch Llywodraeth Cymru i helpu i gyflwyno polisïau Gweinidogion Cymru, ac mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar y cynnydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'i wneud o ran y Rhaglen Lywodraethu ac Amcanion Llesiant. Er hwylustod, mae wedi'i is-rannu'n bum maes.

Ar gyfer 2023-24, y rhain yw:

1. **Pwy ydym ni,** sy'n rhoi trosolwg o'n cyfrifoldebau, deddfwriaeth ategol ac yn rhoi gwybodaeth am aelodau'r Cabinet ac uwch-arweinwyr y Gwasanaeth Sifil.
2. **Yr hyn a wnawn,** sy'n cwmpasu sut y caiff Gweinidogion eu helpu i gyflawni amcanion polisi a gweithgareddau i ymgorffori themâu trawsbynciol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhoi manylion am ein gweithgarwch deddfwriaethol drwy gydol y flwyddyn, a'n gweithgareddau rheoli grantiau. Mae'n rhoi manylion am gyflawni amcanion polisi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan dynnu sylw at raglenni'r UE sy'n dod i ben. Y flwyddyn hon, mae hefyd yn cynnwys sylwadau'r Grwpiau lle mae pob grŵp yn nodi ei brif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, gan roi croestoriad o'n gwaith i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a chyflawni ein gweithgareddau statudol.
3. Mae **Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid** yn nodi ein polisi trethi, benthyca a phrif feysydd gwariant. Mae hefyd yn ymdrin â ffiniau cyfrifyddu ac yn cynnwys naratif newydd sy'n myfyrio ar yr heriau ariannol digynsail a wynebwn ar hyn o bryd.
4. Mae **Sut rydym yn perfformio** yn cwmpasu sut rydym yn bwrw ymlaen â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys barn y staff, gan gynnwys canlyniadau ein Harolwg Pobl.
5. Mae **Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni** yn rhoi amrywiaeth eang o ddiweddariadau gan gynnwys ar raglen Llywodraeth Cymru 2025, adroddiadau ar gynaliadwyedd a'n hymrwymiad i degwch a chynhwysiant a gweithio'n ddwyieithog. Ceir hefyd ddiweddariad ar y broses gwyno.

1 https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2024

## Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn amlinellu'r prosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni eu cyfrifoldebau i reoli adnoddau'r sefydliad.

## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac maent yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r costau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd iddynt ac yn manylu ar ei holl asedau ac atebolrwyddau.

Mae'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys y Prif Ddatganiadau, Nodiadau i'r Cyfrifon a manylion am Bolisïau Cyfrifyddu sylweddol.

# Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru

Dim ond un o'r adroddiadau allweddol sy'n ymdrin â chyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae'r lleill yn cynnwys:

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gweinidogol** | | | **Sefydliad** | **Data Ystadegol** | |
| | **Proses y Gyllideb** | **Adroddiad Alldro** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru** | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** |
| Deddfwriaeth | Adrannau 125 ac 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<br>Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.24; 20.25 – 20.37 | Amh. | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | Deddf Llywodraeth Cymru – adrannau 131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Arweinydd | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet | Y Prif Weinidog | Ysgrifennydd Parhaol | Prif Ystadegydd | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| Diben | Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu'r cyfryw gyfnod arall ag yr ystyria'r Gweinidog yn briodol) a diwygiadau i'r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. | Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio'n agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol.<br>Mae'r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o'r amrywiadau sylweddol. | Cynnydd tuag at gyflawni 10 amcan llesiant Llywodraeth Cymru. | Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae'n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol. | Cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. | Amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru. |

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gweinidogol** | | | **Sefydliad** | **Data Ystadegol** | |
| | **Proses y Gyllideb** | **Adroddiad Alldro** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru** | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** |
| Amseriadau | Dim byd penodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb. | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn. | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol – ond yn dibynnu ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol ym mis Mehefin/Gorffennaf. | O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. |
| Amseriadau'r flwyddyn hon | Gosod y gyllideb ddrafft 13 Rhagfyr 2022<br>Cyllideb Derfynol 7 Mawrth 2023<br>Cyllideb Atodol Gyntaf 4 Gorffennaf 2023<br>Ail Gyllideb Atodol 13 Mawrth 2024 | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. | Gorffennaf 2024 | 29 Tachwedd 2024 | 28 Medi 2023 | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 |
| Craffu | Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Pwnc | Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y cyfarfod llawn Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Amh. | Amh. |

# Pwy ydym ni

## Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru




Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth ddatganoledig i Gymru. Mae'n gweithio er mwyn helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog
- Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion
- Y Cwnsler Cyffredinol

Cânt eu cefnogi gan weision sifil sy'n gweithio mewn meysydd datganoledig sy'n cynnwys rhannau allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys:

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Yr Amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweinyddiaeth ar y cyd i'r sefydliad cyfan.

Crëwyd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a rannodd swyddogaethau rhwng y ddeddfwrfa i Gymru a'r Llywodraeth weithredol. O dan Ddeddf Cymru 2014 newidiwyd enw'r ddeddfwrfa i Senedd Cymru (y Senedd fel arfer) a'r weithrediaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu'n ddramatig ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac yn gyfrifol am gyflawni yn y meysydd sydd wedi'u datganoli iddi, fel y'u nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisïau a'u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo trefniadau cyflawni a llywodraethu; cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau'r Senedd): a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae hefyd yn cyllido Cyrff Hyd Braich yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar ei gwefan[2].

2 https://www.llyw.cymru/

# Y Cabinet

Y Cabinet yw prif gorff gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, holl Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn cwmpasu'r Prif Weinidog a threfniadau'r Cabinet a oedd ar waith rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Mae'r Prif Weinidog yn penodi Ysgrifennydd Cabinet dros bob un o'r portffolios craidd a ddisgrifir isod, yn ogystal â Gweinidogion ychwanegol i gefnogi gwaith Cabinet Cymru, a Swyddog y Gyfraith (Cwnsler Cyffredinol Cymru). Ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 20 Mawrth 2024, y Cabinet a'r Gweinidogion oedd:

## Llywodraeth Cymru

### Mawrth 2023



Ar ôl ethol Prif Weinidog newydd i Gymru ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn rhwng 21 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2024, y Cabinet a'r Gweinidogion oedd:

# Llywodraeth Cymru

Mawrth 2024



**Vaughan Gething AS** Prif Weinidog Cymru



**Eluned Morgan AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol



**Dawn Bowden AS**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol



**Jayne Bryant AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar



**Julie James AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio



**Huw Irranca Davies AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth



**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



**Lesley Griffiths AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol



**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg



**Hannah Blythyn AS**
Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet



**Mick Antoniw AS**
Y Darpar Gwnsler Cyffredinol



**Jane Hutt AS**
Y Trefnydd a'r Prif Chwip

Ceir manylion llawn am Gyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion ar wefan Llywodraeth Cymru[3].

3 https://www.llyw.cymru/ysgrifenyddion-y-cabinet-gweinidogion

# Y Gwasanaeth Sifil

Mae'r Prif Weinidog yn arwain Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Cabinet. Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cynorthwyo Prif Weinidog a Chabinet Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei pholisïau a'u rhoi ar waith yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gweision sifil yn atebol i'r Gweinidogion, sydd, yn eu tro, yn atebol i'r Senedd.

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Mae'n arwain y Gwasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo'r llywodraeth i ddatblygu ei pholisïau, eu rhoi ar waith a'u cyfleu, ac ef yw prif gynghorydd polisi'r Prif Weinidog. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian ac adnoddau'r llywodraeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol.

Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil, sef niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethu da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gref i gynorthwyo Llywodraeth Cymru.

Mae'r llywodraeth wedi'i strwythuro'n nifer o Grwpiau sy'n cael eu rheoli gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 roedd pob aelod o'r staff yn gweithio o dan y Strwythur Grwpiau canlynol:

## Llywodraeth Cymru

### Mawrth 2023



**Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
- Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg – David Richards
- Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Prif Weinidog – Des Clifford
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Uned y Cytundeb Cydweithio – Rachel Garside-Jones




**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

- Cyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder – Piers Bisson
- Cyfarwyddwr, Prif Gwnsler Deddfwriaethol – Dylan Hughes
- Cyfarwyddwr Buddsoddi Rhanbarthol a Ffiniau – Peter Ryland
- Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol – Helen Lentle
- Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach – Andrew Gwatkin
- Cyfawrwyddwr, Y Trysorlys Cymru – Andrew Jeffreys
- Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau – Sioned Evans
- Cyfwarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – Jason Thomas
- Y Prif Gynghorydd Gwyddonol – Jas Pal Badyel
- Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau – Dean Medcraft
- Cyfarwyddwr, Gweithrediadau, Busnes a Rhanbarthau – Duncan Hamer



**Judith Paget**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr, GIG Cymru

- Cyfarwyddwr Dros Dro, Diogelu Iechyd y Cyhoedd – Sioned Rees
- Pennaeth y Grŵp IGC – Joanna Jordan
- Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru – Nick Wood
- Cyfarwyddwr, Cyllid y GIG – Steve Elliot
- Prif Swyddog Meddygol – Frank Atherton
- Cyfarwyddwr, Trawsnewid Digidol/ Prif Swyddog Digidol – Mike Emery
- Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl – Alex Slade
- Cyfarwyddwr, Y Gweithlu a Busnes Corfforaethol – Helen Arthur
- Prif Swyddog Nyrsio – Sue Tranka
- Prif Weithredwr, CAFCASS Cymru – Nigel Brown
- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru – Albert Heaney
- Cyfarwyddwr, Iechyd a Llesiant – Irfon Rees



**Jo-Anne Daniels**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

- Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi – Claire Bennett
- Cyfarwyddwr, Gweithrediadau – Carla Lyne
- Cyfarwyddwr, Y Gymraeg ac Addysg – Owain Lloyd
- Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes – Gwag
- Cyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg – Jo Salway
- Cyfarwyddwr Dros Dro yr Ymateb i Sefyllfa Wcráin – Ruth Meadows
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – James Owen




**Reg Kilpatrick**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol

- Cyfarwyddwr Dros Dro Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol – Liz Lalley



**Tim Moss**
Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Gweithredu Grŵp

- Cyfarwyddwr, Cyllid – Gawain Evans
- Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol – Peter Kennedy
- Cyfarwyddwr, Masnachol a Chaffael – John Coyne
- Cyfarwyddwr, Digidol, Data a Thechnoleg a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi – Glyn Jones
- Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru – Gillian Baranski
- Prif Weithwedwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd – Alun Jones
- Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus – Simon Brindle



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau – Dean Medcraft
- Cyfarwyddwr, Materion Gwledig – Gian Marco Currado
- Y Prif Swyddog Milfeddygol Dros Dro – Gavin Watkins
- Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio – John Howells
- Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio – Emma Williams
- Cyfarwyddwr, Cynaliadwyedd Amgylcheddol – Claire Bennett
- Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol – Peter McDonald

Roedd y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol a arweinid gan Reg Kilpatrick yn ateb dros dro er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau uniongyrchol y pandemig. Gan fod gweithgareddau cydgysylltu'r ymateb i COVID-19 wedi dod i ben erbyn hyn ac mae mesurau newydd a arweinir gan iechyd i ymateb i'r pandemig bellach wedi'u rhoi ar waith yn llawn, cafodd strwythurau grwpiau eu hadolygu a chafodd y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol ei uno â'r Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg.

Grŵp newydd oedd y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, a oedd yn dwyn ynghyd bob agwedd ar addysg, sgiliau a dysgu gydol oes; ein rôl arwain ar gyfer llywodraeth leol ac argyfyngau sifil posibl ynghyd â'n gwaith ar helpu i greu cymunedau a gweithleoedd tecach, mwy diogel a mwy cyfartal. Penodwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, Sioned Evans, o 1 Ionawr 2024.

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, roedd pob aelod o'r staff yn gweithio o dan y strwythur Grwpiau canlynol:

## Llywodraeth Cymru

### Ionawr 2024



**Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol

- Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg – David Richards
- Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Prif Weinidog – Des Clifford
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Uned y Cytundeb Cydweithio – Rachel Garside-Jones




**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

- Cyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder – Piers Bisson
- Cyfarwyddwr, Prif Gwnsler Deddfwriaethol – Dylan Hughes
- Cyfarwyddwr Buddsoddi Rhanbarthol a Fficiau – Peter Ryland
- Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwag
- Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach – Andrew Gwatkin
- Cyfawrwyddwr, Y Trysorlys Cymru – Andrew Jeffreys
- Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau – Gwag
- Cyfwarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – Jason Thomas
- Y Prif Gynghorydd Gwyddonol – Jas Pal Badyel
- Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau – Dean Medcraft
- Cyfarwyddwr, Gweithrediadau, Busnes a Rhanbarthau – Duncan Hamer




**Judith Paget**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr, GIG Cymru

- Cyfarwyddwr Dros Dro, Diogelu Iechyd y Cyhoedd – Sioned Rees
- Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru – Nick Wood
- Cyfarwyddwr, Cyllid y GIG – Hywel Jones
- Prif Swyddog Meddygol – Frank Atherton
- Prif Swyddog Digidol (Iechyd a Gofal)/ Cyfarwyddwr Digidol, Technoleg ac Arloesi – Mike Emery
- Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl – Alex Slade
- Cyfarwyddwr, Y Gweithlu a Busnes Corfforaethol – Helen Arthur
- Prif Swyddog Nyrsio – Sue Tranka
- Prif Weithredwr, CAFCASS Cymru – Nigel Brown
- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru – Albert Heaney
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Iechyd a Llesiant – Irfon Rees
- Cyfarwyddwr Rhaglen Weithredu Gweithrediaeth GIG Cymru – Tracey Breheny




**Sioned Evans**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg

- Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol – Reg Kilpatrick
- Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol – Liz Lalley
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymunedau a Threchu Tlodi – Amelia John
- Cyfarwyddwr, Gweithrediadau – Carla Lyne
- Cyfarwyddwr, Y Gymraeg ac Addysg – Owain Lloyd
- Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes – Gwag
- Cyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg – Jo Salway
- Cyfarwyddwr Dros Dro yr Ymateb i Sefyllfa Wcráin – Ruth Meadows
- Cyfarwyddwr Dros Dro, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – James Owen



**Tim Moss**
Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Gweithredu Grŵp

- Cyfarwyddwr, Cyllid – Gawain Evans
- Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd – Dom Houlihan
- Cyfarwyddwr, Masnachol a Chaffael – John Coyne
- Cyfarwyddwr, Digidol, Data a Thechnoleg a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi – Glyn Jones
- Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru – Gillian Baranski
- Prif Weithwedwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd – Alun Jones
- Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus – Simon Brindle



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau – Dean Medcraft
- Cyfarwyddwr, Materion Gwledig – Gian Marco Currado
- Prif Swyddog Milfeddygol – Richard Irvine
- Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio – John Howells
- Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio – Emma Williams
- Cyfarwyddwr, Cynaliadwyedd Amgylcheddol – Claire Bennett
- Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol – Peter McDonald

# Yr hyn a wnawn

## Y Rhaglen Lywodraethu



Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i ystyried y Cytundeb Cydweithio. Mae wedi'i strwythuro ar sail deg amcan llesiant i greu Cymru gryfach, decach, wyrddach a mwy tosturiol. Y Cabinet ar y cyd sy'n gyfrifol am yr ymrwymiadau a nodir o dan yr amcanion llesiant, gan gydnabod yr angen am waith trawslywodraethol, ac mae'r ymrwymiadau sy'n weddill wedi'u nodi fesul portffolio gweinidogol.

Mae gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni'r amcanion yn y Rhaglen Lywodraethu drwy weithgareddau gan gynnwys datblygu polisïau, cyflwyno deddfwriaeth, rheoli ariannol a chyflawni uniongyrchol.

Cyhoeddwyd trydydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Senedd hon ym mis Gorffennaf 2024 a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn 2023-24.

Parhaodd effaith pwysau chwyddiant i leihau gwerth cyllidebau yn 2023-24 ac mae hyn wedi effeithio ar rai o feysydd y Rhaglen Lywodraethu.

Parhawyd i fonitro'n fisol y cynnydd tuag at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn 2023-24, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Y Prif Weinidog (ar y pryd) a gadeiriodd Is-bwyllgor y Cabinet ar y Rhaglen Lywodraethu i roi fforwm i ddatblygu dulliau gweithredu trawslywodraethol a sbarduno'r broses gyflawni.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Cytundeb Cydweithio ar 1 Rhagfyr 2023, a nododd y cynnydd a wnaed yn 2023[4]. Roedd cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r strwythurau ymgysylltu a sefydlwyd yn unol â Mecanweithiau'r Cytundeb.

Daeth y Cytundeb Cydweithio i ben ar 17 Mai 2024. Cytunwyd ar bapur ar y cyd hefyd ac fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cyllidebau Terfynol[5].

4 https://www.llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-adroddiad-blynyddol-2022-i-2023
5 https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2024-i-2025-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru

## Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethu a mecanweithiau'r llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Drwy LIC2025, ein rhaglen dair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol, rydym yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y ffordd rydym yn ymddwyn a phopeth a wnawn.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun dysgu a gwella'n barhaus 2023-25 Llywodraeth Cymru[6] sy'n dwyn ynghyd fwy na 50 o gamau gweithredu sydd â'r nod o ddwysáu'r ddealltwriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffordd y'i cymhwysir yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun hefyd yn ffurfio ymateb o sylwedd Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad yn adroddiad adolygu adran 20 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar ein cynnydd. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Mai 2024 a gellir ei weld drwy ddilyn yr un ddolen.

Yn ystod 2023-24, roedd y Pwyllgor Gweithredol yn ymwneud â datblygu'r diweddariad cynnydd a'r trefniadau i'w gyhoeddi. Gwnaethom hefyd roi adroddiad ar ein cynnydd i'r Bwrdd at ddibenion sicrwydd. Credwn y bydd ein ffordd o weithredu'n anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am welliant parhaus a myfyrio.

Roedd y Cynllun yn gyfle amserol, ac yn un i'w groesawu, i bwyso a mesur y sefyllfa, myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn, a'n helpu i achub ar gyfleoedd newydd i ddwysáu'r ddealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, a'r ffordd y caiff yr egwyddor ei chymhwyso. Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud o ran gwreiddio Deddf Llesiant

6 https://www.llyw.cymru/cynllun-dysgu-a-gwella-parhaus-2023-i-2025

Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein ffordd o weithio ac mae'n cydnabod natur flaengar y ddeddfwriaeth hon a'n haeddfedrwydd fel sefydliad sy'n arwain y newid, gan nodi meysydd lle y gallwn wella hefyd.

Mae'n nodi camau gweithredu i gryfhau ein dealltwriaeth o'r Ddeddf a'r ffordd rydym yn ei rhoi ar waith ac i gryfhau sicrwydd ynglŷn â hyrwyddo ac ymgymryd â datblygu cynaliadwy a gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma ddull gweithredu arloesol sy'n esblygu ac sy'n cydnabod rôl Gweinidogion o ran agenda datblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol a sut mae swyddogion yn eu cefnogi yn y rôl honno.

Ym mis Awst 2023, penododd yr Ysgrifennydd Parhaol dri Hyrwyddwr Bwrdd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i herio timau'n adeiladol a'u helpu i ddeall sut mae'r Ddeddf yn gymwys i bolisïau a phrosiectau penodol sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd.

Mae pob ymgeisydd yn treulio chwe mis fel yr Hyrwyddwr Bwrdd, chwe mis yn cefnogi'r Bwrdd Cysgodol a chwe mis arall fel rhan o rwydwaith cymorth i'r ymgeiswyr eraill, sy'n helpu i greu rhwydwaith o Gyn-hyrwyddwyr Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn cefnogi'r sefydliad yn fwy cyffredinol, wrth inni wella'r ffordd rydym yn cymhwyso'r Ddeddf.

Mae'r mesurau ychwanegol hyn wedi cryfhau sicrwydd ac wedi rhoi dealltwriaeth ddyfnach a thystiolaeth ehangach i'r sefydliad er mwyn cefnogi ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n dysgu a'n datblygiad parhaus. Yn ystod 2024, bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr i wella sicrwydd ynghylch Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob rhan o'r sefydliad ac ymgorffori ein gwerthoedd drwy'r sefydliad cyfan yn well fel rhan o LIC2025.

Rydym hefyd yn parhau i ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori perfformiad wrth gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Gwneir sylwadau ar hynny yn nes ymlaen yn yr Adroddiad Perfformiad.

# Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol



Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn brif ffocws i'r sefydliad. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud hefyd i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd Ddatganiad[7] i'r Senedd ar 27 Gorffennaf 2023 yn nodi blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y cyfnod y mae'r cyfrifon hyn yn ymwneud ag ef, cafodd y Biliau canlynol y Cydsyniad Brenhinol:

- **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** Cytunodd y Senedd ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 14 Mawrth 2023 a daeth yn Ddeddf ar 24 Mai 2023 ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan atgyfnerthu llais gweithwyr wrth ddarparu gwasanaethau allweddol.
- Cafodd **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** y Cydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2023. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) fathau penodol o gynhyrchion plastig untro diangen sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel a restrir yn yr atodlen i'r Ddeddf, i ddefnyddiwr yng Nghymru.
- Cafodd **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Y Ddeddf hon oedd y darn cydgrynhoi cyntaf o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd fel rhan o raglen pum mlynedd Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl.
- Cafodd **y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru)** y Cydsyniad Brenhinol ar 17 Awst 2023. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a darparu cymorth i amaethyddiaeth yng Nghymru neu mewn cysylltiad â hi. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i wneud taliadau cymorth amaethyddol i ffermwyr yn ystod cyfnod pontio ac mae'n diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn cynnig ffordd o ddatrys anghydfod i denantiaid o dan amgylchiadau penodol. Gwnaeth y Ddeddf ddisodli'r pwerau am gyfnod penodol a gymerwyd ar gyfer Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2024, a bydd yn newid Deddf Coedwigaeth 1967 i roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru i ychwanegu amodau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed er mwyn atal cwympo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys gwaharddiad ar Faglau a Thrapiau Glud.
- Cafodd **Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** y Cydsyniad Brenhinol ar 5 Chwefror 2024 a darparodd sail ddeddfwriaethol dros gyflwyno is-ddeddfwriaeth i'w gwneud yn bosibl i gyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

7 Datganiad Llafar: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (27 Mehefin 2023) | LLYW.CYMRU

- Cafodd **Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)** y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer cenedlaethol a diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol; rheoli ansawdd aer yn lleol; rheoli mwg; parthau aer glân/parthau allyriadau isel a cherbydau sy'n segura. Bydd hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinwedd genedlaethol.

Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Llywodraeth wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y blaenoriaethau a nodwyd yng nghyhoeddiad y Prif Weinidog ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran yr ymrwymiadau eraill hynny yn y Rhaglen Lywodraethu y bydd angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'w cyflawni ac mae'r Biliau canlynol wedi cael eu cyflwyno:

- **Bil Seilwaith (Cymru)**
  Cyflwynwyd Bil Seilwaith (Cymru) ar 12 Mehefin 2023 ac fe'i pasiwyd gan y Senedd ar 16 Ebrill 2024. Mae'r Bil yn sefydlu proses unedig o gydsynio i seilwaith ar gyfer mathau penodedig o seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr (hyd at ffin diriogaethol ar y môr), gan gynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr a nwy. Gelwir y math newydd o gydsyniad yn "gydsyniad seilwaith" a chaiff ei roi mewn perthynas â phrosiectau a ragnodir yn "Brosiect Seilwaith Arwyddocaol".
- **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**
  Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar 2 Hydref 2023 ac mae'n darparu ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, yn amodol ar dreialu llwyddiannus, a chryfhau gweinyddiaeth etholiadol drwy sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol. Bydd hefyd yn cyflwyno diwygiadau i'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymuned ac etholiadol ac yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), gan roi'r mwyafrif o'r swyddogaethau a oedd yn cael eu cyflawni gynt gan y Panel i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn). Bydd y Bil yn ein galluogi i wella hygyrchedd etholiadau datganoledig i bleidleiswyr anabl a gwella diogelwch ymgeiswyr drwy foderneiddio a gwella'r drosedd o ddylanwad amhriodol.
- **Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**
  Cyflwynwyd Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ar 20 Tachwedd 2023 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud newidiadau i'r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor yng Nghymru.
- **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru)**
  Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) ar 18 Medi 2023 ac fe'i pasiwyd gan y Senedd ar 8 Mai 2024. Mae'r Bil yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd[8], a gefnogwyd gan fwyafrif o Aelodau'r Senedd ym mis Mehefin 2022.

  Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

  – Cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau.

  – Newid y system etholiadol i un sy'n gwbl seiliedig ar egwyddor cynrychiolaeth gyfrannol, gydag enw pob ymgeisydd ar y papur pleidleisio. O etholiad Senedd 2026 ymlaen, bydd fformiwla D'Hondt[9] yn cael ei defnyddio (mae'r fformiwla hon wedi cael ei defnyddio i benderfynu ar Aelodau rhestr ranbarthol o'r Senedd).

  – Gwneud 16 o etholaethau Senedd newydd, a gaiff eu creu drwy baru'r 32 o etholaethau newydd Senedd

8 Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru
9 Diwygio'r Senedd: geirfa

y DU ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Caiff chwe Aelod eu hethol, o restrau caeedig, ym mhob un o'r 16 o etholaethau.

- Codi'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi o 12 i 17 (ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol). Gall Gweinidogion Cymru gynyddu'r nifer ymhellach i 18 neu 19, ond gyda chymeradwyaeth y Senedd yn unig.
- Rhoi hyblygrwydd i Aelodau o'r Senedd ethol ail Ddirprwy Lywydd.
- Deddfu y bydd yn rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer etholiadau'r Senedd fod yn preswylio yng Nghymru.
- Darparu ar gyfer etholiadau'r Senedd bob pedair blynedd o 2026 ymlaen.

- **Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (Cymru)**
  Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ar 11 Mawrth 2024. Mae'r Bil yn cyflwyno cwotâu rhywedd statudol integredig i'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd (ASau). Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn dewis cyflwyno rhestr neu restrau o ymgeiswyr ar gyfer etholiad i'r Senedd. Mae'r Bil yn gwneud gofynion ynglŷn â rhestr neu restrau o ymgeiswyr a gyflwynir gan y pleidiau hynny a'r rheolau cwota y mae'n rhaid i restrau o'r fath gydymffurfio â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am y Deddfau a'r Biliau unigol ar dudalennau rhyngrwyd Deddfwriaeth y Senedd[10].

## Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei llunio a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglenni o is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys gweithredu Deddfau Senedd Cymru. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddfau Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth y DU

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi cwmpasu cryn dipyn o weithgarwch fel rhan o drydedd a phedwaredd raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas ag 11 o Filiau'r DU a wnaeth ddarpariaeth mewn meysydd datganoledig ac aeth saith o'r rhain yn eu blaen i fod yn destun cynnig i'w drafod yn y Senedd.

Drwy gydol y cyfnod hwn cyflwynwyd 17 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol hefyd. Cyflwynwyd tri memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Ynni a'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio o fewn y cyfnod hwn.

## Gweithgareddau gwella deddfwriaethol

Ar ôl adolygu'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei datblygu yn Llywodraeth Cymru, mae cyfres o gamau gweithredu wedi cael eu cymryd i wella'r ffordd y cyflawnir y rhaglen ddeddfwriaethol. Mae hyn wedi cynnwys mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd ychwanegol, creu Is-adran Deddfwriaeth a arweinir gan yr Uwch Wasanaeth Sifil, a thîm canolog wedi'i ehangu o reolwyr Biliau ac arbenigwyr polisi deddfwriaethol sy'n cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu blaenoriaethau deddfwriaethol y Cabinet.

Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella gallu a chapasiti polisi ar gyfer deddfwriaeth drwy'r sefydliad cyfan. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at well atebolrwydd a sail gynaliadwy dros gyflwyno deddfwriaeth y gall y Prif Weinidog ymddiried ynddi ac y gall yr Ysgrifennydd Parhaol gynnig sicrwydd cadarn yn ei chylch.

10 https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/

## Gweinyddu Cyllid Grant




Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Caiff cyllid grant ei ddyfarnu i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion sy'n cyd-fynd â pholisïau Gweinidogol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid craidd/prosiect, grantiau cyfalaf/refeniw yn ogystal â chyllido costau rhedeg i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'i his-gwmnïau.

Mae gan Lywodraeth Cymru tua 380 o gynlluniau grant gweithredol ar waith ar PayGrants (sef y brif system gorfforaethol) ac mae'n rhoi tua 11,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn. Yn 2023-24, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £21.9 biliwn (£20.4 biliwn 2022-23) o gyllid grant.

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £16.7 biliwn o'r cyfanswm o £21.9 biliwn a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2023-24. Nid yw'r cyllid wedi'i glustnodi a gall y corff sy'n cael cyllid ei wario fel y gwêl orau.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau penodol i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £5.2 biliwn o'r cyllid sy'n weddill. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru fod yn fwy gorchmynnol o ran sut y defnyddir cyllid i gyflawni amcanion polisi.

Mae'r dadansoddiad isod o ddata cyllid grant ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.



Mae nifer o ffyrdd o ddyrannu cyllid heb ei neilltuo/wedi'i neilltuo a dangosir y rhain yn y tablau isod. Mae penderfynu ar ba gategori sydd fwyaf priodol yn rhan o'r broses o ddatblygu a llunio'r cynllun grant.

Gall canlyniadau bwriadedig, gwerth, maint a chymhlethdod i gyd helpu i bennu pa ddull yw'r un mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Yn achos rhai cynlluniau, gellir pennu cyfuniad ohonynt.

**Grantiau heb eu neilltuo – dull cyllido**

| | |
|---|---|
| **Dyrannu Cyllideb** | Cyllid bloc a ddyrennir (fel arfer) i Awdurdodau Lleol/cyrff y GIG i benderfynu sut maent yn darparu'r gwahanol wasanaethau a ddarperir ganddynt. |

**Grantiau wedi'u neilltuo – dulliau cyllido**

| | |
|---|---|
| **Yn Seiliedig ar Gais** | Cyllid a ddyfernir mewn ymateb i alwad agored am geisiadau neu gylch o gynigion cystadleuol.<br>Galwad Agored: Mae sefydliadau yn gwneud cais i gynllun grant a chaiff cyllid ei ddyfarnu'n seiliedig ar allu sefydliadau i fodloni meini prawf cymhwystra a bennir ymlaen llaw.<br>Cystadleuol: Defnyddir cystadleuaeth yn bennaf lle mae cyllideb gyfyngedig a gall nifer o sefydliadau gyflawni'r amcan polisi.<br>Mae'r broses gystadleuol yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru gefnogi'r prosiectau gorau ac mae'n agored, yn dryloyw, yn wrthrychol, yn deg ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. |
| **Dyrannu Cyllid** | Cyllid a ddyrennir i gyrff allanol at ddiben penodol; mae lefel y cyllid yn seiliedig ar fodel neu fformiwla ystadegol.<br>Caiff ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer Awdurdodau Lleol, lle mae swm y dyraniad sydd ar gael yn seiliedig ar fformiwla megis model ystadegol o'r boblogaeth. Yna, byddai Awdurdodau Lleol yn cyflwyno cynigion yn erbyn gwerth y dyraniad. |
| **Cais am Gyllid** | Cynnig untro neu flynyddol gan gorff allanol sy'n ceisio cyllid ar gyfer gweithgarwch penodol neu ar gyfer dyfarniad un ffynhonnell sy'n seiliedig ar un partner cyflawni. Caiff ei ddefnyddio hefyd pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at adrannau Llywodraeth eraill. |
| **Digolledu** | Swm a ddyfernir i ddigolledu neu wneud iawn am golledion o ganlyniad i weithred gan y Llywodraeth. |

### Cefndir y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Tîm canolog bach yw'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i staff ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm yn darparu cyfres o ganllawiau a hyfforddiant sydd ar gael ar bob agwedd ar y broses o reoli grantiau o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor pwrpasol ar ymholiadau, gan gydgysylltu â thimau eraill mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru fel y bo angen er mwyn helpu i roi cymorth, gan gynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes gwasanaethau cyfreithiol, rheoli cymorthdaliadau ac archwilio mewnol.

### Y Panel Sicrwydd Grantiau

Sefydlodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau y Panel Sicrwydd Grantiau yn 2018 i roi cyngor ymarferol a herio rheolwyr grantiau yn gynnar yn y broses o ddatblygu cynllun grant. Nod y panel yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl a sicrhau bod cynlluniau grant yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Daw aelodau'r panel o feysydd allweddol y busnes er mwyn cynnig her adeiladol, craffu a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu, Swyddfa'r Cabinet, archwilio mewnol, atal twyll a chaffael. Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Maent hefyd ar gael i gefnogi rheolwyr grantiau unigol cyn ac ar ôl y cyfarfodydd a chysylltu â'r rheolwr grantiau wedyn er mwyn cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ac, os felly, pryd y cawsant eu gweithredu.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gynnal yr adolygiad blynyddol o'r panel, drwy gysylltu ag aelodau'r panel a'r rhai sy'n dod gerbron y panel. Mae'r adborth cyffredinol wedi parhau i fod yn gadarnhaol, a hynny gan reolwyr grantiau ac aelodau o'r panel. Mae unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i hyrwyddo'r panel a chodi ymwybyddiaeth ohono yn ogystal â rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

### Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i gynnal, ar ran rheolwyr grantiau, wiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethu corfforaethol ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu. Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliad i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi "Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol" ar gyfer pob sefydliad sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, cadarnhau gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan yr Hwb Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r math o faterion a nodir yn cynnwys sefydliadau sydd ag anawsterau ariannol neu sy'n ansolfent, Dyfarniadau'r Llys Sirol, pryderon ynglŷn â llywodraethu neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu ei egwyddorion. Pan gaiff risgiau eu nodi, mae'r tîm yn rhoi argymhellion i'r rheolwr grant ynglŷn â chamau lliniaru. Er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, ôl-daliadau, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Yn ystod 2023-2024, mae'r tîm wedi cynnal 500 o asesiadau, a chaiff y rhain eu lanlwytho i'r Hwb Diwydrwydd Dyladwy sy'n golygu bod asesiadau nid yn unig ar gael i'r rheolwr grant ond hefyd i dimau ac adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â darparu'r asesiadau corfforaethol, mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i reolwyr grantiau ar ddyfarniadau a chynlluniau unigol, wedi mynd i gyfarfodydd tîm gan roi cyngor penodol ar ddiwydrwydd dyladwy, ac wedi cyfrannu at yr adolygiad o delerau ac amodau grantiau o safbwynt diwydrwydd dyladwy.

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020.

Daeth Deddf y Cytundeb Ymadael i rym ym mis Ionawr 2020 ac ymadawodd y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y rhaglenni presennol o dan ESF ac ERDF yn cael eu cwblhau fel pe bai'r DU yn dal i fod yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE.

Roedd gwariant prosiectau hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn gymwys i gael cymorth gan yr UE, a rhoddwyd cyfrif am yr holl wariant terfynol ar brosiectau yn y flwyddyn gyfrifyddu 2023-24.

Mae WEFO wedi neilltuo 100% o'r dyraniad o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan fuddsoddi dros £2.26 biliwn a sbarduno buddsoddiad gwerth dros £4 biliwn i gyd (ar 31 Mawrth 2024) sydd hefyd yn cynnwys addasu cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Hyd yma, mae prosiectau'r UE a gefnogwyd gan raglenni 2014-2020 wedi creu mwy na 35,300 o swyddi a mwy na 7,150 o fusnesau newydd. Hefyd, mae dros 24,400 o fusnesau wedi cael cymorth, mae bron i 42,700 o bobl wedi cael eu helpu i gael gwaith, ac mae dros 170,900 o gymwysterau wedi cael eu hennill.

Mae Tablau 1 – 4 yn dangos:

- Cynnydd WEFO o ran neilltuo'r grant sydd ar gael o dan y Cronfeydd Strwythurol y mae'n ei ddosbarthu yng Nghymru, hyd at 31 Mawrth 2024 – Tabl 1;
- Dadansoddiad o'r prosiectau yn ôl sector – Tabl 2 (cymeradwywyd) a Thabl 3 (hawliadau);
- Taliadau grant blynyddol a wnaed rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 – Tabl 4.

**Tabl 1: Prosiectau a Gymeradwywyd fesul Rhaglen hyd at 31 Mawrth 2024**

| Cyllid Wedi'i Neilltuo (£m) | ERDF Gorllewin Cymru £m | ERDF Dwyrain Cymru £m | ESF Gorllewin Cymru £m | ESF Dwyrain Cymru £m | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1,047 | 176 | 703 | 177 | 2,103 |
| Gwerth y Grant | 1,083 | 179 | 738 | 177 | 2,177 |
| Nifer y Gweithrediadau | 107 | 40 | 74 | 45 | 266 |
| % a Gymeradwywyd | 103% | 102% | 105% | 100% | 104% |

| Iwerddon/Cymru | €m |
|---|---|
| Dyraniad | 79 |
| Gwerth y Grant | 84 |
| Nifer y Gweithrediadau | 24 |
| % a Gymeradwywyd | 106% |

## Tabl 2: Cyfanswm y Prosiectau a Ariennir gan yr UE a gymeradwywyd hyd at 31 Mawrth 2024


| | | Cyfanswm y Buddsoddiad | | Grant yr UE | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y prosiectau a gymeradwywyd | Swm £m | Cyfran % | Swm £m | Cyfran % |
| Llywodraeth Cymru | 76* | 2,202 | 55% | 1,086 | 50% |
| Y Trydydd Sector | 32 | 195 | 5% | 150 | 7% |
| Addysg Uwch/Addysg Bellach | 76 | 612 | 15% | 381 | 17% |
| Y Sector Preifat | 19 | 608 | 15% | 323 | 15% |
| Llywodraeth Leol | 63 | 378 | 10% | 237 | 11% |
| Cyfanswm | 266 | 3,995 | 100% | 2,177 | 100% |

* Mae'r ffigur yn cynnwys 16 o brosiectau sy'n ymwneud â Chyrff a Noddir gan y Llywodraeth, Asiantaethau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus Eraill.

## Tabl 3: Dadansoddiad o gyfanswm yr hawliadau fesul Sector hyd at 31 Mawrth 2024

| | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni £m | Gwariant Cymwys a Broseswyd £m | Amrywiant mewn Gwariant £m | Grant Proffil Cyflawni £m | Grant a Dalwyd Hyd yn Hyn £m | Amrywiant yn y Grant £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 2,395 | 2,291 | 104 | 1,158 | 1,071 | 87 |
| Y Trydydd Sector | 184 | 176 | 8 | 143 | 145 | -2 |
| Addysg Uwch/Addysg Bellach | 601 | 569 | 32 | 374 | 347 | 27 |
| Y Sector Preifat | 198 | 188 | 10 | 119 | 114 | 5 |
| Llywodraeth Leol | 351 | 330 | 21 | 223 | 210 | 13 |
| Cyfanswm | 3,729 | 3,554 | 175 | 2,017 | 1,887 | 130 |

**Tabl 4: Taliadau Grant**




## Prosiectau Llywodraeth Cymru

Cyflawnir prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru drwy amrywiaeth o bartneriaid cyflawni. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o bartneriaid cyflawni fod yn rhan o'r rhaglenni na fyddent fel arall yn meddu ar y profiad, y cyfalaf gweithio na'r gallu i gymryd risgiau er mwyn cymryd rhan effeithiol yn y rhaglenni.

Cyfanswm gwerth prosiectau Llywodraeth Cymru o dan y rhaglenni presennol yw £1.88 biliwn, gan gynnwys £0.88 biliwnn o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

| | Cyfanswm y gost £m | Cyfraniad yr UE £m |
|---|---|---|
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 186 | 141 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg | 1,052 | 401 |
| Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad | 429 | 243 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 209 | 91 |
| Cyfanswm[1] | 1,876 | 876 |

1 Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y tablau ar y tudalennau blaenorol.

Mae'r mwyafrif o hawliadau terfynol prosiectau Llywodraeth Cymru wedi cael eu prosesu ac mae'r prosiectau wedi cael eu cau gan WEFO ac mae WEFO yn parhau i weithio gyda'r holl fuddiolwyr i wirio a phrosesu hawliadau a datgan eu holl wariant.

## Ein Strwythur Grwpiau

Fel sefydliad, mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru wedi'i rannu'n chwe Grŵp, pob un o dan Gyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae'r strwythur hwn yn cyd-fynd yn fras â phortffolios polisi Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion, sy'n galluogi Cyfarwyddwyr Cyffredinol i fod â pherthynas uniongyrchol â'r gweinidogion y maent yn eu gwasanaethu. Bwriedir iddo hefyd, cyhyd ag y bo modd, gydgysylltu polisïau a gweithredu, cydbwyso rhychwantau rheoli Cyfarwyddwyr Cyffredinol a sicrhau cyfrifoldebau clir i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Ceir trosolwg o strwythur pob un ar dudalennau 31 i 49.

Er y bwriedir i'r strwythur Grwpiau gyd-fynd â chyfrifoldebau'r Cabinet a rhoi cymorth cyson i weinidogion, mae hefyd yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd sy'n galluogi'r sefydliad i ymateb i newidiadau mewn portffolios pan fo angen, heb fod angen ailstrwythuro sylweddol.

Mae gan bob Grŵp amrywiaeth eang iawn o gyfrifoldebau polisi, cyflawni a statudol a gyflawnir ar ran y Cabinet. Mae'r adran ganlynol yn rhoi cipolwg yn unig o gyflawniadau allweddol ein Grwpiau yn ystod y flwyddyn.

# Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig




Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

## Wythnos Hinsawdd Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 'Wythnos Hinsawdd Cymru'[11] ym mis Rhagfyr 2023 i gyd-daro â COP28 Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd. Roedd cyflwyniadau a thrafodaethau'r wythnos yn canolbwyntio ar: 'Sut rydym yn mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn ffordd deg?' a lansiwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Fframwaith Pontio Teg'[12] newydd, sy'n:

- Nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer y ffordd y bydd Cymru yn sicrhau sero net.
- Cynnig sut i gydgysylltu a chydlynu'r newidiadau hynny.
- Rhoi ffynhonnell o wybodaeth a chanllawiau, gan gynnwys pecyn cymorth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru.

Mae'n galluogi'r rhai sy'n sbarduno'r newid i wneud hynny mewn ffordd sy'n ceisio ymdrin â'r anghydraddoldebau presennol ac osgoi creu rhai newydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth 2024 a chaiff crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi yn ystod haf 2024. Roedd Wythnos Hinsawdd Cymru yn cynnwys 28 o sesiynau a 95 o siaradwyr, ac ymunodd 4,100 o bobl â nhw, er mwyn ystyried effeithiau anghymesur newid hinsawdd ar wahanol bobl, grwpiau a lleoedd.

Roedd Cronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd hefyd ar gael i sefydliadau er mwyn iddynt gynnal digwyddiadau allgymorth mewn cymunedau fel rhan o'r Wythnos. Cynhaliwyd 37 o ddigwyddiadau ledled Cymru, gyda bron 2,000 yn bresennol, gan ystyried y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a'r angen am ddosbarthu polisïau hinsawdd yn deg drwy gymdeithas gyfan.

## Y Rhaglen Datblygu Gwledig

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi ariannu miloedd o brosiectau ledled Cymru, gan gynnig manteision dirifedi i'n busnesau, ffermwyr, a phobl Cymru. Cafodd yr holl gyllid a oedd ar gael drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymru, sef mwy nag £846 miliwn, yr oedd dros £564 miliwn ohono yn gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd (UE), ei wario o fewn cyfnod y Rhaglen, yn amodol ar gyflwyno cyfrifon terfynol ac unrhyw addasiadau canlyniadol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

11 https://www.climateweek.gov.wales/CY/pages/On_demand
12 https://www.llyw.cymru/crynodeb-or-fframwaith-pontio

Sicrhawyd bod holl gyllid y Rhaglen wedi cael ei wario yn erbyn cefndir o heriau digynsail i ffermwyr, busnesau, a chymunedau gwledig. Roedd effeithiau ein hymadawiad â'r UE, pandemig COVID-19, y rhyfel yn Wcráin, a'r argyfwng costau byw, i gyd wedi cael effeithiau sylweddol.

Cyhoeddwyd tri adroddiad gan Archwilio Cymru yn ystod cyfnod y Rhaglen. Yn yr adroddiad diweddaraf ym mis Mehefin 2023, tynnwyd sylw at yr heriau a'r risgiau sylweddol a oedd yn gysylltiedig â sicrhau bod yr holl gyllid gan yr UE yn cael ei hawlio, nad oedd rhai ohonynt o dan ein rheolaeth mwyach. Er mwyn lliniaru rhai o'r risgiau hyn, parhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru i addasu'r Rhaglen er mwyn sicrhau bod yr holl gyllid gan yr UE wedi'i neilltuo drwy gydol cyfnod y Rhaglen, gan weithio'n strategol â buddiolwyr terfynol er mwyn helpu i gyflawni prosiectau a'u hallbynnau.

## Diogelwch Tomenni Glo

Ceir mwy na 2,566 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. O dan nawdd y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fapiau yn cynnwys lleoliad tomenni glo Categori C a D nas defnyddir ar 14 Tachwedd 2023, a mapiau yn cynnwys lleoliad tomenni glo Categori A, B ac R ar 11 Mawrth 2024.

Er mwyn datblygu'r mapiau hyn, defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau gwahanol o wybodaeth, gan gynnwys mapiau hanesyddol ac arolygon o'r awyr, ac mae'n bosibl y cânt eu newid wrth inni gael mwy o wybodaeth.

Tomenni glo Categori C a D yw'r rhai â'r potensial mwyaf i effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, ac ers llithriad Tylorstown yn 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer gofynnol o arolygiadau blynyddol ar gyfer Categori C ac arolygiadau o leiaf ddwywaith y flwyddyn ar gyfer tomenni glo Categori D.

Mae nifer o hen domenni glo Categori C a D hefyd yn cael eu cynnwys mewn treialon technoleg, sy'n ei gwneud yn bosibl i domen lo barhau i gael ei monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £44.4 miliwn i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith cynnal a chadw a chyweirio ar domenni glo o dan berchnogaeth gyhoeddus a phreifat rhwng 2022 a 2025.

## Ymwrthedd i Wrthfiotigau

Cynorthwyodd Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol y gwaith o reoli ymwrthedd i wrthfiotigau, sy'n fygythiad mawr i iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid, gan ddefnyddio cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig a gweithio mewn partneriaeth â cheidwaid anifeiliaid a'u milfeddygon. Nod y gwaith hwn yw sicrhau y bydd gwrthfiotigau yn gweithio i genedlaethau'r dyfodol, a thrwy brosiect Arwain DGC, gwnaethom y canlynol:

- Creu cronfeydd data manwl ar raddfa fawr o'r defnydd o wrthfiotigau ar gyfer defaid, buchod godro a gwartheg eidion ar fwy na 5,000 o ffermydd yng Nghymru.
- Llunio canllawiau rhagnodi ar glefydau cyffredin ymhlith anifeiliaid a gaiff eu ffermio, a luniwyd gan, ac ar gyfer, filfeddygon yng Nghymru.
- Llunio cod ymddygiad gwirfoddol ar gyfer cyflenwi gwrthfiotigau'n ddiogel i anifeiliaid a gaiff eu ffermio.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth newydd allweddol ynglŷn â lledaenu ymwrthedd i wrthfiotigau o anifeiliaid i amgylchedd ffermydd yng Nghymru.
- Arloesi gyda'r defnydd o dechnolegau newydd i leihau beichiau heintiau a lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau i gadw anifeiliaid yn iach.

Arweiniodd dwy nodwedd at gyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus: mabwysiadu dull 'Iechyd Cyfunol' drwy rannu gwybodaeth a dysgu ar y cyd â chydweithwyr meddygol ac amgylcheddol a gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n berchen ar anifeiliaid ac sy'n gofalu am anifeiliaid yng Nghymru, a'u milfeddygon.

## Tai ac Adfywio

Drwy fuddsoddi mwy nag £1 biliwn mewn rhaglenni tai ac adfywio yn y flwyddyn ariannol 2023-24, cefnogwyd cynlluniau a fydd yn darparu tua 4,000 o dai fforddiadwy ychwanegol, cefnogwyd dros 17,500 o bobl a oedd yn wynebu digartrefedd drwy roi llety dros dro iddynt, a helpwyd i adfywio 35 o drefi a dinasoedd ledled Cymru.

Dim ond drwy ddull gweithredu deuol o atal a chynyddu'r stoc o dai fforddiadwy y gallwn fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru.

Mae ein dull newydd o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn sicrhau ffordd fwy cyson o asesu anghenion tai ledled Cymru, ond wrth ddarparu cartrefi a adeiledir o'r newydd wynebwn bwysau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, gan gynnwys costau sylweddol uwch ac amodau heriol yn y farchnad.

Fel rhan o'n dull 'mwy o gartrefi', manteisiwyd i'r eithaf ar gyfleoedd drwy lesio, caffael, adnewyddu eiddo, defnydd o safleoedd yn y cyfamser, gweithgynhyrchu oddi ar y safle, datblygiadau tir Llywodraeth Cymru a gwireddu opsiynau byw yng nghanol trefi. Mae partneriaid yn croesawu'r hyblygrwydd a'r dull ymarferol a fabwysiadwyd i ddarparu tai o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

Er mwyn cydnabod effaith cyfraddau llog uwch i ddeiliaid morgeisi, estynnwyd ein cyfres o bolisïau atal i gynnwys 'Cymorth i Aros'[13] sy'n cynnig cymorth i berchen-feddianwyr, gan gynnwys cyngor ariannol a'r potensial i Lywodraeth Cymru gymryd cyfran ecwiti yn y cartref, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae pobl yn colli eu cartref o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

## Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Mae ein Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[14] yn annog dulliau teithio iachach, mwy cynaliadwy, a mwy hygyrch i bawb. Diolch i fuddsoddiad o £800 miliwn, roedd bron hanner y trenau a oedd yn cael eu defnyddio gan Trafnidiaeth Cymru erbyn diwedd 2023-24 yn rhai newydd i Gymru, gyda threnau dosbarth 197 newydd yn gweithredu ar y llwybr rhwng Caergybi ac Aberdaugleddau, a dechreuodd hyfforddiant i yrwyr ar y trenau trydan newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd. Mae buddsoddiad mawr yn seilwaith y rheilffyrdd wedi sicrhau gwasanaethau newydd, er enghraifft, arweiniodd £70 miliwn o gyllid i Gyngor Blaenau Gwent at wasanaethau newydd rhwng Glynebwy a Chasnewydd a lansiodd ym mis Ionawr 2024.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi 'Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau'[15] sy'n nodi sut y byddwn yn diwygio'r bysiau yn y dyfodol ar lawr gwlad, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y diwydiant bysiau, y trydydd sector ac undebau llafur. Rydym wedi llwyddo i gwblhau ein prosiect darparu band eang ffeibr llawn, sy'n golygu bod band eang sy'n gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigadid ar gael i fwy na 44,000 eiddo ledled Cymru.

Mae ein Cronfa Teithio Llesol wedi darparu seilwaith gwerth £46 miliwn, gan gynnwys Cysylltiadau Teithio Llesol Gorsaf Llandudno, pont teithio llesol yn y Drenewydd a gwell cysylltedd â Chanol Dinas Casnewydd drwy bont newydd ar draws y rheilffordd, sydd wedi llwyddo i gyfuno gwelliannau cerdded, beicio a bioamrywiaeth.

O ran y ffyrdd, bydd y darn olaf o Ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd yn cael ei gwblhau yn ôl y bwriad y flwyddyn nesaf. Ei nod yw darparu seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd o ansawdd da ag ardal Blaenau'r Cymoedd.

13 https://www.llyw.cymru/cymorth-i-aros-cymru-canllawiau-i-ymgeiswyr-html
14 https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021
15 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-03/ein-map-ffordd-i-ddiwygio%E2%80%99r-bysiau.pdf

## Astudiaeth Achos: **Yr Economi Gylchol**



Mae'r buddsoddiad gwerth £45 miliwn yn Abertawe gan Jayplas, sy'n flaenllaw ym maes ailbrosesu plastigion, yn un o'r enghreifftiau diweddar o brosiectau buddsoddi a gefnogir ar y cyd gan dimau yn adran yr economi a'r adran newid hinsawdd. Caiff y polisi ei sbarduno gan y rôl hollbwysig y mae symud i economi gylchol yn ei chwarae o ran datgarboneiddio.

Mae hefyd yn enghraifft wych o'r ffordd y mae Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol wedi mynd ati i adeiladu ar gyfraddau ailgylchu Cymru sydd o'r radd flaenaf – sydd eu hunain yn ffrwyth nodau polisi hirdymor clir; gweithio mewn partneriaeth a buddsoddi cyson – er mwyn sicrhau y gallwn nid yn unig bontio i sero net ond defnyddio mantais gystadleuol Cymru i sicrhau'r buddiannau economaidd y gall hynny eu sicrhau.

Mae gan y tîm weledigaeth bolisi glir ac mae wedi cysoni ei ysgogwyr rheoleiddio a buddsoddi i helpu i gyflawni gweithgareddau mewn ffordd integredig a sicrhau y caiff amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru eu cyflawni i'r eithaf. Mae wedi gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol gyda chymorth cynghorwyr arbenigol i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu trawsnewid er mwyn bod yn addas ar gyfer heriau'r 21ain ganrif. Mae wedi cynnal gwaith dwys ar ddatblygu'r rheoliadau trawsnewidiol ar ailgylchu yn y gweithle a ddaeth i rym ym mis Ebrill ac ar yr allgymorth a'r deunydd cyfathrebu i helpu i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae hefyd wedi gweithio fel rhan o raglenni cymhleth a heriol Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gyda gwledydd eraill y DU, a hefyd ymateb i'r heriau cyfansoddiadol anodd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

Er gwaethaf heriau sylweddol, pwysau ar adnoddau, ac agenda gyflawni fawr, mae'r ymrwymiad i wneud gwahaniaeth yn helpu i sicrhau gwelliannau gweladwy a phrosiectau cyffrous a fydd yn helpu i lunio'r dyfodol.

# Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad



Mae cyflawniadau allweddol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

## Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Y flwyddyn hon, Brand Cymru Wales oedd enillydd Grand Prix Gwobrau Cyfryngau'r Byd 2023, gan guro Volkswagen, Birkenstock, T Mobile, Deutsche Telecom a Visa am ei ymgyrch Cymru i'r Byd ar gyfer Cwpan y Byd FIFA.

Sicrhaodd ein tîm digwyddiadau nifer o geisiadau llwyddiannus, gan gynnwys cais y DU ac Iwerddon i gynnal y bencampwriaeth Ewropeaidd yn 2028, pan fydd Cymru yn cynnal y gêm agoriadol a chwe gêm yn ystod y bencampwriaeth, a chais ar y cyd â Chyngor Caerdydd a Stadiwm Principality i gynnal rowndiau terfynol Pencampwriaeth Broffesiynol Ewropeaidd Rygbi. Gwnaethom hefyd gynnal Pencampwriaeth Cleddyfaeth Cadair Olwyn y Byd yng Ngerddi Soffia ym mis Ionawr, gan groesawu para-athletwyr o bedwar ban byd i Gaerdydd ac atgyfnerthu ein henw da fel cyrchfan a ffefrir ar gyfer chwaraeon anabledd. Gwnaeth Cymru Greadigol sicrhau mwy na £900,000 o gyllid gan Sefydliad Ffilm Prydain ac mae bellach yn cael ei ystyried yn llysgennad dros ddatblygu sgiliau yn y sector.

Mewn ymateb i'r camau nesaf yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gwnaethom gyhoeddi "Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus". Bydd y canllawiau hyn yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddod i benderfyniadau hyddysg ynghylch coffáu cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol.

### Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach

Drwy gyflwyno'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, rydym wedi darparu rhaglen gynhwysfawr o gymorth i fusnesau yng Nghymru er mwyn iddynt dyfu eu hallforion. Yn 2023-24, cynhaliodd ein tîm o Gynghorwyr ar Fasnach Ryngwladol dros 1,100 o gyfarfodydd â busnesau yng Nghymru er mwyn eu helpu i ddatblygu eu hallforion; roedd cyfraddau cyfranogi busnesau mewn rhaglenni cymorth i allforio dros 20% yn uwch yn 2023-24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; cynhaliwyd 19 o deithiau masnach/arddangosfeydd mewn marchnadoedd allweddol yng Ngogledd America, Ewrop, y Dwyrain Canol, Asia ac Awstralasia; parhaodd y fenter Clwstwr Allforio i ddatblygu, gyda mwy na 200 o gwmnïau yn cymryd rhan; a llwyddodd carfan arall o fusnesau i gwblhau'r rhaglen Allforwyr Newydd.

Rydym wedi parhau i gynnal gweithgarwch fel rhan o'n hymrwymiad i ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru fel rhan o'r Genhadaeth Economaidd a'r Strategaeth Ryngwladol. Mae hyn wedi cynnwys hyrwyddo cryfderau craidd i fyd diwydiant mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd â ffocws ar sectorau penodol, o Tokyo i San Francisco; gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, sefydliadau, a lluosyddion i hyrwyddo ein datganiadau gwerth a chynnig atebion lleoliad i ymholiadau buddsoddi sydd wedi cynyddu 25% o gymharu â 2022-23. Mae mewnfuddsoddi wedi parhau i sicrhau gwerth sylweddol i economi Cymru lle y cofnodwyd 53 o brosiectau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor i Gymru yn 2023-24 (cynnydd o 13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol), gan greu a diogelu 3,769 o swyddi.

# Yr Economi

### Cymru'n Arloesi

Fel rhan o uchelgais y Rhaglen Lywodraethu i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach, rydym wedi ymgynghori ar y strategaeth genedlaethol drawslywodraethol ar gyfer Arloesi, "Cymru'n Arloesi" ac wedi ei datblygu a'i lansio. Ymysg y camau i'w cymryd ar unwaith, cyhoeddwyd cynllun cyflawni wedi'i dargedu ac mae cynllun cyflawni cydweithredol wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Innovate UK.

Mae tîm Arloesedd Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno Rhwydwaith Menter Ewrop, sy'n denu hyd at £800,000 o gyllid refeniw y flwyddyn (ar yr amod y bydd contractau yn parhau). Rydym wedi lansio pecyn cyllid newydd gwerth £30 miliwn i hybu Arloesedd yng Nghymru; sef Rhaglen Cymorth Arloesi Hyblyg SMART (SMART FIS) gwerth £20 miliwn i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi blaengar newydd a fydd yn gwella bywydau pobl, a Chronfa'r Economi Gylchol ar gyfer Busnes gwerth £10 miliwn i helpu busnesau i symud tuag at economi ddi-garbon net gylchol. Drwy hyn, parhawyd i ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin, datblygu ymchwil ac arloesi ym mhob rhan o Gymru.

### Busnes Cymru

Er gwaethaf yr heriau sy'n codi o ganlyniad i golli cyllid yr UE, erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi entrepreneuriaid ac egin fusnesau o Gymru drwy ei gwasanaeth Busnes Cymru. Yn ystod y flwyddyn, cafodd gwasanaeth Busnes Cymru ei adnewyddu a chaffaelwyd contractwyr newydd i ddarparu agweddau ar y gwasanaeth.

Yn 2023-24, darparodd Busnes Cymru wasanaeth gwybodaeth ac atgyfeirio i bron 38,657 o unigolion a busnesau.

- Cymerodd 78,462 o bobl ifanc o dan 25 oed ran mewn gweithdai ymwybyddiaeth menter a arweinwyd gan entrepreneuriaid o Gymru.
- Cafodd 3,291 o unigolion a oedd yn ystyried dechrau busnes gyngor a chymorth, a arweiniodd at greu 649 o fusnesau newydd.
- Rhoddwyd cymorth i 1,413 o fusnesau er mwyn helpu i ddiogelu 623 o swyddi.
- Crëwyd 1,752 o swyddi drwy gymorth Busnes Cymru.

Gwnaeth llinell gymorth Busnes Cymru ymdrin â 16,603 o ymholiadau a chafodd y wefan 1,578,000 o drawiadau. Drwy gefnogi swyddi a busnesau, erys Busnes Cymru yn gonglfaen o gymorth i fusnesau ym mhob rhan o Gymru.

### Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd

Mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud drwy ddull gweithredu â ffocws i dyfu'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yn y de-ddwyrain. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £6 miliwn mewn pad glanio i ddenu cwmnïau newydd a hwyluso'r broses o ehangu'r rhai yn y rhanbarth. Drwy ddarparu gofod hyblyg ar gyfer swyddfeydd, labordai, ac ystafelloedd glân yn gyfleus bydd hynny'n annog y clwstwr presennol, sy'n cynnal mwy na 2,600 o swyddi ac yn cyfrannu £543 miliwn amcangyfrifedig o Werth Gros Ychwanegol yn economi'r DU, i ehangu.

### Cymoedd Technoleg

Mae Cymoedd Technoleg gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhaglen 10 mlynedd gwerth £100 miliwn, yn cael ei rheoli drwy Fusnes a Rhanbarthau'r De-ddwyrain. Wrth wraidd y rhaglen mae Blaenau Gwent, a'r nod yw y bydd manteision y buddsoddiad yn cael eu gweld yn ardal ogleddol ehangach Cymoedd y De. Ei nod yw manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, gan gefnogi swyddi cynaliadwy, o werth mawr, denu buddsoddiad a chreu cyfleoedd i ranbarth cyfan Cymoedd y De a chreu amgylchedd dysgu a datblygu sgiliau sydd wedi'i deilwra at yr hyn sydd ei angen ar fusnesau.

## Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder

Roedd y gwaith polisi cyfansoddiadol allweddol yn 2023-24 yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer Diwygio'r Senedd yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb yn croesawu adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Roedd adroddiad y Comisiwn ym mis Ionawr 2024 wedi amlinellu cyfres o gasgliadau ac argymhellion i gryfhau democratiaeth yng Nghymru a diogelu a gwella'r setliad datganoli. Gwnaed hynny ar ôl ymgysylltu'n helaeth ag unigolion, grwpiau a chymunedau ledled Cymru a chynnal gwaith dadansoddi gan arbenigwyr. Mae gwaith polisi hefyd wedi cwmpasu cefnogi cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng llywodraethau yn y DU a chynghori Gweinidogion Cymru ar ddeddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, gan gynnwys Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 – er mwyn cefnogi ymrwymiadau craffu i'r Senedd.

Mae gwaith sylweddol hefyd wedi cael ei wneud ar faterion polisi cyfiawnder, gan gynnwys mewn perthynas â datganoli posibl yn y maes hwn yn y dyfodol ac mewn cysylltiad â Diwygio'r Tribiwnlysoedd. O safbwynt gweithredol, parhaodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru i gefnogi'r broses o weinyddu'r chwe Thribiwnlys datganoledig yn effeithiol. Y mwyaf ohonynt yw'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

## Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru

Mae Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru yn cefnogi Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru ac yn arwain y swyddogaeth sy'n ymwneud â rhoi cyngor ar wyddoniaeth i Lywodraeth Cymru drwy strwythur 'prif ganolfan a lloerennau' ac yn cydgysylltu'n agos â Llywodraeth y DU ar faterion gwyddoniaeth a thechnoleg i'r DU gyfan, gan gynnwys technolegau allweddol, newid hinsawdd, gofal iechyd, diogelwch gwladol, sgiliau STEM, bygythiadau pandemig sy'n dod i'r amlwg megis ffliw adar H5N1 mewn gwartheg ac yn y blaen.

Mae'r Swyddfa'n allweddol o ran drafftio cyngor ar wyddoniaeth a thechnoleg i adrannau Llywodraeth Cymru, Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion drwy gasglu, syntheseiddio ac asesu tystiolaeth wyddonol a thechnegol. Mae'r swyddogaeth hon yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys iechyd a gwyddorau bywyd, hinsawdd a'r amgylchedd, yr economi ac ynni a llawer o agweddau eraill.

Mae ein hymwneud â phartneriaid rhyngwladol ar ddiddordebau a rennir ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, gan weithio gyda thîm Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn fodd i arfer pŵer meddal mewn ffordd effeithiol, gan arwain at fanteision yn y tymor hwy i Gymru megis arweinyddiaeth fyd-eang o ran yr Economi Gylchol, denu mewnfuddsoddi a'r dalent orau a chodi proffil rhyngwladol Cymru fel gwlad ddatganoledig. Mae sianeli ar lefel uchel y llywodraeth i gydweithio â Chymru wedi cael eu sefydlu gydag UDA, Canada, Seland Newydd, ac India (fel rhan o fenter Cymru yn India 2024).

Mae tystiolaeth wyddonol gadarn yn sail i bob agwedd ar ymdrechion y llywodraeth ac felly mae angen ei hymgorffori mewn polisïau, strategaethau a phenderfyniadau ynglŷn â buddsoddi a seilwaith – tystiolaeth bendant o'r hyn sy'n arwain at well dealltwriaeth a chanlyniadau. Rôl Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yw cryfhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r llywodraeth er mwyn sicrhau gwell enillion o fuddsoddiadau cyhoeddus i gymdeithas.

## Astudiaeth Achos: **Grŵp Cynllun Gwella'r Gyllideb Cymru Ifanc**




Yn ystod 2023-24, gweithiodd grŵp o'n gwirfoddolwyr Cymru Ifanc ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gydgynhyrchu fersiwn ddwyieithog hawdd ei deall o Gynllun Gwella'r Gyllideb. Mae'r adnoddau a baratowyd wedi'u hanelu at bobl ifanc i'w grymuso i leisio eu barn a dylanwadu ar newidiadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.

Pan ofynnwyd i Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc ar y dechrau a oedd am gymryd rhan, roedd ein gwirfoddolwyr yn awyddus i gychwyn arni. Fel rhan o'r gwaith paratoi, gwnaethant gyfarfod â gweision sifil a swyddogion o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y byddai'r prosiect yn ei olygu. Y nod oedd creu animeiddiad a thaflen a fyddai'n esbonio'n syml Gynllun Gwella'r Gyllideb pum blynedd Llywodraeth Cymru a'r pynciau a gwmpesir ynddo. Er mwyn sicrhau y gallai pobl ifanc ddeall yr eitemau hyn ac ymddiddori ynddynt, byddent yn cael eu creu gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc.

Ym mis Chwefror 2024, gwnaeth Grŵp Cynllun Gwella'r Gyllideb Cymru Ifanc gyfarfod â staff Llywodraeth Cymru gan baratoi'r adnoddau gyda nhw, yn ogystal â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans, i ddathlu ei waith a lansio'r animeiddiad yn swyddogol. Mae ein gwirfoddolwyr ifanc wedi gweithio'n galed i gydgynhyrchu'r deunyddiau hyn, gan gyfathrebu'n rheolaidd â Thîm Dylunio Canolog Llywodraeth Cymru i fraslunio, cynllunio a datblygu taflen[16] a'r animeiddiad[17].

16 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/cynllun-gwellar-gyllideb-2024-2025-fersiwn-gymunedol.pdf
17 Animeiddiad ar Gynllun Gwella'r Gyllideb (YouTube)

## Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

### Gweithrediaeth GIG Cymru

Roedd y Weithrediaeth yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu ac fe'i sefydlwyd ar 1 Ebrill 2023. Mae'r Weithrediaeth yn dwyn ynghyd sawl un o gyrff cenedlaethol presennol GIG Cymru a'u swyddogaethau – gan symleiddio'r trefniadau blaenorol a chyfuno adnoddau i sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal a sicrhau canlyniadau, mynediad a phrofiad gwell a thecach i gleifion. Gan weithio ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Weithrediaeth yn rhoi arweinyddiaeth gadarn, gan alluogi, cefnogi a, lle y bo angen, gyfarwyddo'r GIG yng Nghymru i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r blaenoriaethau a'r safonau cenedlaethol a bennir gan Weinidogion. Nid yw sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru wedi newid mecanweithiau atebolrwydd statudol ac mae pob un o sefydliadau'r GIG yn uniongyrchol atebol i Weinidogion drwy Brif Weithredwr GIG Cymru/Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bu 2023-24 yn flwyddyn bontio i'r Weithrediaeth, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cryfhau ei swyddogaethau, ei threfniadau llywodraethu, y ffordd y mae'n ymgysylltu a'i ffyrdd o weithio.
- Cysoni'r gwaith a'r ymrwymiadau a etifeddwyd, a blaenoriaethu adnoddau i gyflawni yn erbyn y mandad a'r llythyr cylch gwaith[18] gan Lywodraeth Cymru sy'n pennu cyfeiriad ei gwaith.
- Sefydlu model gweithredu i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau, gan gynnwys staff a chyllid.

Ochr yn ochr â hyn, mae ail gam y rhaglen weithredu hefyd wedi parhau yn ystod 2023-24. Mae swyddogaethau ychwanegol wedi cael eu trosglwyddo i'r Weithrediaeth er mwyn rhoi hwb i'w hadnoddau, yn ogystal ag ar gyfer ei pharatoadau i fod yn gwbl weithredol ar ffurf 'busnes fel arfer' o 1 Ebrill 2024.

### Y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae'r rhaglen hon wedi parhau i ddargyfeirio cleifion o adrannau achosion brys ac i wasanaethau eraill, sydd wedi cael canlyniadau sylweddol o ran llwybr cleifion.

Dros ail flwyddyn y rhaglen, mae data'r GIG yn dangos ein bod wedi gweld:

- 11,000 o bobl ar gyfartaledd bob mis yn defnyddio canolfannau gofal sylfaenol brys, gydag 85% yn cael eu trin heb fod angen iddynt fynd i adran achosion brys.
- Perfformiad amser i frysbennu mewn adrannau achosion brys mawr yn ymsefydlogi ar tua 20 munud, gan helpu i gefnogi cyfnodau gofal mwy diogel i gleifion ar gyfer mwy na thri chwarter miliwn o bobl, er gwaethaf y pwysau parhaus a di-baid ar staff adrannau achosion brys.
- Un man cyswllt cenedlaethol, sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ar gyfer iechyd meddwl (GIG 111 Cymru pwyso 2) wedi bod ar waith ers blwyddyn, ac wedi cael mwy na 6,000 o alwadau y mis.
- Mwy na 7,500 o bobl yn cael gwasanaethau gofal mewn argyfwng ar yr un diwrnod bob mis ac mae bron 80% o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar

18 https://gweithrediaeth.gig.cymru/amdanom-ni/docs-amdanom-ni/mandad-a-llythyr-cylch-gwaith-llywodraeth-cymru-i-weithrediaeth-gig-cymru/

yr un diwrnod, yn ôl gwybodaeth reoli byrddau iechyd.

- Lleihau'r cyfnod a dreulir yn yr ysbyty ar gyfartaledd dros y flwyddyn galendr o 8.5 diwrnod (mis Ionawr 2023) i 7 diwrnod (mis Rhagfyr 2023).

Fodd bynnag, mae'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn parhau i wynebu heriau sylweddol a hirdymor o ran cleifion yn aros am gyfnodau hir mewn adrannau achosion brys, trosglwyddo cleifion o ambiwlansys ac amseroedd ymateb ambiwlansys brys.

## Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso

Mae'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso wedi parhau i gefnogi'r ymrwymiad i greu hybiau cymunedol Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig. Mae'n gronfa gyfalaf allweddol, a grëwyd i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ailgydbwyso'r sector gofal, gan gynyddu lefel y ddarpariaeth 'nid er elw'.

Mae wedi cael ei datblygu a'i rheoli mewn ffordd unigryw yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu, ei rheoli, a'i noddi ar y cyd rhwng y cyfarwyddiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhaglen hefyd yn ymgorffori gwerthoedd cydweithio, partneriaeth, cynaliadwyedd, a chynllunio hirdymor yn y system ehangach drwy ei chanllawiau a'i phrosesau cyflawni, gan sicrhau bod cynlluniau cyfalaf strategol 10 mlynedd yn cael eu datblygu ar y cyd drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Hyd yma, dyfarnwyd cyllid buddsoddi gwerth tua £76 miliwn o dan y gronfa i 20 o brosiectau, ac mae 6 arall ar y gweill ac oherwydd llwyddiant y rhaglen, mae Gweinidogion wedi rhoi estyniad o ddwy flynedd i'r gronfa hyd at 2027.

## Gwelliannau o ran canfod canser a gwneud diagnosis

Cwblhawyd y broses o gyflwyno Canolfannau Diagnosis Cyflym i'r boblogaeth gyfan, gan alluogi ymarferwyr cyffredinol i atgyfeirio pobl â symptomau amhenodol i glinig diagnostig siop un stop. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer pob meddygfa er mwyn gwella atgyfeiriadau. Ehangwyd rhaglen sgrinio'r coluddyn i bobl 51-54 oed a chynyddu sensitifedd y prawf, gan ei gwneud yn bosibl canfod ac atal mwy o achosion o ganser y coluddyn.

Agorwyd cyfleusterau endosgopi newydd yng Nghaerdydd a Chasnewydd i wella mynediad at wasanaethau ymchwilio, goruchwylio a sgrinio ar gyfer canser, ac mae mwy o endosgopwyr clinigol wedi cael eu hyfforddi i leddfu pwysau ar y gweithlu. Agorwyd cyfleusterau'r fron newydd ym mwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg ac ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan. Gwnaethom wella cadernid gwasanaethau canser drwy gyflwyno systemau digidol newydd yn lle'r hen system wybodaeth ar gyfer canser. Mae'n cofnodi gwybodaeth am ganfod a thrin canser ac mae wedi dyblu nifer yr archwiliadau clinigol cenedlaethol ar gyfer canser.

Ailwampiwyd safonau mynediad at radiotherapi, gan arwain at newid dramatig mewn mynediad at driniaeth. O'r blaen, roedd pobl yn aros mwy na 28 diwrnod o'r penderfyniad i drin i ddechrau radiotherapi arferol, ond mae'r rhan fwyaf bellach yn dechrau o fewn 21 diwrnod; mae'r mwyafrif helaeth o gleifion brys yn dechrau triniaeth o fewn 24 awr. Rydym wedi cyflwyno rhaglen £2 miliwn i gefnogi adferiad o ran perfformiad amseroedd aros ar gyfer canserau gynaecolegol, wrolegol a'r bibell gastroberfeddol isaf.

## Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol/Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio

Mae lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a llesiant o ansawdd uchel. Mewn blwyddyn anodd oherwydd costau byw, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl da. Rydym wedi datblygu

strategaethau Iechyd Meddwl[19] ac Atal Hunanladdiad[20] newydd, gan adeiladu ar waith y strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a'r strategaeth 'Siarad â Fi 2'. Nod y ddwy strategaeth yw chwyldroi'r ffordd rydym yn meddwl am Iechyd Meddwl a sicrhau mynediad, profiad a chanlyniad teg i'r rhai sydd angen ein gwasanaethau iechyd meddwl.

## Y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth

Darparwyd £4.5 miliwn gennym er mwyn gweithredu i fynd i'r afael ag amseroedd aros, profi ffyrdd newydd o weithio a datblygu cymorth i blant, pobl ifanc, oedolion a'u teuluoedd cyn ac ar ôl cael diagnosis.

Yn 2023-24 rydym wedi gwneud y canlynol:

- Mynd ati i ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan roi arweiniad a chymorth.
- Sefydlu Cymuned Ymarfer Niwrowahaniaeth i Blant, Grŵp Llywio Niwrowahaniaeth i Blant a Grŵp Llywio ADHD i Oedolion i sbarduno gwelliannau.
- Cwblhau cam cyntaf gwerthuso effaith y Cod Ymarfer ar Awtistiaeth.
- Comisiynu Gweithrediaeth y GIG i gynnal a chwblhau adolygiad cenedlaethol o Wasanaethau Niwroddatblygiadol Plant.
- Cynnal arolwg o'r gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, a arweiniodd at Weithdy i'r Gweithlu i Gymru Gyfan ym mis Mawrth 2024.
- Comisiynu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited) i gynnal a chwblhau prosiect darganfod ynglŷn â chyfleoedd arloesi digidol.
- Ymgysylltu'n drawslywodraethol ar raddfa sylweddol er mwyn sicrhau dull system gyfan, gan weithio gyda chydweithwyr polisi ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, Dull Ysgolion Cyfan, Iechyd Meddwl, y Blynyddoedd Cynnar, Camddefnyddio Sylweddau, y Gwasanaeth Prawf, Cyfiawnder Troseddol a NYTH.

## Trawsnewid Gwasanaethau Plant

Mae'r Rhaglen Drawsnewid yn cynnig cymorth i blant er mwyn iddynt allu aros gyda'u teuluoedd yn hytrach na dod yn rhan o'r system gofal.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno darpariaethau i ddileu darpariaeth er elw ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal o 2026 o dan y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae hyn yn sail i gynlluniau i ailgydbwyso gofal a chymorth yn ôl angen a mynd i'r afael â'r farchnad gofal a chymorth ddrud a chamweithredol.
- Cyhoeddi ein Siarter Rhianta Corfforaethol.
- Sicrhau £1.5 miliwn o gyllid yn ystod tymor y Senedd hon drwy'r Gronfa Newid Plant â Phrofiad o Ofal i gyflwyno'r gwasanaethau eirioli presennol i rieni ar raddfa addas ledled Cymru.
- Parhau i gefnogi Maethu Cymru; yn ystod 2023-24, darparwyd £2.3 miliwn i gynnal ei seilwaith cenedlaethol, cefnogi gweithgareddau marchnata, galluogi recriwtio swyddogion recriwtio penodedig ym mhob awdurdod lleol, gwella'r ffordd y cwblheir asesiadau o ofalwyr maeth a gwella adnoddau cymorth.
- Ymgysylltu â mwy na 190 o randdeiliaid yn ystod y broses o lunio a chyflwyno gwaith yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, sef enghraifft unigryw sy'n arwain y byd o ran sut rydym, drwy gydweithio a chydgynhyrchu ar draws ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol, wedi mynd i'r afael â phroblem gymhleth a rennir ac wedi cyflwyno ateb symlach a rennir gan roi'r person, teuluoedd, a chymunedau wrth wraidd y newid hwn i'r ffordd rydym yn gweithredu.

19 https://www.llyw.cymru/strategaeth-ddrafft-iechyd-meddwl-llesiant-meddyliol
20 https://www.llyw.cymru/strategaeth-ddrafft-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio

## Astudiaeth Achos: **Rheoliadau Lleoli Bwyd (Cymru), y Ddeddfwriaeth 'Amgylchedd Bwyd Iach'**



Mae'r Grŵp wedi mynd ati i ddatblygu cynigion ynglŷn â gwneud yr amgylchedd manwerthu bwyd yn iachach yng Nghymru, gan sicrhau mai'r dewis iach yw'r dewis hawdd.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ddatganiad i'r Senedd ar 27 Mehefin 2023 o ran ei bwriad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cyfyngu ar leoli a hyrwyddo bwydydd llawn braster, halen a siwgr yng Nghymru. Dyma benllanw dros flwyddyn o waith paratoi, gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau allanol, wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid ac ymgynghori ar-lein helaeth.

Ymgymerwyd â gweithgarwch ymgysylltu manwl o ansawdd uchel â rhanddeiliaid drwy'r diwydiant cyfan, gan weithredu mewn ysbryd o bartneriaeth a chydgynhyrchu i ddysgu o'r heriau a gafwyd wrth roi rheoliadau tebyg ar waith yn Lloegr. Mae'r gwaith wedi bod yn gydweithredol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yn cydbwyso tegwch rhwng argyfwng iechyd y cyhoedd a wynebwn o ganlyniad i ordewdra, a'r effaith ar fusnesau yma yng Nghymru a'r tu hwnt.

## Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg



Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

### Prydau Ysgol am Ddim

Ym mis Tachwedd 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i estyn prydau ysgol am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd drwy'r Cytundeb Cydweithio. Adeiladwyd tîm newydd, gan fanteisio ar arbenigedd secondeion o awdurdodau lleol ac uno partneriaid ar draws ffiniau sefydliadol. Sefydlwyd bwrdd portffolio i harneisio adnoddau trawslywodraethol, sicrhau trefniadau llywodraethu da, a chysoni polisi â'r broses gyflawni yn strategol.

Mae'r Tîm Bwyd mewn Ysgolion wedi gweithio'n gyflym, gyda chreadigrwydd a phroffesiynoldeb a thrwy gydweithio â phartneriaid cyflawni, er mwyn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynraddd ledled Cymru. Hyd yma, mae 22 miliwn o brydau ysgol am ddim ychwanegol wedi cael eu gweini o dan y polisi hwn. Mae'r ymyriad trawsnewidiol hwn yn anelu at drechu tlodi a llwgu ymhlith plant, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a chryfhau ein heconomi sylfaenol, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i fywydau pobl Cymru.

Er gwaethaf tirwedd ariannol tra heriol, mae wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac roedd 19 o'r awdurdodau lleol wedi rhagori ar gerrig milltir cenedlaethol hyd at fis Ebrill 2024 drwy gynnig prydau ysgol am ddim i bob grŵp blwyddyn. Er mwyn parhau i ateb y galw cynyddol am brydau ysgol am ddim, mae ein hymgyrch gyfathrebu sy'n cynnwys dros 33 miliwn o hysbysebion/postiadau, yn parhau i dynnu sylw at y cymorth ychwanegol sydd ar gael i "Hawlio help gyda chostau ysgol".

### Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae Rhaglen Gyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi bod yn buddsoddi yn yr ystad ysgolion a cholegau bob blwyddyn ers 2014 (y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif gynt hyd at fis Ionawr 2022). Mae'r rhaglen yn seiliedig ar gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Colegau Cymru a'r Cyfarwyddwyr Esgobaethol. Mae'r trefniant cydweithredol hwn yn enghraifft lwyddiannus o gydadeiladu gwirioneddol a chysylltiadau canolog-lleol.

Rydym hefyd yn cyflawni mewn partneriaeth â ffrydiau cyllid cyfalaf eraill Llywodraeth Cymru megis: y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg; y Grant Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar; Grant Ysgolion Bro, Technoleg Addysg, grant Anghenion Dysgu Ychwanegol, grant Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, a grant Atgyweiriadau Sylweddol i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir er mwyn sicrhau bod dull trawsbynciol a chydgysylltiedig o lunio rhaglenni buddsoddi yn ein hystad addysgol.

Bydd 2024-25 yn nodi chweched flwyddyn Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda gwariant o £1.213 biliwn hyd yma ar y Seilwaith Addysg ers 2019-20. Bydd y rhaglen yn parhau yn 2024-25, gan bontio i raglen dreigl 9 mlynedd o brosiectau â blaenoriaeth gan bartneriaid cyflawni, a gofynnwyd i awdurdodau lleol a cholegau gyflwyno cynlluniau erbyn 31 Mawrth 2024. Bydd y newid hwn i'r ffordd rydym yn gweithredu yn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â blaenoriaethau yn y dyfodol ac yn helpu gyda phroffilio ariannol prosiectau yn y dyfodol ac mae'n cefnogi'r dull cydadeiladu, sy'n galluogi partneriaid cyflawni i gyflwyno prosiectau yn unol â blaenoriaethau a gofynion lleol.

## Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Ar 24 Mai 2023, aeth y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd ati i selio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn swyddogol, gan gyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Hon oedd y ddeddf gyntaf yng Nghymru i gael y Cydsyniad Brenhinol gan y Brenin Charles III.

Bydd yn annog gwell prosesau gwneud penderfyniadau, yn gwella gwasanaethau cyhoeddus ac yn cael effaith bellgyrhaeddol ar wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'n golygu y bydd gweithwyr yn cael mwy o gyfle i lunio polisïau a blaenoriaethau strategol ar lefel llywodraeth genedlaethol ac mewn rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ac mae'n creu dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol ar gyrff cyhoeddus er mwyn i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi datblygu cynaliadwy a gwell llesiant.

Ar lefel genedlaethol, sefydlodd y Ddeddf y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, caffael cymdeithasol gyfrifol a gwaith teg.

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Corff hyd braich newydd yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sy'n gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg ôl-16 ac ymchwil. Fe'i sefydlwyd ar 4 Medi 2023.

Mae'n goruchwylio addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, chweched dosbarth ysgolion, dysgu oedolion a dysgu seiliedig ar waith yn ogystal ag ymchwil ac arloesi. Dyma'r tro cyntaf y bydd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu rheoli a'u cydgysylltu gan un corff yng Nghymru. Bydd buddiannau dysgwyr wrth wraidd ei waith a bydd yn cydweithio â'r sector cyfan i wella canlyniadau unigol a chenedlaethol. Daw yn gwbl weithredol ym mis Awst 2024. Bryd hynny, bydd y cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau perthnasol yn trosglwyddo i'r Comisiwn.

Caiff gweledigaeth y Comisiwn ei llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y nod yw gweld system Addysg Drydyddol ac Ymchwil gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n un hawdd i ddysgwyr ei deall, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, sy'n creu cymdeithas hyfedr, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sydd ag enw da yn fyd-eang am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sydd â chenhadaeth ddinesig wrth wraidd ei gwaith. Drwy hyn, bydd dysgwyr yn gallu symud yn ddi-dor o addysg orfodol i addysg drydyddol, gan adeiladu ar ein cenhadaeth genedlaethol i ddiwygio addysg.

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cenedl wrth-hiliol erbyn 2030. Mae nodau a chamau gweithredu ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'u hymgorffori drwy'r llywodraeth gyfan, gan rychwantu bron bob un o feysydd y llywodraeth. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf[21] wedi cael ei gyhoeddi i ddangos y cynnydd cyffredinol gan y portffolios.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn wahanol iawn i gynlluniau cydraddoldeb hil blaenorol, o ran y ffordd y cafodd ei ddatblygu a'i roi ar waith. Cafodd ei gydgynhyrchu â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae fframwaith llywodraethu cadarn wedi cael ei sefydlu sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r cynllun a gwell canlyniadau ym mywydau pobl ethnig leiafrifol ledled Cymru. Mae 11 o Gynrychiolwyr Amrywiaeth ac wyth Arbenigwr drwy Brofiad wedi cael eu cynnwys, gan sicrhau y caiff ein camau gweithredu eu llywio gan brofiadau bywyd ac arbenigedd. Mae'r dull cydweithredol hwn

21 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-11/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-adroddiad-blynyddol-2022-i-2023_0.pdf

yn newid arwyddocaol yn y ffordd y mae'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dwyn yn atebol.

Rhoddwyd blaenoriaeth i ddyrannu adnoddau, gyda thîm gweithredu aml-hil llawn a thrwy sefydlu'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, gan sicrhau ein bod yn cael ein llywio gan ddata wrth inni fynd i'r afael â hiliaeth. Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi cael ei gryfhau drwy weminarau misol a chreu pedwar fforwm rhanbarthol.

O dan arweiniad Dr Andrew Goodall a'r Athro Emmanuel Ogbonna, mae'r Grŵp Atebolrwydd Allanol wedi rhoi arbenigedd, profiad bywyd a her gadarn ac adeiladol. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond mae sylfeini cadarn wedi cael eu gosod ac rydym yn ymrwymedig i barhau i wneud gwelliannau i greu Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030.

## Deddfwriaeth Llywodraeth Leol

Cyflwynodd y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol ddau ddarn o ddeddfwriaeth flaenllaw gerbron y Senedd y flwyddyn hon ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r nod o hyrwyddo agenda tegwch ac ymgysylltu democrataidd Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Cyflwynwyd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ym mis Hydref 2023 a bydd yn cryfhau gweinyddiaeth etholiadol, yn lleihau rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau ac yn cynyddu amrywiaeth pobl sy'n cael eu hethol i lywodraeth leol a'r Senedd. Mae'n galluogi cofrestru etholiadol heb gais, yn creu Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol annibynnol, ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau a chymorth ariannol i ymgeiswyr o gymunedau heb gynrychioliaeth ddigonol.

Cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ym mis Tachwedd 2023 fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio trethi lleol. Bydd y Bil yn helpu i ddiwygio ardrethi annomestig ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ymateb yn well ac yn gyflymach i amgylchiadau a blaenoriaethau lleol sy'n newid yn y dyfodol ac ailbrisio trethi lleol yn amlach.

## Wcráin

Gan adeiladu ar y cydweithrediad mewnol ac allanol llwyddiannus a ddatblygwyd yn ystod y camau cychwynnol o'n Hymateb Dyngarol Brys i Wcráin, gwnaethom barhau i ymateb i'r argyfwng a oedd yn mynd rhagddo yn Wcráin yn ystod 2023-24. Canolbwyntiwyd ein hymdrechion ar leihau'r ystad llety cychwynnol a helpu'r rhai a gyrhaeddodd yma i symud i lety cynaliadwy mwy hirdymor a roddodd gyfle iddynt fwrw gwreiddiau mewn cymunedau lleol.

Drwy ymrwymiad y tîm a chydberthnasau gwaith ardderchog â'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector, roeddem yn gallu gwneud yn well na'r disgwyl a helpu i adsefydlu mwy na 7,000 o bobl.

Gwnaethom nodi adroddiad Archwilio Cymru ar Gefnogi Pobl Wcráin yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, ac ymateb iddo, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o'r ymateb cychwynnol yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar waith mewn cynlluniau wrth gefn yn y dyfodol.

## Astudiaeth Achos: **Ymgyrch Yma i Helpu**




Roedd ein hymgyrch Yma i Helpu yn rhan hanfodol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw. Roedd yr ymgyrch, a gafodd ei llunio a'i chyflwyno o fewn chwe mis yn unig, ar gais Gweinidogion, yn defnyddio nifer o sianeli i dargedu unigolion a theuluoedd mewn grwpiau incwm is/grwpiau â blaenoriaeth am eu bod yn wynebu risg.

Gan godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau amrywiol nad ydynt yn cael eu hawlio'n llawn, cafodd yr ymgyrch ei chreu mewn partneriaeth ag Advicelink Cymru. Yn sgil y negeseuon, y sianeli a'r partneriaethau a grëwyd, cysylltodd miloedd o bobl â'r llinell gymorth, gan sicrhau buddion sylweddol o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru.

Yn ystod hydref 2023, gwnaeth yr argyfwng costau byw ddwysáu wrth i aelwydydd ddechrau wynebu codiadau mawr mewn biliau ynni ynghyd â chostau bwyd a hanfodion eraill yn cynyddu. Roedd y Gweinidogion yn awyddus i ddangos bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gyflym wrth i'r sefyllfa waethygu. Un rhan allweddol o'r ymateb hwn oedd sicrhau bod pobl, na fyddai llawer ohonynt yn ceisio cymorth na chyngor fel arfer, yn ymwybodol o'r budd-daliadau a oedd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yr oedd ganddynt hawl iddynt ac yn gwybod ble i fynd i gael cymorth.

Gwnaethom greu ymgyrch genedlaethol i gyfeirio pobl at linell gymorth arbennig ein partneriaid yn yr ymgyrch, Advicelink Cymru. Gwnaeth hyn sicrhau y byddai ymgeiswyr, y byddai llawer ohonynt yn cael trafferth hawlio budd-daliadau, yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr drwy eu proses hawlio.

Gyda miloedd o bobl yng Nghymru yn tanhawlio budd-daliadau, gwnaethom bennu targed y byddai swm ychwanegol o £3,000,000 mewn budd-daliadau yn cael ei hawlio y flwyddyn. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu gan gynnydd o 20% yn nifer y bobl a oedd yn cysylltu ag Advicelink Cymru o gymharu â'r cyfnod pan nad oedd yr ymgyrch yn cael ei chynnal. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gwnaeth cynghorwyr Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi helpu mwy na 36,800 o bobl, gyda mwy na 120,000 o faterion. Cafodd pobl eu helpu i hawlio dros £10.4 miliwn mewn incwm ychwanegol.

## Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu



Mae cyflawniadau allweddol Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer 2023-24 yn cynnwys y canlynol:

### Cyhoeddi Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y cyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)[22] ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)[23] gyda'i gilydd, wedi cyhoeddi Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y cyd. Nod y strategaeth yw gwella mynediad pobl at ofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant yng Nghymru, a gwella ansawdd eu profiad o'r gwasanaethau hynny. Cafodd y strategaeth ei datblygu gan weithgor ar y cyd gan yr arolygiaethau a'i llywio drwy ymgynghori'n barhaus ar bob cam ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai â phrofiadau bywyd o ddefnyddio gwasanaethau.

Ymgynghorodd y ddwy arolygiaeth â'u staff yn fewnol drwy amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o nodi'r camau gweithredu y mae angen inni eu cymryd i gyflawni ein hamcanion strategol, a sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein nodau drwy fesurau o lwyddiant.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad i ddeall yn well brofiadau pobl o bob cefndir o iechyd a gofal, ac adlewyrchu llais y bobl yn well. Bydd y strategaeth yn gwella cysylltiadau a'r gallu i rannu gwybodaeth, gan gynnwys arferion da er mwyn gwella ansawdd gofal a ddarperir ledled Cymru. Mae'n ategu cynlluniau cydraddoldeb presennol Llywodraeth Cymru o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac yn cyd-fynd â nhw, ac yn cefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

### Cyflwyno rheolau cymorthdaliadau'r DU

Ym mis Ionawr 2023, cyflwynwyd cyfundrefn cymorthdaliadau newydd y DU, a oedd yn cyflwyno cyfres o newidiadau cymhleth o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cymorthdaliadau. Roedd Uned Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am roi'r gyfundrefn hon ar waith ar ran Llywodraeth Cymru ac am weithio gydag awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i'w cynorthwyo gyda'r gyfundrefn newydd. Datblygodd y tîm gynllun gweithredu cadarn ac mae wedi parhau i adeiladu rhwydweithiau ag awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn cael cefnogaeth lawn.

Mae'r tîm wedi cynnal sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb i grwpiau mawr megis awdurdodau lleol ac yn fewnol i Lywodraeth Cymru ac wedi cyhoeddi erthyglau newyddion yn rheolaidd ar y fewnrwyd, gan roi diweddariadau wrth i'r gyfundrefn ddod yn rhan o fusnes fel arfer. Mae hefyd wedi datblygu presenoldeb ar reoli cymorthdaliadau ar y we i Lywodraeth Cymru, sy'n rhoi gwybodaeth am y rheolau ynglŷn â chymorthdaliadau, yn cynnal cofrestriadau cynllun cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu fel porth i adroddiadau ar dryloywder i Gymru ac yn rhoi cymorth i swyddogion polisi. Mae'r olaf wedi cynnwys datblygu atgyfeiriadau o Gymorthdaliadau o Ddiddordeb Arbennig i Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau Llywodraeth y DU.

22 https://www.agic.org.uk/
23 https://www.arolygiaethgofal.cymru/

Mae'r tîm yn parhau i gydweithio â swyddogion Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill, gan adeiladu rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod y canllawiau statudol newydd yn cael eu datblygu mewn ffordd gyson. O ganlyniad uniongyrchol i waith yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddyfarnu cymorthdaliadau sy'n cefnogi busnes ac arloesedd o dan y gyfundrefn newydd, gan hyrwyddo cystadleurwydd a buddsoddiad i Gymru.

## Sicrhau effeithlonrwydd drwy Biblinellau Dadansoddol Atgynyrchadwy

Mae data o ansawdd da yn hollbwysig o ran cyflawni gweithredol, datblygu polisïau a galluogi craffu. Yn draddodiadol, mae prosesu'r data hyn wedi bod yn dasg hir ac yn un a oedd yn cael ei gwneud â llaw, gyda'r posibilrwydd y byddai camgymeriadau'n codi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ystadegwyr a gwyddonwyr data wedi cydweithio i roi prosesau awtomataidd ar waith, a elwir yn "biblinellau dadansoddol atgynyrchadwy" sydd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn amrywiaeth eang o ystadegau.

Mae'r newid o brosesau â llaw, fel copïo a gludo neu ddefnyddio cronfeydd data a thaenlenni, i brosesau awtomataidd sy'n defnyddio cod wedi arwain at arbed yr hyn sy'n cyfateb i chwe wythnos o amser mewn pedwar prosiect, gyda llawer mwy o brosiectau wrthi'n cael eu datblygu. Ymhlith y manteision ychwanegol mae gwelliannau o ran ansawdd, sgiliau a galluogrwydd, a mwy o gadernid a gwell morâl. Mae hyn wedi golygu bod modd i ddadansoddwyr ganolbwyntio ar waith â gwerth ychwanegol a rhoi mewnwelediadau, yn hytrach na threulio amser ar brosesu y tu ôl i'r llenni.

## Dull Cymru'n Un o ymdrin â gwybodaeth data geo-ofodol cenedlaethol

Mae MapDataCymru yn ffynhonnell ar gyfer data'r sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnig llwyfan data a rennir i aelodau'r cyhoedd ac awdurdodau lleol ar gyfer setiau data agored sy'n amrywio o ffyrdd 20 mya, cynllunio morol, toiledau cyhoeddus i deithio llesol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y setiau data agored ar y llwyfan wedi cynyddu o 500 i tua 600.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae MapDataCymru wedi bod yn allweddol i nifer o fentrau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, drwy helpu i gyhoeddi mapiau o domenni glo ynghyd â dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol a dosbarthiadau o safleoedd y mae angen eu harchwilio'n fynych; er mwyn i aelodau o'r cyhoedd fod yn ymwybodol o ble mae tomenni glo nas defnyddir, a'r gwaith rydym ni a'n partneriaid yn ei wneud o ran diogelwch tomenni glo. Er mwyn cefnogi'r ddeddfwriaeth 20 mya newydd, gwnaethom gyhoeddi manylion ffyrdd sy'n esempt o 20 mya gan bob awdurdod lleol, a ddefnyddiwyd yn helaeth yn y cyfryngau cenedlaethol.

Gwnaethom welliannau pellach ar ffurf nodweddion a setiau data ychwanegol ar gyfer cymhwysiad JIGSO MapDataCymru er mwyn helpu'r gymuned cydnerthedd i allu ymateb i argyfyngau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â newid hinsawdd yn cynnwys adnodd newydd i awdurdodau lleol sy'n defnyddio haenau a chyfrifiadau perthnasol i gynnig senarios deallus mewn cysylltiad â newid defnydd tir ac atafaelu carbon.

## Astudiaeth Achos: **Caffael Cydweithredol Prynu Cerbydau Trydan: Sbarduno Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd**



Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi dechrau menter caffael cydweithredol arloesol i drosglwyddo eu fflydoedd o gerbydau diesel i gerbydau trydan. O dan arweinyddiaeth tîm Caffael Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu ynghyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae arbedion sylweddol o ran costau a charbon wedi cael eu gwneud.

Wrth geisio prynu cerbydau trydan, roedd awdurdodau unigol yn wynebu sawl problem o ganlyniad i gostau cynyddol, cyfnodau aros hir, a chanslo archebion yn aml. Gan gydnabod y potensial i arfer eu pŵer prynu ar y cyd, daeth yr awdurdodau ynghyd i greu archeb mwy o faint a mwy atyniadol i gyflenwyr gyda'r uchelgais o wneud arbedion cost, lleihau cyfnodau aros a safoni cerbydau drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Bu hon yn broses heriol gan nad oedd neb wedi ceisio dechrau menter gydweithredol i brynu cerbydau trydan ar y raddfa hon o'r blaen.

Gweithiodd tîm caffael Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu gyda'r 12 awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan i ddatblygu'r strategaeth gaffael a'r ddogfennaeth dendro, gyda chymorth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a ddatblygodd fanylebau cerbydau. Chwaraeodd Cymdeithas Trysoryddion Cymru rôl allweddol hefyd o ran hwyluso cydweithrediad rhwng yr awdurdodau a oedd yn cymryd rhan.


Roedd FleetEV, BBaCh sydd wedi'i leoli yng Nghymru ac sy'n arbenigo mewn cerbydau trydan, yn llwyddiannus ar ôl ymarfer caffael agored. Mae'r ymarfer caffael cydweithredol wedi sicrhau canlyniadau nodedig:

- Mae £660,000 mewn costau wedi cael ei arbed yn seiliedig ar yr archeb gychwynnol o 236 o gerbydau.
- Mae nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan wedi cynyddu i 20 erbyn hyn.
- Bydd mwy na 300 o gerbydau yn cael eu harchebu.
- Llai o allyriadau – bydd 210 tunnell o lygryddion $CO_2e$ yn cael ei ddileu.
- Mae difidend gwerth cymdeithasol o £2.8 miliwn wedi cael ei sicrhau drwy gadwyni cyflenwi lleol.
- Mae FleetEV yn rhoi hyfforddiant ar sgiliau busnes a bywyd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

# Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid

## Llifoedd cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2022-23 y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n defnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2023 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig. Y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yw'r trethi lleol.




## Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid y llywodraeth, trethiant a dyraniadau ar lefel y Prif Grwpiau Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth. Mae manylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[24]. Caiff y Gyllideb ei hategu gan:

- Adroddiad y Prif Economegydd[25]
- Yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru[26]
- Y Rhagolwg Trethi Cymreig[27]

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad ar gyfer y fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig ar wefan Llywodraeth Cymru[28].

24 https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
25 https://www.llyw.cymru/cyllideb-cymru-2023-adroddiad-y-prif-economegydd
26 https://www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-rhagfyr-2023
27 https://obr.uk/wto/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2023/
28 https://www.llyw.cymru/trethi-cymru

## Benthyciadau Gweinidogion Cymru

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd bob blwyddyn. Mae benthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol yn ad-daladwy dros 25 mlynedd, a bydd cyfradd llog sefydlog yn cael ei thalu ar bob cyfran o'r benthyciad, sef cyfradd llog y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar gyfer Benthyciadau Newydd Ad-dalu Cyfartal ar y diwrnod y benthycir y swm.

Cafodd y pwerau benthyca eu harfer am y tro cyntaf yn 2018-19, pan dalwyd £65 miliwn i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ac yna £150 miliwn yn 2022-23. Yn 2023-24, talwyd benthyciad pellach o £125 miliwn i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

Ar 31 Mawrth 2024, y balans sy'n weddill yw £494 miliwn (31 Mawrth 2023: £297 miliwn). Ceir rhagor o wybodaeth am y benthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol yng Nghyfrifon Cronfa Gyfunol Cymru.

## Blwyddyn o her ariannol

Yn ystod 2023-24, wynebodd Llywodraeth Cymru gryn bwysau ariannol, yn bennaf o ganlyniad i'r lefelau uchaf erioed o chwyddiant. Roedd hyn yn golygu bod y gyllideb £900 miliwn yn is mewn termau real o gymharu â'r adeg y pennwyd y gyllideb gan Lywodraeth y DU yn ystod yr adolygiad o wariant diwethaf yn 2021.



O ganlyniad, dros gyfnod mis Awst a mis Medi 2023, gwnaeth swyddogion gynorthwyo Gweinidogion i adolygu'r holl gynlluniau gwariant cyfredol er mwyn nodi'r newidiadau roedd eu hangen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cadw ei gwariant o fewn y cyllid a oedd ar gael. Roedd y gwaith yn seiliedig ar set o egwyddorion clir a amlinellwyd gan y Cabinet, a oedd yn anelu at sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu hyd y gellir a sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd roedd yr argyfwng costau byw yn effeithio arnynt fwyaf. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i bwysigrwydd diogelu swyddi.

Arweiniodd y newidiadau y cytunwyd arnynt at gynnydd sylweddol mewn cyllid ar gyfer GIG Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Roeddent hefyd yn diogelu'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol. Er mwyn cyflawni hyn, cytunodd portffolios Gweinidogol eraill i gyfrannu at leddfu'r pwysau. Roedd yr arbedion a sicrhawyd yn y portffolios eraill hyn yn deillio'n bennaf o ail-lunio rhagolygon, gwneud y defnydd gorau o incwm, ac ailflaenoriaethu yn hytrach na rhoi'r gorau i raglenni gwaith.

Hefyd, cytunodd y Cabinet i wneud cymaint o ddefnydd â phosibl o gronfeydd wrth gefn Cymru yn y flwyddyn ond gan gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn, wedi'i gynllunio ar sail defnyddio symiau canlyniadol a ddisgwylid gan Lywodraeth y DU. Gofynnwyd am gael newid o gyfalaf i refeniw ond gwrthodwyd hynny gan Lywodraeth y DU ar y pryd.

Er gwaethaf yr awgrym drwy gydol y flwyddyn gan Lywodraeth y DU ar y pryd na ddylid disgwyl fawr ddim cyllid ychwanegol, ym mis Chwefror 2024, hysbyswyd Llywodraeth Cymru y byddai'n cael refeniw ychwanegol o £231 miliwn ar ffurf symiau canlyniadol Barnett a oedd yn codi o wariant ychwanegol yn adrannau Llywodraeth y DU. Er nad oedd hyn yn rhoi fawr ddim amser inni, gwnaeth y cyllid liniaru effaith y penderfyniad i wrthod y newid o gyfalaf i refeniw.

O ganlyniad i'r camau gweithredu penderfynol a gymerwyd gan y Cabinet ac er bod 2023-24 yn un o'r sefyllfaoedd ariannol mwyaf anodd a wynebwyd ers datganoli, llwyddodd Llywodraeth Cymru i gadw ei gwariant o fewn y gyllideb.

Cyhoeddir manylion am ddiwygiadau 2023-24 i wariant cyllideb gyffredinol 2023-24 a gynlluniwyd ar wefan Llywodraeth Cymru[29].

## Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant Llywodraeth Cymru yn 2023-2024. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb.

Mae 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

### Dyma 10 prif faes gwariant y gyllideb refeniw yn 2023-24:



Alldro Refeniw LLC:
**£19,462m**

Cyfanswm y 10 prif faes:
**£16,245m**

**83%** o'r gyllideb refeniw

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Craidd y GIG | £9,325m | 48% |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | £4,504m | 23% |
| Darpariaeth Addysg Ôl-16 | £580m | 3% |
| Trafnidiaeth Cymru | £326m | 2% |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | £302m | 2% |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | £299m | 2% |
| Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni | £257m | 1% |
| Taliadau Uniongyrchol PAC | £234m | 1% |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | £215m | 1% |
| Gwariant Rhaglenni CCAUC | £203m | 1% |

### Dyma 10 prif faes gwariant y gyllideb gyfalaf yn 2023-24:



Alldro Cyfalaf LLC:
**£3,171m**

Cyfanswm y 10 prif faes:
**£2,588m**

**82%** o'r gyllideb gyfalaf

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth Cymru | £638m | 20% |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | £540m | 17% |
| Dyraniadau Craidd y GIG | £415m | 13% |
| Seilwaith Addysg | £343m | 11% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | £194m | 6% |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith (Ffyrdd) | £127m | 4% |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai) | £104m | 3% |
| Bargeinion Dinas a Thwf | £89m | 3% |
| Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd | £72m | 2% |
| Teithio Cynaliadwy a Cherdded a Beicio | £66m | 2% |

29 https://www.llyw.cymru/diweddariad-ar-sefyllfa-ariannol-2023-2024-crynodeb-or-prif-newidiadau

**Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 prif faes gwariant refeniw y flwyddyn hon:**

Nid oes unrhyw Linellau Gwariant newydd yn y Gyllideb yn y 10 prif faes gwariant refeniw ar gyfer 2023-24. Yr un yw'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, sef gwariant ar y GIG, Llywodraeth Leol, Addysg, Trafnidiaeth, Ffermio a chostau staff nad ydynt yn staff rhaglenni i redeg Llywodraeth Cymru.

Ceir rhai mân newidiadau yng nghyfran ganrannol pob Llinell Wariant yn y Gyllideb o gyfanswm gwariant refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol, yn bennaf cynnydd yn nyraniad Trafnidiaeth Cymru a lleihad yn Nyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG ond mae'r 10 prif Linell Wariant yn y Gyllideb yn cyfrif am yr un gyfran ganrannol o gyfanswm gwariant refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn.

**Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 prif faes gwariant cyfalaf y flwyddyn hon:**

Yr unig Linell Wariant newydd yn y Gyllideb o blith y 10 prif faes gwariant cyfalaf ar gyfer 2023-24 yw Teithio Cynaliadwy a Cherdded a Beicio sydd wedi gweld cynnydd yn ei gwariant o £12.1m o 2022-23, gan gynnwys buddsoddiad Teithio Llesol i gefnogi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.

Mae Llinellau Gwariant y 10 prif faes gwariant cyfalaf wedi cynyddu i 82% o wariant cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y Grant Tai Cymdeithasol, Trafnidiaeth Cymru a Dyraniadau Cyfalaf Craidd y GIG.

**Er mwyn cymharu, dyma 10 prif faes gwariant y gyllideb refeniw yn 2022-23:**

Alldro Refeniw LLC:
**£18,249m**

Cyfanswm y 10 prif faes:
**£15,066m**

**83%** o'r gyllideb refeniw

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Craidd y GIG | £8,736m | 48% |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | £3,979m | 22% |
| Darpariaeth Addysg Ôl-16 | £579m | 3% |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | £310m | 2% |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | £281m | 2% |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | £247m | 1% |
| Trafnidiaeth Cymru | £243m | 1% |
| Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni | £243m | 1% |
| Taliadau Uniongyrchol PAC | £237m | 1% |
| Gwariant Rhaglenni CCAUC | £209m | 1% |

**Er mwyn cymharu, dyma 10 prif faes gwariant y gyllideb gyfalaf yn 2022-23:**

Alldro Cyfalaf LLC:
**£2,792m**

Cyfanswm y 10 prif faes:
**£2,177m**

**78%** o'r gyllideb gyfalaf

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth Cymru | £566m | 20% |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | £376m | 13% |
| Dyraniadau Craidd y GIG | £356m | 13% |
| Seilwaith Addysg | £350m | 13% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | £150m | 5% |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai) | £104m | 4% |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith (Ffyrdd) | £92m | 3% |
| Bargeinion Dinas a Thwf | £66m | 2% |
| Diogelwch Adeiladau | £62m | 2% |
| Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd | £55m | 2% |

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys EF yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a Thrysorlys EF sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau hyn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O'r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau roedd £1,143 miliwn neu 85% (2022-23: £391 miliwn, 80%) yn ymwneud â Benthyciadau i Fyfyrwyr a roddwyd yn cynnwys llog a disgowntio, net ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

## Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o Ddatganiad Cyfunol Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol.

| Asedau Cyfunol Llywodraeth Cymru | 2023-24 £bn | 2022-23 £bn |
|---|---|---|
| **Asedau Ffisegol** | | |
| Y rhwydwaith ffyrdd (Cefnffyrdd gan gynnwys traffyrdd) | 21.7 | 21.5 |
| Y rhwydwaith rheilffyrdd (Llinellau Craidd y Cymoedd) | 2.2 | 2.1 |
| Tir ac adeiladau (gan gynnwys Ystad y GIG) | 3.8 | 3.7 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu (Ffyrdd a Rheilffyrdd yn bennaf) | 2.8 | 2.3 |
| **Asedau Ariannol** | | |
| Portffolio benthyciadau i fyfyrwyr | 8.2 | 7.1 |
| Portffolio Cymorth i Brynu – Cymru | 0.4 | 0.3 |
| Benthyciadau Banc Datblygu Cymru | 0.3 | 0.3 |
| Benthyciadau a buddsoddiadau eraill | 0.9 | 0.8 |
| Arian parod | 1.6 | 1.4 |
| **Asedau Eraill** | **2.4** | **2.3** |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **44.3** | **41.8** |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 2.2 | 2.3 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 0.6 | 0.7 |
| Darpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol | 1.7 | 1.5 |
| Darpariaethau eraill | 0.2 | 0.2 |
| Atebolrwyddau eraill | 1.5 | 0.9 |
| Cyfanswm yr Atebolrwyddau | 6.2 | 5.7 |
| **Asedau Net** | **38.1** | **36.1** |

O'r cynnydd cyffredinol net o £2 biliwn mewn asedau, mae'r cynnydd mwyaf sylweddol yng ngwerth asedau yn ymwneud ag ychwanegiadau gwerth £0.5 biliwn ar gyfer Asedau sy'n cael eu Hadeiladu a chynnydd o £1.1 biliwn yng ngwerth y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r cynnydd o £0.5 biliwn mewn Asedau sy'n cael eu Hadeiladu yn deillio'n bennaf o ddatblygiadau ffyrdd, rheilffyrdd a seilwaith y GIG, gan gynnwys cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 a Metro De Cymru. Mae'r cynnydd o £1.1 biliwn yn y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau newydd o £0.9 biliwn a roddwyd, llai ad-daliadau o £0.2 biliwn ac enillion prisio o £0.5 biliwn sy'n codi. Dylanwedir ar y broses o brisio'r portffolio yn fawr gan symudiadau mewn mynegrifau economaidd a chyfraddau disgowntio a ragnodir gan Drysorlys EF. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 6.

Mae'r prif newidiadau yn yr atebolrwyddau Grŵp mewn darpariaethau ac atebolrwyddau eraill. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £0.2 biliwn yn atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru, yr effeithir ar ei gwerth gan nifer a gwerth posibl yr hawliadau a wneir yn erbyn cyrff GIG Cymru a newidiadau yn y cyfraddau disgowntio a gymhwysir i gofnodi'r rhwymedigaethau ar werth teg. Ceir rhagor o wybodaeth am Gronfa Risg Cymru yn Nodyn 11.

Mae atebolrwyddau eraill wedi cynyddu £0.6 biliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd o £0.5 biliwn mewn atebolrwyddau Grŵp ar gyfer trefniadau Menter Cyllid Preifat a threfniadau consesiwn gwasanaeth a threfniadau les. Mae £0.2 biliwn o'r swm hwn yn ymwneud â chyfrif Craidd Llywodraeth Cymru, yn bennaf ar gyfer cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 ac mae £0.2 biliwn yn ymwneud â lesoedd Trafnidiaeth Cymru, yn bennaf ar gyfer cerbydau rheilffyrdd ychwanegol a gyflwynwyd i'r rhwydwaith yn 2023-24, gyda llawer o'r cynnydd sy'n weddill i'w briodoli i lesoedd newydd ac effaith gofynion IFRS16 y Llawlyfr Adrodd Ariannol ar gyfer 2023-24 ar gontractau partneriaeth cyhoeddus-preifat/menter cyllid preifat ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru.

## Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon o dan adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru, sef:

**Grŵp Llywodraeth Cymru**

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Dewis Gyrfa (Career Choices Dewis Gyrfa Ltd)
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (Regeneration Investment Fund for Wales LLP)
- WGC Holdco Limited.

Mae buddsoddiad Craidd Llywodraeth Cymru mewn is-endidau cyfunol yn Nodyn 6 i'r Datganiadau Ariannol fel a ganlyn:

| | | £m |
|---|---|---|
| Grŵp Banc Datblygu Cymru | Benthyciadau | 1,552.1 |
| | Ecwiti | 117.2 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 257.7 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio | Gwerth y buddsoddiad | 49.6 |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru | Cyfraniad ar ffurf benthyciadau a chyfalaf | 18 |
| WGC Holdco Limited | Ecwiti | 21.9 |

**Cyrff Llywodraeth Ganolog newydd yn ystod y flwyddyn**

Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), sef y corff hyd braich newydd sy'n gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg ôl-16 ac ymchwil, ar 4 Medi 2023. Daw Medr yn weithredol o fis Awst 2024 pan fydd y cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau perthnasol yn dechrau trosglwyddo i'r Comisiwn. Mae Medr wedi cael dosbarthiad dangosol i'r sector llywodraeth ganolog tra bydd yn aros i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol asesu ei ddosbarthiad ond nid yw eto wedi'i ddynodi yng nghyfrifon a ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Trydan Gwyrdd Cymru Ltd ar 12 Hydref 2023 i gyflymu'r broses o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystad gyhoeddus ehangach Cymru a sicrhau eu bod yn rhoi'r gwerth mwyaf posibl i bobl Cymru. Mae Trydan Gwyrdd Cymru Ltd wedi cael dosbarthiad dangosol i'r sector Llywodraeth Ganolog tra bydd yn aros i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol asesu ei ddosbarthiad ond nid yw eto wedi'i ddynodi yng nghyfrifon a ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cyrff Llywodraeth Ganolog Cymreig canlynol eu dynodi[30]:

- Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)

Nid oedd trafodiadau Llais yn berthnasol i'w cynnwys yn y cyfrifon cyfunol ar gyfer 2023-24. Mae'r prosiect cysoni'n parhau i weithio er mwyn sicrhau y bydd cyrff newydd a gaiff eu creu yn cael eu dosbarthu a'u dynodi'n gywir, yn ogystal â chysoni endidau sydd eisoes yn bodoli. Mae holl gyrff y GIG yng Nghymru, Grŵp Banc Datblygu Cymru, Grŵp Trafnidiaeth Cymru a 21 o gyrff Llywodraeth Ganolog bellach wedi'u cynnwys yn yr alldro cyllideb a gwmpesir gan y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar sail gweithgareddau, nid ar sail arian parod a roddir gan Lywodraeth Cymru.

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn gan nad ydynt yn dod o fewn y ffin ar gyfer cyfrifyddu cyfunol. Mae'r ffeithlun isod yn dangos y berthynas rhwng y mathau o gyrff dosbarthedig a dynodedig a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

30 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk)

# Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

**Craidd Llywodraeth Cymru**

**Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru**

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Trydan Gwyrdd Cymru Ltd
- Elusennau GIG Cymru

**Cyrff dynodedig amherthnasol – heb eu cyfuno**

- Adnodd Cyfyngedig
- Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- GCRE Limited*
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- Hybu Cig Cymru
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- International Business Wales Ltd
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)
- Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyrff y Llywodraeth Ganolog – heb eu dynodi na'u cyfuno**

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Dewis Gyrfa
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- WGC Holdco Cyf
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

*Mae gweithgareddau GCRE Limited yn 2023-24 yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond nid ydynt yn berthnasol i Grŵp LIC yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno, nid oedd GCRE Limited wedi'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol erbyn 31 Mawrth 2024 ac mae buddsoddiad ariannol preifat wrthi'n cael ei geisio ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid hwn a disgwylir i hynny effeithio ar sut y caiff ei ddosbarthu yn y dyfodol.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r diagramau uchod, mae'r canlynol yn esbonio prosesau dosbarthu a dynodi Llywodraeth Ganolog:

## Dosbarthu

Dosberthir endidau at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol, sef fframwaith ystadegol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddisgrifio beth sy'n digwydd mewn economïau cenedlaethol. Caiff pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi eu dosbarthu i sector sefydliadol (er enghraifft, fel corfforaethau anariannol, unedau llywodraeth cyffredinol neu aelwydydd).

Yn fras, caiff endidau eu dosbarthu'n llywodraeth ganolog os ydynt yn cael eu perchenogi neu eu rheoli (h.y. y gallu i bennu eu polisi neu eu rhaglen gyffredinol) gan endidau llywodraeth ganolog eraill ac nad ydynt yn Gorfforaeth Gyhoeddus (sy'n ddosbarthiad ar wahân). Mae Trysorlys EF yn defnyddio'r dosbarthiad hwn i nodi'r driniaeth gyllidebol sy'n briodol i'r endidau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd cyllidebol yn gyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Ar gyfer endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganolog yng Nghymru, mae hyn yn golygu eu hincwm a'u gwariant yn ôl sgôr seiliedig ar groniadau yn rheolau cyllidebol Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Mae'r un egwyddorion yn gymwys i unrhyw is-gwmnïau neu gydfentrau.



## Dynodi


Dim ond endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganolog a gaiff eu dynodi. Dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)[31] yw'r broses gyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol i Lywodraeth Cymru wario. Mae'r broses ddynodi yn dod ag incwm a gwariant ar sail croniadau endidau llywodraeth ganolog Llywodraeth Cymru o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol h.y. o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru y pleidleisir arni gan y Senedd a'r ffin cyfuno Cyfrifon, am fod Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn pennu ffiniau cyfunol yn seiliedig ar gyrff dynodedig.

Cyn iddynt gael eu dynodi, dim ond yr arian parod a dalwyd i'r endidau gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, ac mae'r endidau y tu allan i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw p'un a yw endid wedi cael ei ddynodi ai peidio yn effeithio ar y driniaeth gyllidebol gyffredinol, dim ond pa elfennau sydd wedi'u cynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol a pha rai sydd y tu allan iddo.

31 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk)

## Y berthynas rhwng Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus ehangach

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth am y cyfrifon statudol:




### Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau Gweinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig ar gyfer Cyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

### Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[32].

### Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[33]
- Comisiwn y Senedd[34]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[35].

32 https://llyw.cymru/adroddiadau-chyfrifon-blynyddol-awdurdod-cyllid-cymru
33 https://www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/
34 https://senedd.cymru/media/4h5dcf24/gen-ld16596-w.pdf
35 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 | Archwilio Cymru (https://wao.gov.uk/cy)

# Sut rydym yn perfformio

## Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru



Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yw un o'r prif ddulliau a ddefnyddir i fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Nod y Fframwaith Perfformiad yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad.

### Datblygu'r Fframwaith Perfformiad

Datblygwyd y Fframwaith gan ddefnyddio'r Mynegai Effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Rhyngwladol (InCiSE) ac mae ei sail wedi cael ei haddasu er mwyn cyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r Bwrdd, uwch-reolwyr ac ymchwilwyr. Mae'r Fframwaith yn cynnwys 23 o themâu sydd wedi'u rhannu'n ddau grŵp – swyddogaethau ('beth rydym yn ei wneud') a phriodoleddau ('sut rydym yn ei wneud').

## Fframwaith Perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

### Swyddogaethau

**Gweithredol Craidd**

- Datblygu Polisi a Chyngor
- Deddfwriaeth
- Cydnerthedd, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb
- Rheolaeth Gyllidol ac Ariannol

**Cefnogi Cenhadaeth**

- Caffael
- Grantiau
- Y Gweithlu
- Digidol, Data a Thechnoleg i Swyddogion
- Cyllid Mewnol
- Y Gweithle
- Cyflawni Prosiectau

**Darparu Gwasanaethau**

- Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion
- Gweinyddu Trethi (Awdurdod Cyllid Cymru)

### Priodoleddau

- Bod yn agored
- Galluoedd
- Ymgysylltu â Staff
- Y Gymraeg
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant

### Gwerthoedd ac Ymddygiadau

- Partneriaeth
- Tegwch
- Proffesiynoldeb
- Creadigrwydd
- Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio

**Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru**
**Gwelliant Parhaus**

Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiadau ar berfformiad sefydliadol yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn hwyluso camau gweithredu angenrheidiol. Yn y flwyddyn ariannol hon, cynhaliwyd adolygiad llawn o'r ffordd rydym yn paratoi adroddiadau ar berfformiad, a ystyriodd faint o ddata sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau, pa mor aml y cyhoeddir adroddiadau a sut maent yn llywio camau gweithredu. Nododd hwn fod angen ffordd symlach o baratoi adroddiadau a bod angen eu paratoi'n amlach, er mwyn ei gwneud yn haws i gamau gweithredu gael eu cymryd yn amserol. Ar 14 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Gweithredol y dylai Llywodraeth Cymru symud i ddull cerdyn sgorio cytbwys o adrodd, gydag amserlen adrodd chwarterol. Disgwylir i hyn gael ei roi ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025.

## Defnyddio'r Fframwaith Perfformiad

Dadansoddwyr Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Fframwaith ac yn adrodd arno, gan roi asesiad annibynnol o berfformiad.

Mae dwy lefel lywodraethu i'r Fframwaith Perfformiad:

- Mae perchnogion busnes wedi cael eu penodi ar gyfer pob un o themâu'r Fframwaith. Mae ganddynt drosolwg strategol dros eu meysydd, lle maent yn gyfrifol am roi gwybodaeth am berfformiad ar gyfer craffu ac er mwyn ysgogi gwelliannau yn eu meysydd.
- Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau Gweithredol yn cyflawni rôl allweddol drwy graffu ar yr adroddiadau perfformiad a gaiff eu paratoi ar y Fframwaith, ac yn cyflwyno meysydd ar gyfer gwella i'r perchnogion busnes perthnasol weithredu arnynt.

## Cyflwyno adroddiad ar y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau

Mae'r mwyafrif o'r dangosyddion o fewn y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau yn seiliedig ar agweddau staff a gasglwyd drwy arolygon megis Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac Arolygon Pwls Llywodraeth Cymru. Ar y cyfan, bu gwelliannau yn y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau, ar ôl dirywiad cyffredinol yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn dilyn cynnydd mewn sgoriau mewn llawer o'r meysydd yn ystod y pandemig, sydd bellach wedi dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig.

Roedd pum maes yn dangos perfformiad da, gyda gwelliannau mewn perfformiad dros amser a/neu berfformiad a oedd yn rhagori ar eu targedau neu feincnodau perthnasol:

- **Ymgysylltu â Chyflogeion** a welodd gynnydd bach o 65% yn 2022 i 66% yn 2023 ac sydd wedi bod yn gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil neu ar lefel debyg iddo (64% yn 2023).
- **Tegwch** lle y nododd staff lefelau uchel o gynhwysiant a thriniaeth deg yn Llywodraeth Cymru, a welodd gynnydd bach o 84% i 85% ers y flwyddyn flaenorol ac sydd wedi perfformio'n gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil (81% yn 2023).
- **Creadigrwydd** lle y gwelwyd cynnydd bach yn nifer y staff a oedd yn nodi bod eu tîm yn cael ei annog i gynnig ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau, o 79% i 80%, ac sy'n perfformio'n gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil (78% yn 2023).
- **Proffesiynoldeb** lle'r oedd cyfran uchel iawn o staff yn nodi eu bod yn deall cod y Gwasanaeth Sifil a'r hyn y mae'n ei olygu o ran eu hymddygiad (93%), a oedd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol ac sydd wedi perfformio'n gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil (88% yn 2023).
- **Y Gymraeg** lle y gwelsom leihad yn nifer y cwynion ynglŷn â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg, o 34 yn 2022-23, i 27 yn 2023-24.

Roedd dau faes wedi gweld gwelliannau ers y flwyddyn flaenorol, ond roeddent yn perfformio'n is na'u targedau neu eu meincnodau perthnasol:

- **Galluoedd** lle'r oedd canran y staff sy'n cytuno bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad wedi cynyddu o 47% yn 2022 i 49% yn 2023 ond roedd yn dal yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil, sef 52%.
- **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** lle'r oedd cynrychiolaeth staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff anabl wedi cynyddu ond roedd yn dal i fod yn is na phoblogaeth Cymru (sef 3.2% a 6.5% o staff Llywodraeth Cymru a 6.2% a 21.1% o boblogaeth Cymru yn y drefn honno). Mae cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol yn dal i fod yn is na tharged Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o 6% hefyd. Fodd bynnag, roedd cynrychiolaeth staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol yn fwy na phoblogaeth Cymru (4.5% o staff Llywodraeth Cymru a 3% o boblogaeth Cymru yn y drefn honno).

Roedd tri maes lle’r oedd perfformiad wedi dirywio ers y flwyddyn flaenorol:

- **Bod yn agored** lle’r oedd canran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd erbyn y terfyn amser statudol wedi gostwng ychydig i 85% yn 2023, sy’n is na tharged Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, sef 90%.
- **Partneriaeth** lle’r oedd canran y staff sy’n cytuno eu bod yn ystyried cydweithio â rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd wedi gostwng o 77% yn 2021 i 73% yn 2023.
- **Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio** lle’r oedd Sgôr Mynegai’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi gostwng ychydig o 77% yn 2021 i 76% yn 2023.

  Mae’r Sgôr Mynegai yn cynnwys cyfartaledd pum cwestiwn ar Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (y pum ffordd o weithio).

Mae’r tabl isod yn rhoi’r mesurau ar gyfer y themâu sy’n ymwneud â phriodoleddau.

| Thema Priodwedd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr Gyfredol | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | | Targed/Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Proffesiynoldeb | Canran y staff sy’n cytuno eu bod yn deall Cod y Gwasanaeth Sifil a’r hyn y mae’n ei olygu o ran eu hymddygiad. | Arolwg Pobl | 93% (Hydref 2023) | 93% (Hydref 2022) | 95% (Hydref 2021) | 88% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Tegwch | Sgôr thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg. | Arolwg Pobl | 85% (Hydref 2023) | 84% (Hydref 2022) | 85% (Hydref 2021) | 81% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Partneriaeth | Canran y staff sy’n cytuno eu bod, lle y maent yn gweithio, yn ystyried cydweithio â rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd. | Arolwg pwls Llywodraeth Cymru | 73% (Gorffennaf 2023) | 77% (Medi 2021) | 75% (Mawrth 2020) | Amh. |
| Creadigrwydd | Canran y staff sy’n cytuno bod eu tîm yn cael ei annog i gynnig ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau. | Arolwg Pobl | 80% (Hydref 2023) | 79% (Hydref 2022) | 81% (Hydref 2021) | 78% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |

| Thema Priodwedd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr Gyfredol | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | | Targed/Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio | Sgôr mynegai'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy[36]. | Arolwg pwls Llywodraeth Cymru[37] | 76% (Gorffennaf 2023) | 77% (Medi 2021) | 72% (Mawrth 2020) | Amh. |
| Bod yn agored | Canran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd erbyn y terfyn amser statudol. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 85% (Blwyddyn galendr 2023) | 87% (Blwyddyn galendr 2022) | 83% (Blwyddyn galendr 2021) | 90% |
| Galluoedd | Canran y staff sy'n cytuno bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd ganddynt yn ystod y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad. | Arolwg Pobl | 49% (Hydref 2023) | 47% (Hydref 2022) | 47% (Hydref 2021) | 52% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Canran y staff sy'n nodi eu bod yn rhan o grŵp cydraddoldeb. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 3.2% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>6.5% Anabl<br>4.5% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 3.0% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>6.2% Anabl<br>4.0% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | 2.8% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.9% Anabl<br>3.6% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 6.2% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>21.1% Anabl<br>3.0% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>Cymhariaeth â Phoblogaeth Cymru (Cyfrifiad Cymru 2021) |
| Ymgysylltu â Staff | Sgôr Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion. | Arolwg Pobl | 66% (Hydref 2023) | 65% (Hydref 2022) | 68% (Hydref 2021) | 64% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Y Gymraeg | Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg. | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 27 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2023-24) | 34 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 32 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | Amh. |

36 Y sgôr mynegai yw cyfartaledd yr ymatebion cadarnhaol (cytuno neu gytuno'n gryf) ar gyfer pum cwestiwn sy'n casglu barn staff Llywodraeth Cymru am ba mor rheolaidd y maent yn credu y gallant roi Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y pum ffordd o weithio) ar waith.

37 Dylid nodi bod nifer yr ymatebwyr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn fel a ganlyn: 2020: 3,359; 2021: 2,535; 2023: 3,364.

## Cyflwyno adroddiad ar y themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau

Mae'r themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau yn cynrychioli amrywiaeth eang o weithgareddau Llywodraeth Cymru, a daw'r metrigau o nifer o ffynonellau. Gall fod yn heriol asesu perfformiad y meysydd hyn, o ystyried cymhlethdod y dylanwadau ar ganlyniadau, a'r cyd-destun heriol.

Gall pump o'r themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau gael eu mesur yn erbyn targedau neu feincnodau ac, o'r rhain, roedd perfformiad tair ohonynt wedi gwella yn 2023-24:

- **Y gweithlu** lle y gwelwyd cynnydd o ran canfyddiadau staff bod sgyrsiau un i un gyda'u rheolwyr yn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn (o 68% yn 2022 i 70% yn 2023). Roedd hyn yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil, sef 66%.
- **Y gweithle** gyda lleihad o un flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm allyriadau carbon ystad weinyddol Llywodraeth Cymru. Yn 2022-23, roedd allyriadau carbon wedi lleihau 77% o gymharu â 2010-11.
- **Datblygu polisi a chyngor** lle'r oedd nifer y staff yn y Proffesiwn Polisi a nododd eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol wedi cynyddu (91%, o gymharu ag 88% yn 2022). Roedd hyn yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil (89% yn 2023).

Mewn dwy o'r themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau lle ceir targedau neu feincnodau gwelwyd perfformiad is ers y flwyddyn flaenorol:

- **Digidol, Data a Thechnoleg i Swyddogion** lle'r oedd canran y staff sy'n cytuno bod y dechnoleg a ddarperir gan y sefydliad yn eu galluogi i gysylltu a chydweithio â chydweithwyr yn hawdd wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol (88% yn 2023 o gymharu â 91% yn 2022). Fodd bynnag, erys sgoriau cyffredinol yn uchel iawn ac maent dipyn yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil (80% yn 2023).
- **Cyllid Mewnol** lle mae canran y taliadau a wnaed o fewn 5 diwrnod i dderbyn anfoneb wedi gostwng o 77% yn 2022-23 i 71% yn 2023-24. Roedd y gyfran hon islaw'r targed o 80%.

Nid oes gan y dangosyddion eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau unrhyw dargedau na meincnodau cysylltiedig, ac mae'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn ystyried yr hyn a ddysgir o'r metrigau hyn, gan ystyried y cyd-destun sefydliadol a'r cyd-destun ehangach.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r mesurau ar gyfer y themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau.

| Thema Swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | | Targed/Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gyllidol ac Ariannol | Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyffredinol – amrywiant canrannol rhwng y gyllideb a'r alldro. | Adroddiad ar Alldro Llywodraeth Cymru | Caiff y ffigurau hyn eu cyhoeddi yn Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Alldro 2023-24 | Adnoddau Cyllidol Tanwariant o 1.0%<br>Cyfalaf Cyffredinol Tanwariant o 3.0%<br>(Ebrill 2022-Mawrth 2023) | Adnoddau Cyllidol Tanwariant o 1.14%<br>Cyfalaf Cyffredinol Gorwariant o 0.17%<br>(Ebrill 2021-Mawrth 2022) | Amh. |
| Cydnerthedd, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb | Cyfanswm y diwrnodau roedd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru ac Ymateb Cyntaf yn gweithredu. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) – 0 diwrnod<br>Ymateb Cyntaf – 235 diwrnod<br>(Ebrill 2023-Mawrth 2024)[38] | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) – 0 diwrnod<br>Ymateb Cyntaf – 231 diwrnod<br>(Ebrill 2022-Mawrth 2023) | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) – 27 diwrnod<br>Ymateb Cyntaf – 50 diwrnod<br>(Ebrill 2021-Mawrth 2022) | Amh. |
| Deddfwriaeth | Biliau a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol. | Data gweinyddol deddfwriaeth | Cyhoeddwyd 8 Bil a chyflwynwyd 6 yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2023-Gorffennaf 2024)[39] | Cyhoeddwyd 5 Bil a chyflwynwyd 4 yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2022-Gorffennaf 2023) | Cyhoeddwyd 5 Bil a chyflwynwyd 4 yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2021-Gorffennaf 2022) | Amh. |
| Caffael | Canran y gwariant y gellir dylanwadu arno a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys BBaChau. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 51% (Blwyddyn ariannol 2023-24) | 51% (Blwyddyn ariannol 2022-23) | 51% (Blwyddyn ariannol 2021-22) | Amh. |

38 Mae gwaith Ymateb Cyntaf wedi datblygu ac mae'r ffigur hwn bellach yn cynnwys gwaith 'Ymateb Cyntaf' a'r gangen 'Cydnerthedd, Goruchwylio ac Ymateb', gan gynnwys unrhyw weithgarwch sylweddol gan ein swyddogion ar alwad; mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i gasglu gwybodaeth, ysgrifennu adroddiadau a mynychu Grwpiau Cydgysylltu Strategol.

39 Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu nifer y Biliau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno neu y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ddeddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2024.

| Thema Swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | | Targed/Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau | Nifer yr ymholiadau yr ymdriniodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau â nhw. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 1,833 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2023-24) | 2,300 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 2,267 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | Amh. |
| Digidol, Data a Thechnoleg i Swyddogion | Canran y staff sy'n cytuno bod y dechnoleg a ddarperir gan y sefydliad yn eu galluogi i gysylltu a chydweithio â chydweithwyr yn hawdd. | Arolwg Pobl | 88%<br>(Hydref 2023) | 91%<br>(Hydref 2022) | 94%<br>(Hydref 2021) | 80%<br>Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Cyllid Mewnol | Canran y taliadau a wnaed o fewn 5 diwrnod a 30 diwrnod i dderbyn anfoneb. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 70.9% o fewn 5 diwrnod<br>98.5% o fewn 30 diwrnod<br>(Blwyddyn ariannol 2023-24) | 77.3% o fewn 5 diwrnod<br>98.4% o fewn 30 diwrnod<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 82.7% o fewn 5 diwrnod<br>98.7% o fewn 30 diwrnod<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | 80% o fewn 5 diwrnod<br>100% o fewn 30 diwrnod |
| Y gweithlu | Canfyddiadau'r staff bod eu sgyrsiau un i un gyda'u rheolwyr yn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn. | Arolwg Pobl | 70%<br>(Hydref 2023) | 68%<br>(Hydref 2022) | 68%<br>(Hydref 2021) | 66%<br>Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |
| Y gweithle | Cyfanswm allyriadau carbon ystad weinyddol Llywodraeth Cymru. | Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad | 2890 o dunelli<br>Gostyngiad o 77% ers 2010-11<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 3000 o dunelli<br>Gostyngiad o 76% ers 2010-11<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | 3500 o dunelli<br>Gostyngiad o 72% ers 2010-11<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | Sero Net erbyn 2030 |
| Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion | Nifer y gwasanaethau digidol sydd ar gael i'r dinesydd. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 43 o wasanaethau[40]<br>(Mai 2023) | Amh. | Amh. | Amh. |

40 Diffinnir gwasanaethau fel rhywbeth sy'n galluogi defnyddiwr i wneud un neu fwy o drafodiadau. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn diffinio ac yn olrhain gwasanaethau digidol er mwyn gwella cysondeb a chywirdeb ein hadroddiadau. O ganlyniad, nid oes cyfres amser ar gael.

| Thema Swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | | Targed/Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni Prosiectau | Categorïau mwyaf cyffredin o argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiadau Sicrwydd Gateway. | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | Llywodraethu – 17%<br>Rheoli rhaglenni a phrosiectau – 15%<br>Cyd-destun, Nod a Chwmpas – 12%<br>(2023-2024) | Llywodraethu – 11%<br>Rheoli rhaglenni a phrosiectau – 18%<br>Cyd-destun, Nod a Chwmpas – 16%<br>(2022-2023) | Llywodraethu – 17%<br>Rheoli rhaglenni a phrosiectau – 20%<br>Cyd-destun, Nod a Chwmpas – 15%<br>(2021-22) | Amh. |
| Datblygu polisi a chyngor | Canran y staff sy'n nodi eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol. | Arolwg Pobl | Proffesiwn Polisi – 91%<br>Llywodraeth Cymru – 91%<br>(Hydref 2023) | Proffesiwn Polisi – 88%<br>Llywodraeth Cymru – 90%<br>(Hydref 2022) | Proffesiwn Polisi – 88%<br>Llywodraeth Cymru – 91%<br>(Hydref 2021) | 89% Meincnod y Gwasanaeth Sifil (Hydref 2023) |

## Trafodaeth am Berfformiad gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd

Ystyriodd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd berfformiad y sefydliad drwy gydol y flwyddyn, gan nodi'r meysydd canlynol y dylid canolbwyntio arnynt:

- Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio a Phartneriaeth lle y nodwyd bod lefelau cyffredinol cydweithio yn gymharol uchel, ond eu bod wedi gostwng ers eu lefel frig yn ystod y pandemig. Tanlinellwyd pa mor bwysig ydyw bod staff yn parhau i weithio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Fodd bynnag, nodwyd, am fod y dangosydd hwn wedi cael ei ddatblygu'n fewnol i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru ar Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, na allwn feincnodi ein perfformiad yn erbyn sefydliadau eraill.
- Galluoedd lle mae angen adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes, a bod yn uchelgeisiol, gan sicrhau lefelau uchel o sgiliau a gallu ymhlith staff Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn meysydd allweddol i'w cyflawni, megis rheoli prosiectau. Yma, teimlwyd y dylid canolbwyntio ar alluogi rheolwyr llinell i gefnogi datblygiad staff.
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant lle y nodwyd bod cynnydd wedi cael ei wneud i ymdrin â thangynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol, ac mae angen parhau i ganolbwyntio ar hyn, a sicrhau bod unrhyw dueddiadau sylfaenol yn cael eu hystyried yn llawn.
- Deddfwriaeth lle y teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru anelu at fod yn uchelgeisiol yn y ffordd y mae'n cyflwyno'r rhaglen ddeddfwriaethol.
- Caffael lle y tanlinellwyd y cyfle i weithgarwch caffael Llywodraeth Cymru gyfrannu at BBaChau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a chefnogi'r economi ehangach.

Roedd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn cefnogi'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i ddatblygu prosesau adrodd ar berfformiad, gyda'r newid i ddull cerdyn sgorio cytbwys newydd.

# Deall y Staff



Rhwng mis Mawrth 2023 a 2024, ochr yn ochr â Chynllun Peilot Gweithio Hybrid a Chynllun Gweithredu, gwnaethom ganolbwyntio ar gasglu amrywiaeth o wybodaeth ansoddol a meintiol i'n helpu i ddeall yn well:

- Ymddygiadau a phrofiadau cyflogeion, gan gynnwys yr effaith ar lesiant, cynhwysiant a chynhyrchiant.
- Y defnydd o adnoddau a lleoedd.
- Safbwyntiau rhanddeiliaid allanol.

Aethom ati i weithio'n agos gydag Ymchwil Gorfforaethol i ddadansoddi tueddiadau cyffredinol a phrofiadau cyflogeion Llywodraeth Cymru er mwyn llywio'r ffordd rydym yn gweithredu yn y tymor hwy, gan gydbwyso manteision a heriau gweithio mewn ffyrdd a lleoedd gwahanol, â'n blaenoriaethau cyflawni ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Arolygon pwls i'r staff cyfan (arolygon "yn y fan a'r lle" byr).
- Ymarfer adborth rhanddeiliaid yr Uwch Wasanaeth Sifil a gweithdai archwilio dwfn i randdeiliaid mewnol.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.
- Casglu barn Gweinidogion.
- Digwyddiadau byw Dewch i Drafod a grwpiau ffocws i'r staff.
- Data ar feddiannu a gwybodaeth reoli.
- Ymchwil y DU ac ymchwil ryngwladol sy'n dod i'r amlwg.

Cyflwynwyd nifer o argymhellion cychwynnol i'r Pwyllgor Gweithredol eu cymeradwyo ac at ddibenion arweiniad strategol ym mis Hydref 2023. Roedd y camau gweithredu a gymerwyd yn cynnwys gwelliannau a newidiadau arfaethedig mewn perthynas â Siarteri Tîm, mynediad at adeiladau, gwerthu cyfarpar gweithio gartref i aelodau o'r staff sy'n gadael, diweddariadau i'r sefyllfa o ran gweithio dramor a threthi ac asesiad o wasanaethau corfforaethol ar y safle.


Roedd rhagor o safbwyntiau a gasglwyd yn dangos rhai tueddiadau cadarnhaol o ran ymgysylltu â chyflogeion, ymddiriedaeth, llesiant, a chydweithwyr yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau a'r lleoedd roedd eu hangen arnynt i gysylltu, canolbwyntio a chydweithio. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei gydbwyso gan ystyriaethau a oedd yn codi dro ar ôl tro, megis cael eglurder ynglŷn â disgwyliadau arweinwyr, cynhwysiant a chysondeb profiad, a diwylliant 'dim paid ar weithio'.

Nododd y cynllun peilot hefyd feysydd i'w hystyried a'u gwella ymhellach, megis effaith gweithio hybrid ar ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n nodau strategol, y sgiliau arwain a rheoli a'r ymddygiadau sydd eu hangen, ein strategaeth o ran lleoliadau yn y tymor hwy a gofynion o ran mannau gweithio hybrid, a'r dechnoleg a'r adnoddau i gefnogi gweithio hybrid.

Cyflwynir rhagor o ganfyddiadau ac argymhellion y cynllun peilot i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2024. Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu gweledigaeth ac egwyddorion clir ar gyfer gweithio hybrid yn Llywodraeth Cymru, gan adolygu a diweddaru'r polisïau a'r canllawiau perthnasol, ymgysylltu ac ymgynghori â staff a rhanddeiliaid, gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ag Undebau Llafur, a monitro a gwerthuso'r ffordd y caiff gweithio hybrid ei roi ar waith a'i ganlyniadau.

## Cryfderau'r Arolwg

Mae ein harolygon o foddhad staff yn parhau i roi cipolwg cadarnhaol ar brofiad ein gweithlu. Mae canlyniadau Arolwg Pobl 2023[41] yn dangos gwelliannau yn y rhan fwyaf o themâu craidd yr arolwg o 2022 ac rydym yn parhau i berfformio'n well na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y rhan fwyaf o'r themâu.




Hefyd, cafodd ein perfformiad o ran y themâu ei gymharu â phrif Adrannau'r Gwasanaeth Sifil [h.y. y 17 o brif adrannau yn Whitehall ynghyd â'r llywodraethau datganoledig]. Ar y cyfan, roedd Llywodraeth Cymru ymhlith y sefydliadau â'r sgoriau uchaf ar gyfer y rhan fwyaf o'r themâu[42].

41 https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-llywodraeth-cymru
42 Arolwg Pobl 2023 y Gwasanaeth Sifil - Prif Ganlyniadau - GOV.UK (www.gov.uk)

| Thema Graidd yr Arolwg | Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y Prif Adrannau * |
|---|---|
| Mynegai Ymgysylltu | 3ydd ar y cyd |
| Fy Ngwaith | 1af |
| Amcanion a diben sefydliadol | 2il |
| Fy rheolwr | Yn gydradd 2il |
| Fy nhîm | Yn gydradd 2il |
| Dysgu a Datblygu | 7fed ar y cyd |
| Cynhwysiant a thriniaeth deg | 1af ar y cyd |
| Adnoddau a llwyth gwaith | 1af |
| Cyflog a buddion | 2il |
| Arweinyddiaeth a rheoli newid | Yn gydradd 3ydd |

* Noder: Mae 'ar y cyd' yn cyfeirio at ddwy Adran sydd wedi cael yr un sgôr ac mae 'yn gydradd' yn cyfeirio at dair Adran neu fwy sydd wedi cael yr un sgôr. Mae safleoedd cyffredinol yn seiliedig ar sgoriau wedi'u talgrynnu.

Ceir tabl cymharu llawn yn Uchafbwyntiau Canlyniadau Arolwg Pobl 2023 y Gwasanaeth Sifil[43].


43 https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-people-survey-2023-results/civil-service-people-survey-2023-results-highlights

Mae'r Arolwg Pobl wedi nodi rhai meysydd yr hoffem eu hystyried ymhellach a chymryd camau gweithredu priodol, ond mae'r rhan fwyaf o'r elfennau wedi gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall. Rydym yn parhau i sgorio'n dda o gymharu â llawer o'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, ac rydym yn falch o'r cynnydd cyffredinol a wnaed. Ymhlith y prif adrannau, Llywodraeth Cymru sydd â'r sgoriau uchaf erbyn hyn ar gyfer tair o'r naw thema sy'n sbarduno ymgysylltu, a'r sgôr uchaf ond un ar gyfer pedair thema arall. Fodd bynnag, ni allwn fforddio llaesu dwylo a byddwn yn aros yn effro er mwyn cynnal ein canlyniadau a gwella arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi adroddiad ar nifer o themâu sy'n benodol i'n sefydliad sy'n nodi cysondeb neu welliant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

### Themâu Penodol Llywodraeth Cymru

Mae sylwadau ar y prif uchafbwyntiau o ganlyniadau'r arolwg wedi'u cynnwys yn yr adran flaenorol ar y Fframwaith Perfformiad.



# Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni

## Llywodraeth Cymru 2025




LlC2025 yw modd Llywodraeth Cymru i newid a gwella'n barhaus. Ers ei dechrau yn 2022, mae wedi cyflawni rhai newidiadau diriaethol yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o ganlyniad i adborth a syniadau staff, gan gynnwys:

- Cydgynhyrchu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau.
- Newid y ffordd yr ymdrinnir â dyrchafiad.
- Cyflwyno Cynllun Peilot Gweithio Hybrid.
- Gwasanaethau ac adnoddau digidol newydd, gan gynnwys Pobl a Cais, sef system rheoli digwyddiadau newydd, a threialu Microsoft CoPilot.
- Croesawu'r tenantiaid cyntaf i Barc Cathays a symud i Gymdogaethau Grŵp newydd fel rhan o'r rhaglen Ad-drefnu Ystad.
- Fframwaith Polisi a Rhaglen Galluogrwydd newydd.

Mae cyllideb ddrafft heriol 2024-25 i Lywodraeth Cymru wedi arwain at roi ffocws newydd i Raglen LlC2025. Mae'r rhaglen LlC2025 symlach, â ffocws newydd yn cynnwys tri phrosiect, y mae pob un yn gyfrifol am lunio a gweithredu newidiadau a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i barhau i gyflawni dros bobl yng Nghymru o dan amgylchiadau ariannol gwahanol iawn:

1) **Newid Maint:** Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun gweithlu fforddiadwy sydd o fewn y gyllideb. Mae hefyd yn unol â gwerth tegwch, ac yn diogelu swyddi a niferoedd staff hyd y gellir ar yr un pryd.
2) **Newid Lleoedd:** Gall lleihau'r ystad a gwneud defnydd mwy effeithlon o adeiladau Llywodraeth Cymru arbed symiau sylweddol o arian. Mae'r prosiect hwn yn nodi arbedion cost y gellir eu sicrhau yn ystod y flwyddyn, ac mae hefyd yn edrych ar ddyfodol yr ystad yn y tymor hwy ar yr un pryd. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn seiliedig ar ffocws ar leihau ôl troed carbon yr ystad a hefyd gefnogi Gweithio'n Glyfar effeithiol ar yr un pryd.

3) **Newid Siâp:** Mae'r prosiect hwn yn aildrefnu gwaith ac adnoddau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau. Mae hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae angen i'r model gweithredu gael ei addasu i fod yn fwy effeithiol, gan gynnwys opsiynau radical, a sut y gall digidol a thechnoleg gefnogi'r newid hwnnw. Mae hefyd yn canolbwyntio ar adeiladu sefydliad cynaliadwy, medrus ac wedi'i gefnogi ar gyfer y dyfodol.

Mae LIC2025 wedi cael ei sefydlu fel strwythur rhaglen lle mae Bwrdd y Rhaglen yn atebol i'r Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru drwy'r Uwch-swyddog Cyfrifol a'r Prif Swyddog Gweithredu, Tim Moss.

Mae'r tri phrosiect hyn wedi cynnig nifer sylweddol o fanteision y flwyddyn hon:

## Newid Maint

Er mwyn helpu i fantoli ein cyllideb ar gyfer y gweithlu a diogelu'r swyddi presennol, mae recriwtio a gynlluniwyd wedi cael ei adolygu ac mae hynny wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y staff sy'n cael eu recriwtio'n allanol drwy weithredu proses 'yn allanol drwy eithriad'. Mae hyn wedi arwain at leihad uniongyrchol o 50% o ran recriwtio allanol ar gyfer pedwerydd chwarter 2023-24 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Rydym hefyd wedi atal recriwtio prentisiaid a swyddogion ar y llwybr carlam newydd dros dro ar gyfer 2024-25 ond rydym yn cynnig rolau parhaol i'r garfan bresennol sydd wedi arwain at arbediad pellach o tua £1.5 miliwn ar gyfer 2024-25. Mae rheolau newydd ynglŷn â'r defnydd o Benodiadau Cyfnod Penodol a Chynllun Ymadael Gwirfoddol cyfyngedig, sydd wedi caniatáu i 95 o gydweithwyr adael, wedi arwain at arbedion pellach o tua £4.0 miliwn ar gyfer 2024-25.

## Newid Lleoedd

Mae'r prosiect hwn wedi blaenoriaethu pobl a diogelu swyddi. Drwy adolygu'r strategaethau ystad a'u hoptimeiddio, adolygu lefelau meddiannaeth a phennu trefniadau gweithio hybrid terfynol, mae'r prosiect hwn wedi cael digon o effaith ar y ffyrdd o weithio gydag arbedion cost cysylltiedig. Mae lleihau maint a chost yr ystad a chynefino nifer o denantiaid newydd wedi arwain at arbedion gweithredol uniongyrchol o tua £2.3 miliwn ar gyfer 2024-25.

## Newid Siâp

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y diwylliant, y sgiliau, y galluogrwydd a'r ffyrdd o weithio i gyflawni dros Gymru mewn cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynyddol heriol. Bydd hyn yn ganolog ac yn dod yn brif ffocws LIC2025 wrth inni fynd drwy 2024-25.

Mae pum ffrwd waith allweddol yn cael eu datblygu fel blaenoriaeth:

1) Diffinio a chytuno ar rôl Llywodraeth Cymru, ei diben, ei gweithgareddau a'i blaenoriaethau craidd.
2) Gwella ein gwybodaeth reoli a galluoedd digidol a data.
3) Datblygu dulliau gweithredu cyffredin a chyson o ddarparu gwasanaethau a chyflawni swyddogaethau, lle y bo'n briodol.
4) Datblygu gweithlu mwy ystwyth ac ymatebol sy'n gallu ymateb i flaenoriaethau neu ofynion sy'n newid.
5) Cefnogi gweithlu sydd wedi'i rymuso'n fwy ac sy'n fwy atebol drwy reolaethau cymesur a threfniadau llywodraethu sy'n seiliedig ar barodrwydd i gymryd risg y cytunwyd arno.

# Newid hinsawdd – adroddiadau Llywodraeth Cymru ar yr ystad a chynaliadwyedd



## Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru

Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn dal i fod yn rhan annatod o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle a gwaith cynllunio i reoli asedau. Mae'r dull o wella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn. Mae gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon a'r defnydd o ynni yn parhau i gael eu sicrhau, yn ogystal â lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cael ei gwella ym mhob rhan o'r ystad. Mae hyn yn seiliedig ar system gadarn o gasglu data ynni/carbon, eu dadansoddi a gweithredu ar y data hynny.

Hyd at 31 Mawrth 2024, llwyddwyd i leihau allyriadau carbon 82%, sy'n rhoi cyfanswm ôl troed carbon diwygiedig o 2,275 $tCO_2$[44] ar gyfer yr ystad. Mae hyn yn cyfateb i leihad cyffredinol o 10,287 tunnell o $CO_2$ yng nghyfanswm allyriadau'r ystad dros y 12 mlynedd diwethaf, sy'n lleihad sylweddol.

Rydym wedi lleihau allyriadau 21% yn 2023-2024 o gymharu â 2022-23 (2,890 $tCO_2$)[45].

Mae'r defnydd o nwy wedi lleihau 21% ers y flwyddyn flaenorol, o 7.3 GWh i 5.8 GWh. Mae'r defnydd o drydan wedi lleihau 27% ers y flwyddyn flaenorol, o 7.9 GWh i 5.8 GWh. Mae'r mesurau arbed ynni a roddwyd ar waith ar 31 Hydref 2022 wedi parhau ac maent yn cynnwys diffodd y gwres mewn swyddfeydd am 15.00awr ac ailbennu gofyniad COVID-19 am awyr ffres llawn a dim ailgylchredeg. Felly rydym yn disgwyl gweld lleihad pellach o ran y defnydd o nwy y flwyddyn nesaf. Gwnaeth y mesurau hyn helpu i sicrhau lleihad o 24% yn y defnydd o nwy yn 2023-24.

Mae'r momentwm hwn yn parhau a bydd adroddiadau ar allyriadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â Chynllun Adrodd Carbon Sero Net newydd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae llwybr wedi'i ddatblygu i gyflawni carbon sero net ar ystad weinyddol Llywodraeth Cymru erbyn 2030. Mae nifer o astudiaethau dichonoldeb wedi cael eu cwblhau ac o'r astudiaethau hyn y datblygodd rhaglen â blaenoriaethau.

Mae rhaglen fuddsoddi sydd ei hangen i gyflawni amcan carbon sero net wedi cael ei hamcangyfrif. Mae prosiectau yn amrywio o bympiau gwres o'r awyr a goleuadau LED i solar ffotofoltäig. Mae mesuryddion solar ffotofoltäig yn cael eu cysylltu â systemau rheoli adeilad er mwyn gallu monitro trydan adnewyddadwy ar y safle. Mae'r lleihad yn y defnydd o geir a'r allyriadau cysylltiedig mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19 yn y gweithle yn cynnig buddiannau amgylcheddol hirdymor sylweddol y bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at eu gwireddu wrth iddi bontio i ffyrdd mwy cyfunol o weithio. Roedd prosiectau i wella bioamrywiaeth drwy'r ystad gyfan y flwyddyn hon yn cynnwys plannu mwy o flodau gwyllt brodorol, gwelyau blodau uwch a phwll.

Cynyddodd cyfanswm y gwastraff 190% o 74 o dunelli i 215 o dunelli o gymharu â'r flwyddyn flaenorol[46]. Gostyngodd faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi 20% o 0.5 i 0.4 tunnell ac mae'n dal i gyfrif am lai nag 1% o gyfanswm y gwastraff. Cynyddodd ailgylchu (gan gynnwys treulio anaerobig) i 185 o dunelli. Gostyngodd y defnydd o ddŵr 23% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 15,315$m^3$ i 11,853$m^3$.

44 Nwy Cwmpas 1 a thrydan Cwmpas 2.
45 Nid ydym wedi cyfrif am allyriadau ein tenantiaid yn 2023-24.
46 Y rheswm dros hyn oedd ad-drefnu lle drwy'r ystad gyfan, yn enwedig ym Mharc Cathays, lle y gwnaeth y staff waredu eitemau gwaith ac eitemau personol, a adawyd yno ar ôl COVID-19.

## Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru: Diweddariad ar Gynaliadwyedd

| Nwyon tŷ gwydr | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tunelli cilo o $CO_2$e) | 3.7 | 3.5 | 3.0 | 2.8 | 2.2 |
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros Nwy Cwmpas 1 (tunelli cilo o $CO_2$e) | 1.0 | 1.6 | 1.4 | 1.3 | 1.0 |
| Cyfanswm Allyriadau Gros Trydan Cwmpas 2 (tunelli cilo o $CO_2$e) | 2.6 | 1.8 | 1.5 | 1.5 | 1.2 |
| Trydan GWh | 10.3 | 8.1 | 7.3 | 7.9 | 5.8 |
| Nwy GWh | 5.8 | 8.8 | 7.9 | 7.3 | 5.8 |
| Gwariant ar Ynni (£ miliwn) | 2.1 | 2.5 | 2.1 | 1.9 | 3.9 |
| Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **GWASTRAFF (tunelli)** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
| Cyfanswm y gwastraff | 284 | 50 | 72 | 74 | 215 |
| Tirlenwi | 3.8 | 1.1 | 1.4 | 0.5 | 1 |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 47 | 15 | 10 | 13 | 29 |
| Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 150 | 24 | 47 | 43 | 145 |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 83 | 10 | 13 | 17 | 40 |
| **GWASTRAFF %** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
| Tirlenwi | 1% | 2% | 2% | 0.5% | 0.4% |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 17% | 29% | 14% | 18% | 13.6% |
| Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 53% | 49% | 66% | 58% | 68% |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 29% | 20% | 18% | 23% | 18% |
| **DŴR** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
| $m^3$ y person y flwyddyn | 5.6 | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 |

## Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant



Rydym yn ymrwymedig i alluogi pawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru i gyflawni eu potensial llawn mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol, yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu: 2021 i 2026[47] yn nodi cynlluniau a thargedau uchelgeisiol i lywio ein sefydliad ar gyfer y dyfodol.

Ein gweledigaeth yw bod Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel ac sy'n wrth-hiliol ac yn gwrthwynebu gwahaniaethu o bob math. Caiff y bobl sy'n gweithio yma eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu a gwireddu eu potensial, gan wybod na fydd neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn nac yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus oherwydd pwy ydyn nhw. Rydym am greu diwylliant lle mae pob un yn trin eraill gyda chwrteisi, urddas a pharch. Mae ein holl bobl yn deall pam mae gennym sefydliad amrywiol, ac mae Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn sefydliad sy'n dangos esiampl am fod ei ffordd o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn arwain at fanteision busnes amlwg yn ogystal â'i wneud yn lle y mae pobl o'n holl gymunedau am weithio ynddo.

### Recriwtio ac Allgymorth: Gwella cynrychiolaeth yng ngweithlu Llywodraeth Cymru

Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein gweithlu, a thangynrychiolaeth menywod mewn uwch-rolau arwain. Er mwyn sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn gynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu, ein nodau uchelgeisiol yw:

### Targedau recriwtio allanol

- Erbyn 2026, rydym am i 20% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl ac i 20% fod o gefndir ethnig lleiafrifol.
- Erbyn 2026, rydym am i fwy na 50% o'r penodiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil fod yn fenywod.
- Erbyn 2030, rydym am i 30% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl.

### Targedau recriwtio mewnol

- Dyrchafu staff anabl a staff ethnig leiafrifol ar lefel sy'n rhagori ar eu poblogaeth yng ngweithlu Llywodraeth Cymru.
- Y bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein targedau, y flwyddyn hon rydym wedi:

- Cyhoeddi canllawiau allgymorth a chymorth wedi'u cryfhau er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio o'r gronfa ehangaf bosibl o dalent ac yn codi ymwybyddiaeth o Lywodraeth Cymru fel cyflogwr ymhlith ysgolion a chymunedau.
- Parhau i adolygu hysbysebion swydd a phrosesau asesu er mwyn sicrhau eu bod yn deg, yn gymesur, ac yn gynhwysol i bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd a hunaniaethau.
- Gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddatblygu trafodaeth bord gron â nifer o bartneriaid er mwyn rhannu arferion gorau ac arloesedd ym maes allgymorth a recriwtio cynhwysol sydd i'w chynnal ym mis Ebrill 2024.

47 https://www.llyw.cymru/strategaeth-cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant-y-gweithlu-2021-i-2026

- Datblygu dull gweithredu o ymdrin â 'Gweithredu Cadarnhaol', fel y'i nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, i'w ymgorffori mewn prosesau recriwtio.
- Cwblhau cyflwyno proses recriwtio 'Dim enw' ar gyfer ymgyrchoedd mewnol ac allanol, a fydd yn lleihau'r risg o ragfarn ddiarwybod yn y broses recriwtio.

**Cynnydd o ran Targedau**

Pan gyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu gennym yn 2021, cydnabuwyd y bydd "cyrraedd y targedau [recriwtio] uchelgeisiol iawn hyn yn heriol dros ben ac yn dibynnu ar ffocws a buddsoddiad parhaus". Mae heriau cyllidol y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau ar gyfer y gweithlu, gan gyfyngu ar yr opsiynau sydd wedi bod ar gael inni fynd i'r afael â thangynrychiolaeth. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar gydbwyso fforddiadwyedd ag ymrwymiad o hyd i'n hamcanion ynglŷn â chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, a hefyd sicrhau na fydd ein gweithredoedd yn cael effaith anghymesur ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol ar y ffordd rydym yn gweithredu, mae'n dda gennym nodi ein bod wedi llwyddo i gyflawni ein targed ar gyfer dyrchafu menywod i uwch rolau yn fewnol, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol dros dair blynedd o ran dyrchafu staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fewnol. Fodd bynnag, nid ydym eto ar y trywydd cywir i gyflawni ein targedau uchelgeisiol o ran recriwtio allanol. Hefyd, mae'r data yn awgrymu dirywiad yn y cynnydd ers 2022 o ran dyrchafu pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fewnol a'u recriwtio'n allanol.

Er bod hyn yn siomedig yn gyffredinol, mae'r ffigurau yn adlewyrchu ymateb angenrheidiol y sefydliad i heriau cyllidebol a'r penderfyniadau anodd rydym wedi gorfod eu gwneud mewn perthynas â recriwtio a dyrchafu. Fodd bynnag, er bod y cyd-destun cyllidol ehangach wedi effeithio ar faint ein huchelgais, nid yw wedi effeithio ar ein hymrwymiad.

| Recriwtio: | Targed | % a recriwtiwyd/a ddyrchafwyd yn 2023 | % a recriwtiwyd/a ddyrchafwyd yn 2022 | % a recriwtiwyd/ a ddyrchafwyd dros 3 blynedd y strategaeth | Targed wedi'i gyflawni yn 2023 | Targed wedi'i gyflawni dros y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl Anabl | 20% | 4.0 | 5.2 | 4.9 | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| Pobl Ethnig Leiafrifol | 20% | 3.7 | 7.5 | 5.4 | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| Menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | 50% | 36.4 | 20 | 47.9 | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| **Dyrchafu:** | | | | | | |
| Staff Anabl | 5.8 | 3.8 | 7.3 | 5.9 | Heb ei gyflawni | Wedi'i gyflawni |
| Staff Ethnig Leiafrifol | 2.7 | 2.4 | 3.8 | 3.4 | Heb ei gyflawni | Wedi'i gyflawni |
| Menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | 50 | 62.5 | 37.5 | 60.5 | Wedi'i gyflawni | Wedi'i gyflawni |

Mae'r data hyn yn ymwneud â'r flwyddyn galendr o fis Ionawr 2023 i fis Rhagfyr 2023, sy'n seiliedig ar ddyddiadau dechrau (yn hytrach na'r dyddiad recriwtio) a lle mae datganiadau wedi cael eu gwneud gan ymgeiswyr. Ar gyfer 2023, cafwyd cyfradd cwblhau o 61% o ran datgan anabledd a 59% o ran datgan ethnigrwydd.

Lle'r oedd data ynglŷn ag anabledd ac ethnigrwydd yn cael eu cwblhau gan ymgeiswyr, mae'r data fel a ganlyn:

| Recriwtio: | Targed | % a recriwtiwyd/ a ddyrchafwyd yn 2023 |
|---|---|---|
| Pobl Anabl | 20% | 7.4 |
| Pobl Ethnig Leiafrifol | 20% | 6.3 |

### Gwrth-hiliaeth

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[48] yn nodi gweledigaeth lle mae Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu hariannu yn wrth-hiliol, gyda diwylliant o ddim goddefgarwch at hiliaeth drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Rhaid inni fod yn esiampl i sefydliadau eraill yng Nghymru, gan gydblethu gwrth-hiliaeth drwy ein holl bolisïau ac arferion er mwyn cryfhau amrywiaeth ein gweithlu a dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ethnig leiafrifol.

Cydnabuwyd gwaith cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yng Ngwobrau 2023 y Gwasanaeth Sifil, pan wnaethant ennill y categori Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er mwyn gwireddu ein huchelgais i Lywodraeth Cymru ddod yn sefydliad gwrth-hiliol, y flwyddyn hon rydym wedi:

- Penodi ymgynghoriaeth allanol sydd â'r profiad bywyd a'r arbenigedd priodol i adolygu ein polisïau a'n prosesau adnoddau dynol o safbwynt gwrth-hiliol, a disgwylir i adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2024.
- Ei gwneud yn ofynnol i'n huwch-arweinwyr bennu amcan corfforaethol mesuradwy sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth (neu'r model cymdeithasol o anabledd) a fydd yn cael ei asesu o ran cynnydd yn ddiweddarach yn 2024.
- Cryfhau ymhellach ein cwricwlwm dysgu a datblygu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r staff.
- Ymgorffori ethos gwrth-hiliol yn ein holl brosesau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol a nodi dyddiadau ac ymgyrchoedd pwysig, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Ddu, Wythnos Cydraddoldeb Hil a Mis Ymwybyddiaeth o Islamoffobia.
- Cefnogi Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol a'i fenter 'Rhannu Lleoedd', lle y caiff aelodau o'r staff eu hannog i ofyn cwestiynau a rhannu profiadau ynglŷn â hil a gwahaniaethu ar sail hil mewn lle diogel ac adeiladol.
- Lansio 'Anelwn', ein rhaglen datblygu i gydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar ei newydd wedd, a disgwylir i adolygiad gael ei gynnal ar ôl y 12 mis cyntaf.

### Y Model Cymdeithasol o Anabledd


Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol a sefydliadol sy'n gyffredin mewn cymdeithas, sy'n atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a rhag cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

Y flwydyn hon, rydym wedi:

- Ei gwneud yn ofynnol i'n huwch-arweinwyr bennu amcan corfforaethol mesuradwy sy'n ymwneud â'r model cymdeithasol o anabledd (neu wrth-hiliaeth).
- Rhoi hyfforddiant ar y model cymdeithasol i staff, o dan oruchwyliaeth grŵp rhanddeiliaid sydd â phrofiad bywyd ac arbenigedd.
- Datblygu ein proses addasiadau recriwtio ymhellach.
- Parhau i wneud addasiadau yn y gweithlu ar gyfer cydweithwyr anabl.
- Parhau i gefnogi Rhwydweithiau Staff Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd, Niwrowahaniaeth, BSL a Thinitws.
- Penodi pedwar Hyrwyddwr Cyflogaeth Anabledd i helpu pobl anabl i gael cyflogaeth ledled Cymru.

48 https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

## Astudiaeth Achos: **Dileu Rhwystrau ym maes Recriwtio**




Gan gydnabod bod pobl anabl yn cael eu hanablu gan rwystrau mewn cymdeithas neu yn y gweithle, rydym yn ymrwymedig i'w dileu a gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn deg ac yn gynhwysol.

Yn 2021, cyflwynwyd ein gwasanaeth addasiadau recriwtio. Mae ein Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gweithle yn cydgysylltu ag ymgeiswyr, gan sicrhau bod addasiadau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yn ystod ymarferion recriwtio. Nid yw addasiadau recriwtio yn rhoi mantais i ymgeiswyr.

Maent yn dileu rhwystrau a achosir pan fydd y ffordd rydym yn asesu ymgeiswyr wrth recriwtio yn annheg i ymgeiswyr anabl, os na chaiff ei haddasu. Mae addasiadau yn cynnwys newid amseriadau, lleoliad neu'r ffordd y darperir gwybodaeth yn ystod cyfweliad, ac amrywiaeth eang o addasiadau eraill ar sail achos unigol.

Mae'r tîm wedi cydgysylltu â thua 300 o ymgeiswyr ers lansio'r fenter, gan arwain at welliannau sylweddol i gyfradd llwyddo ar ôl cyfweliad i bobl anabl. Er y cydnabyddir pwysigrwydd y cymorth ymarferol, mae'r effaith ddiwylliannol wedi bod yr un mor arwyddocaol. Mae pobl anabl bellach yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â phrosesau recriwtio a'u bod yn cael gwell cymorth i ddatblygu eu gyrfaoedd. Gellir priodoli ei llwyddiant i'r bartneriaeth ragweithiol â rhwydweithiau staff, undebau llafur, mentoriaid addasiadau recriwtio, noddwyr bwrdd, staff adnoddau dynol ac, yn bwysicaf oll efallai, yr ymgeiswyr eu hunain.

Enillodd ein menter Wobr 2023 CIPD Cymru am y Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau[49]. Y flwyddyn hon, mae'r fenter wedi treialu dull "cynhwysiant yn ddiofyn" lle mae ystod o addasiadau mwy safonol yn cael eu rhoi ar waith i bob ymgeisydd o'r cychwyn cyntaf. Bwriedir cynnal gwerthusiad yn 2024.

49 https://www.cipdwalesawards.co.uk/awards-2023/

**Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff**

Ceir chwe rhwydwaith amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydweithiau yn rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Maent hefyd yn ein helpu i ddatblygu polisïau mewnol a chynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae cyd-gadeiryddion y chwe rhwydwaith hyn yn aelodau o'n Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Y rhwydweithiau yw:

**Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd –** rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar effaith polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylcheddau ar staff anabl yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**Materion y Meddwl –** y rhwydwaith staff ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys staff sydd â phroblemau iechyd meddwl, staff sy'n rheoli problemau iechyd meddwl neu staff sy'n gofalu am rywun y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio arno.

**Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol –** y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhoi sicrwydd o ran cydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau ac sy'n helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy'n fuddiol i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Mae'r **Rhwydwaith Niwrowahaniaeth** yn cefnogi cydweithwyr niwrowahanol ar draws y sefydliad ac yn hybu dealltwriaeth o sut y mae niwrogynhwysiant yn gwella'r gweithle i bawb.

**PRISM –** y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws neu â rhywedd amrywiol.

**Menywod Ynghyd –** nod y rhwydwaith hwn yw darparu llais unedig ynglŷn â'r materion sy'n wynebu menywod ar draws y sefydliad a sicrhau cydraddoldeb rhywiol.

Hefyd, mae gennym 9 grŵp staff sy'n cwmpasu nifer o faterion eraill sy'n bwysig i'n staff.

## Astudiaeth Achos: **Lansio’r Rhwydwaith Niwrowahaniaeth**



Mae’r ystadegau yn dangos bod pobl niwrowahanol yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na grwpiau anabl eraill, a bod y rhai sy’n cael eu cyflogi yn aml yn cael eu tangyflogi, felly ail-lansiwyd y Grŵp Cymorth Awtistiaeth fel y Rhwydwaith Niwrowahaniaeth ym mis Mawrth 2022. Y nod yw dathlu cryfderau gweithle niwrowahanol drwy greu cymuned gefnogol i Gydweithwyr Niwrowahanol a hyrwyddo niwrogynhwysiant ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Drwy gyfarfodydd rheolaidd â’r aelodau ar bynciau o ddiddordeb, creu sianel weithredol ar gyfer trafodaethau a chymorth ac allgymorth helaeth, cynyddodd yr aelodaeth o 82 i 210.

Ymhlith ei gyflawniadau roedd creu a rhoi hyfforddiant i wella dealltwriaeth o gryfderau Cydweithwyr Niwrowahanol a newid y diwylliant rhagfarnllyd sy’n tybio ‘gwahaniaeth=diffyg’, a chydweithio â’r Rhwydwaith Menywod Ynghyd, er mwyn tynnu sylw at y rhwystrau croestoriadol y mae menywod niwrowahanol yn eu hwynebu.

Sicrhau lle ar y Grŵp Cynghori Gweinidogion ar Niwrowahaniaeth a chynghori’r rhai sy’n llunio polisïau ar gysylltu â rhanddeiliaid niwrowahanol a gweithio’n agos gyda staff adnoddau dynol, cynnig canllawiau niwrogynhwysol, tynnu sylw at rwystrau, a gwirfoddoli fel Mentoriaid Addasiadau Recriwtio.

Mae manteision mesuradwy’r Rhwydwaith Niwrowahaniaeth yn amlwg drwy edrych ar y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd. Mae data’r aelodau yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y Cydweithwyr Niwrowahanol sy’n nodi eu bod wedi gweld gwelliannau o ran cymorth sy’n gysylltiedig â gwaith (69%), cymorth cymdeithasol yn y gwaith (76%), llesiant yn y gwaith (79%), hunanddealltwriaeth (83%), a dealltwriaeth o niwrowahaniaeth (84%). Nododd 88% o aelodau niwronodweddiadol bod eu dealltwriaeth o niwroamrywiaeth wedi gwella.

Mae ei waith wedi ail-lunio’r ffordd y mae niwrowahaniaeth yn cael ei ystyried yn Llywodraeth Cymru, gyda mwy o Gydweithwyr Niwrowahanol yn teimlo’n ddigon diogel i fod yn agored am eu gwahaniaethau.

### Adrodd ar Gyflog Cyfartal a'r Bwlch Cyflog Cydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd sydd â'r nod o dynnu sylw at feysydd lle y ceir risg sy'n gysylltiedig â chyflog cyfartal yn y system gyflogau a llywio'r camau a gymerwn. Bwlch cyflog rhywedd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2024 yw 6.08%.

Mae hyn yn golygu bod dynion sy'n gweithio yn y sefydliad yn ennill 6.08% yn fwy na menywod, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2024, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod cyflog canolrifol dynion a menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yr un peth. Mae bwlch cyflog rhywedd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ychydig o 5.77% ym mis Mawrth 2023 i 6.08% ym mis Mawrth 2024. Fodd bynnag, erys y bwlch cyflog rhywedd yn is nag oedd yn y blynyddoedd cyn 2023.

Bwlch cyflog anabledd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2024 yw 4.10%. Mae hyn yn golygu bod pobl nad ydynt yn anabl yn ennill 4.10% yn fwy na phobl sy'n anabl, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2024, bwlch cyflog anabledd canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod y cyflog canolrifol yr un peth ar gyfer cydweithwyr sy'n anabl a chydweithwyr nad ydynt yn anabl. Roedd tuedd gyffredinol i'r bwlch cyflog anabledd leihau dros amser wedi parhau, gan leihau o 5.83% ym mis Mawrth 2023 i 4.10% ym mis Mawrth 2024.

Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2024 yw 3.78%. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd o gefndir Gwyn yn ennill 3.78% yn fwy na phobl sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2024, bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod y cyflog canolrifol yr un peth ar gyfer cydweithwyr o gefndir Gwyn a chydweithwyr o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae bwlch cyflog ethnigrwydd Llywodraeth Cymru wedi lleihau o 4.13% ym mis Mawrth 2023 i 3.78% ym mis Mawrth 2024. Mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd wedi bod yn lleihau ers 2021.

### Rhagor o wybodaeth

Noder bod y bwlch cyflog rhywedd yn wahanol i gyflog cyfartal. Ymdrinnir â chyflog cyfartal yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddynion a menywod gael eu talu yr un peth am waith o werth cyfartal. Y bwlch cyflog rhywedd yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, ein bwlch cyflog rhywedd a rhagor o fanylion am yr ystadegau cysylltiedig yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol[50]. Yn 2022, cyhoeddwyd ein bylchau cyflog o ran anabledd ac ethnigrwydd am y tro cyntaf ac yn 2023 cyhoeddwyd ein bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf. Cyhoeddir y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Fe'u cyhoeddir flwyddyn ar ei hôl hi ac, felly, ar gyfer 2022-23 y mae'r adroddiad diweddaraf.

### Cefnogi Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Yn 2023, lansiwyd ein Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant a'n cynllun gweithredu, sy'n nodi ein gweledigaeth ynglŷn â sut y byddwn yn cefnogi ein hunain, a'n gilydd, er mwyn cadw'n iach yn y gweithle. Mae nifer o amcanion allweddol wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys:

- Cyflwyno Bwrdd Cynghori ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant a gadeirir gan ein Prif Swyddog Gweithredu. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r busnes ac Ochr yr Undebau Llafur er mwyn:
  - Sicrhau mwy o arweinyddiaeth ac atebolrwydd am faterion iechyd, diogelwch, a llesiant ar lefel uwch.

50 https://llyw.cymru/adroddiad-cydraddoldeb-cyflogwr-llywodraeth-cymru

   - Adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd wrth roi sicrwydd ynglŷn â llywodraethu, atebolrwydd a chynnydd a wnaed yn erbyn y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch a Llesiant.
   - Cynnig llwybr uwchgyfeirio i'r busnes ar gyfer materion sy'n achos pryder ac er mwyn helpu i reoli risgiau.
- Datblygu 4 cwrs hyfforddiant Iechyd a Diogelwch newydd mewn ymateb i themâu sy'n codi mewn adroddiadau digwyddiadau.
- Cynnal nifer o ddigwyddiadau Dewch i Drafod a oedd yn canolbwyntio ar lesiant a chyhoeddi blogiau ac erthyglau am iechyd meddwl, ADHD, ac awtistiaeth.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein hanghenion llesiant craidd mewn ymateb i anghenion sy'n datblygu yn ein gweithlu, gan gysoni gwasanaethau er mwyn galluogi staff i gael cymorth mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae gwasanaethau craidd yn parhau i gynnwys:

- Iechyd Galwedigaethol sy'n rhoi cyngor meddygol annibynnol, niwtral i staff a rheolwyr.
- Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sy'n cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.
- Gwasanaethau cwnsela drwy'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion a'r darparwr Gwasanaethau Cwnsela Arbenigol, gan gynnwys Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi EMDR.
- Adnoddau hygyrch ar-lein sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, a llesiant.
- Rhaglen cymorth iechyd meddwl Able Futures, sy'n cynnig mwy o lwybrau mynediad megis cymorthfeydd un i un, ac atgyfeiriadau ar-lein, sy'n darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra at ofynion unigol.
- Mae ein rhwydwaith o Gynghreiriaid Iechyd Meddwl yn parhau i roi cymorth emosiynol yn y fan a'r lle.
- Darparu nifer o addasiadau yn y gweithle er mwyn dileu rhwystrau. Mae gwasanaethau yn cynnwys:
   - Adnodd asesu Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein a gwasanaeth Asesu Cyfarpar Sgrin Arddangos arbenigol.
   - Darparu addasiadau ffisegol ac anffisegol yn y gweithle.
   - Asesiadau o anghenion arbenigol yn y gweithle.
   - Darparu cynllun profion llygaid am ddim.

Mae'r Tîm Addasiadau yn y Gweithle wedi gweld galw cynyddol am y gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer addasiadau mwy cymhleth ac ar ôl grŵp gorchwyl a gorffen diweddar, mae sawl cam gweithredu wrthi'n cael eu cymryd, neu wedi cael eu cymryd, gan gynnwys:

- Adolygiadau parhaus o fodel gweithredu'r Gwasanaeth Addasiadau yn y Gweithle yn y dyfodol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a chyllido a'r defnydd o systemau gwybodaeth Adnoddau Dynol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn yr hydref.
- Penodi arbenigwr hygyrchedd TG newydd.

## Gweithio'n ddwyieithog



Rydym yn ymrwymedig i chwarae ein rhan i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth hon o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn sylweddol a gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y'i nodwyd yn strategaeth Llywodraeth Cymru, "Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg". Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae, nid yn unig i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n prif ffrydio'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, ond hefyd i roi cyfleoedd i'n gweision sifil i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith pob dydd.

Mae ein Strategaeth ar gyfer defnyddio Cymraeg yn fewnol, "Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd", a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, yn amlinellu ein nod hirdymor ar gyfer y defnydd o'r iaith yn y sefydliad; rydym am i Lywodraeth Cymru fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050. Bydd yn weithle lle mae'n beth arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio fel ieithoedd gwaith, yn gyfnewid am ei gilydd ac yn naturiol.

Yn y tymor byr, rydym am fod yn sefydliad sy'n esiampl o ran ein defnydd o'r iaith o'n cymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Er mwyn cyflawni hyn, mae i'r strategaeth bedair thema sy'n sail i'w gweledigaeth: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg, ac mae'r themâu hyn wedi bod yn ffocws i'n gweithgareddau wrth roi'r strategaeth ar waith yn ystod ei phedair blynedd gyntaf.

### Dysgu

Rydym wedi gwneud cryn gynnydd wrth ddatblygu'r cyfleoedd a gynigir gennym i staff ddysgu'r Gymraeg, gan sicrhau y cynigir cyfleoedd dysgu amrywiol, hyblyg ac effeithiol. Mae ein prosbectws hyfforddiant iaith Gymraeg yn cynnwys 12 o opsiynau dysgu gwahanol sy'n agored i'r staff, ac maent yn cynnwys gwersi wythnosol â thiwtor, opsiynau dysgu hunanastudio ar-lein a chyrsiau dysgu dwys preswyl. Rydym yn pwysleisio yn ein deunyddiau dysgu bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ased i'r sefydliad a'n bod am fuddsoddi yn sgiliau ein gweithlu. Mae'r arlwy newydd wedi tanio dychymyg y gweithlu, gyda mwy o staff nag erioed yn datblygu eu sgiliau Cymraeg erbyn hyn. Yn wir, ers mis Mai 2020 bu cynnydd o 640% yn nifer y cydweithwyr sy'n dilyn un o'r 12 opsiwn dysgu ffurfiol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

### Arweinyddiaeth

Yn ein ffocws ar ein huwch-arweinwyr, rydym yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddiwylliant y sefydliad drwy eu helpu i ddod yn esiampl o ran arwain sefydliad dwyieithog. Y flwyddyn hon rydym wedi rhannu canllawiau â'n huwch-arweinwyr ar ddefnyddio'r Gymraeg i gadeirio cyfarfodydd a defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol wrth ryngweithio ag eraill bob dydd. Mae cwrs Academi Wales, "Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog" wedi cael ei gyflwyno i elfennau o'r Uwch Wasanaeth Sifil, ac mae cwrs cynefino newydd ar y Gymraeg wedi cael ei ddatblygu i recriwtiaid newydd i'r Uwch Wasanaeth Sifil. Yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae 22% o'r staff bellach yn dilyn opsiwn hyfforddiant ffurfiol i ddysgu'r Gymraeg, sy'n arwydd bod ein gwaith i sicrhau bod arweinwyr y sefydliad yn deall eu rôl o ran modelu ymddygiad sy'n batrwm i eraill mewn perthynas â'r Gymraeg yn dwyn ffrwyth.

### Recriwtio

Yn ein deunyddiau recriwtio rydym yn pwysleisio bod y Gymraeg yn ased, ni waeth beth fo'r rôl yn Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2023-24, mae ail garfan o brentisiaid i ymuno â'r sefydliad wedi dilyn cwrs bloc dwys i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gyda 10 diwrnod o hyfforddiant amser llawn sy'n cael ei gyflwyno dros bythefnos ar bedair lefel (Mynediad 1, Mynediad 2, Sylfaen 1, Sylfaen 2, Canolradd). Cwblhaodd 40 o brentisiaid yr hyfforddiant cwrs bloc yn ystod 2023-24, ynghyd ag 11 o'r Uwch Wasanaeth Sifil a ymunodd â nhw.

### Technoleg

Rydym yn canolbwyntio ar y ffordd y gall technoleg ein helpu i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac i'r perwyl hwn rydym yn chwilio am ffyrdd o sicrhau y gall ein staff sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio rhyngwynebau Cymraeg y dechnoleg a ddefnyddiwn heb fod angen iddynt ofyn am wneud hynny. Rydym wedi cynyddu'n sylweddol ein defnydd o nodwedd cyfieithu ar y pryd Teams a lansiwyd gan Microsoft y llynedd, gan gyflwyno'r Gymraeg mewn mwy o gyfarfodydd â rhanddeiliaid, ac rydym yn hyrwyddo'r defnydd diogel o Microsoft Translator i helpu i weithio'n ddwyieithog.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae ein hadroddiad ar gyfer 2023-24 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[51].

51 https://www.llyw.cymru/cydymffurfiaeth-safonaur-gymraeg

## Gohebiaeth a chwynion



Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy'n esbonio'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau ym maes ymdrin â chwynion yn unol â pholisi cwyno a chanllawiau enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn y flwyddyn 2023-24, ymdriniwyd â 103 o gwynion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Dangosydd Perfformiad Allweddol o 85% o ran ymateb i gwynion. Dylai cwynion Cam 1 (anffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylai cwynion Cam 2 (ffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 20 diwrnod gwaith.

Mae'r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y tair blynedd diwethaf:

| | Cyfanswm y cwynion a ddaeth i law | Yr ymatebion a roddwyd | Y nifer a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno | % a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2021- Mawrth 2022 | 90 | 88 | 66 | 75% |
| Ebrill 2022- Mawrth 2023 | 54 | 66 | 39 | 59% |
| Ebrill 2023- Mawrth 2024 | 103 | 101 | 72 | 73% |

Caiff terfynau amser ymateb i gwynion eu monitro bob mis a chaiff swyddogion arweiniol cwynion ym mhob grŵp eu hysbysu amdanynt. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt dynnu sylw at ymatebion hwyr a chymryd camau i atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd.

Mae rhesymau penodol dros beidio ag ymateb i gŵyn o fewn y terfyn amser penodedig. Ymhlith y rhain mae pa mor gymhleth yw'r gŵyn, neu pa mor fanwl y mae angen ymchwilio iddi. Gwnaethom ymateb i 71 o gwynion Cam 1 a 32 o gwynion Cam 2. Yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pan gaiff terfyn amser cwyn ei estyn, mae'r achwynydd bob amser yn cael ei hysbysu ac yn cael y diweddaraf drwy gydol y broses.

Mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion yn cynghori swyddogion ar ymdrin â chŵyn ac yn pwysleisio pwysigrwydd ymateb i gwynion o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno ond mae meysydd busnes yn gyfrifol am sicrhau bod ymatebion i gwynion yn cael eu rhoi erbyn y terfyn amser a bod achwynwyr yn cael eu hysbysu am unrhyw estyniad i'r dyddiad.

Nid yw Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gyhoeddi eto, ond mae'n hysbys bod 26 o gwynion wedi cael eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon. O'r rhain, roedd tri yn gwynion cynamserol nad oeddent wedi mynd drwy broses gwyno Llywodraeth Cymru, nid ymchwiliwyd i 21, cymerwyd camau unioni mewn perthynas ag  un a chafodd un ei datrys ar gam cynnar.

Mae'r ffigurau isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pedair blynedd diwethaf:

- 2020-21 – 5
- 2021-22 – 1
- 2022-23 – 2
- 2023-24 – 0

# Adroddiad Atebolrwydd 2023-24



Diben yr adroddiad atebolrwydd yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Mae'r adroddiad atebolrwydd wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

- Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
- Colledion, Taliadau Arbennig a Datgelu Rhoddion
- Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff
- Crynodeb o'r Alldro Adnoddau
- Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethiant corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethiant yr endid a sut y maent yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion. Mae'r adroddiad llywodraethiant corfforaethol yn cynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethiant. Fel arfer byddai'n cynnwys adroddiad cyfarwyddwr ond mae'r agweddau hynny a fyddai mewn adroddiad cyfarwyddwr yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon cyfunol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa



Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM, wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, yr Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cael ei lywodraethu drwy awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Hefyd, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei ran) wedi dynodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriedir. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny er mwyn eu cyfuno o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru yn atebol am y defnydd a wneir o'r grantiau a dderbynnir, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, ac am incwm a gwariant y cyrff hynny fel arall.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a thros diogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Yr Ysgrifennydd Parhaol
a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

27 Tachwedd 2024

# Datganiad Llywodraethiant



## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan  gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau.


Yn ystod 2023-24 rydym wedi parhau i gefnogi'r Gweinidogion i gyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu ac olrhain cynnydd ac adrodd i'r Cabinet. Rydym wedi bwrw ymlaen â Rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 (LlC2025) i gefnogi newid ar draws y sefydliad ac rwyf wedi amlinellu rhai o'r canlyniadau gweladwy yr ydym wedi'u cyflawni yn yr Adroddiad Perfformiad. Rydym wedi parhau i gefnogi ymchwiliad COVID-19 drwy ddarparu datganiadau manwl a thystiolaeth ategol ar draws ystod o fodiwlau ac rydym wedi cefnogi presenoldeb tystion cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Modiwl 1 a Modiwl 2(b), sef modiwl a gynhaliwyd yng Nghymru dros gyfnod o dair wythnos. Rydym wedi ymateb i rai o'r disgwyliadau inni arwain a gweithredu fel esiampl i Gymru, gan gynnwys ein dull gweithredu o ran y Cynllun Cymru Wrth-hiliol; roeddwn yn falch o weld hyn yn cael ei gydnabod yng ngwobrau gwasanaeth sifil y DU yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi rheoli pwysau ariannol a

chyllidebol anodd sy'n deillio o chwyddiant a phwysau costau byw drwy ein prosesau mewnol a'n mecanweithiau llywodraethiant, gan gynnwys cynorthwyo'r Cabinet i wneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys newid cyflym o reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn i'r broses arfaethedig o bennu cyllideb ar gyfer 2023-24. Ar ddiwedd y flwyddyn hefyd buom yn cynorthwyo'r broses bontio i Brif Weinidog newydd ac yn rhoi cymorth proffesiynol i wneud y newidiadau i beirianwaith y llywodraeth a ddigwyddodd ar ddiwedd blwyddyn ariannol brysur.

Fel bob amser, bu ein staff yn cefnogi'r Gweinidogion yn broffesiynol drwy gyfrifoldebau eu portffolios a strwythurau'r Grwpiau, hyd yn oed yn y cyd-destun anodd yr ydym wedi gweithredu ynddo dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y modd y maent wedi cyflawni dros y Gweinidogion a'r sefydliad ac rydym o ddifrif yn ein hawydd i fod yn gyflogwr ymatebol a chefnogol. Rwyf yn gobeithio bod canlyniadau ein harolwg staff yn adlewyrchu hynny i raddau, ond mae angen inni sicrhau ein bod yn cynnal ein model partneriaeth gymdeithasol gyda'n staff ac yn eu galluogi i fod ar eu mwyaf effeithiol.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Ffynonellau Sicrwydd sy'n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**




Defnyddir ffynonellau gwybodaeth allanol hefyd i lywio'r datganiad llywodraethiant. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau oddi wrth y canlynol ymhlith eraill:

- Archwilio Cymru
- Rheoleiddwyr
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Aseswyr Annibynnol.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol drwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Llywodraeth drwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant yn fy natganiad, Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly y dylai trefniadau gweithredu a llywodraethiant a mecanweithiau'r llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn. Trwy LIC2025, ein rhaglen dair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol, rydym yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y ffordd rydym yn ymddwyn a phopeth rydym yn ei wneud.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus 2023-25 Llywodraeth Cymru ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25, sy'n dwyn ynghyd fwy na 50 o gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei deall a'i rhoi ar waith yn well yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar ein hynt ein gwaith a chyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Mai 2024.

Yn ystod 2023-24, roedd y Pwyllgor Gweithredol wrthi'n datblygu'r diweddariad ar gynnydd a'r trefniadau ar gyfer ei gyhoeddi. Gwnaethom hefyd adrodd ar y cynnydd i'r Bwrdd at ddibenion sicrwydd. Rydym yn credu y bydd ein dull gweithredu yn anfon neges bwysig at gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod angen i agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn destun gwella a myfyrio parhaus.

Rhoes y Cynllun gyfle amserol a gwerthfawr inni gymryd eiliad i feddwl, i ystyried yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn, ac i'n helpu i achub ar gyfleoedd newydd i wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac i'w rhoi ar waith yn well. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud o ran ymgorffori'r Ddeddf yn ein ffordd o weithio ac yn cydnabod pa mor flaengar yw'r ddeddfwriaeth hon a pha mor aeddfed yw ein sefydliad o ran arwain ar y newid, gan nodi hefyd feysydd lle y gallwn wella.

Mae Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi camau allweddol i gryfhau'r wybodaeth a'r mewnwelediad y mae arnaf eu hangen i roi sicrwydd ein bod yn hyrwyddo ac yn cynnal datblygu cynaliadwy ac yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Dull gweithredu arloesol ac esblygol yw hwn sy'n cydnabod y rôl sydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol o ran yr agenda datblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Awst 2023, penodais dri Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y Bwrdd, i gynnig her adeiladol ac i helpu timau perthnasol i ddeall sut y mae'r Ddeddf yn gymwys i'r prosiect/polisi etc penodol sy'n cael ei ystyried gan y Bwrdd. Mae pob ymgeisydd yn treulio chwe mis yn Hyrwyddwr y Bwrdd, chwe mis yn cefnogi'r Bwrdd Cysgodol mewn ffordd debyg a chwe mis arall yn rhan o rwydwaith cymorth ar gyfer yr ymgeiswyr eraill ac yn helpu i greu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi'r sefydliad yn ehangach, wrth inni roi'r Ddeddf ar waith.

Mae'r mesurau ychwanegol hyn wedi fy ngalluogi i gael sicrwydd cryfach ac wedi rhoi mewnwelediadau dyfnach a thystiolaeth ehangach i'r sefydliad i gefnogi ein penderfyniadau a'n dysgu a'n datblygiad parhaus. Mae camau gweithredu yn cael eu cymryd gyda Chyfarwyddwyr i wella sicrwydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y sefydliad ac i ymgorffori ein gwerthoedd ar draws y sefydliad yn well fel rhan o LIC2025.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio, datblygu a gwreiddio perfformiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni rhai o'i nodau a'i hamcanion drwy nifer o Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan y llywodraeth. Penodir Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol, ac maent yn gyfrifol am y ffordd y mae eu sefydliad yn rheoli cyllid cyhoeddus ac yn cyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn parhau i ddatblygu perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus drwy gyfarfodydd rheolaidd. Ailddechreuodd cyfarfodydd Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus (sydd wedi'u hanelu at Gadeiryddion, Prif Weithredwyr ac undebau) ym mis Tachwedd 2023 ac fe'u cynhelir ddwywaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus, y Fonesig Elan Closs Stephens, yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a hi yw'r cyfrwng ar gyfer adborth rhwng y ddau gyfarfod. Dechreuodd cyfarfod chwarterol o Gadeiryddion ym mis Ionawr 2024 o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd. Mae cyfarfodydd â'r Prif Weithredwyr yn cael eu cadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu ac yn cael eu cynnal bob deufis. Mae Grŵp y Sector Datganoledig, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd a Swyddog Cenedlaethol PCS Cymru a'r Gorllewin, yn cyfarfod bob chwarter. Mae'n cael ei fynychu gan gynrychiolwyr cyflogwyr ac undebau o gyrff hyd braich a chwmnïau, ac yn canolbwyntio ar faterion y gweithlu a'r agenda cydraddoldeb cyflogau. Mae gan Grŵp y Sector Datganoledig berthynas 'llinell ddotiog' â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a, thrwy ei rôl ar Gyd-bwyllgor Gweithredol WPC, bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd yn rhaeadru cytundebau ac arferion da gan y WPC i Grŵp y Sector Datganoledig ac yn yr un modd yn cyfleu barn a chytundebau'r Grŵp i WPC.

Cyhoeddwyd Adolygiad Teilwredig o Amgueddfa Cymru ym mis Gorffennaf 2023 Amgueddfa Cymru: adolygiad teilwredig | LLYW.CYMRU ac Adolygiad Teilwredig o'r modd y recriwtir i fyrddau ym mis Mehefin 2024 Recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus: adolygiad thematig | LLYW.CYMRU. Mae Adolygiad Teilwredig o siarteri brenhinol cyrff cyhoeddus wedi'i gynnal.

Mae'r Uned yn parhau i arwain y gwaith o gyflawni dros 100 o benodiadau cyhoeddus bob blwyddyn. Mae tîm bach o fewn yr Uned yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl Benodiadau Cyhoeddus a reoleiddir yn cael eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus ac y gweithredir Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus hefyd yn arwain ar yr agenda cydraddoldeb cyflogau ar draws cyrff hyd braich, is-gwmnïau a chyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan y llywodraeth; ar ôl dod i gytundeb mae staff ar draws y sector bellach yn cael eu talu o leiaf yr un isafswm lefel â'r gyfradd cyflog cychwynnol o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Uned yn rhan o bortffolio Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, sy'n cadeirio Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus o uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd y Grŵp i adolygu a datblygu gwaith Llywodraeth Cymru gyda thimau partneriaeth mewn perthynas â phenodiadau, adolygiadau teilwredig ac agweddau eraill ar nawdd a llywodraethiant. Mae cyfarwyddwyr sydd â thimau partneriaeth yn eu cylch gwaith yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio. Maent hefyd yn darparu asesiad o'u sicrwydd ar y cyrff cyhoeddus y maent yn eu hariannu, drwy'r Holiadur Rheolaeth Fewnol.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwy o Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn un o elfennau allweddol fframwaith llywodraethiant corfforaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n caniatáu i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'n rhoi llinellau clir iddo ar gyfer adrodd ac atebolrwydd er mwyn sicrhau bod diben Llywodraeth Cymru a pholisïau, nodau ac amcanion y Gweinidogion yn cael eu cyflawni.

Diweddarwyd y Cynllun Dirprwyo ym mis Mawrth 2024 gan ymgorffori newidiadau sy'n cynnwys:

- Alinio dirprwyaeth y gweithlu â 'Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu';
- Newid y trothwy ar gyfer datgan rhoddion a dderbyniwyd i £20;
- Ei gwneud yn glir bod gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol gyfrifoldeb dros gymeradwyo creu a rheoli trefniadau ar y cyd, gan gynnwys sefydlu is-gwmnïau newydd i Lywodraeth Cymru. Dylid adrodd am unrhyw gynigion i'r Pwyllgor Gweithredol wedyn, er gwybodaeth;
- Mae gan weithgareddau cyfathrebu, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyhoeddusrwydd, boed yn fewnol neu'n allanol, ofynion cymeradwyo ychwanegol bellach; ac
- Mae'r adran gwariant cyfreithiol allanol wedi'i hychwanegu i gryfhau'r ddirprwyaeth ynghylch defnyddio cynghorwyr cyfreithiol mewnol ac allanol.

Yn dilyn lansio'r Cynllun Dirprwyo ym mis Mawrth 2024, cyfleodd y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol y newidiadau ar draws Llywodraeth Cymru mewn erthygl newyddion, drwy'r Penaethiaid Cyllid a'r Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol.


Y Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol a gwybodaeth a gyhoeddir ar y fewnrwyd, megis bwletinau a chanllawiau, yw'r prif ddulliau a ddefnyddir i ledaenu arferion llywodraethiant da ar draws holl Grwpiau Llywodraeth Cymru.

Cefnogir y Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Darperir cyngor a sicrwydd gan y tîm Archwilio Mewnol i helpu i wella'r Fframwaith yn barhaus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i adolygu ac adnewyddu canllawiau corfforaethol. Yn ddiweddar iawn, rydym wedi dynodi adnoddau i helpu'r tîm i ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ei gyfnod cynllunio cychwynnol.

Ym mis Ionawr 2024 cafodd y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg (ESJWL) blaenorol a'r Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol (CRLG) eu huno i ffurfio'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg (PSWL) newydd. Ar ôl penodi'r Prif Weinidog newydd, cyhoeddwyd bod y sefydliad yn cael ei ailstrwythuro i adlewyrchu portffolios newydd y Cabinet yn well ac fe gafodd hyn ei roi ar waith o 1 Ebrill 2024. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn adlewyrchu'r strwythur llywodraethiant a oedd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o 2023-24.

# Y Strwythur Llywodraethiant




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar dudalen 61 yn offeryn cyfannol sy'n rhoi trosolwg o berfformiad y sefydliad ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Defnyddiwyd y Fframwaith i barhau i olrhain perfformiad dros amser ac i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau. Rydym wrthi'n adnewyddu ein dull o fesur perfformiad ar gyfer 2024-25, gan adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r Fframwaith Perfformiad presennol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein dangosyddion perfformiad allweddol yn dal yn berthnasol wrth i'n sefydliad newid ac addasu i heriau newydd, a bydd yn caniatáu inni barhau i weithredu i wella ein perfformiad mewn modd amserol ac effeithiol.

## Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mewn rhai meysydd, mae arfer Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn sydd yn y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig), er enghraifft:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru; ac
- mae nifer y cyfarwyddwyr gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 16 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.
Mae  Cyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol yn mynychu fel sylwedydd sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion

i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac i gyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion. Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac ar ôl pob Bwrdd rwyf yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Maent hwythau yn parhau i roi sylw arbennig i feysydd portffolio penodol yn unol â chais y Prif Weinidog. Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ym mis Gorffennaf 2023 ac mae cyfarfod pellach wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2024.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol fel rhan o'i agenda:

- Y Rhaglen Lywodraethu
- Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant
- Fframwaith Perfformiad LIC
- LIC2025
- Diwygio'r Senedd
- Deallusrwydd Artiffisial yn Llywodraeth Cymru
- Arloesi ym maes Polisi yn Llywodraeth Cymru
- Y GIG a pharodrwydd ar gyfer y gaeaf
- Cynllunio'r Gyllideb
- Canlyniadau'r Arolwg Staff




- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Yr Adolygiad o'r Bwrdd
- Diweddariadau Ariannol.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y bwrdd dros y flwyddyn. Mae'r Athro Meena Upadhyaya a Gareth Lynn wedi dod i ddiwedd eu tymor safonol ac wedi ymadael â'r Bwrdd ddiwedd mis Chwefror a mis Mawrth 2024 yn y drefn honno. Ymunodd Mike Usher a Mutale Merrill â'r Bwrdd ym mis Chwefror a mis Ebrill 2024 yn y drefn honno. Ymadawodd Peter Kennedy â Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023 ac ymadawodd Helen Lentle ym mis Rhagfyr 2023. Ymunodd Dom Houlihan â'r Bwrdd ym mis Hydref 2023 ac ymunodd Nia James ym mis Ionawr 2024. Daeth swyddi Cyfarwyddwyr Cyffredinol dros dro Reg Kilpatrick a Jo-Anne Daniels i ben ym mis Rhagfyr 2023 a dechreuodd Sioned Evans yn ei swydd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ym mis Ionawr 2024. Rhoddodd Des Clifford y gorau i fod yn Hyrwyddwr y Bwrdd ar gyfer y Gymraeg ym mis Ionawr 2024.

| Aelodaeth yn ystod 2023-24 | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol | 8/8 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/8 |
| Meena Upadhyaya, Cyfarwyddwr Anweithredol | 6/7 |
| Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Carys Williams, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/8 |
| Mike Usher, Cyfarwyddwr Anweithredol | 1/1 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad | 7/8 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 6/8 |
| Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru | 6/8 |
| Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu | 8/8 |
| Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Ymateb i Covid a Llywodraeth Leol | 4/6 |
| Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg | 6/6 |
| Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg | 2/2 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Prif Weinidog | 4/5 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg | 8/8 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 4/4 |
| Dom Houlihan, Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd | 3/3 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr, Cyllid | 6/8 |
| Helen Lentle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 5/6 |
| Nia James, Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cyfreithiol | 1/2 |
| Amelia John, Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 6/8 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o'i Berfformiad

Dosbarthwyd arolwg Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd i aelodau'r Bwrdd ar 12 Rhagfyr 2023. Dadansoddwyd y canlyniadau gan y Tîm Ymchwil Gorfforaethol a chyflwynwyd adroddiad canfyddiadau i'r Bwrdd ym mis Mai 2024.

Ar y cyfan, roedd aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol am eu rôl ar y Bwrdd, a'u profiad ohono, a oedd yn gyffredinol yn ategu teimladau adolygiad 2022. Roedd aelodau'r Bwrdd yn glir ynghylch rôl a diben y Bwrdd ac yn teimlo bod ehangder y blaenoriaethau a drafodwyd, yn ogystal â'r cyfle a roddir i'r aelodau i herio a chraffu yn ychwanegu gwerth. Dywedwyd bod cyfarfodydd bwrdd yn rhai agored a chynhwysol, a theimlai'r aelodau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn a chael eu clywed. Roedd teimlad bod gan aelodau'r Bwrdd y sgiliau a'r profiad cywir, yn ogystal ag ystod amrywiol o safbwyntiau, a nodwyd bod y Bwrdd Cysgodol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gwneud cyfraniadau nodedig yma. Roedd aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rôl ac roeddent yn gadarnhaol yn gyffredinol am yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd ar gael iddynt. Fe wnaeth yr adolygiad nodi rhai meysydd i'w gwella a chymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Sefydlwyd y Bwrdd Cysgodol ym mis Tachwedd 2021 ac adnewyddwyd yr aelodaeth ym mis Ionawr 2024. Rôl y Bwrdd Cysgodol yw cynorthwyo Bwrdd Llywodraeth Cymru yn ei rôl o oruchwylio strategaeth sefydliadol a llywodraethiant Llywodraeth Cymru a darparu cyngor, her a sicrwydd strategol i'r sefydliad. Penodir aelodau'r Bwrdd Cysgodol gyda'm cytundeb i fel Ysgrifennydd Parhaol, yn dilyn proses ddethol yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod yn ffurfiol ddau ddiwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru yn fy nghynorthwyo ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd, y daeth ei gyfnod i ben ar 31 Mawrth 2024. Penodwyd olynydd ar ddechrau Chwefror 2024 i sicrhau trosglwyddiad llyfn a threfnus. Roedd ARACs hefyd yn gweithredu ar lefel Grwpiau yn ystod 2023-24, a'u Cadeiryddion hwy oedd gweddill aelodau ARAC Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd ARAC ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddarparu swyddogaeth craffu, her a goruchwylio ar gyfer Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu. Cyfarfu gyntaf ym mis Mai 2023 ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cadeiryddion ARACs y Grwpiau.

Roedd yr ARAC yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithrediad rheoli risgiau a gallu'r sefydliad i reoli risgiau. Cyfarfu ARAC pob un o'r Grwpiau drwy'r flwyddyn yn unol â'u hamserlen o gyfarfodydd chwarterol.

Mae Pennaeth Proffesiwn Archwilio Gwasanaeth Sifil y DU wedi cyflwyno rhaglen o hyfforddiant a chymorth i bawb sy'n aelod o ARAC mewn cyrff ledled y DU a bu presenoldeb da gan aelodau ARAC Llywodraeth Cymru yn y rhain.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Am ran o'r flwyddyn roedd hwn yn gweithredu fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) a oedd yn gyfrifol am dâl ac amodau SCS, cynllunio ar gyfer olyniaeth uwch, recriwtio a holl achosion personél SCS. Ym mis Tachwedd 2023 cafodd y Pwyllgor ei ad-drefnu'n gorff cynghori strategol a'i ailenwi'n Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Ei ddiben, sydd wedi'i ddiffinio o'r newydd, yw darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau a mentrau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol, a delio â llai o fanylion

gweithredol. Er mwyn symud i ffwrdd odd wrth rai o faterion gweithredol SCS a oedd yn perthyn i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, diwygiwyd Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu er mwyn dirprwyo penderfyniadau ac atebolrwydd o ran recriwtio ac adnoddau i Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol newydd yn cadw'r cyfrifoldebau statudol a'r oruchwyliaeth dros gymhwyso telerau ac amodau SCS, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth gyflogau a dyfarniadau cyflog a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiadau rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu ar gyfer ein SCS.

Rhaid i gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol, pan gaiff ei benodi, gael ei gymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae holl benodiadau a chydnabyddiaeth ariannol Ysgrifenyddion Parhaol yn cael eu rheoli'n ganolog gan Swyddfa Cabinet y DU. Maent hefyd o fewn cwmpas rheolaeth y Trysorlys ar uwch-gyflogau.

O dan lefel Ysgrifennydd Parhaol, nid yw rheolaeth y Trysorlys ar uwch-gyflogau yn gymwys i benodiadau a wneir neu a gymeradwyir gan Weinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn gyffredinol, mae Swyddfa Cabinet DU yn disgwyl i gyflog pob Cyfarwyddwr Cyffredinol a benodir gael ei gytuno gan yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu). O ran penodiadau mewnol, mewn unrhyw achos lle mae cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol adeg ei benodi yn fwy na naill ai isafswm y band cyflog neu godiad cyflog 10% adeg dyrchafiad, mae gofyn cael cymeradwyaeth y Pennaeth Proffesiwn perthnasol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn ogystal â chymeradwyaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Nid oes gofyn i gyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd o fewn y trothwy 10% o gyflog adeg dyrchafiad gael y gymeradwyaeth hon oni bai eu bod yn fwy na £140,000, ac os felly mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu).

Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor, ar ei ddwy wedd, wyth gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd heblaw un.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

ExCo yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol sy'n fy nghynorthwyo yn fy rôl fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae ExCo yn cyfarfod yn wythnosol ac yn ystyried ystod o faterion gweithredol a strategol.

Drwy gydol 2023-24, roeddwn yn cael fy nghynorthwyo gan dîm arweinyddol o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Adnoddau Dynol/ Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol fel bod eglurder pellach ynghylch trefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn briodol ac yn berthnasol.

## Yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn is-bwyllgor i ExCo. O dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod bob mis i gynghori ExCo ar faterion rheoli ariannol, llywodraethiant, sicrwydd a rheoli masnachol y sefydliad, a rheoli a datblygu gweithlu'r sefydliad. Nod yr is-bwyllgor hefyd yw sicrhau bod rheoli, sgiliau a galluoedd yn gwella'n barhaus yn y meysydd hyn. Mae'r aelodaeth

yn cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol, arweinwyr cyllid a gweithrediadau o bob Grŵp ynghyd â'r Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, y Cyfarwyddwr Caffael a Masnachol, Cyfarwyddwr y Trysorlys, y Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus, y Prif Swyddog Digidol, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Swyddog Diogelu Data).

### Is-bwyllgor ExCo: y Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol (LExCo)

Y Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol (LExCo) sy'n cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogion. Yn ystod y Chweched Senedd mae wedi cynorthwyo un o Is-bwyllgorau'r Cabinet, sef Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Mae LExCo yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob chwe wythnos.

## Llywodraeth Cymru 2025 – y Strwythur Llywodraethiant

Fel yr amlinellwyd yn Rhan Un, mae ein ffrydiau gwaith LlC2025 wedi'u hailgyfeirio i ganolbwyntio ar dair ffrwd waith, sef Newid Maint, Newid Lleoedd a Newid Siâp. Mae pob ffrwd waith yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr. I gynorthwyo'r ffrydiau gwaith hyn, mae strwythur llywodraethiant rhaglenni wedi'i sefydlu, o dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu sy'n Brif Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer y Rhaglen. Mae'r rhaglen yn adrodd yn uniongyrchol i ExCo.

Mae Bwrdd Rhaglen craidd ar gyfer Cam 2 LlC2025 yn cyfarfod bob pythefnos i lywio a rhoi cyfeiriad ar nodau'r Rhaglen. Mae'n cynnwys SRO y Rhaglen ac arweinwyr y ffrydiau gwaith. Mae Grŵp Cyfeirio Cyfarwyddwyr hefyd wedi'i sefydlu i ddarparu her a sicrwydd i waith y Rhaglen. Mae hwn yn cynnwys nifer o Gyfarwyddwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymysgedd o sgiliau a phrofiad.

## Ymchwiliad Covid

Sefydlwyd ymchwiliad COVID-19 yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022 ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i hymrwymiad i gefnogi gwaith yr ymchwiliad a chymryd rhan lawn ynddo. O dan drefniadau llywodraethiant, mae diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu darparu i ExCo. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o ymchwiliad o'r raddfa hon. Mae adolygiadau gwersi a ddysgwyd rheolaidd wedi'u cynnal a phrosesau a gweithdrefnau wedi'u haddasu fel rhan o ddull gwella parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i geisiadau lluosog gan yr ymchwiliad am ddatganiadau a thystiolaeth, sy'n golygu ymwneud gan lawer o staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Rydym yn parhau i gynnig cymorth gweinyddol, cyfreithiol a llesiant ac wedi cynyddu ein cymorth llesiant i'r staff hynny y mae'n ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig neu ar lafar. Yn ystod 2023-2024 mae nifer o dystion Llywodraeth Cymru wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad yng Nghaerdydd a Llundain; disgwylir i hyn barhau wrth i'r ymchwiliad fwrw ymlaen â'i amserlen. Croesawodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad interim cyntaf yr ymchwiliad ac mae'n paratoi ei hymateb.

## Cymorth i fusnesau yn ystod COVID-19

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i fonitro ac adolygu'r cronfeydd a ddefnyddir i ddarparu cymorth busnes yn ystod y pandemig, gan ddarparu diweddariadau bob chwe mis i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC). O ran y cynlluniau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru, ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol nac ychwaith achosion neu adferiadau o ganlyniad i dwyll. O ran y cynlluniau a roddwyd ar waith gan awdurdodau lleol, mae'r gyfradd dwyll yn dal yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn flaenorol. Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Ymadael sy'n pwyso ac yn mesur cost a budd parhau â gwaith monitro ar ôl cwblhau (PCM) y Gronfa Cadernid Economaidd, gan gydnabod y bydd y buddion yn arafu po hwyaf y bydd PCM yn parhau.

# Trefniadau Sicrwydd



Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei chyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau craffu eraill y Senedd sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae ARACs y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o roi unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adroddiadau hyn ar waith.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â rhai o brif feysydd bywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

# Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a roddwyd:

| Barn Sicrwydd | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 8 | 10 | 14 | 12 | 19 |
| Sicrwydd Rhesymol | 26 | 18 | 25 | 22 | 15 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 4 | 7 | 3 | 3 | 5 |
| Dim Sicrwydd | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cynghorol (ni roddwyd unrhyw farn) | 9 | 6 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **48** | **42** | **44** | **37** | **40** |

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd rhesymol' bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd a adolygwyd, wedi'u cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheolaeth, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Y llynedd, cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol un adroddiad â barn 'dim sicrwydd' yn ymwneud â chydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â fframweithiau strategol arferion gorau ar gyfer cyflawni prosiectau, lle na chafwyd sicrwydd digonol. Rhoddwyd rhaglen ar waith mewn ymateb i'r archwiliad mewnol hwn i gryfhau'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (PPM). Mae cynnydd annigonol o ran cyflawni prosiectau blaenoriaeth a ffrydiau gwaith y Rhaglen hon wedi arwain at 'ddim sicrwydd' pellach eleni. Bydd amlygiad risg gweddilliol uchel yn parhau nes y bydd y materion a nodwyd yn cael eu datrys.

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran rhoi'r camau rheoli ar waith sy'n deillio o'r adroddiadau archwilio sicrwydd cyfyngedig a gyhoeddwyd y llynedd. O'r 18 o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, mae 12 wedi'u rhoi ar waith ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fodlon eu bod yn lliniaru'r risg(iau) a nodwyd ar sail amserol. Mae'r chwe cham gweithredu sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o Gaffael Cynaliadwy; mae cynnydd wedi'i wneud ond mae'r Swyddogaeth yn canolbwyntio'n gyntaf ar wella gallogrwydd a chapasiti yn y maes hwn i fynd i'r afael â'r camau y mae eu hangen.

Roedd yr archwiliad Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (PPM) y llynedd yn cwmpasu'r fframwaith PPM cyffredinol yn unig; nid oedd yn cynnwys y gwaith o roi prosiectau a rhaglenni unigol ar waith. Eleni, adolygwyd agweddau penodol ar ymarfer PPM ac, o ystyried y gwerth a ychwanegwyd gan Fframwaith cryf, nid oedd yn syndod mai dim ond 'sicrwydd cyfyngedig' a roddwyd ar gyfer archwiliadau o Gynllunio Busnes a Gwireddu Buddion, lle y nodwyd anghysondebau a gwendidau. Yn ogystal, gwnaed darn o waith cynghori hefyd i helpu i wella datblygiad Achosion Busnes.

Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ddau adroddiad sicrwydd cyfyngedig arall. Yn achos y Gyflogres, roedd problemau o ran cyfrifo a phrosesu taliadau cyflogres ansafonol (canfuwyd bod cyflogau misol rheolaidd yn foddhaol). Yn achos Dysgu a Datblygu, nodwyd diffyg data effeithiol, anghysondebau o ran dull gweithredu a diffyg cyfeiriad strategol.

Er i wendidau 'sylfaenol' ac 'arwyddocaol' gael eu canfod mewn archwiliadau penodol, hyd yn oed o'u cyfuno mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod y diffygion a nodwyd yn cael eu gorbwyso gan sicrwydd cadarnhaol sy'n ategu'r farn gyffredinol. Mae'r Pennaeth hefyd yn fodlon hefyd â'r ymateb rheoli cadarnhaol i'r sylwadau a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Lle nodwyd gwendidau, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu rheoli i wella'r fframwaith rheoli a mynd i'r afael â'r risgiau a'r materion a nodwyd ac mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu monitro gan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru.

## Sicrwydd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r corff o archwiliadau o brosiectau a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd ac archwiliadau o systemau rheoli allweddol a weithredir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'i ddau Gorff Cyfryngol yn rhoi sicrwydd ar gydymffurfiaeth y Cronfeydd Strwythurol a'r rhaglenni eraill a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd â Rheoliadau'r Comisiwn ar gydnabod a hawlio costau gan y Comisiwn.

### Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 (ESF ac ERDF)

Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Blynyddol (ACR) ar gyfer 2022-23 i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 13 Chwefror 2024. Adroddwyd barn ddiamod a chyfradd gyfeiliorni o 0.83%, sy'n is na'r trothwy perthnasedd o 2%. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ACR ac fe'i derbyniwyd ar 25 Mawrth 2024 heb unrhyw angen i gymryd camau dilynol.

### Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon a Chymru 2014-2020

Cyflwynwyd yr ACR sy'n cwmpasu 2022-23 ar 12 Chwefror 2024. Adroddwyd barn ddiamod a chyfradd gyfeiliorni o 0.00%. Derbyniwyd yr ACR gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 5 Mawrth 2024 ac nid oes angen camau dilynol pellach.

### Rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014-2020

Mae EFAT yn ymgymryd â gwaith archwilio ar arian a ddaw i law yng Nghymru ar gais Awdurdod Archwilio'r DU. Ar gyfer 2022-23, bernid bod yr hawliad am un gweithrediad EMFF yng Nghymru 100% yn anghymwys, gan arwain at gywiriad (cosb) o £103,009 ar gyfer y Rhaglen.

### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Mae EFAT yn cyflawni'r strategaeth archwilio fewnol pum mlynedd ar gyfer y rhaglen PAC. Cwblhawyd pump archwiliad yn ystod y flwyddyn archwilio, pob un â barn "Categori 1 (Gweithio'n dda; dim angen gwelliannau neu mae angen mân welliannau yn unig)". Daeth y Rhaglen i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Felly, nid oes unrhyw rwymedigaethau archwilio mewnol pellach mewn perthynas â'r Rhaglen hon.

### Archwiliadau Systemau EFAT (ESF/ERDF/Iwerddon-Cymru)

Cynhaliodd EFAT archwiliad o barodrwydd WEFO i gau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yn ystod 2023, gan roi barn "Categori 2 (yn gweithio, ond mae angen rhai gwelliannau)". Ym mis Gorffennaf 2024, eir ar drywydd y camau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr.

### Archwiliad Llys Archwilwyr Ewrop (ECA) o Raglen 2014-2020 – ESF/ERDF

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau bod ei ymarfer dilynol ar archwiliad ECA yn ystod 2023 dod i ben heb unrhyw faterion sydd heb eu datrys.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Ar sail ei waith drwy gydol 2023-24, mae'r Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol sydd wedi'u sefydlu, yn seiliedig ar y sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Un o'm ffynonellau sicrwydd yw'r broses Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ). Eleni, o gofio'r pwysau digynsail ar dimau, ar gais ExCo i leihau'r baich ar Gyfarwyddwyr, mabwysiadwyd dull cynyddrannol ar gyfer proses ICQ 2023-24. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar ganlyniadau ffurflenni ICQ 2022-23 a ddarparwyd yn flaenorol gan Gyfarwyddwyr.

Rhoddwyd mynediad i'r holl Gyfarwyddwyr i'w ffurflen ICQ 2022-23 fel sail i asesu a darparu diweddariad ar gyfer eu sgoriau 2023-24. Mae hyn hefyd wedi galluogi Cyfarwyddwyr Cyffredinol i baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol eu hunain, i roi eu hasesiad imi o effeithiolrwydd fframwaith rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Drwy'r broses ICQ, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi eu hunanasesiad imi o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn ariannol yn eu maes cyfrifoldeb. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol, drwy eu Datganiadau Sicrwydd, wedi rhoi trosolwg o drefniadau llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risgiau eu Grŵp a oedd ar waith yn ystod 2023-24.

Fel rhan o'r broses her mae Uwch-reolwyr o fewn Grwpiau wedi cynnal sesiwn i drafod yr ICQ ac mae ARACs y Grwpiau wedi cynnal sesiwn bwrpasol i ystyried yr ICQ. Ar ôl cyflwyno'r ffurflenni ICQ, cynhyrchwyd "map gwres" ac eleni fe'i hystyriwyd gan arweinwyr swyddogaethol, megis y Pennaeth Caffael a'r Pennaeth Diogelwch TG. Yn dilyn hyn rhoddwyd mynediad i'r Cyfarwyddwyr i adborth yr arweinwyr swyddogaethol i roi cyfle iddynt ystyried eu sgoriau, a'u diwygio os oedd angen.



Yn gyffredinol, mae sgoriau ICQ 2023-24 yn dangos asesiad ‘rhesymol’ o’r system rheolaeth fewnol sy’n gyson â’r blynyddoedd blaenorol, gyda Chyflawni Prosiectau a Materion Staffio yn sgorio’r lefelau hyder isaf. Wrth symud ymlaen byddwn yn defnyddio’r gwersi a ddysgwyd o broses ICQ eleni i lywio ICQ 2024-25.

## Panel Codi Pryderon

Mae Panel Chwythu’r Chwiban wedi’i ailenwi’n Banel Codi Pryderon ac fe gyfarfu bum gwaith drwy gydol y flwyddyn i ystyried pryderon a godwyd, i sicrhau bod camau’n cael eu cymryd yn brydlon wedyn ond gan gadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd. Mae’r Panel yn delio â phryderon a godwyd gan staff ynghylch camweddau posibl, ac a fyddai’n debygol o fod o dan ddeddfwriaeth chwythu’r chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998). Mae gan Lywodraeth Cymru broses ar wahân i staff godi pryderon am faterion megis telerau eu cyflogaeth neu ymddygiad amhriodol, ac nid yw’r pryderon hynny wedi’u cynnwys yn yr ystadegau yma.

Mae’r polisi Chwythu’r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau camwedd o fewn y sefydliad a sut y bydd yn cael ei drin. Cyhoeddir gwybodaeth ar y fewnrwyd hefyd. Mae’r trefniadau Codi Pryderon yn Llywodraeth Cymru yn dryloyw ac yn cyd-fynd ag arferion da.

Cafodd saith achos eu hystyried gan y Panel yn ystod y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys dau achos a gafodd eu dwyn ymlaen o flynyddoedd blaenorol, a dau achos yr ystyrid nad oeddent yn dod o fewn y polisi ac a atgyfeiriwyd at Adnoddau Dynol i fwrw ymlaen â hwy. Cafodd pob achos ei gau yn ystod y flwyddyn.

| Pryderon a godwyd | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 4 | 2 | 4 | 3 | 3 | 4 |
| Wedi’u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | - | - | 1 | 1 | 6 | - |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | 1 | - | - | - |
| Cyngor wedi’i roi i’r chwythwr chwiban | 2 | - | - | 1 | 2 | - |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | - | 2 | 2 | 5 | - | 3 |
| Wedi’u cadarnhau a chamau wedi’u cymryd | 1 | - | 2 | 1 | | |
| Dim digon o dystiolaeth i fynd ar eu trywydd | - | - | 1 | | | |
| **Cyfanswm** | **7** | **4** | **11** | **11** | **11** | **7** |

## Y Panel Sicrwydd Allanol a Gwrth-dwyll

Yn ogystal â'r Panel Codi Pryderon sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol, a gyfarfu naw gwaith yn ystod y flwyddyn, yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond nid pob un, o'r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â'r holl achosion y mae'r Uned Gwrth-dwyll yn delio â hwy gerbron y Panel (felly mae gwahaniaeth yn nifer yr achosion y mae'r Panel a'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae'r Panel yn darparu cyngor proffesiynol a chraffu annibynnol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu rhannu â swyddogion polisi.

Ym mis Mawrth 2024 diwygiwyd cylch gorchwyl y Panel i gynnwys ystyried pryderon a godwyd lle nad yw'r sefydliad o dan sylw yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Nid ymdriniwyd ag unrhyw achosion o'r fath ar gyfer 2023-24. Yn ogystal, noddodd y Panel ddatblygiad Protocol newydd i Lywodraeth Cymru sy'n cynghori swyddogion ar yr ymatebion priodol



i honiadau a ddaw i law am gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys pryderon am ymddygiad a materion eraill heblaw afreoleidd-dra ariannol.

Cafodd 14 o achosion newydd eu hadrodd i'r Panel yn ystod y flwyddyn, yn ychwanegol at y tri achos a gariwyd ymlaen o 2022-23. Gwnaeth y Panel ddatrys 12 o achosion yn ystod y flwyddyn, yr oedd dau ohonynt wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd pump achos eu cario ymlaen i 2024-25, ac mae un o'r rheini'n cael ei adolygu gan yr archwilwyr allanol ar hyn o bryd.

# Gwrth-dwyll

Mae'r tabl isod yn rhoi nifer yr achosion o dwyll a amheuir a adroddwyd i'r Pennaeth Gwrth-dwyll ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd 25 o achosion newydd wedi'u hatgyfeirio at yr Uned Wrth-dwyll a thri wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

| Gwrth-dwyll | 2023-24 |
|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2022-23 | 3 |
| Achosion newydd yn codi | 25[51] |
| Achosion a gafodd eu datrys | 20 |
| Achosion yn parhau ac yn destun ymchwiliad | 8 |
| – Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu | 4 |
| – O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth dwyll annibynnol | 1 |
| – Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 3 |
| **Cyfanswm yr achosion heb eu datrys** | **8** |

| Achosion y Panel Sicrwydd Allanol | 2023-24 |
|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2021-22 | 8 |
| Achosion newydd yn codi | 5 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 10 |
| Achosion sy'n weddill (mae'r isod wedi'u cynnwys mewn 3 ohonynt). | 3 |
| – Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu | 1 |
| – O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth dwyll annibynnol | 0 |
| – Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 2 |
| **Cyfanswm yr achosion heb eu datrys** | **3** |

Mae'r ffigurau'n ymwneud â blynyddoedd ariannol. Mae'r tabl isod yn nodi sut y daeth yr 11 o achosion y deliwyd â hwy i ben.

| Mae'r 20 o achosion a gafodd eu datrys yn 2023/24 wedi'u nodi yn y categorïau isod | 2023-24 |
|---|---|
| Twyll wedi'i brofi | 2 |
| Yr heddlu heb fynd ar ei drywydd yn droseddol neu adferiad ariannol oedd yr opsiwn a ffafriwyd | 2 |
| Ni chanfuwyd unrhyw dwyll | 16 |

51 Dangosodd ystadegau'r flwyddyn flaenorol 2022-23 y lefelau isaf o dwyll a gofnodwyd dros y 13 blynedd flaenorol. Mae nifer yr achosion o dwyll honedig neu dwyll a amheuir a adroddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2023-24, wedi dychwelyd i'r lefelau arferol cyn y pandemig.

Mae pob achos yn cael ei adolygu er mwyn dysgu gwersi a chaiff y rhain eu rhannu â'r timau priodol a'u trafod gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol.

Mae Asesiadau Risg Twyll a Llygredd yn cael eu paratoi gan y cyfarwyddiaethau o fewn pob maes polisi, yn cael eu monitro a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn ac yn cael eu cyflwyno i Bennaeth y Tîm Gwrth-dwyll bob chwe mis.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i nodi twyll a chamgymeriadau yn y sector cyhoeddus drwy gymryd rhan unwaith eto yn y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir bob dwy flynedd. Gohiriwyd y dyddiad gwreiddiol ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad cryno oherwydd yr angen i flaenoriaethu meysydd eraill o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae adnoddau ychwanegol bellach ar gael a bydd gweddill y gwaith ar gyfer yr NFI yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2024.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant effeithiol a system rheolaeth fewnol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cwmpasu cofrestri gwrthdaro buddiannau a datgeliad blynyddol gan yr holl staff perthnasol, a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu pob aelodaeth o fwrdd ac aelodaeth debyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Gofrestri Gwrthdaro Buddiannau hefyd. Gofynnir hefyd am wrthdrawiadau buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod ac fe'u cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau'r Bwrdd ac ARAC wedi'u nodi hefyd mewn llythyrau penodi ac yn y Cylch Gorchwyl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad helaeth o'r polisi a'r gweithdrefnau Gwrthdaro Buddiannau, yn dilyn adolygiad archwilio mewnol ac mewn ymateb i bryderon Gwasanaeth Sifil y DU ynghylch uwch weision sifil yn dal penodiadau nad ydynt yn gydnaws â Chod y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd ffurflen datgan buddiant ar gyfer yr holl recriwtiaid parhaol a thros dro i Lywodraeth Cymru yn 2022, ac ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r undebau llafur, rhwydweithiau staff a rhanddeiliaid perthnasol, rydym bellach yn ystyried canllawiau pellach a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet y DU yng ngwanwyn 2023 ar gyfer cyhoeddi cofrestri o fuddiannau staff.

Rwyf yn dal yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, ond byddaf yn disgwyl gweld polisi cryfach, cliriach a mwy cadarn i'r holl staff a gweithgarwch cryfach i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r safonau a ddisgwylir gan weision sifil o ran buddiannau allanol, ynghyd â mecanwaith adrodd cryfach – a hynny am fod cynnydd da yn cael ei wneud ar ddatrysiad electronig ar gyfer cofnodi ac adrodd ar fuddiannau.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Mae ymarfer sicrwydd blynyddol wedi'i wneud gan Bennaeth y Proffesiwn dadansoddi yn Llywodraeth Cymru i asesu'r modelau dadansoddi allweddol o ran busnes sy'n cael eu defnyddio gennym ac i roi sicrwydd imi am y modelau hynny. Eleni yw'r seithfed flwyddyn i'r ymarfer gael ei gynnal. I gydategu'r ymarfer blynyddol, cynhaliwyd ymarfer adolygu gan gymheiriaid hefyd ar gyfer nifer bach o fodelau.

Mae amlygiad Llywodraeth Cymru i risg modelu dadansoddol wedi parhau i gynyddu eleni oherwydd defnydd ehangach o fodelu. Adolygwyd 27 o fodelau hanfodol o ran busnes eleni, sy'n gynnydd o'r 21 a fodolai pan sefydlwyd y broses sicrwydd yn 2017-18.

Cafodd dau fodel newydd eu cynnwys eleni – model amcanestyniadau tymor byr UKHSA ac offeryn Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA).

Penderfynwyd, yn dilyn sesiwn adolygu gan gymheiriaid y llynedd, nad oedd model Datatank ar gyfer y dreth gyngor a chymorth treth gyngor yn bodloni'r diffiniad o fodel hanfodol o ran busnes ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn adolygiad eleni.

Er mwyn gwella tryloywder o ran y defnydd o fodelu dadansoddol, eleni bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei rhestr o fodelau hanfodol o ran busnes.

Yn ystod yr ymarfer sicrwydd blynyddol, mae pob model yn cael ei sgorio ar ei risg a'i effaith. Ni chynyddodd sgoriau unrhyw fodel eleni ac fe ostyngodd sgoriau nifer bach o fodelau. Mae hwn yn newid amlwg ers y blynyddoedd blaenorol, lle mae'r pandemig a heriau cymdeithasol ac economaidd eraill yn aml wedi arwain at fwy o risg neu effaith. Yn gyffredinol, mae amlygiad i risg yn parhau i gael ei sbarduno i raddau helaeth gan:

- Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ffactorau economaidd neu gymdeithasol, gan gynnwys effaith barhaus y pandemig, sy'n ychwanegu ansicrwydd at ddata a rhagdybiaethau.
- Dibyniaeth ar arbenigedd allanol ar gyfer modelau cymhleth mawr, gyda galluedd mewnol cyfyngedig gan gomisiynwyr modelau.

Mae capasiti dadansoddol yn dal yn fod yn her barhaus o ran sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u neilltuo i fodelau hanfodol o ran busnes. Mae llawer o dimau yn dibynnu ar nifer bach o ddadansoddwyr sydd â sgiliau arbenigol, gan eu gwneud yn agored i golli capasati a gwybodaeth. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos lefelau rhesymol o gynlluniau wrth gefn, gyda dadansoddwyr o bob rhan o'r gymuned fodelu, y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, yn cefnogi ei gilydd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yn ôl yr angen.

Mae modelau'n dibynnu fwyfwy ar sgiliau a gwybodaeth arbenigol iawn, gydag arbenigedd allanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai modelau. Mewn rhai meysydd mae prosesau sefydledig ar gyfer deall a, lle bo angen, herio rhagolygon a gynhyrchir yn allanol (ee ar gyfraddau treth incwm Cymru). Mewn meysydd eraill, efallai y bydd risgiau o ran diffyg swyddogaeth 'cleient deallus' addas yn fewnol i gynnig yr un her a sicrwydd. Eleni rydym yn paratoi deunyddiau hyfforddi i gynnal gweithdai yn ystod yr haf sydd wedi'u hanelu at uwch-berchnogion cyfrifol modelau, i helpu i ddatblygu'r sgiliau hynny.



# Materion Rheolaeth Fewnol



Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

## Colledion, Dileadau a Thaliadau Arbennig

### Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon yng Nghymru, lansiwyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) sy'n cynnig dull tŷ cyfan o ddatgarboneiddio cartrefi presennol. Yn ystod 2023-24 canfyddwyd bod nifer o ddyfeisiau a gafodd eu caffael yn flaenorol fel rhan o'r ORP wedi darfod amdanynt oherwydd newidiadau technolegol a bod angen eu huwchraddio i sicrhau parhad data IES a ddarperir i'r rhaglen.

Nid oes modd uwchraddio'r holl unedau ac ar gyfer 2023-24 mae hyn wedi arwain at golled (taliad ofer) yn ymwneud â'u pryniant gwreiddiol. Y taliad ofer yw £2,270,000. Bydd y gost i uwchraddio'r unedau sy'n weddill yn cael ei chydnabod fel colled ddeongliadol yng nghyfrifon cyfunol 2024-25.

### Cyllid Grant – Dileadau

Yn 2018-19 roedd tri grant gwerth cyfanswm o £0.455 miliwn, a dalwyd i'r un unigolion am adnewyddu cyfleusterau gwestai a hamdden mewn dau safle ar wahân, a oedd yn destun ymchwiliad i dwyll gan Bennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Er iddo gael ei gyfeirio at Heddlu Dyfed-Powys, roedd honiad fod twyll mwy wedi digwydd yn erbyn banc ac fe wrthododd y banc o dan sylw wneud cwyn i'r heddlu. Gan na wnaeth yr heddlu ymchwilio ni phrofwyd unrhyw dwyll ac argymhellodd Panel Sicrwydd Allanol Llywodraeth Cymru fod y swm hwn yn cael ei ddileu.

### Prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – Taliad Arbennig

Gwnaed taliad arbennig o £13.1 miliwn (heb gynnwys TAW) i gyflenwr fel rhan o gytundeb i setlo cyfres o hawliadau contractiol ar brosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a oedd wedi codi oherwydd pwysau chwyddiant a effeithiodd ar argaeledd a fforddiadwyedd deunyddiau adeiladu.

### Stociau ffliw pandemig, meddyginiaethau Covid a dileadau profion llif unffordd

Cafodd stociau ffliw pandemig, meddyginiaethau Covid a phrofion llif unffordd eu dileu yn y flwyddyn gyda gwerth o £1,196,419, £1,670,803 a £1,837,913 yn y drefn honno. Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'r lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn wamal o'r herwydd. Mae dileadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r dileadau a hysbyswyd yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd neu i drin COVID-19. Mae'n risg gydnabyddedig wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer achosion o ffliw pandemig fod rhai stociau'n debygol o gael eu dileu.



## Materion eraill yn ystod y flwyddyn

### Trefniadau TAW/Cynllunio a Rheoli Trethi

Mae gan CThEF y tri adolygiad cydymffurfio parhaus canlynol:

- Adolygiad IR35;
- Adolygiad o Gydymffurfiaeth Cyflogwyr; ac
- Archwiliad Treth ar Werth (TAW).

Oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau CThEF, dim ond yr Archwiliad TAW sydd wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn.

Canfu adolygiad o gynlluniau ffyrdd yr A487 a'r A465 fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn tanadfer TAW ac o'r herwydd mae wedi cael yr ad-daliadau canlynol:

- A487 – £1,958,464
- A465 – £2,527,623

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i ddiogelu gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol imi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae sicrwydd cyflenwyr mewn perthynas â diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract, pan fo gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol yn rhan o gymalau contract. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun gwiriad iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon orau o ran arferion gorau ee Cyber Essentials/ISO27001.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys seiber) yn cael eu trafod yn y Bwrdd Diogelwch a'u trafod yn rheolaidd gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch. Mae ExCo a minnau'n cael briffiadau diogelwch drwy gydol y flwyddyn.



**Tabl 1: Digwyddiadau sy'n dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i ICO (Adroddwyd)**

| Blwyddyn | Digwyddiadau a adroddwyd i ICO | Camau a gymerwyd gan ICO |
|---|---|---|
| 2023/24 | 2 | 0 |
| 2022/23 | 2 | 0 |

**Tabl 2: Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol a ddiogelir**
Yn y tabl isod nodir digwyddiadau y barnodd y Rheolydd Data nad oeddent yn dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i ICO, ond a gofnodwyd yn fewnol:

| Math | Natur y digwyddiad | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, oedd heb eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 0 | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, oedd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 1 | 0 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur oedd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 1 | 0 |
| IV | Datgeliad anawdurdodedig, e.e. anfon e-bost at y person anghywir | 134 | 81 |
| V | Arall | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | | **136** | **83** |

Mae pob datgeliad data heb ei awdurdodi yn cael ei gofnodi ac ymchwilir iddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal proses fewnol gadarn ar gyfer adrodd sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dor data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Adroddir ar bob achos o dor data i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn cael eu cynnwys yn y Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 2 mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol wedi cynyddu 64% (o 83 i 136).

Mae'r cynnydd hwn i'w priodoli i gynnydd mewn datgeliadau heb eu hawdurdodi. O'r 134 o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi, cofnodwyd 80 (60%) fel gwybodaeth a gafodd ei hanfon/ei hanfon drwy e-bost at y derbynnydd anghywir. Er hynny, i roi'r cynnydd hwn yn ei gyd-destun, mae Llywodraeth Cymru yn anfon tua 1.3-1.5 miliwn o e-byst bob mis (yn 2022/23 roedd yn 1.23 miliwn y mis ar gyfartaledd).

Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023, roedd 99.9% o staff Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelwch a Diogelu Data gorfodol. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys

gwybodaeth am dor diogelwch data a beth yw data personol. Mae'n debygol felly bod gwell ymwybyddiaeth wedi sbarduno rhywfaint o adrodd ychwanegol gan staff.

Mae e-byst busnes sy'n cynnwys gwybodaeth SWYDDOGOL, ond sy'n cael eu hanfon at y derbynnydd anghywir ac sy'n cynnwys cyfeiriadau e-bost cydweithwyr gwaith eraill, hefyd yn debygol o gael eu cofnodi fel achosion o dor data ar lefel isel. Mae'r rhain yn dor diogelwch data personol; er hynny, nid oes fawr ddim risg neu ddim risg o gwbl i hawliau a rhyddid yr unigolyn.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Mae metrigau diogelu data yn ystod 2023-24 yn parhau i awgrymu bod mesurau technegol a sefydliadol Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n effeithiol i ddiogelu data personol a chefnogi atebolrwydd. Er na ellir dileu digwyddiadau diogelu data yn llwyr, rheolwyd hwy ac ymatebwyd iddynt yn dda, a rhai mân fuont yn bennaf.


Serch hynny, tynnodd un digwyddiad penodol, a oedd yn ymwneud â'r system adnoddau dynol Pobl, sylw at bwysigrwydd mesurau effeithiol a chyson o 'safon diwydiant' ar gyfer rheoli newid sydd ar waith ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r patrwm o weithredu a rheoli gwasgaredig yn achos systemau digidol y tu allan i'r swyddogaeth gorfforaethol graidd yn golygu nad yw hyn wedi bod yn wir. Mae nifer o risgiau diogelwch data systemig a strwythurol yn parhau, gan gynnwys effaith systemau a data etifeddol, sydd wedi'u nodi ond sydd eto i'w datrys. Mae rheoli asedau data mewn modd adrannol, a nifer y systemau ac asedau data etifeddiaeth, i gyd yn dal yn rhwystrau i reoli risg data yn effeithiol a, thrwy hynny, i gydymffurfio â diogelu data.

## Tor diogelwch data'r system Pobl

Daeth ymchwiliad i dor diogelwch data'r system Pobl i'r casgliad ei fod yn deillio o ddiffyg llywodraethiant a rheolaeth yn amgylchedd cymorth Pobl, ac mai'r achos sylfaenol oedd i'r system fynd yn fyw heb adnoddau cymorth priodol a diffyg dealltwriaeth o effaith yr addasiadau a wnaed yn ystod y gwaith datblygu.

Er na wnaeth y tor diogelwch arwain at unrhyw ganlyniadau difrifol, rhoddwyd y gorau dros dro i ddefnyddio'r system Pobl cyn gynted ag y daeth y mater i'r amlwg, a dim ond ar ôl i ddatrysiad technegol i'r tor data gael ei gwblhau'n llawn yr ailddechreuwyd ei defnyddio. Cafodd gwaith datblygu pellach ei ohirio nes i'r materion llywodraethiant a rheoli gwaelodol gael eu datrys.

Ymchwiliwyd i'r tor diogelwch yn fewnol gan Brif Swyddog Diogelwch Llywodraeth Cymru ac arbenigwr annibynnol a datblygwyd cynllun gweithredu wedi'i flaenoriaethu. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran bwrw ymlaen â'r argymhellion; lluniwyd cynllun amlinellol wedi'i flaenoriaethu ar gyfer datblygu Pobl yn y dyfodol a pharheir i gynnal adolygiadau y bydd gan y Prif Swyddog Diogelwch ran ynddynt.



# Atebolrwydd Lleol



Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru yn cael ei dosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

## Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad blynyddol, heb ei neilltuo, i Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail data sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Mae'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n barhaus ac mae gwaith ar y gweill ar y fformiwla i adlewyrchu data Cyfrifiad 2021 lle bo'n briodol.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi domestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am y modd y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol adolygu eu perfformiad gan gynnwys ymgymryd â hunanasesiadau blynyddol ac adolygiadau gan gymheiriaid bob pum mlynedd, ymgynghori arnynt, eu cyhoeddi a gweithredu arnynt.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyladwy i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn, dylai fod modd sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol Llywodraeth Cymru, y cyfreithiau a'r polisïau perthnasol, ac arferion da. Cymharol ychydig o'r rhain a ddarperir gan y Grŵp, ond mae nifer y grantiau refeniw a swm y cyllid drwy grantiau penodol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn sylweddol. Mae gwaith y dechreuwyd arno yn 2022-2023 i adolygu'r beichiau gweinyddol ar awdurdodau lleol o dan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi parhau yn 2023-2024 gan gynnwys ffocws ar y gorbenion gweinyddol a achosir gan gyllid grant. Cafodd nifer o grantiau ar draws Llywodraeth Cymru eu cyfuno neu eu trosglwyddo i'r Setliad heb ei neilltuo. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

## Iechyd

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu gwasanaethau ysbytai ac iechyd cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan feddygon teulu ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir cyllid hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr. Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

## Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Ar 31 Mawrth 2024 roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig ar ôl cael ei roi'n ôl ar y statws hwn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 27 Chwefror 2023. Cafodd y penderfyniad i uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd ei wneud oherwydd pryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd gwasanaethau ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethiant, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

Ar gyfer gweddill cyrff GIG Cymru ar 31 Mawrth 2023 mae'r tabl[52] canlynol yn nodi eu statws uwchgyfeirio ac ymyrraeth o'i gymharu â 31 Mawrth 2024.

| Sefydliad GIG | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2023 | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng yn Ysbyty'r Faenor. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Lefel 5 (mesurau arbennig) ers mis Chwefror 2023. | Lefel 5 (mesurau arbennig). |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cynllunio a chyllid.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer ansawdd a llywodraethiant.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer ansawdd a llywodraethiant.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer cyllid a chynllunio. Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer ansawdd a pherfformiad. | Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu). |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. |

52 Lansiwyd Fframwaith Goruchwylio, Sicrwydd ac Uwchgyfeirio diwygiedig ym mis Ionawr 2024.
Roedd statws uwchgyfeirio cyrff y GIG ar 31 Mawrth 2023 yn rhan o'r fframwaith blaenorol (nad oedd ganddo'r un lefelau uwchgyfeirio).

| Sefydliad GIG | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2023 | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br>Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yng nghyfrifon unigol y sefydliadau neu yng Nghyfrifon Cryno'r GIG neu ar dudalennau Uwchgyfeirio GIG Cymru
Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru | LLYW.CYMRU

## Sicrwydd a Chydymffurfio

Mae'r farn sicrwydd flynyddol ar gyfer asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol prosesau llywodraethiant, rheoli risgiau a rheoli pob sefydliad yn cael eu darparu o fewn ystod o 'Dim Sicrwydd' i 'Sicrwydd Sylweddol'. Cafodd holl sefydliadau GIG Cymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, farn 'Sicrwydd Rhesymol'. Cafodd y ddau gorff asesiad sicrwydd cyfyngedig gan asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol.

## Barn Archwilio Archwilydd Cenedlaethol Cymru ar ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra

Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn 2023-24. Rhoddwyd y farn amodol ar y sail nad oedd y byrddau iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol statudol a nodir yn adran 175 (1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na swm cyfanredol y cyllid a neilltuwyd iddo dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol.

Cafodd barn reoleidd-dra Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei hamodi ymhellach mewn perthynas â thaliadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd heb awdurdod priodol, gan iddynt fethu â chydymffurfio â pharagraff 14.1.4 o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wrth benodi Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro ar bwynt cyflog a oedd yn uwch na'r hyn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyfrifon Cryno GIG Cymru hefyd wedi cael barn amodol ar reoleidd-dra; nid yw'r amodi hwn yn adlewyrchu'r broses o baratoi

a chrynhoi'r Cyfrifon Cryno na'r farn 'gwir a theg'. Mae'n codi am fod y saith BILI wedi cynhyrchu diffygion ariannol dros y cyfnod asesu dyletswydd statudol 2021-22 i 2023-24 ac mae amodiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn deillio o daliadau afreolaidd i Gyfarwyddwr Gweithredol.

Cyflawnodd pob un o'r tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru eu dyletswydd ariannol o dan Atodlen 4 Paragraff 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i sicrhau nad yw eu refeniw yn llai na digonol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, a fesurir dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er hynny, cafodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre farn amodol ar reoleidd-dra. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth daliad ex gratia i'w chyn Brif Swyddog Gweithredu heb awdurdod priodol pan fethodd â sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y taliad.

Cyflawnodd y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig eu dyletswydd flynyddol ac nid aethant y tu hwnt i'r terfynau adnoddau refeniw a ddyrannwyd iddynt.

Cafodd pob un o'r saith BILI, y tair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig farn archwilio wir a theg ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'u datganiadau ariannol ar gyfer 2023-24.

## Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2023 i 2026

Ym mis Tachwedd 2021, ailsefydlodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Cynllunio ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig GIG Cymru. Mae'r Fframwaith yn rhoi'r eglurder y mae ei angen i osod y sylfeini ar gyfer manteisio ar yr arloesi a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig, ac i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynlluniau'r tri chorff canlynol a oedd wedyn yn cyflawni eu hail ddyletswydd ariannol:

- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Er nad yw'n ofyniad statudol, cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynlluniau Tymor Canolig Integredig boddhaol.

Methodd pob un o'r saith BILI â chyflawni eu dyletswydd statudol i gyflwyno cynllun tair blynedd integredig y gellid ei gymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2023 i 2026 yn y flwyddyn ariannol 2023-24. Felly, mae cynlluniau blynyddol, yn hytrach na chynlluniau tair blynedd, yn destun gwaith monitro parhaus drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys trafodaethau sy'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prif Weithredwyr, cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a'r Bwrdd Perfformiad cenedlaethol.



# Proffil Risg




Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo nifer o risgiau posibl (mawr eu heffaith ond yn annhebygol o ddigwydd) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio.

Enghreifftiau o'r rhain yw ei chyfrifoldebau os bydd brigiadau o glefydau pobl neu anifeiliaid yng Nghymru, a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n ymrwymo iddynt o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau "ar draws y sefydliad" a allai fygwth busnes craidd Llywodraeth Cymru a'r ffordd y mae'n gweithredu. Dogfen fewnol ydyw.

Isod mae trosolwg o newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Sgôr risg:

- (coch) **Sgôr:** 20 – 25 **Lefel:** Uchel iawn **Natur y risg:** Risgiau allweddol
- (oren) **Sgôr:** 13 – 19 **Lefel:** Uchel **Natur y risg:** Risgiau perthnasol
- (melyn) **Sgôr:** 5 – 12 **Lefel:** Canolig **Natur y risg:** Risgiau y gellir eu rheoli
- (gwyrdd) **Sgôr:** 1 – 4 **Lefel:** Isel **Natur y risg:** Risgiau dibwys

Newid yn y flwyddyn (risg weddilliol):

**I fyny** ↑ ↔ **Aros yr un peth** ↓ **I lawr**

| Risg gorfforaethol | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2023 | Newid yn y flwyddyn | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|
| Pontio Ewropeaidd | 16 | Tynnwyd Ebrill 2023 | |
| Risg ariannol | 15 | ↑ | 20 |
| Cyflenwi a chynllunio busnes | 12 | Tynnwyd Medi 2023 | |
| Capasiti'r gweithlu | 20 | ↔ | 20 |
| Galluedd a hyblygrwydd y gweithlu | 16 | ↔ | 16 |
| Llesiant staff | 20 | ↔ | 20 |
| Cadernid systemau TGCh | 15 | ↔ | 15 |
| Y Rhaglen Ddeddfwriaethol | 20 | ↔ | 20 |
| Cyflenwi prosiectau | 20 | ↔ | 20 |
| Risg ddigidol | 16 | ↔ | 16 |
| System adnoddau dynol | 15 | Tynnwyd Medi 2023 | |
| Seiberddiogelwch | 20 | ↔ | 20 |
| Tarfu/ digwyddiad parhad busnes | 15 | ↓ | 12 |
| GDPR y DU | 6 | Tynnwyd Ebrill 2023 | |
| Ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU | 20 | ↓ | 16 |
| Cyflwr y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 20 | Tynnwyd Medi 2023 | |

| Risg gorfforaethol | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2023 | Newid yn y flwyddyn | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|
| Fforddiadwyedd ymrwymiad cyllid Wcráin | 15 | Tynnwyd Tachwedd 2023 | |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 20 | ↔ | 20 |
| Y Gymraeg | 15 | ↑ | 20 |
| Diwedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol | 16 | ↓ | 15 |
| Llinellau Craidd y Cymoedd | 9 | Tynnwyd Ebrill 2023 | |
| Methiant Llywodraeth y DU i lynu wrth egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol | Risg newydd | Ychwanegwyd Ebrill 2023 | 20 |
| Machludo cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn 2023 yn unol â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir Llywodraeth y DU | Risg newydd | Ychwanegwyd Ebrill 2023 ond tynnwyd Tachwedd 2023[a] | |
| Ymateb mewn argyfwng | Risg newydd | Ychwanegwyd Ebrill 2023 | 16 |
| Rheolaethau'r ffin | Risg newydd | Ychwanegwyd Tachwedd 2023 | 16 |
| Newid hinsawdd | Risg newydd | Ychwanegwyd Tachwedd 2023 | 20 |
| Dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru | Risg newydd | Ychwanegwyd Tachwedd 2023 | 12 |
| Iechyd a diogelwch | Risg newydd | Ychwanegwyd Tachwedd 2023 | 12 |

[a] Cafodd y risg hon ei chynnwys yn y Gofrestr oherwydd bod risg y byddai dull gweithredu Llywodraeth y DU yn tynnu'r bloc cyfan o gyfraith yr UE a ddargedwir o'r llyfr statud ar ddiwedd 2023. Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi newid eu dull gweithredu fel y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei chadw oni bai ei bod wedi'i dirymu'n benodol, ac mae wedi ymgynghori â LIC ar ei chynlluniau ar gyfer dirymu.

Mae'r holl risgiau corfforaethol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ExCo, y Bwrdd ac ARAC fel rhan o'n gwaith parhaus o reoli risgiau corfforaethol. Amlinellir isod fanylion pellach ar risgiau newydd, risgiau sydd wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn a diweddariad ar y risgiau hynny yr wyf wedi tynnu sylw atynt yn flaenorol.

Un o'r pwysau mwyaf sylweddol arnom yn ystod y flwyddyn oedd pwysau ariannol a chyllidebol ac mae'r risg hon wedi effeithio ar y risgiau hynny i'r gweithlu, gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a llesiant y staff. Mae dulliau effeithiol wedi bod ar waith i fonitro a darparu cymorth i'r staff, yn ôl yr angen, ond mae ein risg ynghylch llesiant staff, ac adnoddau wedi parhau i fod yn rhan o'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae mesurau lliniaru yn y maes wedi cael eu monitro a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau megis rhoi'r fframwaith atebolrwydd adnoddau newydd ar waith.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd chwe risg newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac roedd y rhain yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

- Methiant Llywodraeth y DU i lynu wrth egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol
- Ymateb mewn Argyfwng
- Rheolaethau'r Ffin
- Newid Hinsawdd
- Dyfodol Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru
- Iechyd a Diogelwch.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y prif egwyddorion ar gyfer rheoli risgiau yn y llywodraeth a amlinellir yn nogfen Trysorlys Ei Fawrhydi *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, diweddarwyd 2020).*

Prif amcan polisi rheoli risgiau Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risgiau ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risgiau yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru yn ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac, wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai rhai methiannau ddigwydd.

Yn gorfforaethol, y Bwrdd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu polisïau a phrosesau ar gyfer rheoli risgiau ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor ddifrifol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae'r risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn ystod y flwyddyn a chan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ExCo a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru bob chwarter.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risgiau o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risgiau a chyfleoedd mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Roedd risgiau Grwpiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau, a bwydwyd iddynt o'r cofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni, ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel Adrannol.

Mae'r diagram isod yn dangos y map llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.




Yn ystod haf 2023 cyfarfu is-grŵp o'r Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i drafod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chynnal adolygiad 'o'r bôn i'r brig' o'r Gofrestr. Cafodd nifer o risgiau eu diwygio'n sylweddol, cafodd rhai eu dileu ac ychwanegwyd risgiau newydd, fel yr amlinellir yn y tabl uchod. Yn ogystal, darparwyd cyfres newydd o adroddiadau fel rhan o becyn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol; roeddent yn cynnwys adrodd am y Risgiau Grŵp uchaf ac adroddiad sganio'r gorwel, sy'n nodi'n rhagweithiol unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Cydnabyddir ar draws Llywodraeth Cymru ein bod yn dibynnu'n helaeth ar systemau TG sy'n heneiddio nad ydynt yn rhoi dyfnder ac ehangder yr wybodaeth reoli y mae arnom ei hangen ac a fyddai'n ein galluogi i reoli gweithrediadau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Er ein bod yn rheoli hyn ar hyn o bryd drwy atebion "gweithio o gwmpas" sy'n darparu rheolaethau amgen, gallai hyn beryglu ein gallu i nodi risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg ac, o bosibl, gyfyngu ar ystod ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith fel arall i fynd i'r afael â risgiau. Un o nodau sylfaenol LIC2025 yw sicrhau bod ein gweithrediadau yn gadarn ac yn gwella ein gwytnwch i ymdopi â chyflymder a graddfa'r newid, yn ogystal â diogelu ein systemau at y dyfodol.

# Casgliad



**Dr Andrew Goodall CBE**

Yr Ysgrifennydd Parhaol
a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn y sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risgau a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion yn gofyn am sylw rheolwyr o ran dylunio rheolaethau neu gydymffurfiaeth ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Bydd fy nghynllun tair blynedd, Llywodraeth Cymru 2025, yn parhau i adeiladu ar ein prosesau a'n gweithdrefnau cadarn presennol, gan gryfhau a gwella ein trefniadau llywodraethiant a sicrwydd i'n helpu i wireddu ein nod o fod yn esiampl o ragoriaeth o ran sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.

27 Tachwedd 2024

# Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

## Colledion

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 159 | 131 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 9,401 | 13,184 |

| Manylion y colledion dros £300,000: | | |
|---|---|---|
| Colledion Storfa | Dileu stoc feddygol Ffliw Pandemig (gwrthfiotigau) | £364,675 |
| Colledion Storfa | Dileu stoc feddygol Ffliw Pandemig (cyffuriau gwrthfeirol) | £831,744 |
| Colledion Storfa | Dileu meddyginiaethau Covid y mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio | £1,670,803 |
| Colledion Storfa | Dileu citiau prawf llif unffordd y mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio | £1,837,913 |
| Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio | Hawliad wedi'i hepgor ar gyfer adennill grantiau a dalwyd am ailwampio gwesty a chyfleusterau hamdden | £455,450 |
| Taliadau Ofer | Prynu unedau IES oherwydd darfodiad technegol dilynol | £2,270,000 |

## Taliadau Arbennig

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 16 | 21 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 13,287 | 2,285 |

| Manylion taliadau arbennig dros £300,000: | | |
|---|---|---|
| Taliad Arbennig | Taliadau arbennig a wnaed i ddod i gytundebau setlo ar gyfer Prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | £13,143,000 |

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 112-113.

## Rhoddion a wnaed

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y rhoddion a wnaed | 1 | 3 |
| Cyfanswm gwerth y rhoddion (£000) | 5 | 1,400 |

Manylion y rhoddion dros £300,000:

Dim

# Adroddiad Staff a Chydnabyddiaeth Ariannol 2023-24

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae cydnabyddiaeth ariannol Uwch Weision Sifil[53] (SCS) yn cael ei phennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor oddi wrth y Corff Adolygu Cyflogau[54] Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[55] ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau[56].

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth bellach am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'[57] a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.[58]

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf.

---

53 Civil Service Pay Remit guidance, 2023 to 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)
54 Senior Salaries Review Body Report: 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)
55 Y Bwrdd Taliadau
56 Penderfyniad (bwrdd taliadau.cymru)
57 Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru [HTML] | LLYW.CYMRU
58 Datganiadau Polisi Tâl Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

Mae hefyd yn cynnwys:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch yn y corff gyda phecyn cydnabyddiaeth o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

c) y ffordd o reoli talent fewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf; a

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.



## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r Uwch Reolwyr. Mae uwch-swyddogion at ddibenion yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i gyd yn aelodau parhaol o Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, isod. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Senedd o £69,958 (2022-23: £67,920). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – y Gweinidogion

| Y Gweinidogion | Cyflog 2023-24 £ | Cyflog 2022-23 £ | Buddion mewn Nwyddau 2023-24 £ | Buddion mewn Nwyddau 2022-23 £ | Buddion Pensiwn 2023-24 (i'r £1000 agosaf) | Buddion Pensiwn 2022-23 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2023-24 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2022-23 (i'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**<br>Prif Weinidog Cymru hyd at 20 Mawrth 2024 | 148,508 | 148,575 | - | - | 8,000 | 8,000 | 156,000 | 156,000 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024 wedyn Prif Weinidog o 21 Mawrth 2024 | 110,718 | 106,124 | - | - | 15,000 | 2,000 | 125,000 | 108,000 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 28,000 | 17,000 | 137,000 | 123,000 |
| **Lesley Griffiths**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 14,000 | (20,000) | 123,000 | 87,000 |
| **Jane Hutt**[a]<br>Un o Weinidogion Cymru a Phrif Chwip hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Trefnydd a Prif Chwip o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | (22,000) | (73,000) | 87,000 | 33,000 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 28,000 | 18,000 | 138,000 | 124,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 35,000 | 36,000 | 144,000 | 142,000 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 35,000 | 36,000 | 144,000 | 142,000 |
| **Mick Antoniw**<br>Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Cwnsler Cyffredinol o 21 Mawrth 2024 | 109,308 | 106,124 | - | - | 13,000 | (23,000) | 122,000 | 83,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024 wedyn Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 92,913 | 90,206 | - | - | 30,000 | 30,000 | 123,000 | 120,000 |
| **Dawn Bowden**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 92,913 | 90,206 | - | - | 30,000 | 30,000 | 123,000 | 120,000 |
| **Julie Morgan**[b]<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024 | 90,415 | 90,206 | - | - | - | - | 90,000 | 90,000 |

| Y Gweinidogion | Cyflog 2023-24 £ | Cyflog 2022-23 £ | Buddion mewn Nwyddau 2023-24 £ | Buddion mewn Nwyddau 2022-23 £ | Buddion Pensiwn 2023-24 (i'r £1000 agosaf) | Buddion Pensiwn 2022-23 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2023-24 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2022-23 (i'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lynne Neagle**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 93,398 | 90,206 | - | - | 8,000 | (22,000) | 102,000 | 69,000 |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024 | 90,415 | 90,206 | - | - | 9,000 | 30,000 | 100,000 | 120,000 |
| **Jayne Bryant**<br>Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 2,747 | - | - | - | 19,000 | - | 22,000 | - |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 2,938 | - | - | - | 19,000 | - | 22,000 | - |
| **Ken Skates**<br>Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 3,232 | - | - | - | 27,000 | - | 30,000 | - |

a. Nid yw'r aelod hwn bellach yn cronni pensiwn fel Aelod o'r Senedd; mae'n cronni pensiwn fel aelod o'r Cabinet. Mae'r ffigur buddion pensiwn ar gyfer 2022-23 wedi'i ddiwygio gan fod y cyfrifiad pensiwn sylfaenol wedi'i ddiwygio.

b. Nid yw'r aelod hwn bellach yn cyfrannu at y cynllun pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae "Un o Weinidogion Cymru" yn berson a benodir o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinet a benodwyd ar 21 Mawrth 2024 cyfeirir at "Un o Weinidogion Cymru" fel "Ysgrifennydd Cabinet". Mae "Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru" yn berson a benodir o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
Yn y Cabinet a benodwyd ar 21 Mawrth 2024 cyfeirir at "Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru" fel "Gweinidog".

Mae cyflogau 'swydd-ddeiliaid' fel aelodau'r Cabinet yn daladwy mewn perthynas â'r swydd a ddelir, am y cyfnod y delir y swydd.

| Y cyflogau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2023-24 yw: | |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | £153,033 |
| Cwnsler Cyffredinol | £109,308 |
| Un o Weinidogion Cymru/ Ysgrifennydd Cabinet | £109,308 |
| Dirprwy Weinidog/Gweinidog | £92,913 |

## Manylion pensiwn – y Gweinidogion

| Y Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/2024 £'000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/2023 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2024 £'000 | CETV ar 31/03/24 £'000 | CETV ar 31/03/23 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**<br>Prif Weinidog Cymru hyd at 20 Mawrth 2024 | 35-40 | 35-40 | 0-2.5 | 690 | 650 | 3 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Prif Weinidog o 21 Mawrth 2024 | 40-45 | 35-40 | 0-2.5 | 545 | 486 | 4 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 30-35 | 25-30 | 0-2.5 | 385 | 332 | 12 |
| **Lesley Griffiths**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 50-55 | 45-50 | 0-2.5 | 981 | 878 | 11 |
| **Jane Hutt**[a]<br>Un o Weinidogion Cymru a Phrif Chwip hyd at 20 Mawrth 2024 wedyn, Trefnydd a Phrif Chwip o 21 Mawrth 2024 | 75-80 | 80-85 | (2.5)-0 | 1,161 | 1,147 | -18 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 30-35 | 25-30 | 0-2.5 | 574 | 516 | 25 |
| **Jeremy Miles**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 251 | 202 | 20 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 274 | 220 | 23 |
| **Mick Antoniw**<br>Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Cwnsler Cyffredinol o 21 Mawrth 2024 | 40-45 | 35-40 | 0-2.5 | 742 | 699 | 8 |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 175 | 141 | 11 |

| Y Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/2024 £'000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/2023 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2024 £'000 | CETV ar 31/03/24 £'000 | CETV ar 31/03/23 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dawn Bowden**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 10-15 | 10-15 | 0-2.5 | 273 | 217 | 27 |
| **Julie Morgan**[b]<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024 | 10-15 | 10-15 | (2.5)-0 | 170 | 179 | (11) |
| **Lynne Neagle**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024, wedyn Ysgrifennydd Cabinet o 21 Mawrth 2024 | 40-45 | 40-45 | 0-2.5 | 735 | 665 | 0 |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog hyd at 20 Mawrth 2024 | 10-15 | 10-15 | 0-2.5 | 180 | 155 | 2 |
| **Jayne Bryant**<br>Gweinidog o 21 Mawrth 2024 | 15-20 | - | 0-2.5 | 167 | 157 | 10 |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Ysgrifennydd Cabinet 21 Mawrth 2024 | 10-15 | - | 0-2.5 | 243 | 228 | 15 |
| **Ken Skates**<br>Ysgrifennydd Cabinet 21 Mawrth 2024 | 25-30 | - | 0-2.5 | 342 | 326 | 16 |

a. Mae CETV Jane Hutt ar 31 Mawrth 2023 wedi'i ddiwygio gan fod y cyfrifiad pensiwn sylfaenol ar gyfer 2022-23 wedi'i ddiwygio.

b. Nid yw'r aelod hwn bellach yn cyfrannu at y cynllun pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' ac roedd eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigir i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a diffoddwyr tân, wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau gwarchodaeth drosiannol yr oeddent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Caiff Aelodau yr effeithir arnynt gynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu i ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol ar gyfer cyfnod y rhwymedi 6 Mai 2016 – 6 Mai 2021. O ddechrau'r Chweched Senedd mae pob aelod yn y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa.



Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd ar 1 Ebrill 2023. Ar ôl i'r prisiad gael ei gwblhau, gostyngodd cyfradd cyfraniad cyflogwyr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau o 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfraniad yr Aelod yw 10.5% o'r cyflog.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cofrestr o Fuddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar Ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Buddiannau preifat y Gweinidogion | LLYW. CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion. https://llyw.cymru/cod-y-gweinidogion



## Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog gan gynnwys lwfansau sy'n destun trethiant y DU, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad, gall ffactorau eraill ddylanwadu ar y ffigurau megis unigolyn sy'n penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd. Nid yw'r symiau a ddatgelir felly yng Nghyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol yn adlewyrchu cyfraniadau pensiwn a wneir ar gyfer unigolyn neu bensiynau a delir i unigolyn mewn unrhyw un flwyddyn. Mae'r fethodoleg hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion | Cyflog[a] 2023-24 £000 | Cyflog 2022-23 £000 | Buddion pensiwn[b] 2023-24 £000 | Buddion pensiwn 2022-23 £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Andrew Goodall**[c]<br>Yr Ysgrifennydd Parhaol | 230-235 | 215-220 | 5-10 | - | 240-245 | 215-220 |
| **Judith Paget**[d]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 225-230 | 215-220 | (85)-(90) | (10)-(15) | 140-145 | 205-210 |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 135-140 | 125-130 | 50-55 | 45-50 | 185-190 | 175-180 |
| **Andrew Slade**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 135-140 | 125-130 | 40-45 | (10)-(15) | 175-180 | 110-115 |
| **Sioned Evans**[e]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 30-35 | - | 25-30 | - | 55-60 | 55-60 |
| **Jo-Anne Daniels**[f]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 95-100 | 125-130 | (0)-(5) | 85-90 | 90-95 | 210-215 |
| **Tim Moss**[g]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 130-135 | 70-75 | 90-95 | 45-50 | 220-225 | 120-125 |
| **Reg Kilpatrick**[h]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 95-100 | 125-130 | (10)-(15) | (15)-(20) | 80-85 | 105-110 |
| **Des Clifford**[i]<br>Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog | 110-115 | 110-115 | (35)-(40) | (45)-(50) | 70-75 | 65-70 |
| **David Richards**[j]<br>Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg | 55-60 | 55-60 | 20-25 | (105)-(110) | 80-85 | (50)-(55) |
| **Helen Lentle**[k]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 105-110 | 60-65 | (0)-(5) | 150-155 | 105-110 |
| **Nia James**[l]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 20-25 | - | 75-80 | - | 100-105 | - |
| **Natalie Pearson**[m]<br>Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 10-15 | 75-80 | 0-5 | (35)-(40) | 10-15 | 35-40 |
| **Amelia John**<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 95-100 | 20-25 | 45-50 | 0-5 | 145-150 | 20-25 |
| **Peter Kennedy**[n]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 80-85 | 100-105 | 25-30 | (15)-(20) | 105-110 | 85-90 |

| Uwch-swyddogion | Cyflog[a] 2023-24 £000 | Cyflog 2022-23 £000 | Buddion pensiwn[b] 2023-24 £000 | Buddion pensiwn 2022-23 £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dom Houlihan**[o] Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 35-40 | - | 85-90 | - | 125-130 | - |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 110-115 | 105-110 | 25-30 | (25)-(30) | 140-145 | 75-80 |
| **Andrew Jeffreys**[p] Cyfarwyddwr y Trysorlys | 15-20 | 100-105 | 5-10 | 0-5 | 20-25 | 105-110 |
| **Glyn Jone**[q] Prif Swyddog Digidol | 15-20 | 100-105 | 5-10 | 20-25 | 25-30 | 120-125 |
| **Ellen Donovan**[r] Cyfarwyddwr Anweithredol | - | 10-15 | - | - | - | 10-15 |
| **Gareth Lynn**[s] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Meena Upadhyaya**[t] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Aled Edwards** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 5-10 | - | - | 10-15 | 5-10 |
| **Carys Williams** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 0-5 | - | - | 10-15 | 0-5 |
| **Mike Usher**[u] Cyfarwyddwr Anweithredol | 0-5 | 0 | - | - | 0-5 | - |

a Cafodd pob Uwch Swyddog ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 5.5% ar gyfer 2023-24.

b Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Yn nodweddiadol, lle ceir gwerthoedd negyddol, mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn aelod o'r cynllun cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at eu cyflog a hyd eu gwasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Lle nad oes codiad cyflog neu godiad bach yn unig, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigonol i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant - hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn leihau, ac o'r herwydd ceir gwerthoedd negyddol.

c Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau trefniant y secondiad hwnnw mae wedi aros ar Delerau ac Amodau'r Bwrdd Iechyd. Dechreuodd ei secondiad i Lywodraeth Cymru yn ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 8 Mehefin 2014. Ar ôl cael ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol, yn gyson â chyngor gan Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain ar holl ymarferion recriwtio Ysgrifennydd Parhaol, rhoddwyd cytundeb secondiad newydd ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd a ddaw i ben ar 31 Hydref 2026. Optiodd Andrew Goodall yn ôl i mewn i drefniadau Pensiwn y GIG o 1 Gorffennaf 2023. Yn dilyn Cylchlythyr Cyflog Iechyd Cymru 01/2024 i Weithredwyr y GIG, cafodd Andrew Goodall ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023-24.

d Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 1 Mehefin 2023 ar ôl proses benodi gystadeuol allanol; cyn hynny roedd yn ymgymryd â'r rôl ar sail dros dro. Cafodd Judith Paget ei secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a pharhaodd ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd nes iddi gael ei throsglwyddo i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru fel cyflogai ar 1 Rhagfyr 2023. Yn dilyn Cylchlythyr Cyflog Iechyd Cymru 01/2024 ar gyfer Gweithredwyr y GIG, cafodd Judith ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023-24 i 30 Tachwedd 2023. Mae ei chyflog cymaradwy cyfwerth ag amser llawn yn Llywodraeth Cymru yn £215,000-£220,000 y flwyddyn. Mae buddion pensiwn Judith Paget yn ymwneud â threfniadau Pensiwn y GIG hyd at 30 Tachwedd 2023, a threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o 1 Rhagfyr 2024.

e Penodwyd Sioned Evans yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg ar ôl proses benodi gystadleuol allanol o 1 Ionawr 2024; ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

f Roedd Jo-Anne Daniels yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg hyd at 31 Rhagfyr 2023. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

g Peidiodd Reg Kilpatrick â bod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Cydgysylltu Covid ar 31 Rhagfyr 2023. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

h Penodwyd Tim Moss yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu ar ôl proses benodi gystadleuol allanol ar 1 Medi 2022. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2022-23 yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

i Rhoddodd Des Clifford y gorau i'w rôl fel Hyrwyddwr y Bwrdd ar gyfer y Gymraeg ar 31 Rhagfyr 2023. Parhaodd yn aelod o ExCo tan 31 Mawrth 2024.

j Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 ac fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi'u gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £115,000-£120,000 y flwyddyn.

k Ymddeolodd Helen Lentle o Lywodraeth Cymru ar 31 Rhagfyr 2024. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £115,000-£120,000 y flwyddyn.

l Cafodd Nia James ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol dros dro ar ôl ymarfer recriwtio Dyrchafiad Dros Dro mewnol o 1 Ionawr 2024. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £95,000-£100,000 y flwyddyn.

m Gwnaeth Natalie Pearson gais am ymddeoliad rhannol o 4 Hydref 2022 ac fe gymeradwywyd ei chais. O'r dyddiad hwnnw mae ei chyflog a'i horiau gwaith wedi eu gostwng. Peidiodd Natalie Pearson â bod yn aelod o ExCo ar 31 Mai 2023 oherwydd diwygiad i aelodaeth ExCo. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yw £95,000-£100,000 y flwyddyn.

n Ymddeolodd Peter Kennedy o Lywodraeth Cymru ar 3 Ionawr 2024. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £105,000-£110,000 y flwyddyn.

o Penodwyd Dom Houlihan yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol o 20 Tachwedd 2023 ar ôl proses benodi gystadleuol. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £105,000- £110,000 y flwyddyn.

p Peidiodd Andrew Jeffreys â bod yn aelod o ExCo ar 31 Mai 2023 oherwydd diwygiad i aelodaeth ExCo. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £110,000-£115,000 y flwyddyn.

q Peidiodd Glyn Jones â bod yn aelod o ExCo ar 31 Mai 2023 oherwydd diwygiad i aelodaeth ExCo. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £105,000-£110,000 y flwyddyn.

r Daeth penodiad cyfnod penodedig Ellen Donovan yn Gyfarwyddwr Anweithredol i ben ar 6 Mawrth 2023.

s Daeth penodiad cyfnod penodedig Gareth Lynn yn Gyfarwyddwr Anweithredol i ben ar 31 Mawrth 2024.

t Daeth penodiad cyfnod penodedig Meena Upadhyaya yn Gyfarwyddwr Anweithredol i ben ar 29 Chwefror 2024.

u Penodwyd Mike Usher yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 1 Chwefror 2024.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol uwch-swyddogion ar ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Uwch swyddogion: cofrestr o fuddiannau | LLYW.CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd[59]. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 110.

59 Cylch gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW. CYMRU

## Manylion pensiwn – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/24 a'r1cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/2024 £000 | CETV ar 31/3/2023 (diwygiwyd)[a] £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/3/2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Andrew Goodall**[b]<br>Yr Ysgrifennydd Parhaol | 65-70-<br>a chyfandaliad o 185-190 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 7.5-10 | 1,569 | 1,359 | 31 |
| **Judith Paget**[c]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol – Pensiwn y GIG | 120-125<br>a chyfandaliad o 335-340 | (2.5)-(5)<br>a chyfandaliad o (20)-(25) | 0 | 0 | 45 |
| **Judith Paget**[c]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol – Pensiwn y Gwasanaeth Sifil | 0-5 | 0-2.5 | 28 | 0 | 22 |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 45-50 | 2.5 - 5 | 805 | 677 | 41 |
| **Andrew Slade**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 50-55<br>a chyfandaliad o 140-145 | 2.5-5<br>a chyfandaliad o 0 | 1,215 | 1,088 | 23 |
| **Sioned Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 35-40<br>a chyfandaliad o 90-95 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 2.5-5 | 873 | 827 | 25 |
| **Jo-Anne Daniels**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 55-60 | 0-2.5 | 1,084 | 1,019 | (13) |
| **Tim Moss**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 35-40<br>a chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5<br>a chyfandaliad o 5-7.5 | 893 | 736 | 83 |
| **Reg Kilpatrick**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 55-60<br>a chyfandaliad o 160-165 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 1,451 | 1,396 | (26) |
| **Des Clifford**<br>Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog | 45-50<br>a chyfandaliad o 10-15 | 2.5-5<br>a chyfandaliad o 0 | 1,063 | 1,054 | (47) |
| **David Richards**<br>Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 0-5<br>a chyfandaliad o 0-5 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 54 | 30 | 18 |
| **Helen Lentle**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 50-55<br>a chyfandaliad o 140-145 | 2.5-5<br>a chyfandaliad o 2.5-5 | 1,252 | 1,112 | 57 |
| **Nia James**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 40-45 | 2.5-5 | 810 | 725 | 72 |
| **Natalie Pearson**<br>Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 25-30<br>a chyfandaliad o 60-65 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 630 | 612 | 2 |

| Swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/24 a'r1cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/2024 £000 | CETV ar 31/3/2023 (diwygiwyd)[a] £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/3/2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amelia John**<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 25-30<br>a chyfandaliad o 70-75 | 2.5-5<br>a chyfandaliad o 0-2.5 | 697 | 624 | 42 |
| **Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 40-45<br>a chyfandaliad o 110-115 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 1,026 | 955 | 17 |
| **Dom Houlihan**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 20-25 | 2.5-5 | 309 | 252 | 51 |
| **Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 50-55<br>a chyfandaliad o 145-150 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 1,336 | 1,208 | 17 |
| **Andrew Jeffreys**<br>Cyfarwyddwr y Trysorlys | 30-35<br>a chyfandaliad o 85-90 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0 | 712 | 697 | 4 |
| **Glyn Jones**<br>Prif Swyddog Digidol | 30-35<br>a chyfandaliad o 85-90 | 0-2.5<br>a chyfandaliad o 0–2.5 | 640 | 623 | 7 |

Mae datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 679 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU.

a Adroddwyd am unrhyw aelodau yr effeithiwyd arnynt gan Rwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghynllun 2015 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022-23, ond fe'u hadroddir yn y cynllun gwaddol ar gyfer yr un cyfnod yn 2023-24. Mae cyfrifo buddion (a CETVs cysylltiedig) ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2023 wedi'i wrthdroi i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2023. How the public service pensions remedy affects your pension - GOV.UK (www.gov.uk).

b Optiodd Andrew Goodall yn ôl i mewn i drefniadau Pensiwn y GIG o 1 Gorffennaf 2023.

c Mae budd-daliadau pensiwn Judith Paget yn ymwneud â threfniadau Pensiwn y GIG hyd at 30 Tachwedd 2023, a threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o 1 Rhagfyr 2024. Ni ddarperir unrhyw ffigur CETV ar gyfer Judith Paget ar 31 Mawrth 2024 a 2023 ar gyfer trefniadau pensiwn y GIG gan ei bod wedi mynd heibio i'r oedran ymddeol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod polisi tâl uwch Llywodraeth y DU yn cael ei gymhwyso a chymeradwyo unrhyw ddyfarniadau a goruchwylio gweithrediad fframwaith rheoli perfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau am y flwyddyn 2023-24.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain.

Mae CETVs yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf (yr Ysgrifennydd Parhaol) yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2023-24 oedd £230,000-£235,000 (2022-23: £215,000-£220,000). Roedd hyn 5.6 gwaith (2022-23: 5.5) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £41,675 (2022-23: £39,690).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Dangosir y berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:

| Blwyddyn | | 25ain Canradd | Canolrif | 75ain Canradd |
|---|---|---|---|---|
| 2023-24 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.2 | 5.6 | 4.5 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol y chwartel | 32,141 | 41,675 | 51,839 |
| 2022-23 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.1 | 5.5 | 4.4 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol y chwartel | 30,610 | 39,690 | 49,370 |

Mae'n ofynnol bellach i gyrff adrodd nodi canran y newid i'r tâl cydnabyddiaeth o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn ei grynswth.

| | Newid canrannol tâl – y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | Newid canrannol cyfartalog tâl – cyflogeion yn eu crynswth |
|---|---|---|
| 2023-24 | 6.90% | 3.76% |
| 2022-23 | 0.0% | 5.43% |

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, yn cymharu pwynt canol y band tâl cydnabyddiaeth 2023-24 £230,000-£235,000 (£2022-23: £215,000-£220,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Mae defnyddio pwynt canol y band ar gyfer cyfrifo yn gallu ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a dderbyniwyd. Mae'r newid canrannol cyfartalog i'r tâl ar gyfer gweithwyr yn gyffredinol yn is na'r dyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023-24 gan fod y cyfrifiad yn cynnwys staff ar secondiad a staff dros dro. Gall y cymysgedd o'r rhain o flwyddyn i flwyddyn amrywio yn ogystal â'r dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i unigolion o'r fath. Y newid canrannol cyfartalog i weithwyr ar gyflogres Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yw 5.88%.

Mae gwybodaeth bellach am Bolisi Tâl, gwneud penderfyniadau a Thâl Uwch i'w gweld yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a oedd wedi'u cyflogi (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) yn ystod y cyfnod oedd:

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Staff eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2023-24 | Cyfanswm 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **103,451** | **6,663** | **14** | **110,128** | **106,026** |
| **O'r rheini:** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 5,380 | 386 | 14 | 5,780 | 5,695 |
| BILlau a chyrff y GIG | 92,955 | 6,277 | - | 99,232 | 95,619 |
| Is-gwmnïau | 5,116 | - | - | 5,116 | 4,712 |
| **O gyfanswm Llywodraeth Cymru:** | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 757 | - | - | - | - |
| Tribiwnlysoedd | 34 | - | - | - | - |

## Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb eu harchwilio)

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 60% | 40% |
| Uwch Wasanaeth Sifil | 57% | 43% |
| Yr holl Staff | 40% | 60% |

Mae menywod yn cyfrif am 60% o weithlu Llywodraeth Cymru, ond yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi uwch, a hynny ar lefel Bwrdd ac yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn nodi targedau a chamau gweithredu clir i unioni'r anghydbwysedd hwn, fel yr amlinellir yn fanylach yn yr adran 'Tegwch a Chynhwysiant' o dudalen 77.

## Costau staff

| Llywodraeth Cymru | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 275 | 23 | 298 | 274 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 33 | - | 33 | 30 |
| Costau Pensiwn Eraill | 76 | - | 76 | 74 |
| **Cyfanswm** | **384** | **23** | **407** | **378** |
| Adenillon o secondiadau | (3) | - | (3) | (2) |
| **Costau net staff** | **381** | **23** | **404** | **376** |

| Cydgrynhoi | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 4,763 | 488 | 5,251 | 4,838 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 488 | 23 | 511 | 467 |
| Costau Pensiwn Eraill | 832 | 23 | 855 | 758 |
| **Cyfanswm** | **6,083** | **534** | **6,617** | **6,063** |
| Adenillon o secondiadau | (3) | - | (3) | (2) |
| **Costau net staff** | **6,080** | **534** | **6,614** | **6,065** |

* Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae cyflog Cynghorwyr Arbennig, nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn wedi'u cynnwys yn ffigurau Costau Staff Eraill.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau'r swyddfeydd preifat.

Talwyd cyfanswm o £1,772,135 (2022-23: £1,332,824) i gynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys costau pensiwn a nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Oherwydd ymadawiad y Prif Weinidog (blaenorol) Mark Drakeford AS ar 20 Mawrth 2024 daeth y contractau ar gyfer pob Cynghorydd Arbennig i ben. O fewn y cyfanswm uchod cynhwysir y taliadau diswyddo o £479,715 a roddwyd yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig (mae hyn yn cynnwys taliadau am wyliau blynyddol a oedd heb eu cymryd ar ddiwedd contract). Wrth ailbenodi rhai Cynghorwyr Arbennig bydd £189,079 o daliadau diswyddo yn cael eu hadennill ac fe'u casglwyd i'w hadfer ar ddiwedd y flwyddyn o fewn y ffigurau uchod. Roedd 18 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2023-24, sy'n cyfateb i 14 cynghorydd arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir yn y tabl uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Datganiadau o fuddiannau | LLYW. CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 110.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Mae cyflogau Gweinidogion Cymru yn cael eu talu gan Gomisiwn y Senedd ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.

O ran nifer yr uwch staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 60 o staff yr oedd eu cyflog yn uwch na £100k ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 7 yn staff rhan-amser y disgynnodd eu henillion gwirioneddol felly o dan y trothwy o £100k. Y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru yw £108,500. Mae hyn yn gynnydd o 5.5% ers 2022-23. Cafodd y mwyafrif o Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 5.5% yn 2023-24, gyda rhai Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyflogau is yn cael ychydig yn fwy (8% yn dibynnu ar eu safle yn yr ystod gyflogau). Cafodd y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil ddyfarniad tâl o 5% yn 2023-24.

## Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n wahanol adrannau – mae **classic, premium a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bo **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd pob un o'r gweision sifil a oedd newydd eu penodi, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd.

Mae PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Mae gweddill cost y buddion mewn taliadau yn cael ei dalu ag arian sy'n destun pleidlais gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddion wedi'u diffinio, gall gweithwyr ddewis pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio gyda chyfraniad cyflogwr, sef cyfrif pensiwn y **partnership**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnwyd yn cael ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** o PCSPS yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium, a classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a naill ai 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha**, fel y bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, er hynny, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau'r cynllun presennol yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn o PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae'r datrysiad[60] pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn "wrthdroi".

Ar gyfer aelodau sydd yng nghwmpas rhwymedi pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifo eu buddion at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a chyfanswm ffigur eu cydnabyddiaeth ariannol, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i throsglwyddo yn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at PCSPS neu fuddion **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa wedi'i gwrthdroi, h.y., buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha' –

60 www.gov.uk/government/collections/how-the-public-service-pension-remedy-affects-your-pension

yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r atebolrwyddau sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2023-24, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £71,274,576 yn daladwy i PCSPS/Alpha (2022-23: £66,044,110) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 i 30.3 y cant (2022-23: 26.6 i 30.3) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2023-24 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn "partneriaeth", sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £280,682 (2022-23: £258,282) eu talu i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 i 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £9,429, 0.5% (2022-23: £8,760, 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn "partnership" ar ddyddiad y fantolen (2022-23: dim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2022-23: £dim).

Ymddeolodd pedwar unigolyn (2022-23:dau) yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm yr atebolrwyddau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £2,975 (2022-23: £18,094).

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw'r telerau ac amodau a'r trefniadau pensiwn a oedd ganddynt. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dangosir atebolrwyddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun hwn yn nodyn 13 i'r cyfrifon 'Atebolrwyddau Eraill'. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.



## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar a gymeradwywyd nac ymadawiad cynnar yn 2023-24 na 2022-21 a dim ond ymadawiadau cynnar oedd yn bodoli. Ar gyfer pob achos ymadawiad gwirfoddol unigol, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer 2023-24, mae 10 (2022-23: 7) o gyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael am resymau ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £141,361 (2022-23: £144,850).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2023-24 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | 4 | 4 | 3 |
| £10,000 – £25,000 | - | 5 | 5 | 1 |
| £25,000 – £50,000 | - | 1 | 1 | 3 |
| £50,000 – £100,000 | - | - | - | - |
| £100,000 – £150,000 | - | - | - | - |
| £150,000 – £200,000 | - | - | - | - |
| £200,000+ | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **-** | **10** | **10** | **7** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **-** | **141,361** | **141,361** | **144,850** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2023-24 (rhoddir ffigurau cymharol 2022-23 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2023-24 oedd £141,361 (2022-23: £202,850).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd Salwch (heb ei archwilio)

| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 19,074 | 22,329 | 21,018 | 12,103 | 18,321 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 23,110 | 21,408 | 20,109 | 14,315 | 17,291 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **42,184** | **43,737** | **41,127** | **26,418** | **35,612** |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,679 | 5,435 | 5,390 | 5,235 | 5,186 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 6,339 | 6,245 | 6,160 | 5,861 | 5,920 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 3,486 | 3,001 | 3,259 | 3,979 | 2,977 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 55% | 48% | 53% | 68% | 50% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 7.4 | 8.0 | 7.6 | 5.1 | 6.9 |

Roedd y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd i absenoldeb salwch yn ystod 2023-24 gryn dipyn yn is na'r flwyddyn flaenorol ac fe wnaethant ddisgyn yn is na'r lefelau cyn y pandemig hefyd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd effaith i pandemig COVID-19 ostwng yn sylweddol. Yn ystod y flwyddyn, roedd absenoldeb oherwydd COVID-19 yn cyfrif am 5% yn unig o'r holl ddiwrnodau a gollwyd, o'i gymharu â 13% yn 2022-23. Mae gostyngiad o 65% yn nifer y diwrnodau a gollwyd i COVID-19 flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 5,605 diwrnod i 1,986 diwrnod, yn newid cadarnhaol ond mae'r pandemig yn parhau i fod yn achos absenoldeb y mae rhaid parhau i fynd i'r afael ag ef. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r mesurau y mae wedi'u cymryd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i sicrhau bod absenoldeb sy'n gysylltiedig â'r achos hwn yn parhau i ostwng.

Ymhlith prif achosion absenoldeb, roedd gostyngiadau sylweddol mewn absenoldebau oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â'r system anadlol ac yn gysylltiedig â'r system gyhyrysgerbydol. Roedd cynnydd bach mewn absenoldeb yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl ond cafodd hyn ei wrthbwyso gan ostyngiadau mewn mannau eraill. Materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl fydd un o'r meysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn ystod 2023 gwnaethom gyhoeddi'n fewnol 'Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant Llywodraeth Cymru 2025', sy'n rhan o strategaeth ehangach LIC2025 sy'n anelu at gyflawni ystod eang o newidiadau a gwelliant parhaus i sicrhau bod y sefydliad yn addas i ymateb i heriau'r dyfodol. Nod ein Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yw cadw pobl yn iach yn y gweithle, gyda'r sefydliad yn lle diogel a chefnogol i bawb weithio, wedi'i sbarduno gan ddull cyfannol ac integredig o ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein staff.

At ddibenion y Strategaeth mae'r cysyniad o lesiant wedi'i fynegi fel system; sef i ba raddau y mae unigolyn yn cysylltu ag ef ei hun, ei gymunedau a'i amgylcheddau.

Yn sail i'r Strategaeth mae Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2023-2025, sy'n nodi ystod o gamau gweithredu yr ydym yn eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf, sydd wedi'u targedu at gyfres o themâu penodol. Mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- **Dysgu a datblygu** – mae gan staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ofalu am eu llesiant eu hunain; cyflawni eu rôl yn ddiogel a chefnogi eu timau. Mae rheolwyr yn cael eu huwchsgilio i drafod llesiant yn fwy hyderus.
- **Cynyddu galluogrwydd** – sicrhau bod uwch-arweinwyr yn cael y cyfleoedd dysgu angenrheidiol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach ynghylch arweinyddiaeth, ymddygiad a gwerthoedd.
- **Cymorth ac adnoddau** – contractau ar gyfer y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cwnsela Arbenigol yn cael eu hadolygu a chyflwyno contractau newydd i sicrhau bod staff yn cael y cymorth o'r ansawdd uchaf posibl.
- **Offer swyddfa ac amgylchedd gwaith** – gwneud y gweithle yn amgylchedd gwaith diogel, cyfforddus a chynhyrchiol.
- **Amgylchedd cartref** – rhoi'r wybodaeth a'r cymorth i staff i allu rhoi ymyriadau ar waith i liniaru unrhyw broblemau sy'n codi wrth iddynt weithio gartref.
- **Gweithio'n ddiogel** – mae staff yn gallu ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl yn ddiogel drwy sicrhau bod pob perygl yn cael ei asesu'n rheolaidd, a bod risgiau'n cael eu lliniaru neu eu lleihau lle bo modd.
- **Cefnogaeth ac adnoddau** – Gwell cymorth ac adnoddau ym maes llesiant ariannol drwy gyflwyno Polisi Llesiant Ariannol i fynd i'r afael ag un o brif achosion straen y tu allan i'r gweithle.

Ochr yn ochr â'r camau gweithredu hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull hybrid o weithio. Byddwn yn adolygu patrymau gwaith i sicrhau bod y ffordd y mae ein staff yn gweithio yn parhau i fod yn fuddiol i'n staff a'r sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes angen i ni annog staff i weithio mewn swyddfa yn amlach, i hybu ymgysylltu diwylliannol a mynd i'r afael â'r ffaith bod rhai staff yn teimlo'n ynysig os ydynt yn byw ar eu pennau eu hunain.

## Trosiant Staff

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer y rhai sy'n gadael o fewn y cyfnod hwnnw wedi'i rannu â nifer cyfartalog y staff mewn swydd dros y cyfnod, ac ar gyfer 2023-24 mae'n 5.21% (2022-23 5.10%) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy'n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, diswyddo cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

# Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

| CWMPAS | Cyllideb 2023-24 Gwariant net £m | Alldro 2023-24 Gwariant net £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 11,898 | 11,695 | 203 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 5,060 | 5,029 | 31 |
| Addysg a'r Gymraeg | 3,591 | 3,036 | 555 |
| Yr Economi | 532 | 432 | 100 |
| Newid Hinsawdd | 3,692 | 3,167 | 525 |
| Materion Gwledig | 407 | 406 | 1 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 349 | 341 | 8 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 189 | 181 | 8 |
| Y Comisiwn Etholiadol | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **25,719** | **24,288** | **1,431** |
| **Incwm** | **1,868** | **1,608** | **260** |
| **Gwariant gros** | **27,587** | **25,896** | **1,691** |

O'r cyfanswm tanwariant adnoddau o £1,431m ar gyfer 2023-24, mae 87% (£1,252m) yn ymwneud â thanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a hynny'n bennaf mewn perthynas â phrisiadau asedau ac atebolrwyddau ariannol sy'n gysylltiedig â mynegeion y farchnad megis atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru, asedau Cymorth i Brynu – Cymru, y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2023-24 'Crynodeb o Ofynion Adnoddau a Chyfalaf'. Fel y nodwyd ar dudalen 11 darperir adroddiad blynyddol manylach ar alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o alldro DEL Cymru ar ôl i Weinidogion Cymru gyflwyno Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Cyllid y Llywodraeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU.

Cwmpas y Comisiwn Etholiadol: Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y mae'n eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. Gan i Weinidogion Cymru gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, mae'r gyllideb yn cael ei phleidleisio i Weinidogion Cymru ond yn cael ei chlustnodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

# Esboniad o Amrywiannau

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Tanwariant o £203m (1.7%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £22m, tanwariant DEL Cyfalaf o £36m, gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £7m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £22m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £130m.

Mae sefyllfa net y tanwariant DEL refeniw o £22m yn cynnwys ystod o danwariannau ar draws llawer o feysydd, wedi'i wrthbwyso gan ddiffygion cyllideb mewn eraill.

Sefyllfa alldro y GIG ar gyfer 2023-24 a gynhwyswyd yn y sefyllfa hon oedd gorwariant refeniw cyfunol o £183m, gyda chwech o'r saith Bwrdd Iechyd mewn diffyg. Yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ar draws y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) a Llywodraeth Cymru, dyrannwyd cyllid pellach i'r MEG HSS, ac roedd y diffyg hwn yn cael ei reoli o fewn sefyllfa gyffredinol y MEG HSS, gan arwain at orwariant o £6m yn yr alldro yn erbyn Cyflawni Cyllidebau Craidd y GIG. Roedd hyn yn cynnwys diffyg o £4m mewn incwm disgwyliedig, o'i gymharu

â'r cynllun diwygiedig, o'r cynllun gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf (VPAG) – sef y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol (PPRS) gynt.

Roedd prif feysydd tanwariant DEL Refeniw y tu allan i Gyflawni Cyllidebau Craidd y GIG yn cynnwys tanwariant o £15m ar Gyllidebau Cefnogi Plant – yn bennaf am fod y galw am y Cynnig Gofal Plant yn is na'r disgwyl gwreiddiol a thanwariant ar y Grant Plant a Chymunedau; £4m ar y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol oherwydd oedi mewn rhaglenni; £4m ar draws y gyllideb Technoleg, Digidol ac Arloesi, lle'r oedd oedi mewn rhaglenni newydd a £2m ar draws cyllidebau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a hynny unwaith eto, yn bennaf, oherwydd oedi wrth i'r GIG recriwtio i raglenni newydd.

Roedd y prif raglenni cyfalaf yn y MEG HSS, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan, yn mantoli'r cyfrifon yn fras ar gyfer 2023-24. Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £36m yn ymwneud, yn bennaf, â thanwariant yn erbyn cyllideb IFRS 16 sydd wedi'i chlustnodi oherwydd llithriant mewn trefniadau lesoedd ar draws nifer o sefydliadau'r GIG.

Mae'r gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ymwneud â buddsoddiad a wnaed drwy Fanc Datblygu Cymru mewn cyfran ecwiti prosiect ar gyfer Canolfan Ganser Felindre sy'n cael ei hadeiladu o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Nid oedd hyn wedi'i gyllidebu i ddechrau o fewn taliadau'r MEG HSS fel taliadau Trafodiadau Ariannol Cyfalaf.

Mae'r tanwariant Adnoddau Anghyllidol o £22m yn cynnwys £16m ar gyfer asedau a berchnogir gan y GIG sy'n ymwneud ag amrywiannau ar gyfer ailbrisio PPE (£8m), oedi wrth gychwyn cynlluniau cyfalaf y GIG ac addasiadau technegol megis dibrisiant wedi'i gyflymu (£7m). Mae'r tanwariant o £6m ar lesoedd IFRS 16 yn deillio o amrywiannau mewn gweithgarwch ar lesoedd ar draws sefydliadau'r GIG, gan arwain at gostau gwirioneddol sy'n is na'r rhai a gyllidebwyd yn wreiddiol.

O'r tanwariant AME o £130m roedd y rhan fwyaf yn ymwneud ag amhariadau Byrddau Iechyd Lleol (£78m) a darpariaethau'r GIG (£46m). Roedd y tanwariant amhariadau yn deillio yn bennaf o oramcangyfrif yn achos amhariadau yn ymwneud â choncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RACC) ac amrywiannau a gododd rhwng amcangyfrifon amhariadau yn ystod y flwyddyn ac ailbrisiadau diwedd blwyddyn gan Briswyr Dosbarth, ynghyd â rhywfaint o lithriant cyffredinol ar brosiectau. Roedd y tanwariant darpariaethau yn ymwneud â throsglwyddiad arafach na'r amcangyfrif o hawliadau atebolrwydd dibynnol yng Nghronfa Risg Cymru i ddarpariaethau, a thaliadau darpariaeth AME is na'r disgwyl ar gyfer darpariaethau eraill y GIG.

## Cyllid a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £31m (0.6%)

Mae'r tanwariant yn ymwneud â DEL Refeniw o £31m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn ymwneud yn bennaf ag arbediad o £18m yn erbyn y BEL Rhyddhad Ardrethi NDR; ac arbediad o £11m yn erbyn Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Cymorth Ariannol Brys.

Mae'r arbediad yn erbyn BEL Rhyddhad Ardrethi NDR yn golygu bod y nifer sy'n manteisio ar y cynllun rhyddhad yn is na'r disgwyl. Mae'r taliadau terfynol yn seiliedig ar hawliadau gwirioneddol a ddaeth i law oddi wrth yr awdurdodau lleol. Nid oedd cost derfynol y cynllun yn hysbys tan fis Ebrill 2024 pan oedd yr holl hawliadau wedi dod i law.

Hyd at y pwynt hwn roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb a'r rhagolwg yn seiliedig ar wybodaeth sylfaen dreth NDR yr awdurdodau.

Mae'r arbediad yn erbyn y BEL Cymorth Ariannol Brys yn cynnwys cyllideb yr Ymateb Brys i Wcráin, yn bennaf gostyngiad mewn costau ar gyfer llety cychwynnol, cymorth

cofleidiol a bwyd a wireddwyd o ganlyniad i ymdrechion sylweddol i drosglwyddo unigolion a theuluoedd o lety brys i lety tymor hwy mwy addas.

## Addysg a'r Gymraeg – Tanwariant o £555m (15.5%)

Mae'r tanwariant net cyffredinol o £555m yn cynnwys gorwariant Refeniw DEL o £6m, gorwariant DEL Cyfalaf o £1m, gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £1m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £455m a thanwariant AME o £108m Roedd gwarged ar incwm Cwmpasoedd o £10m.

Mae'r gorwariant o £6m yn y DEL Refeniw yn ymwneud yn bennaf â gwariant ychwanegol ar Gyfrifon Dysgu Personol (PLAs), wedi'i wrthbwyso ar lefel Llywodraeth Cymru drwy danwariant ar y gyllideb Prentisiaethau o fewn MEG yr Economi. Roedd gorwariant hefyd o £2m ar grantiau cymorth i fyfyrwyr a £2m ar gyfer rhaglenni astudio ôl-16 mewn sefydliadau Addysg Bellach (AB) arbenigol, gan fod y ddau grant yn cael eu harwain gan y galw.

Mae'r rhan fwyaf o danwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol yn danwariant o £455m mewn perthynas â Benthyciadau i Fyfyrwyr, ac mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Roedd y tanwariant i'w briodoli yn bennaf i effaith ccyfradd disgownt y Trysorlys ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2023-24 sef -1.05% tan 2030 a -0.05% o 2030 ar y model Benthyciadau i Fyfyrwyr (Llwybr Enillion Scholastic – StEP) gan gynyddu gwerth teg portffolio'r Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae tanwariant AME o £108m yn cynnwys tanwariant o £94m yn erbyn AME Adnoddau a £14m yn erbyn AME Cyfalaf. Mae'r tanwariant AME Adnoddau i'w briodoli yn bennaf i'r ffaith bod RPI ym mis Mawrth 2024 a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad StEP diwedd blwyddyn o Fenthyciadau i Fyfyrwyr yn uwch na'r amcangyfrif RPI ar gyfer y rhagolygon cyllidebol terfynol ym mis Ionawr 2024. Cododd tanwariant hefyd o enillion terfynol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am y flwyddyn ariannol gyda ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth is na'r disgwyl yn cael eu rhoi.

## Yr Economi – Tanwariant o £100m (18.8%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant Refeniw DEL o £54m; tanwariant DEL Cyfalaf o £16m; gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £8; gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £2 filiwn, a thanwariant AME o £40m.

Mae hanner tanwariant y DEL refeniw yn ymwneud â Banc Datblygu Cymru (DBW), £27m, gyda thanwariant pellach ar y gyllideb Gyflogadwyedd gan gynnwys rhaglenni'r Warant i Bobl Ifanc (£2m), a Phrentisiaethau (£13m), oherwydd natur y gweithgareddau hyn a arweinir gan y galw a gwneud y mwyaf o incwm yr UE sydd wedi'i dynnu i lawr gan WEFO. Roedd tanwariant o £6m i Busnes Cymru hefyd i'w briodoli yn bennaf i wneud y gorau posibl o incwm yr UE, ynghyd ag arbedion cost wrth i raglenni'r UE gael eu dirwyn i ben. Arweiniodd incwm o gynnydd mewn cyfraddau llog at danwariant ar draws y portffolio Busnes a Datblygu Rhanbarthol, gyda llithriant ar y prosiect Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yn cynhyrchu arbedion ychwanegol o £5m.

Cafodd tanwariant ei wrthbwyso gan orwariant o £9m gan gynnwys; Amgueddfa Cymru (£2m), Cyngor Celfyddydau Cymru (£2m), Llyfrgell Genedlaethol Cymru (£1m), Chwaraeon Cymru (£3m), Cydgrynhoi Band Eang y Sector Cyhoeddus oherwydd gofynion lled band uwch na'r disgwyl a gorwariant o £2m o ar gyfer Masnach a Buddsoddi, Croeso Cymru a darparu platfform digidol brand Cymru.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf yn cynnwys £24m ar Seilwaith TGCh, yn bennaf ar gyfer adfachiadau Grant Band Eang Cyflym Iawn a llithriant o ran cynllun Talebau Llywodraethau'r DU. Cododd tanwariant o £10m ar y rhaglenni Gwyddoniaeth wrth wneud y gorau o gyllid yr UE, ac fe gododd arbediad o £6m ar brosiectau Seilwaith Eiddo a £3m ar raglenni Twristiaeth oherwydd llithriant. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan ddefnydd ychwanegol o DBW o £19m gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru (£1.5m) a Chyngor Celfyddydau Cymru (£3.5m) hefyd yn gofyn am gronfeydd ychwanegol. Arweiniodd dyraniadau ychwanegol ar nifer o brosiectau cyfalaf allweddol ar draws y portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth at orwariant o £2m ar Digwyddiadau Cymru a £3m ar Chwaraeon Cymru.

Mae'r gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf ar gyfer cyllid ychwanegol gan DBW o £3m a gorwariant o £5m ar Ddatblygu Busnes yn dilyn ymestyn cytundeb benthyciad.

Mae'r gorwariant yn y DEL Adnoddau Anghyllidol yn ymwneud yn bennaf â thaliadau amhariadau a dibrisiant o fewn y portffolio Eiddo (£2m) wedi'i wrthbwyso gan danwariant gwerth cyfanswm o £1m gan y cyrff hyd braich.

Ceir tanwariant AME o £40m gan fod gofynion terfynol y cyrff noddedig yn is na'r hyn a ragwelwyd yn bennaf mewn perthynas â'r prisiad pensiwn ar gyfer Gyrfa Cymru (£17m) a all fod yn anwadal iawn o un flwyddyn i'r llall - gan ei bod yn aelod o wyth cynllun pensiwn llywodraeth leol gwahanol yng Nghymru. Cyfrannwyd £16m oherwydd taliadau amhariadau is na'r disgwyl o fewn y portffolio eiddo, gyda thanwariant hefyd yn codi ar ragolygon y ddarpariaeth.

## Newid Hinsawdd – Tanwariant o £525m (14.2%)

Roedd y tanwariant o £525m yn cynnwys gorwariant Refeniw DEL o £10m, tanwariant DEL Cyfalaf o £45m, tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £2m, tanwariant DEL Adnoddau Cyllidol o £115m, a thanwariant AME o £373m.

Mae'r gorwariant o £10m yn y DEL Refeniw yn deillio'n bennaf o wrthbwyso arbedion o £9m a gorwariant o £19m oherwydd gofynion arian parod ychwanegol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sydd heb eu dynodi yn y Cwmpas (sy'n sgorio yn y Cwmpas ar sail grant arian parod). Cododd yr arbedion ar draws Cyfarwyddiaethau'r Amgylchedd ac Ynni a Thai ac Adfywio yn y drefn honno.

Sbardunwyd y tanwariant yn yr Amgylchedd ac Ynni gan leihad yn y cyllid ar gyfer ansawdd yr amgylchedd lleol a bylchau mewn adnoddau. Roedd y tanwariant mewn Tai ac Adfywio yn deillio o werthiant annisgwyl tir a llithriant mewn nifer bach o brosiectau.

Cyfrannodd sawl elfen at y tanwariant o £45m mewn DEL Cyfalaf. Mae'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol yn rhai yn erbyn Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol (£20m), Cymorth i Fysiau (£9m), Teithio Cynaliadwy (£5m), Trafnidiaeth Cymru (£4m) a Diogelwch Adeiladau (£4m). Mae'r tanwariant mewn perthynas ag Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol, Cymorth i Fysiau, Teithio Cynaliadwy a Diogelwch Adeiladau i'w briodoli yn bennaf i lithriant mewn prosiectau sydd wedi'i achosi gan oedi o ran caffael a ffactorau economaidd. Mae tanwariant Trafnidiaeth Cymru yn danwariant mewn perthynas ag oedi ar y dyddiad cychwyn ar gyfer lesoedd cerbydau rheilffyrdd.

Mae'r tanwariant o £115m yn y DEL Adnoddau Anghyllidol ar gyfer newid hinsawdd yn cynnwys taliadau dibrisiant a gyfrifwyd gan fodelau ystadegol. Y prif elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y modelu yw dibrisiant y rhwydwaith cefnffyrdd ac asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd.

Roedd yr alldro ar yr asedau hyn yn wahanol i'r rhagdybiaethau a gyllidebwyd, gan sbarduno'r amrywiant.

Mae'r tanwariant AME o £373m yn ymwneud yn bennaf â Thrafnidiaeth (£148m) a Thai (£225m). Mae'r gyllideb Trafnidiaeth yn cynnwys gostwng gwerth gwaith adeiladu newydd i ddechrau pan gafodd ei brisio gyntaf fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd. Rhagwelwyd y byddai rhai cynlluniau ffyrdd yn trosglwyddo i'r rhwydwaith yn ystod y flwyddyn. Er hynny, gohiriwyd trosglwyddiadau, ac fe'u disgwylir bellach yn 2024-25. Mae prisiad llyfr benthyciadau Cymorth i Brynu yn ddarostyngedig i newidiadau i'r farchnad. Yn ystod 2023-24 roedd disgwyl y byddai'r farchnad yn destun dirywiad gan effeithio ar y prisiad. Er hynny, nododd y prisiad diwedd blwyddyn elw.

### Materion Gwledig – Tanwariant o £1m (0.2%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys gorwariant DEL Refeniw o £5m, tanwariant DEL Cyfalaf o £5m, a thanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £1m.

Roedd y gorwariant DEL Refeniw o £5m, sef 1% o'r gyllideb, i'w briodoli yn bennaf i gost uniongyrchol ac anuniongyrchol iawndal statudol a arweinir gan y galw ar gyfer TB a Ffliw Adar a chyllid cyfatebol domestig ychwanegol i sicrhau bod modd manteisio i'r eithaf ar gyllideb y Comisiwn Ewropeaidd a oedd ar gael i Gymru.

Cododd y tanwariant DEL Cyfalaf o £5m yn bennaf ar gynlluniau buddsoddi gwledig a'r Rhaglen Datblygu Gwledig gan fod llai na'r disgwyl wedi manteisio arnynt, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan gostau cyfalaf ychwanegol ar gyfer datblygu TGCh ynghylch Taliadau Gwledig Cymru, Amlrywogaethau Cymru a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – Tanwariant o £8m (gan gynnwys addasiad o £3m i Dderbyniadau Ychwanegol Cronfeydd Cyfunol) (2.3%)

Ac eithrio'r addasiad CFER o £3m, roedd y tanwariant o £5m yn cynnwys gorwariant DEL Refeniw o £5m, wedi'i wrthbwyso gan danwariant DEL Adnoddau Cyllidol o £4m a thanwariant AME o £6m.

Mae'r gorwariant o £5m yn y DEL Refeniw yn gysylltiedig yn bennaf â gorwariant ar gostau staff o £11m wedi'i wrthbwyso gan gredydau o £5m sy'n deillio o adolygiad arferion da wedi'i dargedu o groniadau ar sail eu hoed. O ganlyniad i'r gofyniad is na'r disgwyl ar gyfer cyllid dibrisiant arbedwyd DEL Adnoddau Anghyllidol o £4m yn erbyn y gyllideb.

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn atebolrwyddau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn a gallant fod yn wamal. Mae'r amrywiant o danwariant o £6m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau'r cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r rhai manwl a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i lywio'r cyfrifon statudol a'r alldro terfynol.

## Cyfiawnder Cymdeithasol – Tanwariant o £8m (4.2%)

Mae'r tanwariant yn danwariant mewn perthynas â DEL Refeniw o £4m a DEL Cyfalaf o £4m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn gysylltiedig yn bennaf ag arbediad o £2m yn erbyn y BEL Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol a achoswyd gan oedi wrth recriwtio staff. Cafodd hyn effaith ganlyniadol ar gyflawni nifer o weithgareddau. Cododd arbediad o £2m ar y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF).

Er i DAF wario ei chyllideb graidd, nid oedd angen cronfa wrth gefn a oedd yn cael ei dal i fodloni'r risg o alw cynyddol dros fisoedd y gaeaf.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf yn gysylltiedig yn bennaf â £5m o fewn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Darparwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol. Ni ddaeth y buddsoddiad arfaethedig i ben mewn blwyddyn, gan arwain at arbediad.



Er hynny, mae opsiynau i ddarparu'r gronfa yn parhau i gael eu hystyried. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan bwysau o £1m yn ymwneud â defnyddio cyfalaf ychwanegol gan Gorff Llais y Dinesydd (Llais) yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Incwm – £260m yn llai na'r gyllideb

Mae'r amrywiant ar y Cwmpas incwm i'w briodoli yn bennaf i incwm Rhaglenni Ewropeaidd o £186m, incwm Iechyd o £30m, £28m i Drafnidiaeth Cymru a gwarged o £10m ar Fenthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r amrywiant incwm i'r gyllideb yn gysylltiedig â derbyniadau'r Rhaglenni Ewropeaidd. Mae amseru derbyniadau o'r UE ar raglenni amlflwyddyn yn gwneud yr alldro'n anodd ei rag-weld. Mae'r cyllidebau'n cael eu pennu, felly, i sicrhau eu bod yn darparu mwy na digon o sicrwydd mewn unrhyw flwyddyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at golli cyllid i Gymru.

# Rhestr o eirfa'r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran ac mae'n cynnwys costau staff. grantiau a threuliau eraill.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae'r Gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai amhariadau a dibrisiant. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.



**DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf:** Diffinnir trafodiadau ariannol mewn cyfrifon cenedlaethol fel trafodiadau mewn asedau ariannol ac atebolrwyddau ariannol, megis benthyca neu drafodiadau ecwiti. O ganlyniad, mae trafodiadau ariannol gyda chyrff y tu allan i ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru yn sgorio i'r gyllideb DEL Cyfalaf i adlewyrchu'r effaith hon ar ddyled net y sector cyhoeddus. Mae ad-daliadau trafodiadau ariannol yn gyffredinol yn arwain at ad-daliad dilynol yn y dyfodol i Drysorlys EF.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae'r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn wamal a/neu'n ymateb i'r galw.

# Nodiadau

| Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Alldro 2023-24 £m | Alldro 2022-23 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w roi o Gronfa Gyfunol Cymru | 23,986 | 22,463 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr | 23,560 | 22,237 |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | **426** | **226** |

Mae'r nodyn hwn yn dangos 'yr arian a dynnwyd i lawr' sef y swm a dynnwyd mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn, ac unrhyw symiau a gariwyd ymlaen a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ac sydd heb eu defnyddio o'r flwyddyn flaenorol y 'bernir eu bod wedi'u tynnu', yn erbyn y cyfanswm rheoli y pleidleisiwyd arno yn y gyllideb ar gyfer symiau a awdurdodwyd i'w talu i Lywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

| Cysoni'r Alldro a CSoCNE | Alldro 2023-24 £m | Alldro 2022-23 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **24,288** | **21,995** |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,850) | (2,318) |
| Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod | - | (64) |
| Addasiadau eraill | (23) | 13 |
| **Gwariant yn ôl y CSoCNE** | **21,415** | **19,626** |

Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr alldro cyllidebol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (CSoCNE) y datganiadau ariannol, sy'n cysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu – sy'n debyg, ond yn wahanol, i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u cymhwysir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) Trysorlys EF sy'n nodi sut y mae'n rhaid paratoi'r CSoCNE.

Mae'r addasiadau Cyfalaf a Benthyciadau yn dileu o'r Alldro Adnoddau adnoddau cyfalaf sy'n ymwneud â thrafodiadau adnoddau cyfalaf a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn pasio drwy'r CSoCNE.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

| Cysoni adnoddau i ofynion arian parod | Cyllideb 2023-24 £m | Alldro 2023-24 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2022-23 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **25,719** | **24,288** | **1,431** | **21,995** |
| Llai: Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – Trafodiadau adnoddau yn unig | - | (485) | 485 | (482) |
| Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | | | |
| Dibrisiant | (738) | (167) | (571) | (228) |
| Amhariadau ac addasiadau gwerth teg | (1,184) | 506 | (1,690) | 857 |
| Symudiadau heb fod yn arian parod mewn darpariaethau | (253) | (159) | (94) | (30) |
| Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio | 748 | (8) | 756 | 379 |
| Llai: Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod | - | - | - | (64) |
| Arall | (306) | (565) | 259 | (196) |
| **Gofyniad arian parod net** | **23,986** | **23,410** | **576** | **22,231** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau a'r gofyniad arian net. Y gofyniad net am arian parod yw'r swm a dynnir fel cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn (a ddangosir yn y nodyn Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru), llai unrhyw symiau a dynnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd heb eu defnyddio.

Mae'r addasiad ar gyfer 'Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig' yn dileu o'r Alldro Adnoddau y gwahaniaeth rhwng yr alldro adnoddau ar gyfer cyrff grŵp dynodedig Llywodraeth Cymru, a'r cyllid a ddarperir iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r addasiadau i falansau 'heb fod yn Arian Parod' a 'Symudiadau mewn balansau gweithio' yn ymwneud â'r addasiadau yn natganiad Llywodraeth Cymru am lif arian parod lle y codir trafodiadau ar adnoddau ond nad eir iddynt mewn arian parod.

Yr addasiadau 'Arall' ar gyfer 2023-24 yw'r gwahaniaeth yn bennaf rhwng trafodiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn yr Alldro Adnoddau, a'r llifoedd arian parod sy'n ymwneud â hwy.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Yr Ysgrifennydd Parhaol
a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

27 Tachwedd 2024

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys, y Datganiad o Alldro Adnoddau; ar gyfer pob un o Lywodraeth Cymru a'r Grŵp: Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr: a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob peth materol mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Llywodraeth Cymru a materion y Grŵp ar 31 Mawrth 2024 ac o'u gofyniad arian net, alldro adnoddau net a chost gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EF o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad o Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2024 ac yn dangos nad yw'r cyfansymiau hynny wedi cael eu rhagori; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Mabwysiadir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Grŵp i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ac eithrio'r datganiadau ariannol a'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol ac adroddiad staff, a'm hadroddiad fel archwilydd ar hynny. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddydau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd y Cyfrifon Cyfunol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddol; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Rwyf yn adrodd drwy eithriad nad oedd dau uwch swyddog wedi rhoi caniatâd ynghylch datgelu gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EF ynghylch taliadau a thrafodion eraill. Derbyniodd Llywodraeth Cymru geisiadau'r uwch swyddogion ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys y wybodaeth hon.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24 yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24 a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiad ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r Llywodraeth a'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am faterion sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, sy'n cael ei ystyried yn risg sylweddol ym mhob corff a archwilir.

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu) ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol eraill; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl o dwyll i'r holl dîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ac yn dangos nad yw'r symiau hynny wedi cael eu rhagori.

Mae'n ofynnol i mi hefyd gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Llywodraeth Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Y Datganiadau Ariannol

## Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (59) | (359) | (50) | (290) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (591) | (1,004) | (740) | (1,113) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(650)** | **(1,363)** | **(790)** | **(1,403)** |
| Costau staff | 3 | 404 | 6,602 | 376 | 6,065 |
| Gwariant | 3 | 22,043 | 15,867 | 20,286 | 14,726 |
| Cost darpariaeth | 3 | 280 | 309 | 202 | 238 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **22,727** | **22,778** | **20,864** | **21,029** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **22,077** | **21,415** | **20,074** | **19,626** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:** Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (121) | (108) | (2,564) | (2,917) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn | | 12 | 14 | (5) | (56) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **21,968** | **21,321** | **17,505** | **16,653** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 174 i 227 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Marwth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 23,163 | 31,133 | 22,762 | 30,264 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 36 | 115 | 33 | 104 |
| Asedau ariannol | 6 | 10,738 | 9,173 | 9,533 | 8,007 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 14 | 218 | 31 | 212 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 15 | 42 | 636 | 42 | 409 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **33,993** | **41,275** | **32,401** | **38,996** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu | | - | 1 | - | - |
| Asedau ariannol | 6 | 292 | 292 | 241 | 241 |
| Stocrestri | 7 | 222 | 352 | 230 | 358 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 390 | 792 | 472 | 871 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 244 | 1,562 | 28 | 1,354 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,148** | **2,999** | **971** | **2,824** |
| **Cyfanswm asedau** | | **35,141** | **44,274** | **33,372** | **41,820** |
| **Atebolrwyddau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (1,751) | (3,059) | (1,697) | (3,253) |
| Darpariaethau | 11 | (348) | (412) | (398) | (463) |

# Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024 (parhad)

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Marwth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau cyfredol** | | **(2,099)** | **(3,471)** | **(2,095)** | **(3,716)** |
| **Cyfanswm asedau, llai atebolrwyddau cyfredol** | | **33,042** | **40,803** | **31,277** | **38,104** |
| **Atebolrwyddau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (550) | (1,204) | (373) | (729) |
| Darpariaethau | 11 | (1,436) | (1,475) | (1,240) | (1,273) |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | (27) | (28) | (16) | (17) |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau anghyfredol** | | **(2,013)** | **(2,707)** | **(1,629)** | **(2,019)** |
| **Cyfanswm asedau, llai cyfanswm atebolrwyddau** | | **31,029** | **38,096** | **29,648** | **36,085** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 16,873 | 21,612 | 15,608 | 19,627 |
| Cronfa ailbrisio | | 14,156 | 16,484 | 14,040 | 16,458 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **31,029** | **38,096** | **29,648** | **36,085** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 174 i 227 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

27 Tachwedd 2024

# Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno) |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (22,077) | (21,415) | (20,074) | (19,626) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (121) | (143) | (173) | (203) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | (17) | 504 | (424) | 92 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod[a] | 14 | 8 | (288) | (568) | (572) |
| Arall | | (13) | 12 | (8) | - |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(22,220)** | **(21,330)** | **(21,247)** | **(20,309)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar[b] | | (456) | (1,296) | (398) | (1,077) |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar – addasiadau ar gyfer ychwanegiadau nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill[b] | | 185 | 185 | 189 | 189 |
| Prynu asedau anniriaethol | | (14) | (43) | (10) | (28) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | | 1 | 2 | 6 | 8 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 20 | 21 | 27 | 27 |
| Prynu asedau datblygu | | (13) | (13) | (30) | (30) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (1,184) | (1,148) | (1,042) | (1,057) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 411 | 423 | 289 | 313 |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,050)** | **(1,869)** | **(969)** | **(1,844)** |

# Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (parhad)

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno) |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru – wedi'i dynnu yn y flwyddyn | | 23,554 | 23,554 | 22,237 | 22,237 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – blwyddyn flaenorol wedi'i had-dalu | | - | - | (88) | (88) |
| Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen, a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | | (16) | (95) | (17) | (75) |
| **Cyllido net** | | **23,538** | **23,459** | **22,132** | **22,074** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **268** | **260** | **(84)** | **(79)** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (52) | (52) | (49) | (49) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **216** | **208** | **(133)** | **(128)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | **9** | **28** | **1,354** | **161** | **1,482** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **9** | **244** | **1,562** | **28** | **1,354** |

a Ailgyflwynwyd symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod i egluro'r modd y cyflwynir symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill.

b Ailgyflwynwyd prynu eiddo, offer a chyfarpar i egluro'r modd y cyflwynir addasiadau ar gyfer ychwanegiadau nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 174 i 227 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2024

| Grŵp Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **16,885** | **13,653** | **30,538** |
| Pontio i IFRS 16 | 3 | - | 3 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 22,237 | - | 22,237 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (6) | - | (6) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (19,626) | - | (19,626) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 2,926 | 2,926 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 115 | (115) | - |
| Addasiadau eraill | 19 | (6) | 13 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **19,627** | **16,458** | **36,085** |
| Pontio i IFRS 16 | (34) | - | (34) |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 23,554 | - | 23,554 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 6 | - | 6 |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (150) | - | (150) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (21,415) | - | (21,415) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 108 | 108 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 87 | (87) | - |
| Addasiadau eraill | (63) | 5 | (58) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **21,612** | **16,484** | **38,096** |

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2024 (parhad)

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **13,446** | **11,546** | **24,992** |
| Pontio i IFRS 16 | (8) | - | (8) |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 22,237 | - | 22,237 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (6) | - | (6) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (20,074) | - | (20,074) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 2,564 | 2,564 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 70 | (70) | - |
| Addasiadau eraill | (57) | - | (57) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **15,608** | **14,040** | **29,648** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 23,554 | - | 23,554 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 6 | - | 6 |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (150) | - | (150) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (22,077) | - | (22,077) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 121 | 121 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 5 | (5) | - |
| Addasiadau eraill | (73) | - | (73) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **16,873** | **14,156** | **31,029** |

a Mae addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd na chafodd ei wario yn 2023-24 o £150m (2022-23: £6m).

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 174 i 227 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg wedi'i ddewis.

Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i wariant gweithredu net, a'r gofyniad adnoddau i arian parod, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau datblygu ac asedau ac atebolrwyddau ariannol penodol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno yn cynnwys is-ymgymeriadau fel sy'n ofynnol o dan FReM, lle y'u dynodir i'w cyfuno drwy offeryn statudol a lle y maent yn uwch na throthwy de minimis ar gyfer perthnasedd.

Bydd yr holl endidau o fewn is-grŵp yn cael eu cyfuno:

- Os yw rhiant-endid yr is-grŵp yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol; ac
- Os yw'r is-grŵp cyfan yn uwch na'r trothwy de minimis cyfuno ar gyfer perthnasedd.

Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys is-ymgymeriadau uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno dim ond os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Caiff is-gwmnïau eu cyfuno o gyfrifon drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Perfformiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol hyn, gweler tudalennau 55 i 58.

## 2. Incwm Gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno) |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 50 | 57 | 41 | 40 |
| Incwm Trafnidiaeth Cymru[a] | - | 260 | - | 211 |
| Arall | 9 | 42 | 9 | 39 |
| | **59** | **359** | **50** | **290** |
| **Incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd[b] | 190 | 589 | 194 | 536 |
| Arall | 26 | 40 | 36 | 66 |
| | **216** | **629** | **230** | **602** |
| **Incwm gweithredu arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 333 | 333 | 440 | 440 |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 37 | 37 | 67 | 67 |
| Incwm arall yr UE | 5 | 5 | 3 | 4 |
| | **375** | **375** | **510** | **511** |
| **Cyfanswm** | **650** | **1,363** | **790** | **1,403** |

a Ailgyflwynwyd incwm Trafnidiaeth Cymru i roi mwy o eglurder ynghylch ffynonellau incwm.

b Wedi'i gynnwys o fewn incwm gweithredu craidd 'incwm iechyd' nad yw'n incwm yr UE y mae £36.7m (2022-23: £55.4m) o incwm mewn perthynas â derbyn deunyddiau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i bandemig COVID-19 a dosbarthu cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

# 3. Gwariant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno) |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[a] | 21,879 | 10,175 | 20,433 | 9,534 |
| Nwyddau a gwasanaethau[b] | 433 | 5,456 | 451 | 5,289 |
| Costau staff | 404 | 6,602 | 376 | 6,065 |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE[c] | (508) | (500) | (862) | (818) |
| Dileadau'r polisi benthyciadau i fyfyrwyr | 28 | 28 | 30 | 30 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 27 | 37 | 24 | 33 |
| Dibrisiant asedau sefydlog | 156 | 563 | 213 | 590 |
| Amorteiddio | 11 | 32 | 15 | 36 |
| (Elw)/Colled ar waredìadau | (13) | (22) | (21) | (36) |
| Amhariadau | 30 | 91 | 6 | 68 |
| Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod[d] | - | 7 | (3) | - |
| | **22,447** | **22,469** | **20,662** | **20,791** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 280 | 309 | 202 | 238 |
| **Cyfanswm** | **22,727** | **22,778** | **20,864** | **21,029** |

a Mae gwariant grantiau yn cynnwys grantiau heb eu neilltuo a grantiau wedi'u neilltuo, a gwahanol fathau o gynlluniau grant. Mae rhagor o wybodaeth am wariant grantiau a'r mathau o grantiau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gael ar dudalennau 24 i 26 o'r Adroddiad Perfformiad.

b Wedi'i gynnwys o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd y mae £36.7m (2022-23: £55.4m) o wariant mewn perthynas â defnyddio deunyddiau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i bandemig COVID-19 a dosbarthu cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU. Hefyd wedi'u cynnwys o fewn Nwyddau a Gwasanaethau y mae rhenti sydd wedi'u hailgyflwyno i symleiddio'r modd y cyflwynir mân symiau.

c Mae benthyciadau myfyrwyr ac asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Mae'r rhan fwyaf o'r enillion gwerth teg a adroddwyd ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr; ceir manylion pellach am hyn yn Nodyn 6.

d Wedi'u cynnwys mewn eitemau eraill nad ydynt yn arian parod y mae asedau rhodd ac asedau a roddwyd gan y llywodraeth, cyllid pensiwn, rhyddhau grant yr UE a darpariaeth dyledion drwg, sydd wedi'u hailgyflwyno i symleiddio'r modd y cyflwynir mân symiau.

## Costau Staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalennau 143 i 150.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am roi barn ar ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yw £487,000 (2022-23: £471,000[a]). Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a'r Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 £** | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 £ (Ailddatgan)** |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG[a] | 34,500 | 32,445 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol[a] | 9,500 | 8,958 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan[a] | 15,000 | 6,000 |
| Cronfa Gyfunol Cymru[a] | 23,300 | 21,900 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

a Ailddatganwyd o'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu'r costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt yn hytrach nag amcangyfrifon ffioedd.

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Asedau Seilwaith[a] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[b] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 24,387 | 433 | 3,573 | 1,641 | 1,538 | 31,572 |
| Ychwanegiadau | 116 | - | 32 | 91 | 1,028 | 1,267 |
| Gwarediadau | (92) | (1) | (5) | (116) | - | (214) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | 2 | (14) | (12) |
| Amhariadau | - | (18) | (92) | (14) | (19) | (143) |
| Ailbrisiadau | 3,136 | 6 | (144) | - | - | 2,998 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | - | - | (8) | - | (8) |
| Ailddosbarthiadau | - | (4) | 162 | 53 | (216) | (5) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | (13) | (48) | (139) | - | (200) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **27,547** | **403** | **3,478** | **1,510** | **2,317** | **35,255** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 3,286 | - | 501 | 963 | - | 4,750 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 248 | - | 118 | 155 | - | 521 |
| Gwarediadau | (92) | - | - | (107) | - | (199) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (79) | (1) | - | (80) |
| Ailbrisiadau | 422 | - | (351) | (1) | - | 70 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (8) | - | (8) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (6) | (57) | - | (63) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **3,864** | **-** | **183** | **944** | **-** | **4,991** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **23,683** | **403** | **3,295** | **566** | **2,317** | **30,264** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | 21,101 | 433 | 3,072 | 678 | 1,538 | 26,822 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 23,047 | 400 | 3,203 | 566 | 2,050 | 29,266 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 636 | 3 | 92 | - | 267 | 998 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **23,683** | **403** | **3,295** | **566** | **2,317** | **30,264** |

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

| | Asedau Seilwaith[a] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[b] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 27,547 | 403 | 3,478 | 1,510 | 2,317 | 35,255 |
| Ychwanegiadau | 130 | - | 36 | 98 | 1,032 | 1,296 |
| Gwarediadau | (130) | (1) | (2) | (88) | - | (221) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | (3) | (43) | (13) | (2) | (61) |
| Ailbrisiadau | (18) | (13) | 96 | - | - | 65 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | (1) | (1) | (6) | - | (8) |
| Ailddosbarthiadau | 283 | - | 204 | 84 | (580) | (9) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (1) | - | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **27,812** | **385** | **3,767** | **1,585** | **2,767** | **36,316** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 3,864 | - | 183 | 944 | - | 4,991 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 198 | - | 124 | 154 | - | 476 |
| Gwarediadau | (130) | - | (1) | (87) | - | (218) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (10) | - | - | (10) |
| Ailbrisiadau | (35) | - | (8) | - | - | (43) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (6) | - | (6) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (1) | (6) | - | (7) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **3,897** | **-** | **287** | **999** | **-** | **5,183** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **23,915** | **385** | **3,480** | **586** | **2,767** | **31,133** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 23,279 | 382 | 3,384 | 586 | 2,287 | 29,918 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 636 | 3 | 96 | - | 480 | 1,215 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **23,915** | **385** | **3,480** | **586** | **2,767** | **31,133** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2024** | **21,663** | **34** | **107** | **30** | **1,329** | **23,163** |
| **Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2024** | **2,252** | **351** | **3,373** | **556** | **1,438** | **7,970** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2023 | 21,549 | 39 | 107 | 34 | 1,033 | 22,762 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2023 | 2,134 | 364 | 3,188 | 532 | 1,284 | 7,502 |

a Mae asedau seilwaith yn cynnwys Asedau'r Rhwydwaith fel y nodir yn Nodyn 4.1 ar gyfer Rhwydweithiau Ffyrdd a Rheilffyrdd, ac asedau seilwaith eraill fel yr ased Fibrespeed.

b Mae Offer a Chyfarpar yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau, Offer a Pheiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth.

## Tir ac Adeiladau, gan gynnwys Anheddau

Mae tir ac adeiladau, gan gynnwys anheddau a thir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, yn cael eu dal adeg y prisiad gan gael eu hasesu yn ôl gwerth teg/gwerth y farchnad ar gyfer eu defnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, mae asedau arbenigol yn cael eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost amnewid ddibrisiedig. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth. Fodd bynnag, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2020, yn bennaf gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Cafodd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol eu paratoi'n bennaf ar 28 Chwefror 2024 gan Alder King. Caiff yr holl asedau eu prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2022. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Cymhwysir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

## 4.1 Asedau'r Rhwydwaith – Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Y Rhwydwaith Ffyrdd £m | Asedau'r Rhwydwaith – Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 25,375 | 2,135 | 27,510 |
| Ychwanegiadau | 130 | - | 130 |
| Gwarediadau | (130) | - | (130) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 147 | (166) | (19) |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | - | 283 | 283 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **25,522** | **2,252** | **27,774** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 3,841 | 1 | 3,842 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 138 | 57 | 195 |
| Gwarediadau | (130) | - | (130) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 22 | (57) | (35) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **3,871** | **1** | **3,872** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **21,651** | **2,251** | **23,902** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **21,534** | **2,134** | **23,668** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2024 | 21,651 | - | 21,651 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2024 | - | 2,251 | 2,251 |

### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae rhwydwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr a elwir yn gefnffyrdd, a thraffyrdd. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith a chaiff ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model y System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS). Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith yn 2019-20 ac fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd, a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Mae'r mynegeion allweddol ym mhrisiad y model RAAVS yn sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd.

Gallai amrywiadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar y prisiad Cost Amnewid Ddibrisiedig yn sgil newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol.

| | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Mynegai Baxter – 1% / +1% | (204) | 204 |
| Mynegai BEAMA – 1% / +1% | (1) | 1 |

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Trafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n rheoli'r ased rhwydwaith rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith ac yn cael ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model prisio a gafodd ei greu gan TrC gyda chymorth Atkins Ltd (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TrC. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal o leiaf bob pum mlynedd. Cymhwysir mynegeion mewnbwn i restr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim.

Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol. Ystyrir mai'r rhagdybiaethau allweddol yn y prisiad yw: bywyd asedau a gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasiad iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TrC.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ynghylch gwerth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae **Senario 1** yn dangos effaith cynnydd neu leihad o 10% yng ngweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern.
- Mae **Senario 2** yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (45% fel arfer) yn cynyddu neu'n lleihau 10%; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae **Senario 3** yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwysir i'r prisiadau cost amnewid ddibrisiedig cyffredinol, sef 37.8% ar hyn o bryd, yn ôl cynnydd neu leihad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 47.8% a 27.8% i bob pwrpas.

| Math | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Senario 1 | (163) | 163 |
| Senario 2 | (42) | 42 |
| Senario 3 | (118) | 118 |

Mae'r model yn cymhwyso mynegeio i gyfraddau uned mewn blynyddoedd rhwng ailasesiadau llawn o gyfraddau uned. Mae'r mynegai asedau nad ydynt yn dir wedi'i newid eleni o Fynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gan fod TrC yn credu bod CPI yn gyfradd fwy priodol i'w chymhwyso i wariant seilwaith yn seiliedig ar y fasged o nwyddau a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai. Mae'r newid hwn wedi cael ei drin fel newid mewn amcangyfrif cyfrifyddu a'i gymhwyso'n rhagolygol o 2023-24.

Ceir rhagor o wybodaeth am brisio a dibrisiant Asedau'r Rhwydwaith yn Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu A.4 ac A.5.

# 5. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 99 | 263 | 89 | 243 |
| Ychwanegiadau | 14 | 43 | 10 | 28 |
| Gwarediadau | - | (17) | - | (10) |
| Ailddosbarthiadau | - | 3 | - | 2 |
| **Ar 31 Mawrth** | **113** | **292** | **99** | **263** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 66 | 159 | 51 | 132 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 11 | 32 | 15 | 36 |
| Gwarediadau | - | (13) | - | (9) |
| Ailddosbarthiadau | - | (1) | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **77** | **177** | **66** | **159** |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth** | **36** | **115** | **33** | **104** |
| Gwerth Net ar y Llyfrau ar 1 Ebrill | 33 | 104 | 38 | 111 |

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **5,467** | **-** | **1,280** | **6,747** |
| Ychwanegiadau | 893 | - | 164 | 1,057 |
| Gwarediadau/dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (183) | - | (130) | (313) |
| Amhariadau | - | - | (18) | (18) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b] | 905 | - | (87) | 818 |
| Dileadau polisi | (30) | - | - | (30) |
| Ailddosbarthu | - | - | (16) | (16) |
| Addasiadau | - | - | 3 | 3 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023**[a] | **7,052** | **-** | **1,196** | **8,248** |
| Ychwanegiadau | 914 | - | 234 | 1,148 |
| Gwarediadau/dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (225) | - | (198) | (423) |
| Amhariadau | - | - | (3) | (3) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b] | 492 | - | 37 | 529 |
| Dileadau polisi | (28) | - | - | (28) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | (27) | - | 21 | (6) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024**[a] | **8,178** | **-** | **1,287** | **9,465** |
| **Craidd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **8,178** | **258** | **2,594** | **11,030** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **7,052** | **237** | **2,485** | **9,774** |

a Wedi'i gynnwys yn y balans a gariwyd ymlaen y mae £292m (2022-23: £241m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

b Caiff benthyciadau i fyfyrwyr eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gellir priodoli'r cynnydd gwerth teg o £492m ar fenthyciadau myfyrwyr yn 2023-24 (2022-23: £905m) i fodelau Llywodraeth Cymru a ddefnyddir yn cael eu diweddaru i gymhwyso'r gyfradd ddisgownt hollt sy'n gymwys i offerynnau ariannol a ddarparwyd gan Drysorlys EF. Yn 2022-23 defnyddiwyd cyfradd ddisgownt o minws 1.3% ac yn 2023-24 fe'i diweddarwyd i minws 1.05% hyd at 2030 a minws 0.05% o hynny ymlaen. Cynyddodd y newid hwn, ynghyd â'r gostyngiad mewn RPI, werth cario'r balans benthyciadau myfyrwyr wrth i werth ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn y dyfodol godi, mewn termau real. Nodir manylion pellach mesuriad gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr a'r cysylltiad â risgiau isod. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu - Cymru yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae rhagor o wybodaeth am falans agor a chau ased ariannol Cymorth i Brynu - Cymru a'r lefel hierarchaeth ar gyfer mesur gwerth teg i'w gweld yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Public Limited Company).

## Gwerth Enwol

Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **7,052** |
| Ychwanegiadau | 892 |
| Ad-daliadau | (183) |
| Llog | 346 |
| Dileadau polisi | (29) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **8,078** |
| Ychwanegiadau | 914 |
| Ad-daliadau | (225) |
| Llog | 605 |
| Dileadau polisi | (28) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **9,344** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau cau ar gyfer gwerth teg:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **(1,166)** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | (1,026) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **8,178** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 7,052 |

Trafodir cysylltiad y Grŵp â risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu. Y cysylltiad mwyaf â risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â chanslo'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad a methu â gweithio.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu cydnabod yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir bellach un symudiad gwerth teg yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg, mae benthyciadau i fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: *If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3*. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth teg benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio'r model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl amrywiad o'r model, wedi'u haddasu ar gyfer benthycwyr sy'n cymryd gwahanol fathau o fenthyciadau: benthyciadau cyn 2012 ac ar ôl 2012 (benthyciadau Israddedig, Rhan-Amser a Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig). Mae'r modelau i gyd yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, yn enwedig o ran enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a thymor byr diweddaraf (adeg y modelu) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae prisiad y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau'n adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Oherwydd materion technegol yn ymwneud â data wedi'i ddiweddaru a ddarparwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, mae'r set ddata benthycwyr yn y model ar gyfer 31 Mawrth 2024 ar ei hôl hi o flwyddyn o gymharu â'r amcangyfrif prisiad arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi barnu bod yr amcangyfrif prisiad yn rhesymol o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd/gostyngiad ar gyfer holl amodau economaidd dadansoddi sensitifrwydd benthyciadau myfyrwyr. Yn ein barn ni, mae defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd neu ostyngiad: er enghraifft ar gyfer newidyn 9%, effaith cymhwyso 8% neu 10% ar gyfer pob newidyn, yn rhoi dadansoddiad cliriach a symlach o effaith symudiadau yn y newidynnau, yn enwedig mewn blynyddoedd lle mae llawer o anwadalrwydd mewn amodau economaidd.

### Newidynnau Allweddol

Disgrifir isod y **newidynnau** allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, mesurir sensitifrwydd gwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2024, i bob newidyn:

**Cyfradd ddisgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd uchaf sy'n perthyn i'r benthyciad myfyrwyr neu'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur diweddaraf System Gwariant Cyhoeddus (PES) Trysorlys EF, sef RPI minws 1.05% (2022-23: minws 1.3%). Am y tro cyntaf, defnyddiwyd cyfradd ddisgownt hollt, gan ddefnyddio minws 0.05% o 2030-31. Ers 2022, mae'r gyfradd ddisgownt wedi'i rhannu'n ddau werth gwahanol, y naill i'w gymhwyso ar gyfer y cyfnod cyn 2030, a'r llall ar gyfer y cyfnod ar ôl 2030. Roedd angen diweddaru'r model i gynnwys dwy gyfradd ddisgownt wahanol a gwnaeth Adran Addysg Llywodraeth y DU gynnwys y gyfradd ddisgownt hollt yn ei model ar gyfer 2022-23. Oherwydd amser, ni fu'n bosibl i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r model tan 2023-24. Hon yw cyfradd ddisgownt hirdymor Trysorlys EF, sef cost benthyca hirdymor y Llywodraeth. Ar gyfer pob 1 pwynt canran o gynnydd yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EF bydd gostyngiad o £879.1m yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn golygu cynnydd o £895.4m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2024) tan 2028-29, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2029-30 ymlaen. Arferid defnyddio RPI mis Hydref, ond, yn 2022-23, newidiwyd hyn a defnyddir nawr gyfradd mis Mawrth er mwyn cyd-fynd yn agosach â Gweinyddiaethau eraill. Mae'r rhagolwg RPI hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 2.00% o 2030-31. Bydd RPI uwch yn cynyddu llog ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario. Mewn cyfnodau lle ceir lefel uchel o RPI, gellir galluogi darpariaethau deddfwriaethol er mwyn lleihau dros dro yr uchafswm llog sy'n daladwy ar fenthyciadau i fyfyrwyr Cynllun 2 a Chynllun 3. Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn yr RPI a ragwelir yn arwain at ostyngiad o £951.3m yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £855.4m yn y llyfrwerth.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog tymor byr yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2024) tan 2028-29, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2029-30 ymlaen. Tybir y bydd twf enillion hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 3.71% rhwng 2031-32 a 2035-36, a 3.83% o 2036-37. Bydd cynnydd mewn Enillion Graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob cynnydd o 1 pwynt canran mewn enillion graddedigion, bydd llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £715.7m; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £1,163m yn llyfrwerth net benthyciadau myfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Cafodd y trothwy ad-dalu ar gyfer yr holl fenthyciadau ar ôl 2012 ei godi o 1 Ebrill bob blwyddyn o 2018-19 i 2021-22 yn unol â thwf enillion. Ar 15 Chwefror 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd y trothwy ad-dalu (ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23) ar fenthyciadau ar ôl 2012 (Cynllun 2) yn cael ei gynnal ar £27,295 y flwyddyn, sef yr un gyfradd ag ym mlwyddyn dreth 2021-22. Mewn datganiad dilynol ar 5 Rhagfyr 2022 cyhoeddwyd y byddai trothwy Cynllun 2 yn cael ei rewi am ddwy flynedd arall tan fis Ebrill 2025. Ar gyfer benthyciadau cyn 2012 (Cynllun 1), trothwy enillion 2023-24 oedd £22,015 y flwyddyn. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad Incwm Graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar ddata hanesyddol yr Arolwg o'r Llafurlu, Arolwg Panel Cartrefi Prydain a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ni fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu'n rhannol:** Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynhaliaeth, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, ni fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaenol:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cyd-fynd â rhagolygon yr OBR (Mawrth 2024) ar gyfer y rhagolwg cyfan. Cymhwysir cap cyfradd sylfaenol i gyfraddau llog Cynllun 1 pan fo'r gyfradd sylfaenol yn isel a'r gyfradd RPI yn gymharol uchel; bydd cynnydd yn y rhagolwg cyfradd sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario yn yr achos hwn. Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn y gyfradd sylfaenol yn arwain at gynnydd o £14.2m yn llyfrwerth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £11.1m.

Mae data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf yn dangos sut mae newidiadau diweddar i dwf enillion, cyfraddau RPI a chyfraddau sylfaenol yn cymharu â'r lefelau presennol a'r rhagolygon hirdymor:

- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **twf enillion** ar hyn o bryd yw 3.83%. Ar adeg y modelu, 6.47% oedd rhagolwg yr OBR ar gyfer cyfartaledd y flwyddyn ariannol o dwf enillion yn 2023-24; yn y deg blwyddyn ariannol flaenorol, roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 1.23% a 6.59%.
- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **RPI** ar hyn o bryd yw 2.00%. Ar adeg y modelu, 4.3% oedd RPI mis Mawrth yn 2023-24; yn y deg blwyddyn ariannol flaenorol roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 0.90% ac 13.50%.
- Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **cyfraddau sylfaenol** yn codi i 4.19% yn 2071-72. Ar adeg y modelu, roedd rhagolwg yr OBR ar gyfer y gyfradd sylfaenol yn 5.01% ar gyfartaledd yn ystod 2023-24; yn ystod y deg blwyddyn ariannol flaenorol, roedd yr alldroadau yn amrywio rhwng 0.10% a 3.86%.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r **gyfradd ddisgownt** wedi newid o 3.7% yn 2015, i 0.7% i'w defnyddio o 31 Mawrth 2021 ymlaen. I'w defnyddio o 31 Mawrth 2022 ymlaen, cyhoeddwyd y gyfradd ddisgownt am y tro cyntaf mewn dwy ran sef minws 1.1% hyd at 2030 a minws 0.2% o 2030 ymlaen, i'w defnyddio o 31 Mawrth 2023 roedd y gyfradd ddisgownt yn minws 1.3% hyd at 2030 a minws 0.2% o hynny ymlaen, ac i'w defnyddio o 31 Mawrth 2024 roedd yn minws 1.05% hyd at 2030 a minws 0.05% o hynny ymlaen.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Gellir dod o hyd i ddata ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys rhai hanesyddol, ar wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk). Mae gwybodaeth ystadegol am Fenthyciadau i Fyfyrwyr ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: Benthyciadau Myfyrwyr yng Nghymru: Benthyciadau myfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach - GOV.UK www.gov.uk).

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol, llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid ad-daladwy a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac maent yn cael eu dileu o gyfrif Craidd Llywodraeth Cymru wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg drwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yng nghyfrif Craidd Llywodraeth Cymru.

Cyfrifir gwerth teg llyfr benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru, sef £355m (31 Mawrth 2023: £325m), drwy nodi llifoedd arian parod disgwyliedig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o ragdybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg a phroffil adbryniadau benthyciadau. Mae'r model yn defnyddio data trafodiadau arsyladwy a data rhagolwg HPI, a ddarperir drwy ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad, i rag-weld y gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

Wedi'i gynnwys yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 31 Mawrth 2024 roedd buddsoddiad o £21.9m (31 Mawrth 2023: £17.8m) ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd (Cardiff International Airport Limited) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £26.3m gan Lywodraeth Cymru i'r maes awyr. Yn ogystal, mae £5.7m (31 Mawrth 2023: £2.7m) o log wedi cronni ar y benthyciad nad yw'n ddyledus i Lywodraeth Cymru eto. Mae'r balansau hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad a'r benthyciadau i'r maes awyr net dileadau ac amhariadau o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant hedfan yn 2020-21.

Yn ystod 2023-24, darparodd Llywodraeth Cymru fel yr unig fuddsoddwr yn y maes awyr drwy WGC Holdco Limited fuddsoddiad ecwiti ar sail fasnachol o £6.6m i'r maes awyr, a hynny'n fesur untro i'w alluogi i weithredu sganwyr Diogelwch y Genhedlaeth Nesaf i fodloni gofyniad rheoleiddio gorfodol. £21.9m oedd y prisiad buddsoddi cyffredinol ar 31 Mawrth 2024, gan gynnwys y buddsoddiad ecwiti ychwanegol hwn ac amhariad pellach o £2.5m. Ni fu unrhyw newidiadau i brif werthoedd y benthyciad yn 2023-24.

Mae'r asedau ariannol Grŵp eraill ac eithrio'r rhai â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a nodir uchod yn cynnwys: buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill £809m (2022-23: £758m); ac asedau a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru £424m (2022-23: £390m) ac asedau ariannol grŵp eraill £6m (2022-23: £4m).

# 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno) |
| Asedau datblygu | 200 | 200 | 205 | 205 |
| Cyffuriau | 19 | 57 | 22 | 58 |
| Deunyddiau traul eraill[a] | 3 | 95 | 3 | 95 |
| **Cyfanswm** | **222** | **352** | **230** | **358** |

a Deunyddiau traul eraill wedi'u hailgyflwyno ar gyfer y flwyddyn flaenorol i gynnwys halen ffyrdd i symleiddio'r modd y cyflwynir mân symiau.

# 8. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC[a] £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC[a] £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 129 | 416 | 196 | 490 |
| Treth arall | 14 | 14 | 15 | 16 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 247 | 362 | 261 | 365 |
| | **390** | **792** | **472** | **871** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 3 | 185 | 5 | 159 |
| Rhagdaliadau | - | 4 | 14 | 18 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 11 | 29 | 12 | 35 |
| | **14** | **218** | **31** | **212** |
| **Cyfanswm** | **404** | **1,010** | **503** | **1,083** |

a Wedi'i gynnwys yn y cyfanswm symiau derbyniadwy Grŵp drwy fasnach y mae £268m (2022-23: £242m) o fenthyciadau a ddelir ar gost amortedig gan Fanc Datblygu Cymru. Mae cynnwys ffigurau mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach yn adlewyrchu'r ffordd y cânt eu trin yn y cyfrifon archwiliedig sylfaenol gan fod trafodiadau benthyciadau ar gyfer Banc Datblygu Cymru yn rhan o'u busnes craidd.

# 9. Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **28** | **1,354** | **161** | **1,482** |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 216 | 208 | (133) | (128) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **244** | **1,562** | **28** | **1,354** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 238 | 330 | 26 | 197 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 6 | 1,232 | 2 | 1,157 |
| **Cyfanswm** | **244** | **1,562** | **28** | **1,354** |

# 10. Symiau Taladwy drwy Fasnach a Symiau Taladwy Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 11 | 101 | 3 | 128 |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 1,120 | 2,177 | 1,135 | 2,311 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 6 | 6 | - | - |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 435 | 514 | 525 | 730 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 164 | 164 | 19 | 19 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 10 | 18 | 10 | 15 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd | 5 | 79 | 5 | 50 |
| | **1,751** | **3,059** | **1,697** | **3,253** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 4 | 4 | - | 18 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | - | 35 | - | 14 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 496 | 590 | 322 | 360 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd | 50 | 575 | 51 | 337 |
| | **550** | **1,204** | **373** | **729** |
| **Cyfanswm** | **2,301** | **4,263** | **2,070** | **3,982** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer Atebolrwyddau a Thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,638** | **1,736** | **1,632** | **1,731** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 426 | 472 | 419 | 476 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (146) | (166) | (217) | (244) |
| Trosglwyddo | (13) | (12) | (23) | (24) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (121) | (143) | (173) | (203) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,784** | **1,887** | **1,638** | **1,736** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 348 | 412 | 398 | 463 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 593 | 612 | 421 | 435 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 843 | 863 | 819 | 838 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,784** | **1,887** | **1,638** | **1,736** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Arall £m | Cronfa Risg Cymru[a] £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 79 | 333 | 412 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 564 | 612 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 111 | 752 | 863 |
| **Cyfanswm** | **238** | **1,649** | **1,887** |

a Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.felindre.gig.cymru/amdanom-ni/cyhoeddiadau/.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

**Darpariaethau Iechyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru (WRP) a ddisgwylir yn y dyfodol.

Mae WIBSS yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru.

Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 (i sicrhau cydraddoldeb ar draws pedwar cynllun y DU) ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar ddarpariaeth WIBSS, ar 31 Mawrth 2024, yw £115.6m (2022-23: £122.1m).

Mae darpariaethau WIBSS yn seiliedig ar y cyfraddau taliadau cydradd newydd gyda chodiad chwyddiant CPI yn cael ei gymhwyso i lifoedd arian parod yn y dyfodol. Mae'r rhain wedyn yn cael eu disgowntio yn ôl y cyfraddau a gyhoeddir bob blwyddyn yn y papur PES.

Ers 2021-22, mae taliadau blynyddol yn cael eu chwyddo gan y cyfraddau chwyddiant CPI a gynhwysir yn y papur PES a gyhoeddir bob mis Rhagfyr. Mae'r newid o'r mynegeion CPIH i CPI yn cyd-fynd â gwledydd eraill y DU ers cyflwyno'r taliadau cydradd. Cafodd y taliadau eu codi i'r cyfraddau newydd am y tro cyntaf yn 2021-22 (gan gynnwys elfennau wedi'u hôl-ddyddio o 2018-19 ymlaen).

Ar 17 Awst 2022, yn dilyn argymhellion a wnaed yn yr astudiaeth fframwaith iawndal ac yn adroddiad interim cyntaf yr Ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai iawndaliadau interim o £100,000 yn cael eu talu i fuddiolwyr presennol a phartneriaid unigolion a fu farw a oedd yn derbyn taliadau cymorth rheolaidd ar adeg y cyhoeddiad. Ar 31 Mawrth 2024, roedd £22.8m wedi'i dalu. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar 20 Mai 2024.

Mae WRP yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2024 yw £1,649m (2022-23: £1,499m).

Mae cyrff GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeuluster clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis. Mae unrhyw ddiffyg yn cael ei fodloni'n uniongyrchol gan aelodau ar sail rhannu risg y cytunwyd arni.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas â hawliadau sydd ar y gweill am esgeuluster clinigol ac anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, yr atebolrwyddau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a dderbyniwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thrwy gael cyngor gan gwnsler. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad

oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol o minws 0.25%. Mae atebolrwyddau'r dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol sydd â thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno yn cael eu dal fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1m) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EF ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur PES, ynghyd â ffactor chwyddiant.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a ddyroddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle'r oedd rheolau treth pensiynau wedi effeithio ar staff clinigol a oedd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac mae wedi penderfynu bod staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu talu treth ar dwf eu buddion pensiwn GIG, yn cael dewis bod Cynllun Pensiwn y GIG yn talu'r tâl hwn a bod eu pensiwn yn cael ei leihau pan fyddant yn ymddeol. Bydd swm cyfatebol yn cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol gan sicrhau eu bod yn cael iawndal llawn am effaith y didyniad. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i Gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a gallent wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Ar 31 Mawrth 2024, y balans ar y ddarpariaeth yw £11.8m (2022-23: £11.7m).

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain yn bennaf, gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

# 12. Atebolrwyddau Dibynnol

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/esgeuluster cyflogwr | 1,161 | 1,184 | 1,193 | 1,216 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 1,324 | 1,336 | 450 | 458 |
| Cynllun uwch-noddwyr Wcráin | 12 | 12 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm** | **2,507** | **2,542** | **1,668** | **1,699** |

## (i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/esgeuluster cyflogwr

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 dalu atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli. Cynhwysir hefyd atebolrwyddau dibynnol sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol o dan Gynllun Atebolrwyddau Presennol y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

## (ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill

Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill ac atebolrwyddau dibynnol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol.

Ar 31 Mawrth 2024, cynhwysir atebolrwydd dibynnol newydd o £901m yn ymwneud â chynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre (nVCC). Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi nodyn addewidiol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer Taliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2026-27.

Ar 31 Mawrth 2024, cynhwysir atebolrwydd dibynnol o £311m (2022-23: £351m) mewn perthynas â chynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir y Fflint. Mae swm yr atebolrwydd dibynnol wedi'i ailasesu yn 2023-24. Dyroddodd Llywodraeth Cymru nodiadau addewidiol yn 2022-23 ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer cyfraniadau i Daliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2024-25.

Y rheswm dros y rhan fwyaf o'r cynnydd yng ngwerth yr atebolrwyddau dibynnol presennol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol masnachol oedd ailasesu statws TAW un eitem a arweiniodd at gynnydd o £14m. Ni chyhoeddwyd unrhyw warantau newydd.

## (iii) Cynllun uwch-noddwyr Wcráin

Mae Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr o dan gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU. Mae nawdd yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i bobl o Wcráin, a oedd wedi cael fisâu o dan y cynllun uwch-noddwyr, i ddod i Gymru i gael llety a chymorth yn ystod y chwe mis cyntaf.

Ar 31 Mawrth 2024, mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwydd dibynnol o £12m (2022-23: £15m) mewn perthynas â'r costau llety posibl i bobl o Wcráin sydd â fisa o dan y cynllun. Ers 10 Mehefin 2022, nid oes unrhyw geisiadau newydd yn cael eu derbyn.

## 12.1 Atebolrwyddau Dibynnol Heb eu Meintioli

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol (Future Valleys Project Co Limited) i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Cymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae nifer bach o risgiau yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, hawliau ategol a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes pe bai unrhyw rai'n cael eu darganfod.

Ar ddyddiad y fantolen ar 31 Mawrth 2024, ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy i alluogi creu darpariaeth, a datgelir atebolrwydd dibynnol heb ei feintioli.

**Atebolrwyddau Dibynnol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli**

Mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwyddau dibynnol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd a braint gyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

## 12.2 Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol

Cyflwynir atebolrwyddau dibynnol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r cysylltiad â'r risg, ni ellir dileu'r risg yn llwyr. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae atebolrwyddau dibynnol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn Nodyn 12 uchod.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, gwarantiadau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (sydd wedi'u datgelu) a rhai na ellir eu meintioli o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr gwasanaethau rheilffyrdd (Transport for Wales Rail Ltd) a'r cytundeb hepgor atebolrwydd â'r Adran Drafnidiaeth.

**Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol y gellir eu Meintioli:**

Dim.

**Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol na ellir eu Meintioli: Gwasanaethau Rheilffyrdd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau rheilffyrdd yn erbyn newidiadau gan yr Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â chyflogeion Network Rail sy'n ymuno â Trafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Yn 2020, cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r tri phwynt canlynol o dan y contract â chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn tâl dileu swydd os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad oes cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Cyd-ddarparwyr Prosiectau/ Darparwyr Gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio risgiau penodol, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i force majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd y tri maes hyn yn gymwys, ac felly datgelir atebolrwydd dibynnol annhebygol heb ei feintioli.

Fel rhan o'r contract, risg sy'n aros gyda Llywodraeth Cymru yw costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â thariffau masnach a godir ar nwyddau penodol sy'n deillio o'r Ymadawiad â'r UE.

**Gwarantau:**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi neu mewn perthynas â gwaith seilwaith cyhoeddus. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2024 oedd £53m (2022-23: £61m).

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio sefydliadau Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r atebolrwyddau'n rhoi sicrwydd am £419m i ddeg sefydliad ac mae cyfnod yr atebolrwydd yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y posibilrwydd y bydd yr atebolrwydd yn aeddfedu yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol.

Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2024 oedd £46m (2022-23: £44m).

**Llythyrau Cysur:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) ar gyfer atebolrwyddau o £1m yn y dyfodol. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yn RIFW, bernir ei bod yn annhebygol y bydd yr atebolrwydd hwn yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i Trafnidiaeth Cymru.

# 13. Atebolrwyddau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 18 | 18 | 6 | 7 |
| Y Gronfa Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl 5 mlynedd)[a] | 9 | 10 | 10 | 10 |
| Arall | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **27** | **28** | **16** | **17** |

a Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd DBRW yn 1998. Ers i WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a llog.

# 14. Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio heblaw Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailgyflwyno) | Grŵp LlC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri (ac eithrio asedau datblygu) | 3 | 1 | 6 | 32 |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:** | | | | |
| Cyfredol | 83 | 74 | (149) | (261) |
| Anghyfredol | 17 | 10 | 6 | (16) |
| **Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy:** | | | | |
| Cyfredol | 54 | (199) | (515) | (396) |
| Anghyfredol | 177 | 443 | 174 | 165 |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill[a] | (174) | (466) | (172) | (239) |
| Addasiad arall[a] | (1) | - | (2) | 59 |
| Llai symudiadau yn y cyflenwad Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | (144) | (144) | 82 | 82 |
| Llai symudiadau yn yr incwm Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | (7) | (7) | 2 | 2 |
| | **8** | **(288)** | **(568)** | **(572)** |

a Er eglurder, ailgyflwynwyd symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill.

# 15. Lesoedd

## 15.1 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Cydnabyddiaeth gychwynnol ar 1 Ebrill 2022 | 177 | 28 | 205 |
| Ailddosbarthiadau[a] | 67 | 139 | 206 |
| Ychwanegiadau | 12 | 142 | 154 |
| Ailbrisiadau | (4) | - | (4) |
| Dadgydnabod | (21) | - | (21) |
| Ailfesur | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **231** | **309** | **540** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ailddosbarthiadau[a] | 6 | 57 | 63 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 24 | 45 | 69 |
| Ailbrisiadau | (1) | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **29** | **102** | **131** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **202** | **207** | **409** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2023 | 42 | - | 42 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2023 | 160 | 207 | 367 |

a Ar gyfer Craidd Llywodraeth Cymru, mae swm cario'r ailddosbarthu yn cynnwys £13m o Eiddo, Offer a Chyfarpar a £6m o Asedau Ariannol. Ar gyfer Grŵp Llywodraeth Cymru, mae swm cario'r ailddosbarthu yn cynnwys £104m o Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n gysylltiedig ag is-endidau a oedd eisoes wedi cymhwyso IFRS 16 cyn 1 Ebrill 2022 ac £20m o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gyfer cyrff Iechyd.

## 15.1 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio (parhad)

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 231 | 309 | 540 |
| Ailddosbarthiadau | 1 | - | 1 |
| Ychwanegiadau | 30 | 293 | 323 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| Dadgydnabod | (14) | (1) | (15) |
| Ailfesur | 2 | - | 2 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **250** | **601** | **851** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 29 | 102 | 131 |
| Ailddosbarthiadau | (2) | (1) | (3) |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 28 | 59 | 87 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **55** | **160** | **215** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **195** | **441** | **636** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2024 | 42 | - | 42 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2024 | 153 | 441 | 594 |

## 15.2 Atebolrwyddau Lesoedd

### Dadansoddiad aeddfedrwydd

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Tir ac adeiladau** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 27 | 6 | 25 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 22 | 85 | 20 | 83 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 31 | 96 | 34 | 103 |
| | **59** | **208** | **60** | **211** |
| Llai'r elfen log | (4) | (15) | (4) | (14) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **55** | **193** | **56** | **197** |
| **Arall** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 68 | - | 37 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 223 | - | 87 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 230 | - | 99 |
| | - | **521** | - | **223** |
| Llai'r elfen log | - | (60) | - | (11) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **-** | **461** | **-** | **212** |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **55** | **654** | **56** | **409** |
| Cyfredol | 5 | 79 | 5 | 57 |
| Anghyfredol | 50 | 575 | 51 | 352 |

## 15.3 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cost llog | 1 | 10 | 1 | 3 |
| Incwm is-lesoedd | (2) | (2) | (16) | (11) |
| Cost ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr | 2 | 7 | 1 | 6 |

## 15.4 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Lifoedd Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer lesoedd | 6 | 82 | 7 | 65 |

# 16. Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Eraill

## 16.1 Ymrwymiadau Cyfalaf

Mae'r nodyn hwn yn datgelu ymrwymiadau cyfalaf o dan 'gontractau annileadwy' nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anniriaethol | 41 | 461 | 88 | 624 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | - | - | 10 | 10 |
| **Cyfanswm** | **41** | **461** | **98** | **634** |

Er cysondeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r un diffiniad o 'gontractau annileadwy' i ymrwymiadau cyfalaf yn y datgeliad hwn ag a gymhwysir yn Nodyn 16.3 ar gyfer ymrwymiadau ariannol eraill.

## 16.2 Ymrwymiadau o dan PFI a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi adrodd wyth contract PFI o fewn eiddo, offer a chyfarpar, sydd ar y fantolen. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol unigol.

Ar 28 Mawrth 2024, ymrwymodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i gontract yn ymwneud â Chanolfan Ganser newydd Felindre (nVCC) o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ag Acorn Velindre Limited ('Project Co') a fydd yn gyfrifol am adeiladu (ac ariannu) yr ysbyty newydd ac yna ei gynnal dros gyfnod consesiwn o 25 mlynedd. Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniant hwn ar gael yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Datgelir atebolrwydd dibynnol Craidd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r trefniant hwn yn Nodyn 12.

### 16.2.1 Ddim ar y fantolen

**Contract PFI Bute Avenue**

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r prif gontractwr sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae'r partner yn y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000/01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £12.5m (2022-23: £11.4m); ac mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2024 £m | Ar 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 13 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 13 | 24 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **26** | **36** |

### 16.2.2 Ar y fantolen

**Contract PFI yr A55**

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae'r taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £12.9m (2022-23: £10.4m). Mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill wedi'u cynnwys yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2024 £m | Ar 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau lesoedd** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 12 |
| | **60** | **72** |
| Llai'r elfen log | (5) | (7) |
| **Cyfanswm** | **55** | **65** |

| | Ar 31 Mawrth 2024 £m | Ar 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 7 | 8 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | (2) | 9 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1 | (3) |
| **Cyfanswm** | **6** | **14** |

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Ymrwymwyd i'r contract o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Mae'r prosiect yn cynnwys elfen adeiladu (wedi'i rhannu'n bum cam), ac yn y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gyfrifol am droi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn ffordd ddwy lôn ym mhob cyfeiriad. Daw'r cytundeb i ben 30 mlynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod adeiladu terfynol ym mis Mai 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gweithredu ac yn cynnal Rhannau 5 a 6 o'r A465. Bydd Taliadau Gwasanaeth Blynyddol yn daladwy gan Lywodraeth Cymru i Cymoedd y Dyfodol o ddyddiad cwblhau cam cyntaf yr adeiladu ym mis Gorffennaf 2024, hyd at ddiwedd y cytundeb.

Nodir cyfanswm yr ymrwymiadau o dan drefniant consesiwn gwasanaeth Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 yn y tabl isod.

| | **Ar 31 Mawrth 2024 £m** | **Ar 31 Mawrth 2023 £m** |
|---|---|---|
| **Taliadau gwasanaeth blynyddol sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 11 | - |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 177 | 143 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,267 | 1,312 |
| **Cyfanswm** | **1,455** | **1,455** |

Mae ased sy'n cael ei adeiladu o £452m (2022-23: £267m) ac atebolrwydd cysylltiedig o £452m (2022-23: £267m) wedi cael eu cydnabod ar 31 Mawrth 2024 (wedi'u cynnwys yn Nodiadau 4 a 10).

## 16.3 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'gontractau annileadwy' (nad ydynt yn lesoedd, yn gontractau PFI nac yn drefniadau consesiwn gwasanaeth eraill) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m (Ailddatgan) | Grŵp LlC £m (Ailddatgan) |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 26 | 91 | 24 | 73 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 8 | 62 | 6 | 100 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **34** | **153** | **30** | **173** |

Ailddatganwyd ymrwymiadau ariannol eraill ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer Craidd Llywodraeth Cymru o £878m i £30m, gostyngiad o £848m oherwydd newid mewn polisi cyfrifyddu ynghylch ymrwymiadau grant.

FReM 2022-23 oedd y cyntaf i gynnwys gofynion datgelu penodol ar gyfer ymrwymiadau ariannol eraill o dan 'gontractau annileadwy'. Ar gyfer 2023-24, adolygodd Llywodraeth Cymru sut i gymhwyso'r gofyniad datgelu newydd. Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliwyd asesiad manwl i sicrhau bod diffiniad clir o 'gontract annileadwy' wedi'i gymhwyso.

O ganlyniad, mae polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi newid ar gyfer 2023-24 i eithrio ymrwymiadau grant (cyfalaf a refeniw) o'r hyn a ddatgelir o dan ymrwymiadau ariannol eraill. Y rheswm dros y newid hwn yw bod grantiau'n gytundebau statudol o ran natur ac nad ydynt yn gontractiol, felly nid ydynt o fewn cwmpas y gofyniad sy'n ymwneud â chontractau annileadwy yn y FReM. Mae rhagor o wybodaeth am grantiau ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad ar dudalen 24.

Wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau ariannol eraill y mae £119m (2022-23: £143m) o ymrwymiadau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Transport for Wales Rail Ltd) ar gyfer taliadau trac sefydlog, depo a mynediad i orsafoedd. Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi asesu'r taliadau hyn fel rhai nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16, felly maent wedi'u cynnwys fel ymrwymiadau ariannol eraill.

## 17. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Awdurdodau Lleol Cymru, Cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau â chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Mark Drakeford (y cyn Brif Weinidog) a Vaughan Gething (y Prif Weinidog) yn aelodau o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a gafodd gyllid grant o £92,432 yn 2023-24.

Mae Jayne Bryant (y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar) yn aelod o Undeb Credyd Casnewydd, a gafodd gyllid grant o £10,999 yn 2023-24.

Roedd Huw Irranca-Davies (Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig) yn Is-lywydd ar gyfer Ramblers Cymru, hyd nes iddo ymddiswyddo pan gafodd ei benodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2024. Yn 2023-24, cafodd Ramblers Cymru gyllid grant o £408,535.

Mae priod Jane Hutt (y Prif Chwip a'r Trefnydd) yn un o Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro, a gafodd daliad o £17,950 yn ystod y flwyddyn am wasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru. Mae'n ymesgusodi o unrhyw drafodaethau am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae Jeremy Miles (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg) yn aelod o Undeb Credyd Celtic, a gafodd gyllid grant o £242,822 yn 2023-24.

Mae Julie Morgan (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol hyd 20 Mawrth 2024) yn Is-lywydd ar gyfer Hosbis y Ddinas, a gafodd gyllid grant o £27,545 yn 2023-24. Ymddiswyddodd y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o'r rôl hon ym mis Hydref 2023.

Mae Lynne Neagle (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) yn Is-lywydd ar gyfer Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen a gafodd gyllid grant o £8,000 yn 2023-24.

Aled Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol) yw Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gafodd £7,213,436 yn bennaf mewn cyllid grant yn 2023-24.

Gareth Lynn (Cyfarwyddwr Anweithredol) yw Cadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr cynllun Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Cafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £232,307 gan gynnwys grantiau a gwasanaethau a brynwyd yn 2023-24.

Mae Meena Upadhyaya (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn un o Ymddiriedolwyr Race Equality First a gafodd gyllid grant o £132,231 yn 2023-24. Mae hefyd yn un o Ymddiriedolwyr Race Council Cymru a gafodd £530,278 gan gynnwys cyllid grant yn 2023-24, ac yn Gymrawd ac yn Aelod o Gyngor Cymdeithas Ddysgedig Cymru a gafodd gyllid grant o £33,700 yn 2023-24.

Mae Mike Usher (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Aelod o Fwrdd Cartrefi Dinas Casnewydd a gafodd £18,483,331 yn bennaf mewn cyllid grant yn 2023-24. Cafodd Llywodraeth Cymru £948,823 o incwm (yn bennaf mewn incwm rhent) gan Gartrefi Dinas Casnewydd yn 2023-24.

Mae partner Tracey Burke (Cyfarwyddwr Cyffredinol) yn un o lywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro a gafodd £72,302,659 yn 2023-24. Mae ei phartner hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £7,704,558, gan gynnwys grant a chyllid o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, yn 2023-24. Cafodd Llywodraeth Cymru hefyd £4,200 o incwm gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn 2023-24, yn bennaf mewn perthynas â llogi ystafelloedd a digwyddiadau hyfforddi'r sector cyhoeddus.

Mae Peter Kennedy (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol) yn un o Lywodraethwyr Annibynnol Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £7,704,558, gan gynnwys grant a chyllid o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, yn 2023-24. Cafodd Llywodraeth Cymru hefyd £4,200 o incwm gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn 2023-24, yn bennaf mewn perthynas â llogi ystafelloedd a digwyddiadau hyfforddi'r sector cyhoeddus.

Mae Reg Kilpatrick yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cymdeithas Tai Sir Fynwy a gafodd £12,792,084 yn bennaf mewn cyllid grant tai cymdeithasol yn 2023-24.

Er bod trafodiadau partïon cysylltiedig wedi'u nodi a'u datgelu uchod ar gyfer Gweinidogion ac Uwch-swyddogion, sef trafodiadau rhwng Llywodraeth Cymru ac endidau y mae gan yr unigolion berthynas parti cysylltiedig â hwy, ni fyddent hwy wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gaffael i ddyfarnu contractau na'r broses o ddyfarnu unrhyw grantiau.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Cyrff y GIG yng Nghymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 17.1 Canlyniadau Cwmnïau Cyfunol o dan Berchnogaeth Lwyr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Grŵp Banc Datblygu Cymru[a] | 38 | 356 | (24) | 313 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (Regeneration Investment Fund for Wales LLP) | 2 | 50 | 1 | 48 |
| WGC Holdco Limited | (3) | 22 | - | 18 |
| Dewis Gyrfa (Career Choices Dewis Gyrfa Ltd) | 2 | 6 | (5) | 24 |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru | (33) | 1,478 | (26) | 1,619 |

a Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'u rhandalu.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r rhai a ddatgelwyd.

## 17.2 Mân Is-gyrff a Buddiannau Eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (International Convention Centre Wales Limited) – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddal gan Westy'r Celtic Manor (The Celtic Manor Resort Limited).
- Airbus Endeavr Wales (EADS Foundation Wales gynt) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno ar y cyd ag Airbus Defence and Space Limited (Cassidian Holdings Limited gynt) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Adrannau Anweinidogol Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru.

Is-gwmnïau a Chyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Limited)
- Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (Life Sciences Hub Wales Limited)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited)
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Busnes Rhyngwladol Cymru (International Business Wales Limited)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Limited
- GCRE Limited[61]
- Adnodd Cyfyngedig (Cwmni Adnoddau Addysg Dwyieithog)
- Estyn (Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Llais (Corff Llais y Dinesydd).

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited
- Trydan Gwyrdd Cymru Ltd.

### Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company Limited)

Mae Llywodraeth Cymru yn dal un gyfran â gwerth enwol o £1. Mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno ar y cyd ag Adran Addysg Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% yn y cwmni i Lywodraeth Cymru.

### Elusennau'r GIG

Mae Elusennau'r GIG yng Nghymru yn is-gyrff i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol at ddibenion cyfuno.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol endidau a nodir yn 17.1 a 17.2 ar eu gwefannau eu hunain neu ar wefan Tŷ'r Cwmnïau www.gov.uk/government/organisations/companies-house

61 Mae gweithgareddau GCRE Limited yn 2023-24 yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond maent yn amherthnasol i Grŵp LIC yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno, nid yw GCRE Limited wedi'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol eto ac mae buddsoddiad ariannol preifat wrthi'n cael ei geisio ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid hwn a disgwylir i hynny effeithio ar sut y caiff ei ddosbarthu yn y dyfodol.

# 18. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

### Trefniadau Cyflogau GIG Cymru

Ar 28 Mehefin 2024, hysbyswyd cyrff GIG Cymru o'r trefniadau cyflog diwygiedig ar gyfer cyflogeion o dan delerau ac amodau gwasanaethau meddygol a deintyddol yng Nghymru, a fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw dyfarniadau cyflog ar gyfer meddygon iau, meddygon ymgynghorol nac arbenigwyr wedi cael eu cydnabod yn 2023-24 oherwydd mai'r digwyddiad rhwymo oedd cyhoeddi'r cylchlythyr cyflogau a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2024, ar ôl 31 Mawrth 2024. Bydd y costau hyn yn cael eu cyfrif yng nghyfrifon 2024-25 cyrff GIG Cymru. Y gost amcangyfrifedig yw £77.2m.

### Iawndaliadau Gwaed Heintiedig

Ar 21 Mai 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig yn cael ei sefydlu, a chyhoeddodd fanylion cynllun iawndal amlinellol. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai iawndal interim pellach o £210,000 yn cael ei wneud i'r bobl heintiedig fyw hynny a oedd wedi'u cofrestru ag un o'r pedwar Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yn y DU. Gofynnwyd i WIBSS weinyddu'r taliadau hyn ar ran Llywodraeth y DU. Ar 24 Mehefin 2024, talwyd 176 o iawndaliadau gwerth cyfanswm o £37m.

### Medr

Ar 1 Awst 2024, disodlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gan Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Mae Medr yn gyfrifol am ariannu a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil. Bydd Medr yn rheoleiddio sefydliadau, ac yn ariannu addysg bellach, addysg uwch (gan gynnwys ymchwil ac arloesi), prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffin gyfuno Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r endid newydd hwn yn dibynnu ar ei ddosbarthiad ar gyfer Cyfrifon Gwladol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Mae'n bosibl y bydd trafodiadau Medr yn uwch na pherthnasedd Llywodraeth Cymru.

### Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd

Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn is-gwmni i Lywodraeth Cymru drwy WGC Holdco Limited. Derbyniodd Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd atgyfeiriad cymhorthdal arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r Maes Awyr ar 22 Awst 2024. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi cyllid ychwanegol hirdymor yn y Maes Awyr i gefnogi strategaeth hirdymor i gyrraedd ei botensial llawn fel ffordd o sicrhau twf economaidd cynaliadwy a lleihau anghydraddoldeb yn rhanbarth y De, gan geisio cymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer pecyn hyd at uchafswm o £206m dros gyfnod o ddeng mlynedd. Cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei adroddiad ar yr atgyfeiriad cymhorthdal ar 2 Hydref 2024[62]. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yr asesiad yn llawn i benderfynu a oes angen mireinio'r rhaglen fuddsoddi arfaethedig o gwbl ar sail yr asesiad hwnnw.

# 19. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 27 Tachwedd 2024.

62 Atgyfeiriad o'r cymhorthdal arfaethedig i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru - GOV.UK

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Incwm Gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredu Grŵp Llywodraeth Cymru. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas IFRS 15 'Revenue from Contracts with Customers', yn unol â'r Safon, fel y mae wedi'i haddasu a'i dehongli gan FReM. Mae refeniw yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n dderbyniadwy, ac fe'i cydnabyddir ar yr adeg pan ddarperir nwydd neu wasanaeth, neu dros yr amser hwnnw.

### A.1.1 Incwm o Werthu Nwyddau a Gwasanaethau

Mae refeniw teithwyr Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi'i gynnwys o fewn incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau. Refeniw teithwyr yw'r symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited, yn bennaf mewn perthynas â derbyniadau teithwyr. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau incwm TrC i'w gweld yng nghyfrifon Grŵp Trafnidiaeth Cymru.

### A.1.2 Incwm Gweithredu arall nad yw'n Incwm yr UE

Mae incwm iechyd yn cael ei gynnwys o fewn incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau o incwm iechyd i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

### A.1.3 Incwm Gweithredu arall yr UE

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy mewn perthynas â'r symiau hyn ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu trosglwyddo wedyn i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.2 Gwariant

### A.2.1 Grantiau

Mae grantiau sy'n daladwy, neu a delir, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgarwch sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd ac maent yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi dod i law eto. Pan fydd cyfryngwr yn gweithredu fel asiant wrth ddosbarthu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru, cydnabyddir grantiau sy'n daladwy pan fydd gan dderbynnydd y grant hawl i'r grant.

Mae cyllid i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru drwy Gymorth Grant yn cael ei adrodd ar sail arian parod yn y cyfnod y gwneir taliadau. Mae cyllid Cymorth Grant a ddarperir i endidau cyfunol o fewn Grŵp Llywodraeth Cymru yn cael ei ddileu adeg cyfuno. Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cynnwys canlyniadau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ar sail alldro adnoddau.

### A.2.2 Gwariant Gweithredu Arall

Cydnabyddir gwariant gweithredu arall ar gyfer nwyddau neu wasanaethau pan fyddant wedi dod i law, ac i ba raddau. Mae'r gwariant hwn yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n daladwy.

### A.2.3 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru yn adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.3 Buddion i Gyflogeion

### A.3.1 Buddion Tymor Byr i Gyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y cyfnod pan geir y gwasanaeth oddi wrth gyfleogeion.

### A.3.2 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd drwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gynlluniau'r Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Lles Nyrsys.

Mae cyflogeion cyrff iechyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

Mae cyflogeion Trafnidiaeth Cymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu manwl a'r datgeliadau o atebolrwyddau/asedau pensiwn cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer endidau cyfunol i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG (Cynllun Pensiwn NEST a'r GIG), cyfrifon Grŵp Trafnidiaeth Cymru (cyfraniad diffiniedig a'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd), cyfrifon Grŵp Banc Datblygu Cymru (cyfraniad diffiniedig a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) a chyfrifon Dewis Gyrfa (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

### A.3.3 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i hatebolrwydd ymlaen llaw drwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ym Manc Lloegr i gredydu'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion Cyrff Iechyd sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru yn talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar.

# A.4 Eiddo, Offer a Chyfarpar

## A.4.1 Asedau'r Rhwydwaith

Mae asedau'r rhwydwaith yn cael eu prisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) yn unol â'r canllawiau yn FReM ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau marchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiadau hyn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd, y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw'r System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS).

Ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd mae'r gwaith ar y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yn cael ei wneud gan TrC gyda chefnogaeth gan Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarperir gan TrC.

Cynhelir prisiadau llawn o asedau'r rhwydwaith bob pum mlynedd fan bellaf. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol o asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol. Mae dyddiad y prisiad llawn diwethaf ar gyfer Asedau'r Rhwydwaith wedi'i gynnwys yn Nodyn 4.1.

## A.4.2 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon newidiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Caiff y cyfraddau hyn eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond caiff strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Caiff cyfathrebu ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff tir ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u rhannu â gwerthoedd Awdurdod Lleol a gwerthoedd gwledig/trefol. Mae'r prisiad hefyd yn cynnwys asesiad o gostau iawndal prynu tir.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr Awdurdod Lleol neu oddi wrtho fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr Awdurdodau Lleol neu ei roi iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau llywodraeth eraill neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu drwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter

Cyfathrebu – Mynegai BEAMA

Tir – Mynegeion tir a gynhyrchir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### A.4.3 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Caiff ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei chydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau perthnasol a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys chwe elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: gwrthgloddiau; strwythurau; trydaneiddio, offer a signalau; eiddo gweithredol; traciau; a thelathrebu.

Cyfrifir y gost amnewid ddibrisiedig (DRC) drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sydd yn union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn pennu'r prisiad DRC terfynol, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

Tir – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)

Adeiladau – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)

Mae'r mynegai asedau nad ydynt yn dir wedi'i newid eleni o Fynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gan fod TrC yn credu bod CPI yn gyfradd fwy priodol i'w chymhwyso i wariant seilwaith yn seiliedig ar y fasged o nwyddau a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai.

Mae'r newid hwn wedi cael ei drin fel newid mewn amcangyfrif cyfrifyddu a'i gymhwyso'n rhagolygol o 2023-24.

Caiff yr holl adnewyddiadau sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd eu cyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes yr ased CVL yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddiadau i'r ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### A.4.4 Tir ac Adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Caiff tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol eu dal ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol; yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a gedwir ar gost amnewid ddibrisiedig. Mae tir ac adeiladau'n cael eu

prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio mynegai misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

### A.4.5 Offer a Chyfarpar

Mae offer a chyfarpar (sy'n cynnwys offer a pheiriannau, offer cludiant, technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau), yn cael eu cario ar gost hanesyddol fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

### A.4.6 Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Mae'r holl asedau treftadaeth gweithredol yn cael eu cyfalafu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar (gweler Nodyn 4).

## A.5 Dibrisiant

### A.5.1 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o'r dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau anghyfredol uchod); a

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd drwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd drwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio. Dangosir oes cydrannau ffyrdd yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 20 blynedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 i 160 mlynedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 2 i 15 mlynedd |
| Tir | ddim yn ddibrisio |

### A.5.2 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod:

| | |
|---|---|
| Gwrthgloddiau | 93 blynedd |
| Strwythurau | 24 blynedd |
| Signalau | 16 blynedd |
| Trydaneiddio a Pheiriannau | 37 blynedd |
| Eiddo Gweithredol | 25 blynedd |
| Traciau | 14 blynedd |
| Telathrebu | 6 blynedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

### A.5.3 Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Anheddau | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 85 blynedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth | 5 i 15 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 10 mlynedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 mlynedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 to 20 years |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

## A.6 Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd Llywodraeth Cymru yn dod yn rhan o gontract yr offeryn ariannol. Mae asedau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fydd yr hawliau contractiol wedi dod i ben neu pan fo'r ased wedi'i drosglwyddo.

Cyfrifir am yr holl asedau ariannol yn unol ag IFRS 9 'Financial Instruments', fel y maent wedi'u haddasu a'u dehongli gan FReM. Ar sail cydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r holl asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg.

### A.6.1 Mesur Dilynol – Cost wedi'i Hamorteiddio

**Asedau Ariannol Eraill**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9. Mae colledion credyd disgwyliedig yn cael eu cydnabod lle maent yn berthnasol.

Cyfrifir am fenthyciadau a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau

contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

### A.6.2 Mesur Dilynol – Gwerth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

#### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6.

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Yn achos ad-daliadau a wneir drwy SLC, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir drwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEF i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

#### Cymorth i Brynu – Cymru

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru yn fenthyciadau rhannu ecwiti ac fe'u delir yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yn Nodyn 6 a chyfrifon Banc Datblygu Cymru.

### A.6.3 Buddsoddiadau Ecwiti

Mae buddsoddiadau mewn is-endidau grŵp yn cael eu cadw ar gost yn unol â Datganiadau Ariannol Unigol IAS 27, fel y'u haddaswyd gan FReM. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Mae buddsoddiadau ecwiti Banc Datblygu Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### A.6.4 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus sy'n cael ei ddal ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9. Wrth gyfuno Cyfrifon Cryno'r GIG, mae'r buddsoddiad Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn cael ei ddileu.

## A.7 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 'Financial Instruments' yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff sector cyhoeddus.

### A.7.1 Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach drwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd gysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru yn amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith yn y prisiad blynyddol.

### A.7.2 Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n estyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn estyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd at gynnydd mewn diddymiadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

### A.7.3 Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru yn agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, fel y gellir bodloni lefelau gwariant wedi'u targedu. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon er mwyn cyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

### A.7.4 Risg y Gyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn destun y gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei chynnwys yn y gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir.

Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

### A.7.5 Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Gwladol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau ac atebolrwyddau o bwys wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys EF.

## A.8 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'i angen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost amnewid a gwerth gwireddadwy net. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost amnewid a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.9 Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Mae symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiadau. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol llai amcangyfrif o amhariad tebygol. Cyfrifir amhariad o symiau derbyniadwy drwy fasnach drwy fodel colli credyd disgwyliedig.

## A.10 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae balansau arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod yn cael eu dadansoddi rhwng y rhai sy'n cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r rhai sydd mewn banciau masnachol. Mae swm cario ymlaen y balansau banc yn hafal i'w gwerth teg.

## A.11 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiad. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

## A.12 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 'Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets', gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (h.y. rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol), pan fo'r all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol a phan fo modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Pan fo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF.

## A.13 Atebolrwyddau Dibynnol

Mae atebolrwydd dibynnol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol na fydd ei bodolaeth yn cael ei gadarnhau oni bai y bydd, neu na fydd, un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr; neu mae'n rhwymedigaeth bresennol nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd nad yw hi'n debygol y bydd angen taliad i setlo'r rhwymedigaeth neu oherwydd na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd digon dibynadwy.

Datgelir atebolrwyddau dibynnol yn Nodyn 12, fel sy'n ofynnol gan IAS 37, os bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn fwy nag annhebygol. Datgelir atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn Nodyn 12.2, yn unol â FReM, er mwyn bod yn dryloyw. Mae atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn cynnwys gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur.

## A.14 Lesoedd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrif am lesoedd yn unol ag IFRS 16 'Leases', fel y maent yn cael eu dehongli a'u haddasu gan FReM.

### A.14.1 Fel Lesddeiliad

Pan fydd les yn cael ei nodi, cydnabyddir ased hawl-i-ddefnyddio ac atebolrwydd les cyfatebol ar y dyddiad cychwyn. Nid yw hyn yn cynnwys lesoedd tymor byr a lesoedd lle mae'r ased sylfaenol o werth isel. Ar gyfer lesoedd o'r fath, mae taliadau'r les yn cael eu cydnabod fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Lesoedd tymor byr yw'r rhai sydd â chyfnod o 12 mis neu lai. Mae trothwy o £5,000 wedi'i osod ar gyfer nodi asedau sydd o werth isel.

### A.14.2 Mesur Cychwynnol

Cyfrifir atebolrwydd y les yn seiliedig ar werth presennol taliadau les heb eu talu dros gyfnod cymwys y les a bennir yn unol ag IFRS 16 'Leases'. Mae atebolrwydd y les yn cael ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfraddau Trysorlys EF a gyhoeddir ym mhapurau'r Arolwg o Wariant Cyhoeddus fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y les, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt ac amcangyfrif o'r costau i adfer yr ased sylfaenol, llai unrhyw gymhellion les a dderbyniwyd.

### A.14.3 Mesur Dilynol

Caiff atebolrwydd y les ei addasu ar gyfer cronni llog, taliadau, ailasesiadau ac addasiadau, er enghraifft ailwerthuso tebygolrwydd yr opsiynau a roddir gan gontract presennol y les, megis pan nad oes disgwyl i'r opsiwn o estyniad gael ei arfer mwyach.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros y tymor les cysylltiedig. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei leihau'n gyfnodol gan golledion amhariadau, os oes rhai, ac yn cael ei addasu ar gyfer ailfesuriadau penodol o atebolrwydd y les.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. Defnyddir y model cost fel procsi gan nad oes gwahaniaeth o bwys rhwng y prisiad a gynhyrchir gan y model cost o'i gymharu â'r model ailbrisio.

### A.14.4 Fel Lesydd

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel lesydd, penderfynir ar adeg cychwyn pob les ai les gyllid neu les weithredol yw hi. Mae taliadau les a dderbynnir o dan lesoedd gweithredol yn cael eu cydnabod fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## A.15 Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae FReM yn gofyn am ddatgelu ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill. Mae ymrwymiadau cyfalaf a ddatgelir yn Nodyn 16.1 yn 'gontractau annileadwy' nas cynhwysir fel arall yn y datganiadau ariannol. Mae ymrwymiadau ariannol eraill a ddatgelir yn Nodyn 16.3 yn 'gontractau annileadwy' nad ydynt eisoes yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn lesoedd, contractau PFI, na threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill. Nid yw ymrwymiadau grant o fewn cwmpas y datgeliadau hyn.

## A.16 Y Fenter Cyllid Preifat a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae Trysorlys EF wedi pennu y bydd rhaid i gyrff llywodraeth gyfrif am gynlluniau consesiwn gwasanaeth ar gyfer seilwaith pan fo'r corff llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, yn unol ag egwyddorion gofynion IFRIC 12 'Service Concession Arrangements'. Mae'r ased consesiwn gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd ag atebolrwydd i dalu amdano.

Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu'n gydrannau fel a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a gafwyd;

b) Taliad am yr ased consesiwn gwasanaeth gan gynnwys costau cyllid; ac

c) Taliad am ddisodli cydrannau'r ased yn ystod y contract 'amnewid ar ddiwedd cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Caiff asedau consesiwn gwasanaeth eu cydnabod fel eiddo, offer a chyfarpar:

a) pan fo'n debygol y bydd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r ased yn y dyfodol yn llifo i'r sefydliad; a

b) pan ellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Mae'r meini prawf uchod i gydnabod asedau, ynghyd â thelerau ac amodau penodol y cytundeb rhwymol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cydnabod yr ased consesiwn gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r ased yn cael ei adeiladu neu ei ddatblygu.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu cydnabod a'u prisio yn yr un modd ag asedau anghyfredol eraill o'r un math generig.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wedi'u cwblhau yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg pan ddechreuir eu defnyddio, yn unol ag egwyddorion IFRS 16. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir yr atebolrwydd consesiwn gwasanaeth ar yr un pryd â'r ased consesiwn gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr ased consesiwn gwasanaeth ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les yn unol ag IFRS 16. Cyfrifir cost ariannu flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y les i atebolrwydd agoriadol y les am y cyfnod a chaiff ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu atebolrwydd y les dros dymor y contract.

## A.17 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau cyfrifyddu newydd a diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto, ac felly nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn FReM yn y dyfodol. Gallai'r Safon ganlynol gael effaith ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pan gaiff ei mabwysiadu:

### A.17.1 IFRS 17 'Insurance Contracts' – yn effeithiol o 1 Ebrill 2025

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 'Insurance Contracts' sy'n disodli IFRS 4 'Insurance Contracts'. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau ac atebolrwyddau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Mae IFRS 17 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 neu wedi hynny. Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi canllawiau ar gymhwyso'r Safon, gan nodi ei bod yn orfodol i gyrff llywodraeth ganolog ei mabwysiadu ar 1 Ebrill 2025 ac y bydd mabwysiadu cynnar yn cael ei ganiatáu fesul achos.

### A.17.2 Prisiad Asedau nad yw'n Fuddsoddiad

Yn ystod 2023-24 ymgynghorodd Trysorlys EF ar gynigion i newid y dull prisio a gymhwysir ar gyfer eiddo, offer ac offer ac asedau anniriaethol. Disgwylir i unrhyw newidiadau ddod i rym o 1 Ebrill 2025. Gan nad yw testun y gwelliant terfynol i'r FReM wedi'i gyhoeddi eto, nid yw'n bosibl eto darparu amcangyfrif o'r effaith debygol.